



OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 Rhif 1460 (Cy. 375)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021

Gwnaed

15 Rhagfyr 2021

Yn dod i rym

17 Rhagfyr 2021

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2021 No. 1460 (W. 375)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

The Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021

Made

15 December 2021

Coming into force

17 December 2021



a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

Fax orders: 0333 202 5080

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-39207-4



9 780348 392074

£31.60



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 1460 (Cy. 375)

2021 No. 1460 (W. 375)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**CYNRYCHIOLAETH Y BOBL,
CYMRU**

**REPRESENTATION OF THE
PEOPLE, WALES**

**Rheolau Etholiadau Lleol
(Cymunedau) (Cymru) 2021**

**The Local Elections (Communities)
(Wales) Rules 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheolau)

Mae'r Rheolau hyn, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021, yn nodi'r rheolau (y cyfeirir atynt yn y nodiadau fel "y Rheolau Cynnal Etholiad") ar gyfer cynnal etholiadau cynghorwyr i gynghorau cymuned a thref ("cynghorau cymuned") yng Nghymru.

Mae'r Rheolau hyn yn disodli, mewn perthynas â Chymru, Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau a Phlwyfi) (Cymru a Lloegr) 2006 ("Rheolau 2006") a oedd yn gymwys i etholiadau cynghorau cymuned a chynghorau plwyf yng Nghymru a Lloegr.

Bydd y Rheolau hyn yn gymwys i etholiadau i gynghorau cymuned yng Nghymru a gynhelir ar 5 Mai 2022 ac ar ôl hynny.

Y Rheolau hyn yw'r rhai cyntaf i gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru ar gyfer cynnal etholiadau cynghorau cymuned yng Nghymru. Gan hynny, dyma'r rheolau cyntaf o'u math i fod yn gymwys i Gymru yn unig a nhw yw'r cyntaf i gael eu gwneud yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar gyfer etholiadau cynghorau cymuned.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Rules)

These Rules, the Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021, set out the rules of conduct (referred to in these notes as "the Conduct Rules") by which the election of councillors to community and town ("community") councils in Wales are to take place.

These Rules replace, in relation to Wales, the Local Elections (Parishes and Communities) (England and Wales) Rules 2006 ("the 2006 Rules") which applied to parish and community council elections in England and Wales.

These Rules will apply to elections to community councils in Wales held on and after 5 May 2022.

These Rules are the first to be made by the Welsh Ministers for the conduct of community council elections in Wales. Accordingly, they are the first such rules to apply solely in relation to Wales and are the first to be made bilingually, in Welsh and English, for community council elections.

Wrth wneud y Rheolau hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi diweddarau'r iaith drwyddi draw ac wedi ad-drefnu rheolau penodol i wella eglurder a hygyrchedd.

Rheolau 1 i 7

Mae rheolau 1 a 2 yn nodi enw a dyddiad cychwyn y Rheolau ac yn gwneud darpariaeth drosiannol fel y bydd unrhyw etholiadau i gynghorau cymuned yng Nghymru a gynhelir ar ôl i'r Rheolau hyn ddod i rym, ond cyn 5 Mai 2022, yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau 2006.

Mae rheol 3 yn darparu diffiniadau o dermau penodol a ddefnyddir yn y Rheolau hyn, gan gynnwys "diwrnod eithriedig" ac "etholiad perthnasol".

Mae rheol 4 yn cyflwyno Atodlen 1 (sy'n nodi'r rheolau ar gyfer cynnal etholiad cyngor cymuned pan nad yw'r bleidlais yn cael ei chynnal gyda phleidlais mewn etholiad arall) ac Atodlen 2 (sy'n nodi'r rheolau ar gyfer cynnal etholiad cyngor cymuned pan fo'r bleidlais yn cael ei chyfuno â'r bleidlais mewn un neu ragor o etholiadau perthnasol).

Mae rheol 4 hefyd yn darparu, pan fo rheol yn yr Atodlenni hynny yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau gyhoeddi dogfen, yna (oni bai bod y rheol yn darparu fel arall) y dylid cyhoeddi'r ddogfen ar-lein ac mewn unrhyw ffyrdd eraill y mae'r swyddog canlyniadau o'r farn eu bod yn briodol er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at gynnwys y ddogfen.

Mae rheol 5 yn nodi'r rheolau ar gyfer llenwi swydd sydd wedi digwydd dod yn wag i gynghorydd cymuned.

Mae rheol 6 yn nodi addasiadau penodol i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983") sy'n gymwys wrth ethol cynghorwyr cymuned.

Mae rheol 7 yn cyflwyno Atodlen 3 sy'n darparu ffurf ar gyfer y datganiad ynghylch treuliau etholiad mewn etholiad i gynghorwyr o'r fath.

Y Rheolau Cynnal Etholiad (Atodlenni 1 a 2)

Oni nodir yn wahanol, mae'r nodiadau esboniadol yn gyffredin i'r darpariaethau yn Atodlenni 1 a 2.

Rhannau 1 a 2

Mae Rhan 1 yn nodi'r dyddiadau cau ar gyfer cwblhau neu gyflawni gweithredoedd allweddol penodedig mewn etholiad. Mae diwrnodau eithriedig, fel y'u diffinnir yn rheol 3(1) o'r Rheolau hyn, i'w hanwybyddu wrth gyfrifo'r cyfnodau a nodir yn yr amserlen.

In making these Rules, the Welsh Ministers have updated the language throughout and re-ordered certain rules to improve clarity and accessibility.

Rules 1 to 7

Rules 1 and 2 set out the title and commencement date of the Rules and make transitional provision so that any community council elections in Wales held after the coming into force of these Rules, but before 5 May 2022, will be held in accordance with the 2006 Rules.

Rule 3 provides definitions of certain terms used in these Rules, including "excluded day" and "relevant election".

Rule 4 introduces Schedule 1 (which sets out the rules for the conduct of a community council election where the poll is not taken with a poll at another election) and Schedule 2 (which sets out the rules for the conduct of a community council election where the poll is combined with the poll at one or more relevant elections).

Rule 4 also provides that where a rule in those Schedules requires the returning officer to publish a document, then (unless the rule provides otherwise) the document should be published online and in such other ways as the returning officer considers appropriate for bringing the contents of the document to the attention of the public.

Rule 5 sets out the rules for the filling of a casual vacancy in the office of community councillor.

Rule 6 sets out certain modifications to the Representation of the People Act 1983 ("the 1983 Act") that apply to an election of community councillors.

Rule 7 introduces Schedule 3 which provides a form for the declaration as to election expenses at an election of such councillors.

The Conduct Rules (Schedules 1 and 2)

Unless stated otherwise, the explanatory notes are common to the provisions in Schedules 1 and 2.

Parts 1 and 2

Part 1 sets out the deadlines for specified key actions to be completed or undertaken in an election. Excluded days, as defined in rule 3(1) of these Rules, are to be disregarded in calculating the periods set out in the timetable.

Mae Rhan 2 yn nodi'r trefniadau y mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau eu gwneud i roi hysbysiad o'r etholiad ac ynglŷn â sicrhau ffurflenni enwebu a'u cyflwyno. Yn benodol, mae'n nodi'r gofynion ynglŷn â hysbysiad yr etholiad, cynnwys ffurflenni enwebu a phenderfynu a yw nifer yr unigolion a enwebwyd mewn modd dilys yn ddigonol i fwrw ymlaen a chynnal pleidlais.

Rhaid i hysbysiad yr etholiad gynnwys manylion penodol am yr etholiad fel y'u nodir yn rheol 3. Er enghraifft, mae rheol 3(4) a (5) yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion canlyniadau gynnwys datganiad danfon electronig yn yr hysbysiad gan ddarparu y caniateir i bapurau enwebu gael eu danfon drwy eu hanfon yn electronig i gyfeiriad ebost, drwy eu cyflwyno ar-lein neu drwy'r naill neu'r llall o'r dulliau hyn (yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad).

Mae rheol 5 yn darparu ar gyfer hunan-enwebu; rhaid i ymgeiswyr enwebu eu hunain drwy gwblhau a llofnodi'r papur enwebu ym mhresenoldeb tyst. Nid oes angen i'r ymgeisydd ddefnyddio papur enwebu a gyflenwyd gan y swyddog canlyniadau neu a sicrhawyd ar-lein, ond mae'n rhaid iddo ddarparu'r holl wybodaeth fel y'i nodir yn y papur enwebu hwnnw.

Mae rheol 5(3)(a) yn ei gwneud yn ofynnol bod enwau llawn yr ymgeisydd yn cael eu datgan yn y papur enwebu. Caiff yr ymgeisydd hefyd roi ei enwau a ddefnyddir yn gyffredin (gan gynnwys pan fo'r enwau hynny yn gwahaniaethu o'i enwau llawn oherwydd eu bod mewn trefn wahanol yn unig, yn cynnwys rhai o'r enwau hynny yn unig neu'n cynnwys enwau ychwanegol).

Mae rheol 5(3)(b) yn caniatáu i ymgeisydd gynnwys disgrifiad yn ei bapur enwebu, a fydd, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau penodol, yn cael ei gynnwys yn y papur pleidleisio gyferbyn â'i enw. Mae'r rheolau a ganlyn yn gymwys i ddisgrifiadau:

- Rheol 6 – sy'n nodi'r gofynion cyffredinol ynghylch defnyddio disgrifiad;
- Rheol 7 – sy'n caniatáu i ymgeisydd ychwanegu'r geiriau “Wales”, “Welsh”, “Cymru” neu “Cymreig” at enw plaid gofrestredig neu ddisgrifiad cofrestredig, pan nad yw'r enw neu'r disgrifiad dan sylw eisoes yn cynnwys disgrifiad tiriogaethol. Caniateir i ymgeisydd ddefnyddio'r gair “Wales” neu “Welsh” o flaen yr enw cofrestredig neu'r disgrifiad cofrestredig a ganiateir neu caiff ddefnyddio'r gair “Cymru” neu “Cymreig” ar ôl yr enw cofrestredig neu'r disgrifiad cofrestredig a ganiateir. Rhaid i ymgeisydd

Part 2 sets out the arrangements the returning officer must make to give notice of the election and for obtaining and submitting nomination forms. In particular it sets out the requirements for the notice of election, the content of nomination forms and determining whether the number of persons validly nominated is sufficient to proceed to the holding of a poll.

The notice of election must include certain particulars about the election as set out in rule 3. For example, rule 3(4) and (5) requires that returning officers must include within it an electronic delivery statement providing that nomination papers may be delivered by being sent electronically to an email address, by submission online or by either of these means (in accordance with arrangements set out in the statement).

Rule 5 provides for self-nomination; a candidate must nominate themselves by way of completing and signing the nomination paper in the presence of a witness. The candidate need not use a nomination paper supplied by the returning officer or obtained online, but they must provide all the information as set out in that nomination paper.

Rule 5(3)(a) requires that the candidate's full names be stated in the nomination paper. The candidate may also give their commonly used names (including where these differ from their full names only because they are in a different order, include only some of those names or include additional names).

Rule 5(3)(b) permits a candidate to include in their nomination paper a description, which, subject to certain restrictions, will be included in the ballot paper against their name. The following rules are relevant to descriptions:

- Rule 6 – which sets out the general requirements about using a description;
- Rule 7 - permits a candidate to add the words “Wales”, “Welsh”, “Cymru” or “Cymreig” to a registered party name or registered description, where the name or description in question does not already include a territorial descriptor. A candidate is permitted to use the word “Wales” or “Welsh” before the permitted registered name or registered description or may use the word “Cymru” or “Cymreig” after the permitted registered name

beidio â defnyddio'r disgrifyddion tiriogaethol a ganiateir o dan reol 7 os yw un o'r geiriau eisoes yn rhan o'r enw cofrestredig neu'r disgrifiad cofrestredig neu os yw'r ymgeisydd yn defnyddio'r gair "Independent" neu "Annibynnol" neu'r ddau air hynny fel ei ddisgrifiad.

Mae rheol 5(3)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd gynnwys, yn ei bapur enwebu, ddatganiad o aelodaeth plaid.

- Mae rheol 8 yn nodi'r gofynion ynglŷn â'r datganiad o aelodaeth plaid. Rhaid i'r ymgeisydd ddatgan ar ei bapur enwebu a yw'n aelod, neu a yw wedi bod yn aelod, o unrhyw blaid wleidyddol gofrestrredig yn ystod y 12 mis diwethaf ("y cyfnod perthnasol"), ond nad yw'n blaid y maent yn ceisio sefyll ar ei rhan yn yr etholiad dan sylw. Y "cyfnod perthnasol" yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben gyda'r diwrnod y cyhoeddwyd hysbysiad yr etholiad. Os bydd ymgeisydd yn methu'n fwriadol â darparu'r wybodaeth hon bydd yn euog o arfer lwgr.

Mae rheol 5(3)(d) yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd gynnwys y datganiadau perthnasol a nodir ar y ffurf yn Atodiad 1, wedi eu llofnodi gan yr ymgeisydd.

Mae rheol 5(6) yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd gynnwys gyda'i bapur enwebu ffurflen cyfeiriad cartref ar wahân fel y'i nodir yn rheol 9. Nodir y gofynion o ran darparu cyfeiriad sy'n sefydlu cymhwyster yr ymgeisydd i sefyll i'w ethol yn yr ardal dan sylw yn y tabl yn rheol 9(3).

- Mae rheol 9(6) yn caniatáu i ymgeisydd ddatgan nad yw am i'w gyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi. Os bydd ymgeisydd yn gwneud datganiad o'r fath, rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref ddatgan: os yw cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn y Deyrnas Unedig, yr "ardal berthnasol", a ddiffinnir yn rheol 9(8); neu os yw'r cyfeiriad cartref y tu allan i'r Deyrnas Unedig, y wlad y mae wedi ei lleoli ynddi.

Mae'r swyddog canlyniadau yn gyfrifol am sicrhau, pan fo ymgeisydd wedi nodi nad yw'r cyfeiriad cartref i'w gyhoeddi, fod dymuniadau'r ymgeisydd yn cael eu rhoi ar waith.

Mae rheol 13 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau gyhoeddi'r datganiad o'r personau a enwebwyd. Wrth wneud hynny, rhaid i'r swyddog canlyniadau gynnwys:

- enwau a disgrifiadau'r personau sy'n dal wedi eu henwebu;

or registered description. A candidate must not use the territorial descriptors permitted under rule 7 if one of the words is already part of the registered name or registered description or if the candidate is using the word "Independent" or "Annibynnol" or both those words as their description.

Rule 5(3)(c) requires a candidate to include, in their nomination paper, a statement of party membership.

- Rule 8 sets out the requirements for the statement of party membership. The candidate must declare on their nomination paper if they are, or have been, members of any registered political parties in the last 12 months ("the relevant period"), but that is not a party for which they are seeking to stand in the election in question. The "relevant period" is the period of 12 months ending with the day on which the notice of election was published. If a candidate knowingly fails to provide this information they will be guilty of a corrupt practice.

Rule 5(3)(d) requires a candidate to include the relevant declarations set out in the form in Appendix 1, signed by the candidate.

Rule 5(6) requires a candidate to include with their nomination paper a separate home address form as set out in rule 9. The requirements in terms of providing an address which establishes the candidate's qualification to stand for election in the area in question are set out in the table in rule 9(3).

- Rule 9(6) allows a candidate to state that they do not want their home address to be made public. If a candidate makes such a statement, the home address form must state: if the candidate's home address is in the United Kingdom, they must state the "relevant area", which is defined in rule 9(8); or if the home address is outside the United Kingdom, they must state the country in which it is located.

The returning officer is responsible for ensuring, where a candidate has indicated the home address is not to be published, that the wishes of the candidate are actioned.

Rule 13 requires the returning officer to publish the statement of persons nominated. In doing so, the returning officer must include:

- the names and descriptions of the persons who stand nominated;

- yr wybodaeth am gyfeiriad cartref pob ymgeisydd (yn y modd y gofynnir amdano gan yr ymgeisydd – gweler rheol 9); a'r
- wybodaeth a gynhwysir yn y datganiadau o aelodaeth plaid wleidyddol, fel y bo'n briodol (gweler rheol 8).
- the home address information for each candidate (in the manner requested by the candidate – see rule 9); and
- the information contained in the statements of membership of political parties, as appropriate (see rule 8).

Rhaid i'r datganiad gynnwys hefyd unrhyw bersonau eraill sydd wedi eu henwebu ond nad ydynt yn dal wedi eu henwebu, ynghyd â'r rheswm dros hynny.

Mae rheol 19 yn caniatáu rhoi'r gorau i'r trafodion enwebu os torrir ar eu traws ar unrhyw ddiwrnod gan derfysg neu drais agored. Os y diwrnod olaf ar gyfer danfon papurau enwebu yw'r diwrnod y rhoddir y gorau i'r trafodion, rhaid i'r trafodion barhau drannoeth.

Rhan 3

Mae Rhan 3 o'r ddwy Atodlen yn nodi'r rheolau sy'n llywodraethu'r modd y cynhelir y bleidlais pan geir gornest mewn etholiad. Mae'r rheolau yn Rhan 3 yn ymdrin â ffurf a chynnwys papurau pleidleisio a dogfennau eraill i'w defnyddio yn y bleidlais (rheolau 22 i 24) ac maent yn galluogi swyddogion canlyniadau i ddefnyddio ystafelloedd ysgol ac ystafelloedd cyhoeddus eraill ar gyfer pleidleisio (rheol 26). Maent yn nodi'r camau y mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau eu cymryd cyn y bleidlais (rheolau 27 i 36), sy'n cynnwys rhoi hysbysiad o'r bleidlais, dyroddi papurau pleidleisio post a chardiau pleidleisio, darparu gorsafoedd pleidleisio ac offer a phenodi swyddogion llywyddu a chlercod. Maent hefyd yn nodi'r weithdrefn yn yr orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais (rheolau 37 i 51), gan gynnwys y cwestiynau y caniateir eu gofyn i bleidleiswyr a'r cymorth y caniateir ei roi i bleidleiswyr sydd ag anabledd neu nad ydynt yn gallu darllen.

Mae cynnwys y rheolau yn Rhan 3 o Atodlen 1 a'r rheolau yn Rhan 3 o Atodlen 2 yn weddol debyg. Ceir rhai mân wahaniaethau am fod y rheolau yn Rhan 3 o Atodlen 2 yn rheoleiddio'r modd y cynhelir y bleidlais pan gaiff ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad perthnasol (fel y'i diffinnir yn rheol 3 o'r Rheolau hyn). Er enghraifft, yn Atodlen 2, mae rheol 22(4)(d) yn ei gwneud yn ofynnol i'r papur pleidleisio yn etholiad y gymuned fod mewn lliw gwahanol i'r papur pleidleisio a ddefnyddir mewn etholiad perthnasol. Nid oes gofyniad tebyg yn Atodlen 1 gan nad oes mo'i angen.

Mae rheolau penodol yn Rhan 3 o'r ddwy Atodlen yn cyfeirio at ddeddfwriaeth arall. Lle byddai rhywfaint o esboniad ar y ddeddfwriaeth arall honno o gymorth, fe'i rhoddir isod.

The statement must also include any other persons who have been nominated but who no longer stand nominated along with the reason for that.

Rule 19 allows the nomination proceedings to be abandoned if they are interrupted on any day by riot or open violence. If the day on which the proceedings are abandoned is the last day for the delivery of nomination papers, the proceedings must continue the following day.

Part 3

Part 3 of each Schedule sets out the rules that govern the conduct of the poll where an election is contested. The rules in Part 3 deal with the form and content of ballot papers and other documents to be used at the poll (rules 22 to 24) and they enable returning officers to make use of school rooms and other public rooms for polling (rule 26). They set out the action the returning officer must take before the poll (rules 27 to 36), including requirements about giving notice of the poll, issuing postal ballot papers and poll cards, providing polling stations and equipment and appointing presiding officers and clerks. They also set out the procedure at the polling station on the day of the poll (rules 37 to 51), including the questions that may be put to voters and the assistance that may be given to voters who have a disability or are unable to read.

The content of the rules in Part 3 of Schedule 1 and the rules in Part 3 of Schedule 2 is broadly similar. There are some minor differences because the rules in Part 3 of Schedule 2 regulate the conduct of the poll where it is combined with the poll at a relevant election (as defined in rule 3 of these Rules). For example, in Schedule 2, rule 22(4)(d) requires the ballot paper at the community election to be a different colour to the ballot paper in use at a relevant election. There is no similar requirement in Schedule 1 because it is unnecessary.

Certain rules in Part 3 of each Schedule refer to other legislation. Where some explanation of that other legislation would be helpful, it is given below.

- Mae rheol 28(1) o'r ddwy Atodlen (sy'n ymwneud â dyroddi papurau pleidleisio post etc.) a rheol 36(1) a (2) o'r ddwy Atodlen (sy'n ymwneud â marcio rhestrau o bleidleiswyr post) yn cyfeirio at reoliadau o dan Ddeddf 1983. Adeg gwneud y Rheolau hyn, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (O.S. 2001/341) sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer dyroddi papurau pleidleisio post, datganiadau pleidleisio post ac amlenni ar gyfer eu dychwelyd a marcio rhestrau o bleidleiswyr post.
- Mae rheol 32(3) o Atodlen 1 a rheol 32(5) o Atodlen 2 yn darparu i'r swyddog canlyniadau ddarparu i bob gorsaf bleidleisio gopïau (ymhlith pethau eraill) o hysbysiadau perthnasol a ddyroddir o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983. Mae'r rhain yn hysbysiadau sy'n ategu'r copïau o'r rhannau perthnasol o'r gofrestr sydd hefyd yn cael eu cyflenwi i'r orsaf bleidleisio. rhMae hysbysiadau o dan adran 13B(3B) yn ymdrin â sefyllfaoedd lle cafwyd apêl yn erbyn penderfyniad swyddog cofrestru (er enghraifft, penderfyniad yn gwrthod cofrestru) a bod yr apêl yn llwyddiannus. Mae hysbysiadau o dan adran 13B(3D) yn ymdrin â sefyllfaoedd lle cafwyd sylwadau ynghylch gwall clerigol yn y gofrestr (er enghraifft, o ran enw neu gyfeiriad person) a bod y swyddog cofrestru yn cytuno bod yna wall.
- Mae rheol 35(1) o'r ddwy Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau roi i bawb sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio, heblaw pleidleiswyr a'u cwmni, personau o dan 16 oed a chwnstabiliaid ar ddyletswydd, hysbysiad sy'n nodi darpariaethau adran 66(1), (3) a (6) o Ddeddf 1983. Mae adran 66(1) yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion canlyniadau, clercod, ymgeiswyr, asiantau etholiadol, asiantau pleidleisio, cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol a sylwedyddion achrededig sy'n bresennol mewn gorsaf bleidleisio gadw cyfrinachedd y bleidlais ac mae'n eu gwahardd rhag cyfleu gwybodaeth benodol i neb, er enghraifft, enwau pleidleiswyr neu'r marc swyddogol. Mae adran 66(3) yn gwahardd unrhyw un rhag ymddygiad penodol, er enghraifft, ymyrryd â phleidleisiwr wrth iddo bleidleisio. O dan adran 66(6), mae'n drosedd peidio â chydymffurfio â'r gofynion a'r gwaharddiadau a nodir yn yr adran.
- Rule 28(1) of each Schedule (which relates to the issue of postal ballot papers etc.) and rule 36(1) and (2) of each Schedule (which relates to the marking of postal voting lists) refer to regulations under the 1983 Act. At the time when these Rules are made, it is the Representation of the People (England and Wales) Regulations 2001 (S.I. 2001/341) that make provision for the issue of postal ballot papers, postal voting statements and envelopes for their return and the marking of postal voting lists.
- Rule 32(3) of Schedule 1 and rule 32(5) of Schedule 2 provide for the returning officer to provide each polling station with (among other things) copies of relevant notices issued under section 13B(3B) or (3D) of the 1983 Act. These are notices that supplement the copies of the relevant parts of the register that are also supplied to the polling station. Notices under section 13B(3B) deal with situations where there has been an appeal against a decision by a registration officer (for example, a decision refusing registration) and the appeal is successful. Notices under section 13B(3D) deal with situations where representations have been made about a clerical error in the register (for example, as to a person's name or address) and the registration officer agrees that there is an error.
- Rule 35(1) of each Schedule requires the returning officer to give every person attending the polling station, other than voters and their companions, persons under the age of 16 and constables on duty, a notice setting out the provisions of section 66(1), (3) and (6) of the 1983 Act. Section 66(1) requires returning officers, clerks, candidates, election agents, polling agents, representatives of the Electoral Commission and accredited observers who attend a polling station to maintain the secrecy of voting and it prohibits them from communicating certain information to anyone, for example, the names of voters or the official mark. Section 66(3) prohibits anyone from certain conduct, for example, interfering with a voter when voting. Under section 66(6), it is an offence not to comply with the requirements and prohibitions set out in the section.

- Mae rheol 37 o'r ddwy Atodlen yn cynnwys ymhlith y rhai sydd â hawl i fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio "personau sydd â hawl i fod yn bresennol yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o adrannau 6A i 6D o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000" (gweler rheol 37(1)(g)). Y personau sydd â hawl i fod yn bresennol yn rhinwedd yr adrannau hyn yw cynrychiolwyr o'r Comisiwn Etholiadol a sylwedyddion achrededig (sydd naill ai'n unigolion y mae eu ceisiadau i arsylwi wedi eu caniatáu gan y Comisiwn Etholiadol neu gynrychiolwyr sefydliadau y mae'r Comisiwn Etholiadol wedi caniatáu eu ceisiadau i arsylwi).
- Rule 37 of each Schedule includes among those who are entitled to attend a polling station "persons who are entitled to attend by virtue of any of sections 6A to 6D of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000" (see rule 37(1)(g)). The persons who are entitled to attend by virtue of those sections are representatives of the Electoral Commission and accredited observers (who are either individuals whose applications to observe have been granted by the Electoral Commission or representatives of organisations whose applications to observe have been granted by the Electoral Commission).

Pan fo'r bleidlais mewn etholiad cymuned yn cael ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad perthnasol, mae'r sefyllfa gyfreithiol yn cael ei llywodraethu'n rhannol gan y Rheolau hyn ac yn rhannol gan Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cyfuno Pleidleisiau) (Cymru a Lloegr) 2004 (O.S. 2004/294) ("Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau"). Mae rôl y swyddog canlyniadau yn etholiad y gymuned yn amrywio yn ôl a yw'r swyddog canlyniadau hwnnw hefyd yn "swyddog canlyniadau cydlynol". Diffinnir hyn yn rheol 4(4) o'r Rheolau hyn fel y person sydd, o dan reoliad 4 o'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau, yn arfer swyddogaethau a bennir yn rheoliad 5 o'r Rheoliadau hynny.

Mae effaith hyn yn dibynnu ar y cyfuniad. Er enghraifft, pan gyfunir y bleidlais mewn etholiad cyffredinol prif ardal (sef cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) â'r bleidlais mewn etholiad cymuned, y swyddog canlyniadau yn etholiad y brif ardal yw'r swyddog canlyniadau cydlynol ac sy'n arfer y swyddogaethau a bennir yn rheoliad 5 yn etholiad y gymuned (yn ogystal â swyddogaethau arferol y swyddog canlyniadau yn etholiad y brif ardal).

Un o ganlyniadau hyn yw, er mwyn deall y cyfrifoldebau dros arfer swyddogaethau o dan reolau penodol yn Rhan 3 o Atodlen 2, bod angen darllen y rheolau hynny a'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau ill dau. I helpu'r darllenydd, mae'r rheolau dan sylw yn cynnwys rhai arwyddbyst i'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau. Er enghraifft, mae rheol 29 o Atodlen 2 yn nodi swyddogaeth y swyddog canlyniadau o sicrhau nifer digonol o orsafoedd pleidleisio yn etholiad y gymuned. Os swyddog canlyniadau etholiad y gymuned yw'r swyddog canlyniadau cydlynol, mae'r swyddog canlyniadau yn yr etholiad hwnnw yn arfer y swyddogaeth hon yn y ffordd arferol (ac mae hefyd yn arfer y swyddogaeth gymaradwy yn yr etholiad arall yn unol â'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau).

Where the poll at a community election is combined with the poll at a relevant election, the legal position is governed partly by the rules and partly by the Representation of the People (Combination of Polls) (England and Wales) Regulations 2004 (S.I. 2004/294) ("the Combination of Polls Regulations"). The role of the returning officer at the community election varies according to whether that returning officer is also "the co-ordinating returning officer". This is defined in rule 4(4) of these Rules as the person who, under regulation 4 of the Combination of Polls Regulations, exercises functions specified in regulation 5 of those Regulations.

The effect of this depends on the combination. For example, where the poll at an ordinary principal area (that is a county or county borough) election is combined with the poll at a community election, the returning officer at the principal area election is the co-ordinating returning officer and exercises the functions specified in regulation 5 at the community election (as well as the returning officer's usual functions at the principal area election).

One consequence of this is that, in order to understand responsibilities for the exercise of functions under particular rules in Part 3 of Schedule 2, it is necessary to read both those rules and the Combination of Polls Regulations. To assist the reader, the rules in question include some signposts to the Combination of Polls Regulations. For example, rule 29 of Schedule 2 sets out the function of the returning officer to ensure a sufficient number of polling stations at the community election. If the returning officer at the community election is the co-ordinating returning officer, the returning officer at that election exercises this function in the usual way (and also exercises the comparable function at the other election in accordance with the Combination of Polls Regulations).

Er hynny, fel yr esboniwyd, mae yna achosion pan na fydd y swyddog canlyniadau yn swyddog canlyniadau cydlynol, er enghraifft, pan fo'r etholiad arall yn etholiad cyffredinol prif ardal. Yn yr enghraifft honno, swyddog canlyniadau etholiad y brif ardal fydd y swyddog canlyniadau cydlynol ac o dan y Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau bydd yn arfer y swyddogaeth o sicrhau nifer digonol o orsafoedd pleidleisio yn etholiad y gymuned (yn ogystal ag yn etholiad y brif ardal). Gan hynny, mae rheol 29(4) yn cynnwys arwyddbost at y Rheoliadau hynny gyda'r nod o helpu'r darlennydd.

Y swyddogaethau eraill yn Rhan 3 o Atodlen 2 sydd weithiau'n arferadwy o dan y Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau gan y swyddog canlyniadau mewn etholiad perthnasol yn hytrach na swyddog canlyniadau'r gymuned yw'r canlynol (ac mae'r rheolau perthnasol felly yn cynnwys arwyddbyst i helpu'r darlennydd):

- paratoi'r rhestr rhifau cyfatebol o dan reol 23 neu, os nad yw'r trafodion ar ddyroddi a derbyn papurau pleidleisio post yn etholiad y gymuned a'r etholiad perthnasol yn cael eu cymryd gyda'i gilydd, paratoi Rhan 2 o'r rhestr;
- cyhoeddi hysbysiad o leoliad gorsafoedd pleidleisio etc. o dan reol 27(3) i (5);
- dyroddi papurau pleidleisio post o dan reol 28 pan fo trafodion dyroddi a derbyn papurau pleidleisio post yn etholiad y gymuned a'r etholiad perthnasol yn cael eu cymryd gyda'i gilydd;
- darparu gorsafoedd pleidleisio o dan reol 29;
- penodi swyddogion llywyddu a chlercod o dan reol 30;
- darparu cyfarpar mewn gorsafoedd pleidleisio o dan reol 32;
- hysbysu, o dan reol 35, gofynion adran 66(1), (3) a (6) o Ddeddf 1983;
- marcio'r rhestrau o bleidleiswyr post a phleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy o dan reol 36, pan fo trafodion dyroddi a derbyn papurau pleidleisio post yn etholiad y gymuned a'r etholiad perthnasol yn cael eu cymryd gyda'i gilydd;
- llofnodi tystysgrifau o dan reol 37(5) sy'n ymwneud â dyletswyddau staff y swyddog canlyniadau;
- awdurdodi unigolion o dan reol 38(3)(b) a gaiff symud y rhai sy'n camymddwyn o orsafoedd pleidleisio.
- the preparation of the corresponding number list under rule 23 or, if proceedings on the issue and receipt of postal ballot papers at the community election and the relevant election are not taken together, the preparation of Part 2 of the list;
- the publication of notice of the situation of polling stations etc. under rule 27(3) to (5);
- the issue of postal ballot papers under rule 28 where proceedings on the issue and receipt of postal ballot papers at the community election and the relevant election are taken together;
- the provision of polling stations under rule 29;
- the appointment of presiding officers and clerks under rule 30;
- the provision of equipment at polling stations under rule 32;
- the notification under rule 35 of the requirements of section 66(1), (3) and (6) of the 1983 Act;
- the marking of the postal voters and proxy postal voters lists under rule 36, where proceedings on the issue and receipt of postal ballot papers at the community election and the relevant election are taken together;
- the signing of certificates under rule 37(5) relating to the duties of staff of the returning officer;
- the authorisation under rule 38(3)(b) of individuals who may remove those engaging in misconduct from polling stations.

However, as has been explained, there are cases where the returning officer will not be the co-ordinating returning officer, for example, where the other election is an ordinary principal area election. In that example, the returning officer at the principal area election will be the co-ordinating returning officer and under the Combination of Polls Regulations will exercise the function of ensuring a sufficient number of polling stations at the community election (as well as at the principal area election). Rule 29(4) therefore includes a signpost to those Regulations with the aim of assisting the reader.

The other functions in Part 3 of Schedule 2 that are sometimes exercisable under the Combination of Polls Regulations by the returning officer at a relevant election instead of the community returning officer are the following (and the relevant rules accordingly include signposts to assist the reader):

Rhan 4

Mae Rhan 4 o'r ddwy Atodlen (rheolau 52 i 60 yn Atodlen 1 a rheolau 52 i 64 yn Atodlen 2) yn nodi'r rheolau sy'n llywodraethu'r broses o gyfrif pleidleisiau a datgan y canlyniad mewn etholiadau lle ceir gornest, gan gynnwys rheolau ynghylch pwy gaiff fod yn bresennol, y trefniadau ymarferol yn y cyfrif, y camau rhagarweiniol y mae'n rhaid eu cymryd, y dull cyfrif, gwrthod papurau pleidleisio, ailgyfrifiadau a'r camau y mae'n rhaid eu cymryd pan ddatgenir y canlyniad.

Mae cynnwys y rheolau yn Rhan 4 o Atodlen 1 a'r rheolau yn Rhan 4 o Atodlen 2 yn weddol debyg. Mae pleidleisiau yn etholiad y gymuned yn cael eu cyfrif yn yr un ffordd p'un a yw'r bleidlais yn yr etholiad wedi ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad perthnasol ai peidio. Er hynny, ceir rhai gwahaniaethau yng nghynnwys y rheolau. Y rheswm am hyn yw bod angen i'r rheolau yn Rhan 4 o Atodlen 2, sy'n gymwys pan fo'r bleidlais yn etholiad y gymuned wedi ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad perthnasol, wahaniaethu rhwng y sefyllfa lle mae swyddog canlyniadau etholiad y gymuned yn swyddog canlyniadau cydlynol a'r sefyllfa lle mae swyddog canlyniadau arall yw'r swyddog canlyniadau cydlynol. Yn benodol, pan fo swyddog canlyniadau etholiad y gymuned yn swyddog canlyniadau cydlynol, mae'r swyddog canlyniadau yn gwahanu'r papurau pleidleisio a ddefnyddiwyd yn y bleidlais a gyfunwyd fesul etholiad (rheol 55).

Pan nad swyddog canlyniadau etholiad y gymuned yw'r swyddog canlyniadau cydlynol, mae'r swyddog canlyniadau yn cael papurau pleidleisio etholiad y gymuned oddi wrth y swyddog canlyniadau cydlynol ar ôl iddynt gael eu gwahanu oddi wrth y papurau pleidleisio eraill (rheol 57). Er mwyn helpu gyda dealltwriaeth, mae rheol 52 yn rhoi trosolwg, sy'n nodi pa reolau sy'n gymwys pan fo swyddog canlyniadau'r gymuned yn swyddog cydlynol a pha reolau sy'n gymwys pan nad swyddog canlyniadau'r gymuned yw'r swyddog cydlynol.

Mae rheolau penodol yn Rhan 4 yn cyfeirio at ddeddfwriaeth arall. Lle byddai esboniad ar y ddeddfwriaeth arall honno o gymorth, fe'i rhoddir isod.

- Mae rheol 53 o'r ddwy Atodlen yn cynnwys ymhlith y rhai sydd â hawl i fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio "personau sydd â hawl i fod yn bresennol yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o adrannau 6A i 6D o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000" (gweler rheol 53(1)(e)). Fel yr esboniwyd uchod, y personau sydd â hawl i fod yn bresennol yn rhinwedd yr adrannau hyn yw cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol a sylwedyddion achrededig.

Part 4

Part 4 of each Schedule (rules 52 to 60 in Schedule 1 and rules 52 to 64 in Schedule 2) sets out the rules that govern the counting of votes and declaration of result at contested elections, including rules about who may attend, the practical arrangements at the count, the preliminary steps that must be taken, the method of counting, the rejection of ballot papers, re-counts and the steps that must be taken when the result is declared.

The content of the rules in Part 4 of Schedule 1 and the rules in Part 4 of Schedule 2 is broadly similar. Votes at the community election are counted in the same way regardless of whether the poll at the election has been combined with the poll at a relevant election. However, there are some differences in the content of the rules. This is because the rules in Part 4 of Schedule 2, which apply where the poll at the community election has been combined with the poll at a relevant election, need to distinguish between the position where the returning officer at the community election is the co-ordinating returning officer and the position where another returning officer is the co-ordinating returning officer. In particular, where the returning officer at the community election is the co-ordinating returning officer, the returning officer separates the ballot papers used at the combined poll according to each election (rule 55).

Where the returning officer at the community election is not the co-ordinating returning officer, the returning officer simply receives the ballot papers for the community election from the co-ordinating returning officer after their separation from the other ballot papers (rule 57). To assist with understanding, rule 52 provides an overview, setting out which rules apply where the community returning officer is the co-ordinating officer and which rules apply where the community returning officer is not.

Certain rules in Part 4 refer to other legislation. Where some explanation of that other legislation would be helpful, it is given below.

- Rule 53 of each Schedule includes among those who are entitled to attend a polling station "persons who are entitled to attend by virtue of any of sections 6A to 6D of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000" (see rule 53(1)(e)). As explained above, the persons who are entitled to attend by virtue of those sections are representatives of the Electoral Commission and accredited observers.

- Mae rheol 53(7) o Atodlen 1 a rheol 53(8) o Atodlen 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau wneud trefniadau i bawb sy'n bresennol wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif heblaw cwnstabiliaid ar ddyletswydd gael hysbysiad sy'n nodi darpariaethau adran 66(2) a (6) o Ddeddf 1983. Mae adran 66(2) yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n bresennol wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif gadw cyfrinachedd y bleidlais ac mae'n eu gwahardd rhag canfod neu geisio canfod y rhif neu'r marc adnabod unigryw arall ar gefn y papur pleidleisio neu gyfathrebu â neb am yr ymgeisydd y rhoddwyd pleidlais benodol iddo. O dan adran 66(6), mae'n drosedd peidio â chydymffurfio â'r gofynion a'r gwaharddiadau a nodir yn yr adran.
- Mae rheol 54(9)(c) o Atodlen 1 a rheol 58(3)(c) o Atodlen 2 yn cyfeirio at achosion pan fo camau i wirio dyddiad geni a llofnod etholwr neu ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post wedi eu rhagnodi gan reoliadau o dan Ddeddf 1983. Adeg gwneud y Rheolau hyn, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer dilysu.
- Rule 53(7) of Schedule 1 and rule 53(8) of Schedule 2 requires the returning officer to make arrangements for everyone attending the counting of votes other than constables on duty to be given a notice setting out the provisions of section 66(2) and (6) of the 1983 Act. Section 66(2) requires every person attending the counting of votes to maintain the secrecy of voting and it prohibits them from ascertaining or attempting to ascertain the number or other unique identifying mark on the back of the ballot paper or communicating to anyone about the candidate for whom a particular vote has been given. Under section 66(6), it is an offence not to comply with the requirements and prohibitions set out in the section.
- Rule 54(9)(c) of Schedule 1 and rule 58(3)(c) of Schedule 2 refer to cases where steps for verifying the date of birth and signature of an elector or proxy voting by post have been prescribed by regulations under the 1983 Act. At the time when these Rules are made, it is the Representation of the People (England and Wales) Regulations 2001 that make provision for verification.

Rhan 5

Mae Rhan 5 o'r ddwy Atodlen (rheolau 61 i 66 o Atodlen 1 a rheolau 65 i 70 o Atodlen 2) yn nodi'r rheolau sy'n llywodraethu'r hyn sy'n digwydd i bapurau pleidleisio a dogfennau eraill a ddefnyddir mewn etholiadau, gan gynnwys rheolau ynghylch danfon dogfennau i swyddogion cofrestru, pwerau llysoedd i wneud gorchmynion sy'n ymwneud â'r dogfennau a phryd y mae'n rhaid eu dinistrio.

Mae cynnwys y rheolau yn Rhan 5 o Atodlen 1 a'r rheolau yn Rhan 5 o Atodlen 2 yn weddol debyg. Ceir mân wahaniaethau am fod angen i'r rheolau yn Atodlen 2 (sy'n gymwys pan fo'r bleidlais yn etholiad y gymuned wedi ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad perthnasol) wahaniaethu rhwng y sefyllfa lle mae swyddog canlyniadau etholiad y gymuned yn swyddog canlyniadau cydlynol a'r sefyllfa lle swyddog canlyniadau arall yw'r swyddog canlyniadau cydlynol. Yn benodol, pan fo'r swyddog canlyniadau yn swyddog canlyniadau cydlynol, mae'r swyddog canlyniadau yn gyfrifol am ddanfon ystod ehangach o ddogfennau i'r swyddog cofrestru (rheol 66 o Atodlen 2).

Part 5

Part 5 of each Schedule (rules 61 to 66 of Schedule 1 and rules 65 to 70 of Schedule 2) sets out the rules that govern what happens to ballot papers and other documents in use at elections, including rules about the delivery of documents to registration officers, the powers of courts to make orders relating to the documents and when they must be destroyed.

The content of the rules in Part 5 of Schedule 1 and the rules in Part 5 of Schedule 2 is broadly similar. There are minor differences because the rules in Schedule 2 (which apply where the poll at the community election has been combined with the poll at a relevant election) need to distinguish between the position where the returning officer at the community election is the co-ordinating returning officer and the position where another returning officer is the co-ordinating returning officer. In particular, where the returning officer is the co-ordinating returning officer, the returning officer has responsibility for delivering a wider range of documents to the registration officer (rule 66 of Schedule 2).

Rhan 6

Mae Rhan 6 yn nodi'r rheolau sy'n llywodraethu'r hyn sy'n digwydd pan fydd ymgeisydd yn marw. Mae'r rheolau'n sicrhau bod trafodion yr etholiad yn dod i ben a hefyd yn ymdrin â materion gweinyddol canlyniadol (er enghraifft, i sicrhau bod dogfennau a ddefnyddir yn yr etholiad yn cael eu hanfon at y swyddog cofrestru). Fel y nodir gan y ddarpariaeth arwyddbostio yn rheol 67(6) o Atodlen 1 a rheol 71(9) o Atodlen 2, mae adran 39 o Ddeddf 1983 yn ymdrin yn fwy cyffredinol â'r hyn sy'n digwydd pan fo ymgeisydd yn marw a phan fo'r bleidlais, o ganlyniad, yn cael ei diddymu neu pan roddir y gorau iddi. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau orchymyn cynnal etholiad newydd ond mae hefyd yn darparu nad yw enwebiadau newydd yn ofynnol yn achos ymgeiswyr sy'n dal wedi eu henwebu'n ddilys yn yr etholiad hwnnw.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheolau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheolau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-Adran Democratiaeth Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Part 6

Part 6 sets out the rules that govern what happens when a candidate dies. The rules ensure that proceedings at the election come to an end and also deal with consequential matters of administration (for example, to ensure that documents in use at the election are sent to the registration officer). As indicated by the sign-posting provision in rule 67(6) of Schedule 1 and rule 71(9) of Schedule 2, section 39 of the 1983 Act deals more generally with what happens where a candidate dies and, in consequence, a poll is countermanded or abandoned. It requires the returning officer to order a fresh election but also provides that fresh nominations are not required for candidates who remain validly nominated at that election.

Regulatory Impact Assessment

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Rules. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefit of complying with these Rules. A copy can be obtained from the Local Government Democracy Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and on the Welsh Government website at www.gov.wales.

2021 Rhif 1460 (Cy. 375)

2021 No. 1460 (W. 375)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**CYNRYCHOLAETH Y BOBL,
CYMRU**

**REPRESENTATION OF THE
PEOPLE, WALES**

**Rheolau Etholiadau Lleol
(Cymunedau) (Cymru) 2021**

**The Local Elections (Communities)
(Wales) Rules 2021**

Gwnaed 15 Rhagfyr 2021

Made 15 December 2021

Yn dod i rym 17 Rhagfyr 2021

Coming into force 17 December 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 89(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(1) ac adrannau 36A(1), (3) i (6) a (9) a 187(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(2), yn gwneud y Rheolau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 89(6) of the Local Government Act 1972(1) and sections 36A(1), (3) to (6) and (9) and 187(1) of the Representation of the People Act 1983(2), make the following Rules.

Yn unol ag adran 36A(7) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny yr oeddent o'r farn eu bod yn briodol.

In accordance with section 36A(7) of the Representation of the People Act 1983, the Welsh Ministers have consulted such persons as they considered appropriate.

Yn unol ag adran 36A(10) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

In accordance with section 36A(10) of the Representation of the People Act 1983, a draft of this instrument has been laid before and approved by a resolution of Senedd Cymru.

(1) 1972 p. 70. Diwygiwyd adran 89(6) gan baragraff 1(6) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1).

(2) 1983 p. 2. Mewnosodwyd adran 36A gan adran 13(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Diwygiwyd adran 187(1) gan baragraff 64 o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p. 50), paragraff 124 o Atodlen 1 i Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22) a chan baragraff 2(16) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(1) 1972 c. 70. Section 89(6) was amended by paragraph 1(6) of Schedule 2 to the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1).

(2) 1983 c. 2. Section 36A was inserted by section 13(3) of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021. Section 187(1) was amended by paragraph 64 of Schedule 4 to the Representation of the People Act 1985 (c. 50), paragraph 124 of Schedule 1 to the Electoral Administration Act 2006 (c. 22) and by paragraph 2(16) of Schedule 2 to the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheolau hyn yw Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 a deuant i rym ar 17 Rhagfyr 2021.

Darpariaeth drosiannol

2. Nid yw dod â'r Rheolau hyn i rym yn effeithio ar gynnal etholiad cynghorwyr i gyngor cymuned pe bai'r bleidlais yn cael ei chynnal, pe ceid gornest yn yr etholiad, cyn 5 Mai 2022.

Dehongli

3.—(1) Yn y Rheolau hyn—

ystyr “Deddf 1983” (“*the 1983 Act*”) yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983;

ystyr “diwrnod eithriedig” (“*excluded day*”) yw diwrnod sydd—

- (a) yn ddydd Sadwrn;
- (b) yn ddydd Sul;
- (c) yn Noswyl Nadolig;
- (d) yn Ddydd Nadolig;
- (e) yn ddydd Gwener y Groglith;
- (f) yn ddiwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1);

mae i “gwybodaeth am gyfeiriad cartref” (“*home address information*”) o ran person a enwebir—

- (a) yn Atodlen 1, yr ystyr a roddir gan reol 13(3) o'r Atodlen honno, a
- (b) yn Atodlen 2, yr ystyr a roddir gan reol 13(3) o'r Atodlen honno;

ystyr “Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau” (“*the Combination of Polls Regulations*”) yw Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cyfuno Pleidleisiau) (Cymru a Lloegr) 2004(2).

(2) At ddibenion y Rheolau hyn, mae etholiad yn “etholiad perthnasol” os yw'n un o'r etholiadau a ganlyn a bod y bleidlais yn yr etholiad yn cael ei chynnal ynghyd â'r bleidlais mewn etholiad cynghorwyr i gyngor cymuned—

- (a) etholiad seneddol;

Title and commencement

1. The title of these Rules is the Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021 and they come into force on 17 December 2021.

Transitional provision

2. The coming into force of these Rules does not affect the conduct of an election of councillors to a community council if, in the event of the election being contested, the poll would take place before 5 May 2022.

Interpretation

3.—(1) In these Rules—

“the 1983 Act” (“*Deddf 1983*”) means the Representation of the People Act 1983;

“the Combination of Polls Regulations” (“*Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau*”) means the Representation of the People (Combination of Polls) (England and Wales) Regulations 2004(1);

“excluded day” (“*diwrnod eithriedig*”) means a day that is—

- (a) a Saturday;
- (b) a Sunday;
- (c) Christmas Eve;
- (d) Christmas Day;
- (e) Good Friday;
- (f) a day that is a bank holiday in England and Wales under the Banking and Financial Dealings Act 1971(2);

“home address information” (“*gwybodaeth am gyfeiriad cartref*”) in relation to a person nominated—

- (a) in Schedule 1, has the meaning given by rule 13(3) of that Schedule, and
- (b) in Schedule 2, has the meaning given by rule 13(3) of that Schedule.

(2) For the purposes of these Rules, an election is a “relevant election” if it is one of the following elections and the poll at the election is taken together with the poll at an election of councillors to a community council—

- (a) a parliamentary election;

(1) 1971 p. 80.

(2) O.S. 2004/294 fel y'i diwygiwyd gan baragraff 17 o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a chan O.S. 2006/3278, O.S. 2012/1917, O.S. 2014/920 ac O.S. 2015/654.

(1) S.I. 2004/294 as amended by paragraph 17 of Schedule 2 to the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 and by S.I. 2006/3278, S.I. 2012/1917, S.I. 2014/920 and S.I. 2015/654.

(2) 1971 c. 80.

- (b) etholiad cynghorwyr i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;
- (c) etholiad maer, hynny yw, etholiad a gynhelir o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Maerol) (Cymru a Lloegr) 2007(1);
- (d) etholiad comisiynydd heddlu a throseddu, hynny yw, etholiad comisiynydd heddlu a throseddu yn unol â Phennod 6 o Ran 1 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011(2).

(3) Yn y Rheolau hyn, oni nodir yn wahanol, mae i'r geiriau a'r ymadroddion Cymraeg a ganlyn sy'n cyfateb i eiriau ac ymadroddion Saesneg a ddefnyddir yn Neddf 1983 yr un ystyr â'r geiriau a'r ymadroddion hynny yn y Ddeddf honno (gweler adrannau 202(1) a 203(1)(3) o'r Ddeddf honno)—

- “anabledd” (“*disability*”);
- “ardal etholiadol” (“*electoral area*”);
- “cofnod cofnodion dienw” (“*record of anonymous entries*”);
- “cofnod dienw” (“*anonymous entry*”);
- “deiseb etholiad” (“*election petition*”);
- “etholwr” (“*elector*”);
- “llys etholiad” (“*election court*”);
- “pleidleisiwr” (“*voter*”);
- “rhestr dirprwyon” (“*list of proxies*”);
- “rhestr pleidleiswyr post” (“*postal voters list*”);
- “rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy” (“*proxy postal voters list*”);
- “swyddog priodol” (“*proper officer*”).

- (b) an election of councillors to a county council or county borough council;
- (c) a mayoral election, that is, an election conducted under the Local Authorities (Mayoral Elections) (England and Wales) Regulations 2007(1);
- (d) a police and crime commissioner election, that is, an election of a police and crime commissioner in accordance with Chapter 6 of Part 1 of the Police Reform and Social Responsibility Act 2011(2).

(3) In these Rules, unless otherwise indicated, the following words and expressions have the same meaning as in the 1983 Act (see sections 202(1) and 203(1)(3) of that Act)—

- “anonymous entry” (“*cofnod dienw*”);
- “disability” (“*anabledd*”);
- “election court” (“*llys etholiad*”);
- “election petition” (“*deiseb etholiad*”);
- “elector” (“*etholwr*”);
- “electoral area” (“*ardal etholiadol*”);
- “list of proxies” (“*rhestr dirprwyon*”);
- “postal voters list” (“*rhestr pleidleiswyr post*”);
- “proper officer” (“*swyddog priodol*”);
- “proxy postal voters list” (“*rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy*”);
- “record of anonymous entries” (“*cofnod cofnodion dienw*”);
- “voter” (“*pleidleisiwr*”).

(1) O.S. 2007/1024; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2010/1172, O.S. 2011/926, O.S. 2012/1917, O.S. 2014/1370 ac O.S. 2018/1310.

(2) 2011 p. 13. Diwygiwyd Pennod 6 o Ran 1 gan Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) (Atodlen 8, paragraff 184), gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) (Atodlen 1, paragraff 5), gan Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 (p. 3) (adran 122(1), Atodlen 2, paragraff 117 ac Atodlen 9, paragraff 73) a chan Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) (adran 8). Fe'i diwygiwyd hefyd gan O.S. 2014/268, O.S. 2015/1376, O.S. 2015/1526, O.S. 2016/997, O.S. 2017/470 ac O.S. 2018/1310.

(3) Diwygiwyd adran 202(1) gan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (Atodlen 2, paragraff 3), gan Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999 (p. 29) (Atodlen 3, paragraff 38), gan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2) (Atodlen 6, paragraff 9), gan Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (Atodlen 1, paragraffau 13, 76 ac 128) a chan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Atodlen 2, paragraff 2(17)). Diwygiwyd adran 203(1) gan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (Atodlen 4, paragraff 71) a chan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Atodlen 2, paragraff 2(18)). Mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheolau hyn.

(1) S.I. 2007/1024; relevant amending instruments are S.I. 2010/1172, S.I. 2011/926, S.I. 2012/1917, S.I. 2014/1370 and S.I. 2018/1310.

(2) 2011 c. 13. Chapter 6 of Part 1 was amended by the Crime and Courts Act 2013 (c. 22) (Schedule 8, paragraph 184), by the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 (anaw 4) (Schedule 1, paragraph 5), by the Policing and Crime Act 2017 (c. 3) (section 122(1), Schedule 2, paragraph 117 and Schedule 9, paragraph 73) and by the Wales Act 2017 (c. 4) (section 8). It was also amended by S.I. 2014/268, S.I. 2015/1376, S.I. 2015/1526, S.I. 2016/997, S.I. 2017/470 and S.I. 2018/1310.

(3) Section 202(1) was amended by the Representation of the People Act 1985 (Schedule 2, paragraph 3), by the Greater London Authority Act 1999 (c. 29) (Schedule 3, paragraph 38), by the Representation of the People Act 2000 (c. 2) (Schedule 6, paragraph 9), by the Electoral Administration Act 2006 (Schedule 1, paragraphs 13, 76 and 128) and by the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (Schedule 2, paragraph 2(17)). Section 203(1) was amended by the Representation of the People Act 1985 (Schedule 4, paragraph 71) and by the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (Schedule 2, paragraph 2(18)). There are other amendments but they are not relevant to these Rules.

Cynnal etholiadau i gyngor cymuned

4.—(1) Mae Atodlen 1 yn nodi'r rheolau sy'n gymwys wrth gynnal etholiad cynghorwyr i gyngor cymuned pan na chynhelir y bleidlais yn yr etholiad ynghyd â'r bleidlais mewn etholiad arall.

(2) Mae cyfeiriadau yn y rheolau yn Atodlen 1 at y swyddog canlyniadau yn gyfeiriadau at y swyddog canlyniadau yn yr etholiad cynghorwyr i gyngor cymuned.

(3) Mae Atodlen 2 yn nodi'r rheolau sy'n gymwys wrth gynnal etholiad cynghorwyr i gyngor cymuned pan gynhelir y bleidlais yn yr etholiad ynghyd â'r bleidlais mewn un neu ragor o etholiadau perthnasol.

(4) Mae cyfeiriadau yn y rheolau yn Atodlen 2 at y swyddog canlyniadau cydlynol yn gyfeiriadau at y swyddog canlyniadau sydd, o dan reoliad 4 o'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau, yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau a bennir yn rheoliad 5 o'r Rheoliadau hynny.

(5) Mae cyfeiriadau yn y rheolau yn Atodlen 2 at y swyddog canlyniadau yn gyfeiriadau at y swyddog canlyniadau yn yr etholiad cynghorwyr i gyngor cymuned (p'un a yw'r person hwnnw hefyd yn swyddog canlyniadau cydlynol ai peidio), oni bai bod rheol benodol yn darparu fel arall.

(6) Pan fo rheol yn Atodlen 1 neu 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau gyhoeddi dogfen, rhaid i'r ddogfen gael ei chyhoeddi—

- (a) ar-lein, a
- (b) mewn unrhyw ffordd arall y mae'r swyddog canlyniadau o'r farn ei bod yn briodol er mwyn dod â chynnwys y ddogfen i sylw'r cyhoedd.

(7) Pan fo rheol yn Atodlen 1 neu 2 yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad gael ei roi, neu'n awdurdodi rhoi hysbysiad, caniateir i'r hysbysiad—

- (a) cael ei anfon drwy'r post,
- (b) cael ei anfon yn electronig, neu
- (c) cael ei ddanfon yn bersonol.

Llenwi seddi sydd wedi digwydd dod yn wag

5.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan roddir hysbysiad cyhoeddus o sedd sydd wedi digwydd dod yn wag i gynghorydd cymuned yn unol ag adran 87(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

(2) Caniateir gwneud cais am etholiad i lenwi'r swydd wag cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau drannoeth ar ôl i hysbysiad cyhoeddus o'r swydd wag gael ei roi.

Conduct of elections to a community council

4.—(1) Schedule 1 sets out the rules that apply to the conduct of an election of councillors to a community council where the poll at the election is not taken together with the poll at another election.

(2) References in the rules in Schedule 1 to the returning officer are references to the returning officer at the election of councillors to a community council.

(3) Schedule 2 sets out the rules that apply to the conduct of an election of councillors to a community council where the poll at the election is taken together with the poll at one or more relevant elections.

(4) References in the rules in Schedule 2 to the co-ordinating returning officer are references to the returning officer who, under regulation 4 of the Combination of Polls Regulations, is responsible for discharging functions specified in regulation 5 of those Regulations.

(5) References in the rules in Schedule 2 to the returning officer are references to the returning officer at the election of councillors to a community council (whether or not that person is also the co-ordinating returning officer), unless a particular rule otherwise provides.

(6) Where a rule in Schedule 1 or 2 requires the returning officer to publish a document, the document must be published—

- (a) online, and
- (b) in such other way as the returning officer considers appropriate for bringing the contents of the document to the attention of the public.

(7) Where a rule in Schedule 1 or 2 requires or authorises a notice to be given, the notice may be—

- (a) sent by post,
- (b) sent electronically, or
- (c) delivered personally.

Filling of casual vacancies

5.—(1) This rule applies where public notice of a casual vacancy in the office of community councillor is given in accordance with section 87(2) of the Local Government Act 1972.

(2) A request for an election to fill the vacancy may be made before the end of the period of 14 days beginning the day after public notice of the vacancy is given.

(3) Rhaid i unrhyw gais o'r fath gael ei wneud gan ddeg o etholwyr i swyddog priodol cyngor y sir neu'r fwrdeistref sirol y lleolir y gymuned ynddo.

(4) Caniateir i'r cais gael ei wneud—

- (a) drwy i'r deg etholwr ddarparu i'r swyddog priodol un ddogfen sy'n cynnwys y cais a honno wedi ei llofnodi gan bob un ohonynt, neu
- (b) drwy i bob un o'r deg etholwr ddarparu dogfen i'r swyddog priodol sy'n cynnwys y cais a honno wedi ei llofnodi gan yr etholwr hwnnw.

(5) Pan wneir cais, rhaid cynnal etholiad i lenwi'r swydd sydd wedi digwydd dod yn wag oni bai bod y swydd wag wedi digwydd yn ystod chwe mis olaf y cynghorydd (ynghŷn â hynny gweler paragraff (12)).

(6) Pan fo etholiad yn ofynnol, rhaid ei gynnal ar ddiwrnod a benodir gan y swyddog canlyniadau, sy'n gorfod bod cyn diwedd y cyfnod o 60 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir hysbysiad cyhoeddus o'r swydd wag.

(7) Pan nad yw etholiad yn ofynnol—

- (a) os digwyddodd y swydd wag yn ystod chwe mis olaf y cynghorydd, caiff y cyngor cymuned gyfethol person i lenwi'r swydd wag;
- (b) fel arall, rhaid i'r cyngor cymuned gyfethol person i lenwi'r swydd wag.

(8) Pan fo'r cyngor cymuned yn penderfynu cyfethol person neu pan fo'n ofynnol iddo gyfethol person, rhaid gwneud hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau drannoeth ar ôl i hysbysiad cyhoeddus o'r swydd wag gael ei roi.

(9) Pan na fydd swydd wag yn cael ei llenwi drwy etholiad neu drwy gyfethol person, rhaid ei llenwi yn yr etholiad cyffredin nesaf o gynghorwyr ar gyfer y gymuned.

(10) Ym mharagraff (3), ystyr "etholwr" yw person sydd, ar y diwrnod y gwneir y cais, wedi ei gofrestru yn y gofrestr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal etholiadol y mae'r swydd wag wedi digwydd ynddi, ac eithrio person nad yw o oedran pleidleisio ar y diwrnod hwnnw neu sydd â chofnod diennw.

(11) Wrth gyfrifo'r cyfnod o 14 diwrnod a grybwyllir ym mharagraffau (2) ac (8), a'r cyfnod o 60 niwrnod a grybwyllir ym mharagraff (6), mae unrhyw ddiwrnod sy'n ddiwrnod eithriedig i'w ddiystyru.

(12) Mae cyfeiriadau yn y rheol hon at chwe mis olaf cynghorydd yn gyfeiriadau at y cyfnod o chwe mis sy'n dod i ben gyda diwrnod disgwylidig yr etholiad cyffredin nesaf o gynghorwyr ar gyfer y gymuned.

(3) Any such request must be made by ten electors to the proper officer of the council of the county or county borough in which the community is situated.

(4) The request may be made by—

- (a) the ten electors providing the proper officer with one document containing the request, signed by each of them, or
- (b) each of the ten electors providing the proper officer with a document containing the request and signed by that elector .

(5) Where a request is made, an election to fill the casual vacancy must be held unless the vacancy occurred during the councillor's final six months (as to which see paragraph (12)).

(6) Where an election is required, it must be held on a day appointed by the returning officer, which must be before the end of the period of 60 days beginning with the day on which public notice of the vacancy is given.

(7) Where an election is not required—

- (a) if the vacancy occurred during the councillor's final six months, the community council may co-opt a person to fill the vacancy;
- (b) otherwise, the community council must co-opt a person to fill the vacancy.

(8) Where the community council decides or is required to co-opt a person, this must be done as soon as practicable after the end of the period of 14 days beginning the day after public notice of the vacancy is given.

(9) Where a vacancy is not filled by an election or by co-opting a person, it must be filled at the next ordinary election of councillors for the community.

(10) In paragraph (3), "elector" means a person who, on the day on which the request is made, is registered in the register of local government electors for the electoral area in which the vacancy has occurred, other than a person who is not of voting age on that day or who has an anonymous entry.

(11) In calculating the period of 14 days mentioned in paragraphs (2) and (8), and the period of 60 days mentioned in paragraph (6), any day that is an excluded day is to be disregarded.

(12) References in this rule to a councillor's final six months are to the period of six months ending with the expected day of the next ordinary election of councillors for the community.

Addasiadau i Ddeddf 1983

6.—(1) Mae darpariaethau Deddf 1983 y cyfeirir atynt yn adran 187(1) o'r Ddeddf honno (darpariaethau sy'n gymwys mewn etholiadau lleol penodol) yn gymwys i etholiad cynghorwyr cymuned gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad at swyddog priodol yr awdurdod i'w ddarllen fel cyfeiriad at y swyddog canlyniadau.

(2) Mae adran 136(2)(b) o Ddeddf 1983(1) (swm gwarant costau ar ddeiseb etholiad) yn gymwys i etholiad cynghorwyr cymuned gyda'r addasiad bod y cyfeiriad at “£2,500” i'w ddarllen fel cyfeiriad at “£1,500”.

Ffurff treuliau etholiad

7. Rhaid i ddatganiad ynglŷn â threuliau etholiad mewn etholiad cynghorwyr cymuned fod yn y ffurf yn Atodlen 3 i'r Rheolau hyn neu ffurf i'r un perwyl.

Modifications of the 1983 Act

6.—(1) The provisions of the 1983 Act referred to in section 187(1) of that Act (provisions applying at certain local elections) apply to an election of community councillors with the modification that any reference to the proper officer of the authority is to be read as a reference to the returning officer.

(2) Section 136(2)(b) of the 1983 Act(1) (amount of security of costs on election petition) applies to an election of community councillors with the modification that the reference to “£2,500” is to be read as a reference to “£1,500”.

Form of election expenses

7. A declaration as to election expenses at an election of community councillors must be in the form in Schedule 3 to these Rules or a form to the like effect.

Rebecca Evans

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
15 Rhagfyr 2021

Minister for Finance and Local Government, one of
the Welsh Ministers
15 December 2021

(1) Diwygiwyd adran 136(2)(b) gan baragraff 48 o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 a chan baragraff 19(4) o Atodlen 18 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41).

(1) Section 136(2)(b) was amended by paragraph 48 of Schedule 4 to the Representation of the People Act 1985 and by paragraph 19(4) of Schedule 18 to the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (c. 41).

ATODLENNI

SCHEDULES

ATODLEN 1 Rheol 4(1)

SCHEDULE 1 Rule 4(1)

Rheolau cynnal etholiad cyngorwyr ar gyfer cymuned pan na chynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad arall

Rules for conduct of an election of councillors for a community where poll is not taken together with poll at another election

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

Darpariaethau ynglŷn ag Amser

Provisions as to Time

1. Amserlen
2. Cyfrif amser

1. Timetable
2. Computation of time

RHAN 2

PART 2

Hysbysiad Etholiad, Enwebu a Dull Ethol

Notice of Election, Nomination and Method of Election

Hysbysiad Etholiad

Notice of Election

3. Hysbysiad etholiad
Enwebu
4. Dyletswydd y swyddog canlyniadau i gyflenwi ffurflenni enwebu etc.
5. Enwebu ymgeiswyr
6. Papurau enwebu: disgrifiadau
7. Ychwanegu “Wales”, “Welsh”, “Cymru” neu “Cymreig”
8. Papurau enwebu: datganiadau aelodaeth plaid
9. Ffurflenni cyfeiriad cartref
10. Penderfyniadau ynglŷn â dilysrwydd papurau enwebu
11. Enwebu mewn mwy nag un ardal etholiadol
12. Ymgeiswyr yn tynnu’n ôl
13. Cyhoeddi datganiad o’r personau a enwebwyd
14. Defnyddio enwau a ddefnyddir yn gyffredin yn y datganiad o’r personau a enwebwyd
15. Enwau sydd yr un fath neu’n debyg
16. Cywiro mân wallau mewn papur enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref
17. Archwilio papurau enwebu
18. Archwilio ffurflenni cyfeiriad cartref

3. Notice of election
Nomination
4. Duty of returning officer to supply forms of nomination etc.
5. Nomination of candidates
6. Nomination papers: descriptions
7. Addition of “Wales”, “Welsh”, “Cymru” or “Cymreig”
8. Nomination papers: statements of party membership
9. Home address forms
10. Decisions as to validity of nomination papers
11. Nomination in more than one electoral area
12. Withdrawal of candidates
13. Publication of statement of persons nominated
14. Use of commonly used names in statement of persons nominated
15. Names that are the same or similar
16. Correction of minor errors in a nomination paper or home address form
17. Inspection of nomination papers
18. Inspection of home address forms

19. Gohirio trafodion enwebu os ceir terfysg
Dull Ethol
20. Penderfynu a oes gornest yn yr etholiad a datgan y canlyniad os nad oes gornest

RHAN 3

Y Bleidlais mewn Etholiadau lle Ceir Gornest

Darpariaethau Cyffredinol

21. Y bleidlais i'w chynnal drwy bleidlais gudd
22. Y papurau pleidleisio
23. Rhestr rhifau cyfatebol
24. Y marc swyddogol
25. Gwahardd datgelu pleidlais
26. Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus
Camau i'w cymryd cyn y bleidlais
27. Hysbysiad y bleidlais
28. Papurau pleidleisio post
29. Darparu gorsafoedd pleidleisio
30. Penodi swyddogion llywyddu a chlercod
31. Dyroddi cardiau pleidleisio swyddogol
32. Cyfarpar gorsafoedd pleidleisio
33. Penodi asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif
34. Asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif: darpariaeth atodol
35. Hysbysu'r gofyniad cyfrinachedd
36. Dychwelyd papurau pleidleisio post

Y Bleidlais

37. Derbyn i'r orsaf bleidleisio
38. Cadw trefn yn yr orsaf
39. Selio blychau pleidleisio
40. Cwestiynau y caniateir eu gofyn i bleidleiswyr
41. Herio pleidleisiwr
42. Gweithdrefn pleidleisio
43. Pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy'n methu darllen: marcio pleidleisiau gan y swyddog llywyddu
44. Pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy'n methu darllen: cymorth cymdeithion
45. Pleidleisio gyda chymorth cydymaith: darpariaeth atodol
46. Papurau pleidleisio a dendrwyd: yr amgylchiadau lle maent ar gael
47. Dyletswyddau swyddogion llywyddu mewn perthynas â phapurau pleidleisio a dendrwyd
48. Papurau pleidleisio a ddifethwyd

19. Adjournment of nomination proceedings in the case of riot
Method of Election
20. Decision as to whether election contested and declaration of result if uncontested

PART 3

The Poll at Contested Elections

General Provisions

21. Poll to be taken by ballot
22. The ballot papers
23. Corresponding number list
24. The official mark
25. Prohibition of disclosure of vote
26. Use of schools and public rooms

Action to be taken before the poll

27. Notice of poll
28. Postal ballot papers
29. Provision of polling stations
30. Appointment of presiding officers and clerks
31. Issue of official poll cards
32. Equipment of polling stations
33. Appointment of polling and counting agents
34. Polling and counting agents: supplemental provision
35. Notification of requirement of secrecy
36. Return of postal ballot papers

The Poll

37. Admission to polling station
38. Keeping of order in station
39. Sealing of ballot boxes
40. Questions that may be put to voters
41. Challenge of voter
42. Voting procedure
43. Voters with a disability or unable to read: marking of votes by presiding officer
44. Voters with a disability or unable to read: assistance of companions
45. Voting with the assistance of a companion: supplemental provision
46. Tendered ballot papers: circumstances where available
47. Duties of presiding officer in relation to tendered ballot papers
48. Spoilt ballot papers

- 49. Cywiro gwallau ar ddiwrnod y bleidlais
- 50. Gohirio'r bleidlais os ceir terfysg
- 51. Y weithdrefn wrth gau'r bleidlais

RHAN 4

Cyfrif y Pleidleisiau a Datgan y Canlyniad mewn Etholiadau lle ceir Gornest

- 52. Trefniadau cyfrif y pleidleisiau
- 53. Presenoldeb wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif
- 54. Y cyfrif: camau
- 55. Y cyfrif: cyffredinol
- 56. Y cyfrif: papurau pleidleisio a wrthodwyd
- 57. Ailgyfrif
- 58. Pleidleisiau cyfartal
- 59. Penderfynu ar bapurau pleidleisio
- 60. Datgan y canlyniad

RHAN 5

Gwaredu Dogfennau

- 61. Selio papurau pleidleisio mewn etholiadau lle ceir gornest
- 62. Danfon dogfennau i'r swyddog cofrestru mewn etholiadau lle ceir gornest
- 63. Dangos etc. dogfennau
- 64. Gorchmynion i ddangos etc. dogfennau: darpariaeth atodol
- 65. Cadw a dinistrio dogfennau a anfonwyd at y swyddog cofrestru
- 66. Dinistrio ffurflenni cyfeiriad cartref gan y swyddog canlyniadau

RHAN 6

Marwolaeth Ymgeisydd

- 67. Diddymu pleidlais neu roi'r gorau iddi ar ôl i ymgeisydd farw

ATODIADAU

RHAN 1

Darpariaethau ynglŷn ag Amser

Amserlen

1.—(1) Rhaid i drafodion yr etholiad gael eu cynnal yn unol â'r amserlen a ganlyn.

- 49. Correction of errors on day of poll
- 50. Adjournment of poll in case of riot
- 51. Procedure on close of poll

PART 4

Counting of Votes and Declaration of Result at Contested Elections

- 52. Arrangements for the counting of votes
- 53. Attendance at the counting of votes
- 54. The count: steps
- 55. The count: general
- 56. The count: rejected ballot papers
- 57. Re-count
- 58. Equality of votes
- 59. Decision on ballot papers
- 60. Declaration of result

PART 5

Disposal of Documents

- 61. Sealing up of ballot papers at contested elections
- 62. Delivery of documents to registration officer at contested elections
- 63. Production etc. of documents
- 64. Orders for the production etc. of documents: supplemental provision
- 65. Retention and destruction of documents forwarded to registration officer
- 66. Destruction of home address forms by returning officer

PART 6

Death of Candidate

- 67. Countermand or abandonment of poll on death of a candidate

APPENDICES

PART 1

Provisions as to Time

Timetable

1.—(1) The proceedings at the election must be conducted in accordance with the following timetable.

Amserlen

<i>Trafodion</i>	<i>Amser</i>
Cyhoeddi hysbysiad etholiad	Dim hwyrach na'r pumed diwrnod ar hugain cyn diwrnod yr etholiad
Danfon papurau enwebu	Dim hwyrach na 4 p.m. ar y pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad
Danfon hysbysiadau tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl	Dim hwyrach na 4 p.m. ar y pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad
Cyhoeddi datganiad ynghylch y personau a enwebwyd	Dim hwyrach na 4 p.m. ar y deunawfed diwrnod cyn diwrnod yr etholiad
Hysbysiad o etholiad heb ornest Hysbysiad o bleidlais mewn etholiad lle ceir gornest	Dim hwyrach na'r chweched diwrnod cyn diwrnod yr etholiad
Pleidleisio	Rhwng 7 a.m. a 10 p.m. ar ddiwrnod yr etholiad

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys pan fo—

- (a) papur enwebu yn cael ei anfon yn electronig neu ei gyflwyno ar-lein yn unol â threfniadau a nodir yn yr hysbysiad etholiad (gweler rheol 3), neu
- (b) hysbysiad tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl o dan reol 12 yn cael ei anfon yn electronig.

(3) At ddiben penderfynu a yw'r papur neu'r hysbysiad wedi ei ddanfon yn unol â'r amserlen ym mharagraff (1), mae'r papur neu'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei ddanfon ar yr amser y mae ei ddanfon yn cael ei gofnodi ar y system gyfrifiadurol a ddefnyddir gan y swyddog canlyniadau ar gyfer derbyn y papur neu'r hysbysiad.

Timetable

<i>Proceedings</i>	<i>Time</i>
Publication of notice of election	Not later than the twenty-fifth day before the day of election
Delivery of nomination papers	Not later than 4 p.m. on the nineteenth day before the day of election
Delivery of notices of withdrawals of candidature	Not later than 4 p.m. on the nineteenth day before the day of election
Publication of statement as to persons nominated	Not later than 4 p.m. on the eighteenth day before the day of election
Notice of uncontested election Notice of poll in contested election	Not later than the sixth day before the day of election
Polling	Between the hours of 7 a.m. and 10 p.m. on the day of election

(2) Paragraph (3) applies where—

- (a) a nomination paper is sent electronically or submitted online in accordance with arrangements set out in the notice of election (see rule 3), or
- (b) a notice of withdrawal of candidature under rule 12 is sent electronically.

(3) For the purpose of determining whether the paper or notice has been delivered in accordance with the timetable in paragraph (1), the paper or notice is to be treated as having been delivered at the time when its delivery is recorded on the computer system in use by the returning officer for receiving the paper or notice.

(4) Yn y rheol hon, ystyr “diwrnod yr etholiad” yw’r diwrnod a bennwyd yn hysbysiad yr etholiad fel y diwrnod y câi pleidlais ei chynnal pe ceid gornest.

Cyfrif amser

2.—(1) Mae diwrnod eithriedig i’w ddiystyru wrth gyfrif unrhyw gyfnod a nodir yn ail golofn yr amserlen yn rheol 1.

(2) Ni chaniateir i drafodion o dan y rheolau hyn hyd at gau’r bleidlais gael eu cynnal ar ddiwrnod eithriedig.

(3) Nid yw’n ofynnol i’r swyddog canlyniadau fwrw ymlaen â chyfrif pleidleisiau ar ddiwrnod eithriedig.

RHAN 2

Hysbysiad Etholiad, Enwebu a Dull Ethol

Hysbysiad Etholiad

Hysbysiad etholiad

3.—(1) Rhaid i’r swyddog canlyniadau gyhoeddi hysbysiad o’r etholiad.

(2) Rhaid i’r hysbysiad ddatgan—

- (a) nifer y cynghorwyr sydd i’w dychwelyd ar gyfer pob ardal etholiadol,
- (b) dyddiad y bleidlais os ceir gornest,
- (c) y man lle gellir cael ffurflenni papurau enwebu a pha bryd a gwybodaeth am sut y gellir cael ffurflenni papur enwebu ar-lein a pha bryd,
- (d) yr amser hwyraf ar gyfer danfon papurau enwebu, ac
- (e) y man lle gellir danfon papurau enwebu a’r amserau pan ganiateir eu danfon i’r man hwnnw.

(3) Rhaid i’r hysbysiad ddatgan hefyd erbyn pa ddyddiad y mae’n rhaid i geisiadau am bleidleisio drwy’r post neu drwy ddirprwy, a cheisiadau a hysbysiadau eraill ynghylch pleidleisio drwy’r post neu drwy ddirprwy, gyrraedd y swyddog cofrestru er mwyn bod yn effeithiol ar gyfer yr etholiad.

(4) Rhaid i’r swyddog canlyniadau hefyd gynnwys yn yr hysbysiad ddatganiad danfon electronig.

(5) Mae datganiad danfon electronig yn ddatganiad y caniateir i bapurau enwebu gael eu danfon—

- (a) drwy eu hanfon yn electronig i gyfeiriad ebost yn unol â threfniadau a nodir yn y datganiad,
- (b) drwy eu cyflwyno ar-lein yn unol â threfniadau a nodir yn y datganiad, neu

(4) In this rule, “the day of election” means the day specified in the notice of election as the day on which a poll would take place in the event of a contest.

Computation of time

2.—(1) An excluded day is to be disregarded in calculating any period set out in the second column of the timetable in rule 1.

(2) No proceedings under these rules up to the close of the poll may take place on an excluded day.

(3) The returning officer is not required to proceed with the counting of votes on an excluded day.

PART 2

Notice of Election, Nomination and Method of Election

Notice of Election

Notice of election

3.—(1) The returning officer must publish notice of the election.

(2) The notice must state—

- (a) the number of councillors to be returned for each electoral area,
- (b) the date of the poll in the event of a contest,
- (c) the place where, and the times at which, forms of nomination paper may be obtained and information about how and when forms of nomination paper may be obtained online,
- (d) the latest time for the delivery of nomination papers, and
- (e) the place where nomination papers may be delivered and the times at which they may be delivered to that place.

(3) The notice must also state the date by which applications to vote by post or by proxy, and other applications and notices about postal or proxy voting, must reach the registration officer in order to be effective for the election.

(4) The returning officer must also include in the notice an electronic delivery statement.

(5) An electronic delivery statement is a statement that nomination papers may be delivered—

- (a) by being sent electronically to an email address in accordance with arrangements set out in the statement,
- (b) by submission online in accordance with arrangements set out in the statement, or

- (c) naill ai drwy eu hanfon yn electronig fel y crybwyllir yn is-baragraff (a) neu drwy eu cyflwyno ar-lein fel y crybwyllir yn is-baragraff (b).

Enwebu

Dyletswydd y swyddog canlyniadau i gyflenwi ffurflenni enwebu etc.

4.—(1) Yn y man ac ar yr amserau ar gyfer cael ffurflenni papurau enwebu a nodir yn hysbysiad yr etholiad, rhaid i'r swyddog canlyniadau—

- (a) cyflenwi cynifer o ffurflenni papurau enwebu i unrhyw berson ag y bydd y person yn gofyn amdanynt, a
- (b) os gwneir cais, paratoi papur enwebu i'w lofnodi.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau wneud trefniadau hefyd i sicrhau bod modd cael ffurflenni enwebu ar-lein yn unol â'r wybodaeth a roddir yn hysbysiad yr etholiad.

(3) Er hynny, nid oes angen i enwebiad gael ei wneud ar ffurflen a gyflenwir gan y swyddog canlyniadau neu a geir ar-lein.

Enwebu ymgeiswyr

5.—(1) Rhaid i ymgeisydd ei enwebu ei hun gan ddefnyddio papur enwebu yn y ffurf yn Atodiad 1, neu ffurf i'r un perwyl.

(2) Caniateir i'r papur enwebu gael ei ddanfôn naill ai—

- (a) yn y man a bennir gan y swyddog canlyniadau yn hysbysiad yr etholiad, neu
- (b) yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad danfon electronig.

(3) Rhaid i'r papur enwebu—

- (a) datgan enwau llawn yr ymgeisydd, gan osod y cyfenwau'n gyntaf,
- (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno, cynnwys disgrifiad sy'n cydymffurfio â rheol 6,
- (c) cynnwys datganiad o aelodaeth plaid sy'n cydymffurfio â rheol 8, a
- (d) cynnwys y datganiadau a nodir yn y ffurf yn Atodiad 1, wedi eu llofnodi gan yr ymgeisydd.

(4) Os yw ymgeisydd yn defnyddio'n gyffredin enwau blaen neu gyfenwau sy'n wahanol mewn unrhyw ffordd i'r enwau blaen neu'r cyfenwau a ddatgenir yn unol â pharagraff (3)(a) (gan gynnwys pan y gwahaniaeth yw defnyddio'r enwau blaen neu'r

- (c) either by being sent electronically as mentioned in sub-paragraph (a) or by submission online as mentioned in sub-paragraph (b).

Nomination

Duty of returning officer to supply forms of nomination etc.

4.—(1) At the place and times for obtaining forms of nomination paper set out in the notice of election, the returning officer must—

- (a) supply any person with as many forms of nomination paper as the person may require, and
- (b) on request, prepare a nomination paper for signature.

(2) The returning officer must also make arrangements to ensure that forms of nomination paper may be obtained online in accordance with the information given in the notice of election.

(3) It is not, however, necessary for a nomination to be made on a form supplied by the returning officer or obtained online.

Nomination of candidates

5.—(1) A candidate must nominate themselves using a nomination paper in the form in Appendix 1 or a form to the like effect.

(2) The nomination paper may be delivered either—

- (a) at the place specified by the returning officer in the notice of election, or
- (b) in accordance with the arrangements set out in the electronic delivery statement.

(3) The nomination paper must—

- (a) state the candidate's full names, with the surnames placed first,
- (b) if the candidate wishes, include a description that complies with rule 6,
- (c) include a statement of party membership that complies with rule 8, and
- (d) include the declarations set out in the form in Appendix 1, signed by the candidate.

(4) If a candidate commonly uses forenames or surnames that are different in any respect from the forenames or surnames stated in accordance with

cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin mewn trefn wahanol, cynnwys rhai o'r enwau yn unig neu gynnwys enwau ychwanegol), caniateir i'r papur enwebu hefyd ddatgan yr enwau blaen neu'r cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin.

(5) Rhaid i'r papur enwebu gael ei lofnodi gan yr ymgeisydd ym mhresenoldeb tyst sy'n gorfod tystio i'r llofnod.

(6) I gyd-fynd â'r papur enwebu rhaid cael ffurflen (“ffurflen cyfeiriad cartref”) sy'n cydymffurfio â rheol 9.

Papurau enwebu: disgrifiadau

6.—(1) Mae'r rheol hon yn nodi gofynion ynghylch y disgrifiadau y caniateir eu cynnwys mewn papur enwebu fel y crybwyllir yn rheol 5(3)(b).

(2) Caiff y disgrifiad fod naill ai—

- (a) yn ddisgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â phlaid wleidyddol gofrestredig neu â dwy neu ragor o bleidiau gwleidyddol cofrestredig ac a ganiateir o dan baragraff (3) neu (yn ôl y digwydd) paragraff (4), neu
- (b) y gair “Independent” neu'r gair “Annibynnol”, neu'r ddau air hynny.

(3) Caniateir disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â phlaid wleidyddol gofrestredig—

- (a) pan fo'r blaid yn blaid gymwys,
- (b) pan fo'r disgrifiad naill ai—
 - (i) yn enw cofrestredig y blaid neu, os yw'r blaid wedi cofrestru enw Cymraeg ac enw Saesneg, y naill neu'r llall o'r enwau hynny neu'r ddau, neu
 - (ii) yn ddisgrifiad cofrestredig i'r blaid neu, yn achos disgrifiad a gofrestrwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg, y naill neu'r llall o'r disgrifiadau hynny neu'r ddau, ac
- (c) pan fo defnydd y disgrifiad gan yr ymgeisydd wedi ei awdurdodi gan dystysgrif a ddyroddwyd gan neu ar ran swyddog enwebu cofrestredig y blaid ac a ddaeth i law'r swyddog canlyniadau cyn yr amser olaf ar gyfer danfon papurau enwebu.

(4) Caniateir disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â dwy neu ragor o bleidiau gwleidyddol cofrestredig—

- (a) pan fo pob un o'r pleidiau'n bleidiau cymwys,
- (b) pan fo'r disgrifiad yn cynnwys enw cofrestredig pob un o'r pleidiau a ddangosir yn y naill neu'r llall o'r fersiynau a ddisgrifir ym mharagraff (5) neu'r ddau, ac

paragraph (3)(a) (including where the difference is that the commonly used forenames or surnames are in a different order, include only some of the names or include additional names), the nomination paper may also state the commonly used forenames or surnames.

(5) The nomination paper must be signed by the candidate in the presence of a witness who must attest the signature.

(6) The nomination paper must be accompanied by a form (“a home address form”) that complies with rule 9.

Nomination papers: descriptions

6.—(1) This rule sets out requirements about the descriptions that may be included in a nomination paper as mentioned in rule 5(3)(b).

(2) The description may be either—

- (a) a description that is likely to lead electors to associate the candidate with a registered political party or with two or more registered political parties and is permitted under paragraph (3) or (as the case may be) paragraph (4), or
- (b) the word “Independent” or the word “Annibynnol”, or both those words.

(3) A description that is likely to lead electors to associate the candidate with a registered political party is permitted where—

- (a) the party is a qualifying party,
- (b) the description is either—
 - (i) the party's registered name or, if the party has registered a name in English and a name in Welsh, either or both of those names, or
 - (ii) a registered description of the party or, in the case of a description that has been registered in both English and Welsh, either or both of those descriptions, and

(c) the use of the description by the candidate is authorised by a certificate issued by or on behalf of the registered nominating officer of the party and received by the returning officer before the last time for the delivery of nomination papers.

(4) A description that is likely to lead electors to associate the candidate with two or more registered political parties is permitted where—

- (a) the parties are each qualifying parties,
- (b) the description consists of the registered name of each of the parties shown in either or both of the versions described in paragraph (5), and

(c) pan fo defnydd y disgrifiad gan yr ymgeisydd wedi ei awdurdodi gan dystysgrif a ddyroddwyd gan neu ar ran swyddog enwebu cofrestredig pob un o'r pleidiau ac a ddaeth i law'r swyddog canlyniadau cyn yr amser olaf ar gyfer danfon papurau enwebu.

(5) Y fersiynau y cyfeirir atynt ym mharagraff (4)(b) yw—

(a) fersiwn sy'n dangos (mewn unrhyw drefn) enwau cofrestredig y pleidiau, ynghyd ag ychwanegu unrhyw gysyllteiriau ac atalnodau priodol yn Saesneg (“y fersiwn Saesneg”);

(b) fersiwn sy'n dangos (mewn unrhyw drefn) enwau cofrestredig y pleidiau, ynghyd ag ychwanegu unrhyw gysyllteiriau ac atalnodau priodol yn Gymraeg (“y fersiwn Gymraeg”).

(6) Pan fo unrhyw un neu ragor o'r pleidiau wedi cofrestru enw Saesneg ac enw Cymraeg—

(a) caniateir i enw cofrestredig y blaid yn Saesneg (ac nid enw cofrestredig y blaid yn Gymraeg) gael ei ddefnyddio yn y fersiwn Saesneg, a

(b) caniateir i enw cofrestredig y blaid yn Gymraeg (ac nid enw cofrestredig y blaid yn Saesneg) gael ei ddefnyddio yn y fersiwn Gymraeg.

(7) Gweler hefyd reol 7 (sy'n nodi pryd a sut y caniateir ychwanegu'r gair “Wales”, “Welsh”, “Cymru” neu “Cymreig” at ddisgrifiadau a ganiateir o dan baragraff (3) neu (4)).

(8) Mae person yn euog o arfer lwgr os yw'r person hwnnw'n honni'n dwyllodrus ei fod wedi ei awdurdodi i ddyroddi dystysgrif o dan baragraff (3)(c) neu (4)(c) ar ran swyddog enwebu plaid wleidyddol gofrestrdig.

(9) Yn y rheol hon—

(a) mae cyfeiriadau at enw cofrestredig plaid wleidyddol gofrestrdig yn gyfeiriadau at enw'r blaid a gofrestrwyd o dan adran 28 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(1);

(b) mae cyfeiriadau at ddisgrifiad cofrestredig plaid wleidyddol gofrestrdig yn gyfeiriadau at ddisgrifiad o'r blaid a gofrestrwyd o dan adran 28A o'r Ddeddf honno(2).

(c) the use of the description by the candidate is authorised by a certificate issued by or on behalf of the registered nominating officer of each of the parties and received by the returning officer before the last time for the delivery of nomination papers.

(5) The versions referred to in paragraph (4)(b) are—

(a) a version showing (in any order) the parties' registered names, together with the addition of any appropriate conjunctions and punctuation in English (“the English version”);

(b) a version showing (in any order) the parties' registered names, together with the addition of any appropriate conjunctions and punctuation in Welsh (“the Welsh version”).

(6) Where any of the parties has registered a name in English and a name in Welsh—

(a) the party's registered name in English (and not the party's registered name in Welsh) may be used in the English version, and

(b) the party's registered name in Welsh (and not the party's registered name in English) may be used in the Welsh version.

(7) See also rule 7 (which sets out when and how the word “Wales”, “Welsh”, “Cymru” or “Cymreig” may be added to descriptions permitted under paragraph (3) or (4)).

(8) A person is guilty of a corrupt practice if that person fraudulently purports to be authorised to issue a certificate under paragraph (3)(c) or (4)(c) on behalf of a registered political party's nominating officer.

(9) In this rule—

(a) references to a registered name of a registered political party are to a name of the party registered under section 28 of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000(1);

(b) references to a registered description of a registered political party are to a description of the party registered under section 28A of that Act(2).

(1) 2000 p. 41. Diwygiwyd adran 28 gan adran 48 o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006.

(2) Mewnosodwyd adran 28A gan adran 49(1) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006.

(1) 2000 c. 41. Section 28 was amended by section 48 of the Electoral Administration Act 2006.

(2) Section 28A was inserted by section 49(1) of the Electoral Administration Act 2006.

(10) At ddibenion cymhwyso'r rheol hon mewn perthynas ag etholiad—

- (a) ystyr “plaid wleidyddol gofrestredig” yw plaid sydd wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ar y diwrnod sydd ddau ddiwrnod cyn y diwrnod olaf ar gyfer danfon papurau enwebu yn yr etholiad (gan ddiystyru unrhyw ddiwrnod eithriedig);
- (b) mae plaid wleidyddol gofrestredig yn blaid gymwys os yw'r plaid, ar y diwrnod hwnnw, wedi ei chofrestru mewn cysylltiad â Chymru yng nghofrestr Prydain Fawr a gynhelir o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno.

Ychwanegu “Wales”, “Welsh”, “Cymru” neu “Cymreig”

7.—(1) Mae'r rheol hon yn nodi pryd a sut y caiff ymgeisydd wneud ychwanegiadau mewn papur enwebu at ddisgrifiad y caniateir i'r ymgeisydd ei ddefnyddio o dan reol 6(3) neu (4).

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys—

- (a) pan fo enw cofrestredig yn ddisgrifiad y caniateir i'r ymgeisydd ei ddefnyddio o dan reol 6(3) neu'n ffurfio rhan o'r disgrifiad hwnnw, a
- (b) pan nad yw'r enw cofrestredig yn cynnwys yr un o'r geiriau “Wales”, “Welsh”, “Cymru” a “Cymreig”.

(3) Caiff yr ymgeisydd wneud un o'r canlynol—

- (a) ychwanegu'r gair “Wales” o flaen yr enw;
- (b) ychwanegu'r gair “Welsh” o flaen yr enw;
- (c) ychwanegu'r gair “Cymru” ar ôl yr enw;
- (d) ychwanegu'r gair “Cymreig” ar ôl yr enw.

(4) Mae paragraffau (5) a (6) yn gymwys—

- (a) pan fo enw cofrestredig yn ffurfio rhan o ddisgrifiad y caniateir i'r ymgeisydd ei ddefnyddio o dan reol 6(4), a
- (b) pan nad yw'r enw cofrestredig yn cynnwys yr un o'r geiriau “Wales”, “Welsh”, “Cymru” a “Cymreig”.

(5) Os yw'r enw cofrestredig yn y fersiwn Saesneg o'r disgrifiad (p'un a yw hefyd yn y fersiwn Gymraeg ai peidio), caiff yr ymgeisydd ychwanegu naill ai'r gair “Wales” neu'r gair “Welsh” o flaen yr enw yn y fersiwn honno.

(6) Os yw'r enw cofrestredig yn y fersiwn Gymraeg o'r disgrifiad (p'un a yw hefyd yn y fersiwn Saesneg ai peidio), caiff yr ymgeisydd ychwanegu naill ai'r gair “Cymru” neu'r gair “Cymreig” ar ôl yr enw yn y fersiwn honno.

(10) For the purposes of the application of this rule in relation to an election—

- (a) “registered political party” means a party that is registered under Part 2 of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 on the day that is two days before the last day for the delivery of nomination papers at the election (disregarding any excluded day);
- (b) a registered political party is a qualifying party if, on that day, the party is registered in respect of Wales in the Great Britain register maintained under Part 2 of that Act.

Addition of “Wales”, “Welsh”, “Cymru” or “Cymreig”

7.—(1) This rule sets out when and how a candidate may make additions in a nomination paper to a description that the candidate is permitted to use under rule 6(3) or (4).

(2) Paragraph (3) applies where—

- (a) a registered name is or forms part of a description that a candidate is permitted to use under rule 6(3), and
- (b) the registered name includes none of the words “Wales”, “Welsh”, “Cymru” and “Cymreig”.

(3) The candidate may do one of the following—

- (a) add the word “Wales” before the name;
- (b) add the word “Welsh” before the name;
- (c) add the word “Cymru” after the name;
- (d) add the word “Cymreig” after the name.

(4) Paragraphs (5) and (6) apply where—

- (a) a registered name forms part of a description that a candidate is permitted to use under rule 6(4), and
- (b) the registered name includes none of the words “Wales”, “Welsh”, “Cymru” and “Cymreig”.

(5) If the registered name is in the English version of the description (whether or not it is also in the Welsh version), the candidate may add either the word “Wales” or the word “Welsh” before the name in that version.

(6) If the registered name is in the Welsh version of the description (whether or not it is also in the English version), the candidate may add either the word “Cymru” or the word “Cymreig” after the name in that version.

(7) Mae paragraff (8) yn gymwys—

- (a) pan fo disgrifiad cofrestredig yn ddisgrifiad y caniateir i'r ymgeisydd ei ddefnyddio o dan reol 6(3) neu'n ffurfio rhan o'r disgrifiad hwnnw, a
- (b) pan nad yw'r disgrifiad cofrestredig yn cynnwys yr un o'r geiriau "Wales", "Welsh", "Cymru" a "Cymreig".

(8) Caiff yr ymgeisydd wneud un o'r canlynol—

- (a) ychwanegu'r gair "Wales" ar ddechrau'r disgrifiad cofrestredig;
- (b) ychwanegu'r gair "Welsh" ar ddechrau'r disgrifiad cofrestredig;
- (c) ychwanegu'r gair "Cymru" ar ddiwedd y disgrifiad cofrestredig;
- (d) ychwanegu'r gair "Cymreig" ar ddiwedd y disgrifiad cofrestredig.

(9) At ddibenion paragraffau (3)(a) a (b) a (5), pan fo'r gair "the" (neu unrhyw air mewn iaith arall sydd â'r un swyddogaeth â'r gair "the") yn ymddangos ar ddechrau enw cofrestredig, rhaid ei anwybyddu.

(10) Pan fo ymgeisydd yn ychwanegu unrhyw beth at ddisgrifiad mewn papur enwebu yn unol â'r rheol hon, mae cyfeiriadau yn y darpariaethau a ganlyn yn yr Atodlen hon at y disgrifiad yn gyfeiriadau at y disgrifiad gyda'r ychwanegiad.

Papurau enwebu: datganiadau aelodaeth plaid

8.—(1) Mae'r rheol hon yn nodi'r gofynion ynglŷn â datganiadau o aelodaeth plaid y mae'n rhaid eu cynnwys mewn papurau enwebu fel y crybwyllir yn rheol 5(3)(c).

(2) Rhaid i'r datganiad ddatgan a yw'r ymgeisydd wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestrdig unrhyw bryd yn ystod y cyfnod perthnasol.

(3) Os yw'r ymgeisydd wedi bod yn aelod o un neu ragor o bleidiau gwleidyddol cofrestredig unrhyw bryd yn ystod y cyfnod perthnasol, rhaid i'r datganiad hefyd gynnwys yr wybodaeth a ganlyn mewn perthynas â'r blaid neu (yn ôl y digwydd) pob un o'r pleidiau y bu'r ymgeisydd yn aelod ohoni neu ohonynt—

- (a) enw cofrestredig y blaid neu, pan fo gan y blaid ddau enw cofrestredig, enwau cofrestredig y blaid, a
- (b) y dyddiadau yn ystod y cyfnod perthnasol pan fu'r ymgeisydd yn aelod o'r blaid.

(7) Paragraph (8) applies where—

- (a) a registered description is or forms part of a description that a candidate is permitted to use under rule 6(3), and
- (b) the registered description includes none of the words "Wales", "Welsh", "Cymru" and "Cymreig".

(8) The candidate may do one of the following—

- (a) add the word "Wales" at the beginning of the registered description;
- (b) add the word "Welsh" at the beginning of the registered description;
- (c) add the word "Cymru" at the end of the registered description;
- (d) add the word "Cymreig" at the end of the registered description.

(9) For the purposes of paragraphs (3)(a) and (b) and (5), where the word "the" (or any word in another language that has the same function as the word "the") appears at the beginning of a registered name, it must be ignored.

(10) Where a candidate adds anything to a description in a nomination paper in accordance with this rule, references in the following provisions of this Schedule to the description are references to the description with the addition.

Nomination papers: statements of party membership

8.—(1) This rule sets out the requirements for statements of party membership that must be included in nomination papers as mentioned in rule 5(3)(c).

(2) The statement must state whether the candidate has been a member of any registered political party at any time during the relevant period.

(3) If the candidate has been a member of one or more registered political parties at any time during the relevant period, the statement must also include the following information in relation to the party or (as the case may be) each of the parties of which the candidate has been a member—

- (a) the party's registered name or, where the party has two registered names, the party's registered names, and
- (b) the dates during the relevant period when the candidate has been a member of the party.

(4) Nid yw paragraff (3) yn gymwys—

- (a) pan fo'r papur enwebu'n cynnwys disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â phlaid wleidyddol gofrestredig neu â dwy neu ragor o bleidiau gwleidyddol cofrestredig ac a ganiateir o dan reol 6(3) neu (yn ôl y digwydd) rheol 6(4), a
- (b) pan nad yw'r ymgeisydd wedi bod yn aelod o blaid wleidyddol gofrestredig unrhyw bryd yn ystod y cyfnod perthnasol ac eithrio'r blaid neu'r pleidiau y mae'r disgrifiad hwnnw'n ymwneud â hi neu â hwy.

(5) Mae ymgeisydd sy'n methu'n fwriadol â chynnwys yn y papur enwebu ddatganiad o aelodaeth plaid sy'n cydymffurfio â gofynion y rheol hon yn euog o arfer lwgr.

(6) Yn y rheol hon—

- (a) ystyr “plaid wleidyddol gofrestredig” yw plaid sydd wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 unrhyw bryd yn ystod y cyfnod perthnasol pan fo'r ymgeisydd yn aelod;
- (b) mae cyfeiriadau at enw cofrestredig plaid wleidyddol gofrestredig yn gyfeiriadau at enw'r blaid a gofrestrwyd o dan adran 28 o'r Ddeddf honno;
- (c) ystyr “y cyfnod perthnasol” yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben â'r diwrnod y cyhoeddir hysbysiad yr etholiad.

Ffurflenni cyfeiriad cartref

9.—(1) Mae'r rheol hon yn nodi'r gofynion ynglŷn â ffurflenni cyfeiriad cartref y mae'n rhaid iddynt gydfynd â phapurau enwebu o dan reol 5(6).

(2) Rhaid i ffurflen cyfeiriad cartref ddatgan—

- (a) enwau llawn yr ymgeisydd,
- (b) cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn llawn,
- (c) cyfeiriad neu gyfeiriadau cymwys yr ymgeisydd, a
- (d) y cymhwyster y mae pob cyfeiriad cymwys yn ymwneud ag ef.

(3) Mae cyfeiriad neu gyfeiriadau cymwys yr ymgeisydd, a'r cymhwyster y mae pob cyfeiriad cymwys yn ymwneud ag ef, yn dibynnu ar ba un neu ragor o opsiynau (a) i (d) ar y papur enwebu sydd wedi eu dewis gan yr ymgeisydd, fel y'u nodir yn y tabl a ganlyn.

(4) Paragraph (3) does not apply where—

- (a) the nomination paper includes a description that is likely to lead electors to associate the candidate with a registered political party or with two or more registered political parties and is permitted under rule 6(3) or (as the case may be) rule 6(4), and
- (b) the candidate has not at any time during the relevant period been a member of a registered political party other than the party or parties to which that description relates.

(5) A candidate who knowingly fails to include in the nomination paper a statement of party membership that complies with the requirements of this rule is guilty of a corrupt practice.

(6) In this rule—

- (a) “registered political party” means a party that is registered under Part 2 of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 at any time during the relevant period when the candidate is a member;
- (b) references to a registered name of a registered political party are to a name of the party registered under section 28 of that Act;
- (c) “the relevant period” means the period of 12 months ending with the day on which the notice of election is published.

Home address forms

9.—(1) This rule sets out the requirements for home address forms that must accompany nomination papers under rule 5(6).

(2) A home address form must state—

- (a) the candidate's full names,
- (b) the candidate's home address in full,
- (c) the candidate's qualifying address or addresses, and
- (d) the qualification to which each qualifying address relates.

(3) The candidate's qualifying address or addresses, and the qualification to which each qualifying address relates, depend on which one or more of options (a) to (d) on the nomination paper have been selected by the candidate, as set out in the following table.

<i>Yr opsiwn a ddewisir ar y papur enwebu</i>	<i>Cyfeiriad cymwys yr ymgeisydd</i>	<i>Y cymhwyster y mae cyfeiriad cymwys yr ymgeisydd yn ymwneud ag ef</i>	<i>Option selected on nomination paper</i>	<i>Candidate's qualifying address</i>	<i>Qualification to which candidate's qualifying address relates</i>
Opsiwn (a)	Y cyfeiriad llawn y mae'r ymgeisydd wedi ei gofrestru fel etholwr llywodraeth leol mewn cysylltiad ag ef	Y cymhwyster a ddisgrifir yn opsiwn (a) (cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal y cyngor cymuned)	Option (a)	The address in full in respect of which the candidate is registered as a local government elector	The qualification described in option (a) (registration as a local government elector for the area of the community council)
Opsiwn (b)	Disgrifiad a chyfeiriad y tir neu'r fangre y mae'r ymgeisydd wedi eu meddiannu fel perchennog neu denant (neu, os yw'r ymgeisydd yn dibynnu ar fwy nag un meddiant i fodloni'r cymhwyster, y disgrifiadau a'r cyfeiriadau)	Y cymhwyster a ddisgrifir yn opsiwn (b) (meddiannu tir neu fangre arall yn ardal y cyngor cymuned fel perchennog neu denant)	Option (b)	A description and the address of the land or premises that the candidate has occupied as owner or tenant (or, if the candidate is relying on more than one occupation to meet the qualification, the descriptions and addresses)	The qualification described in option (b) (occupation as owner or tenant, of land or other premises in the area of the community council)
Opsiwn (c)	Cyfeiriad gweithle'r ymgeisydd (neu, os yw'r ymgeisydd yn dibynnu ar fwy nag un gweithle i fodloni'r cymhwyster, y cyfeiriadau)	Y cymhwyster a ddisgrifir yn opsiwn (c) (prif neu unig weithle yn ardal y cyngor cymuned)	Option (c)	The address of the candidate's place of work (or, if the candidate is relying on more than one place of work to meet the qualification, the addresses)	The qualification described in option (c) (principal or only place of work in the area of the community council)

Opsiwn (d)	Y cyfeiriad neu'r cyfeiriadau llawn lle mae'r ymgeisydd wedi preswyllo	Y cymhwyster a ddisgrifir yn opsiwn (d) (preswyllo yn y gymuned neu o fewn 3 milltir iddi)
------------	--	--

(4) Os yw papur enwebu'r ymgeisydd yn cynnwys enwau blaen neu gyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin, rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref hefyd ddatgan yr enwau a ddefnyddir yn gyffredin.

(5) Rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref ddatgan hefyd—

- (a) enwau llawn y person sy'n dyst i lofnod yr ymgeisydd ar y papur enwebu, a
- (b) cyfeiriad cartref y person hwnnw yn llawn.

(6) Caiff y ffurflen cyfeiriad cartref gynnwys datganiad a wnaed ac a lofnodwyd gan yr ymgeisydd na chaniateir cyhoeddi cyfeiriad cartref yr ymgeisydd.

(7) Os yw'r ffurflen cyfeiriad cartref yn cynnwys datganiad o'r fath, mae'n rhaid iddi—

- (a) pan fo cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn y Deyrnas Unedig, ddatgan enw'r ardal berthnasol (gweler paragraff (8));
- (b) pan fo cyfeiriad cartref yr ymgeisydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ddatgan y wlad y mae wedi ei leoli ynddi.

(8) Yn y rheol hon, ystyr "ardal berthnasol" yw—

- (a) pan fo cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yng Nghymru—
 - (i) os yw'r cyfeiriad mewn sir, y sir honno;
 - (ii) os yw'r cyfeiriad mewn bwrdeistref sirol, y fwrdeistref sirol honno;
- (b) pan fo cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn Lloegr—
 - (i) os yw'r cyfeiriad mewn dosbarth y ceir cyngor dosbarth ar ei gyfer, y dosbarth hwnnw;
 - (ii) os yw'r cyfeiriad mewn sir nad oes dosbarthau â chynghorau ynddi, y sir honno;
 - (iii) os yw'r cyfeiriad yn un o fwrdeistrefi Llundain, y fwrdeistref honno yn Llundain;
 - (iv) os yw'r cyfeiriad yn Ninas Llundain (gan gynnwys y Templau Mewnol a Chanol), Dinas Llundain;
 - (v) os yw'r cyfeiriad yn Ynysoedd Sili, Ynysoedd Sili;

Option (d)	The address or addresses in full where the candidate has resided	The qualification described in option (d) (residence in the community or within 3 miles of it)
------------	--	--

(4) If the candidate's nomination paper includes commonly used forenames or surnames, the home address form must also state the commonly used names.

(5) The home address form must also state—

- (a) the full names of the person who witnesses the candidate's signature on the nomination paper, and
- (b) that person's home address in full.

(6) The home address form may contain a statement made and signed by the candidate that the candidate's home address must not be made public.

(7) If the home address form contains such a statement, it must—

- (a) where the candidate's home address is in the United Kingdom, state the name of the relevant area (see paragraph (8));
- (b) where the candidate's home address is outside the United Kingdom, state the country in which it is situated.

(8) In this rule, "relevant area" means—

- (a) where the candidate's home address is in Wales—
 - (i) if the address is within a county, that county;
 - (ii) if the address is within a county borough, that county borough;
- (b) where the candidate's home address is in England—
 - (i) if the address is within a district for which there is a district council, that district;
 - (ii) if the address is within a county in which there are no districts with councils, that county;
 - (iii) if the address is within a London borough, that London borough;
 - (iv) if the address is within the City of London (including the Inner and Middle Temples), the City of London;
 - (v) if the address is within the Isles of Scilly, the Isles of Scilly;

- (c) pan fo cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn yr Alban, yr ardal llywodraeth leol y mae'r cyfeiriad wedi ei leoli ynddi;
- (d) pan fo cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yng Ngogledd Iwerddon, y dosbarth llywodraeth leol y mae wedi ei leoli ynddo.

- (c) where the candidate's home address is in Scotland, the local government area in which the address is situated;
- (d) where the candidate's home address is in Northern Ireland, the local government district in which it is situated.

Penderfyniadau ynglŷn â dilysrwydd papurau enwebu

10.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan ddanfonir papur enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref sy'n cydfynd ag ef yn unol â'r rheolau hyn.

(2) Mae'r ymgeisydd yn dal wedi ei enwebu oni bai a hyd nes y bydd un o'r digwyddiadau a ganlyn yn digwydd—

- (a) bod y swyddog canlyniadau'n penderfynu bod y papur enwebu'n annilys;
- (b) bod y swyddog canlyniadau wedi ei fodloni bod yr ymgeisydd wedi marw;
- (c) bod yr ymgeisydd yn tynnu'n ôl.

(3) Mae gan y swyddog canlyniadau hawl i ddyfarnu bod papur enwebu'n annilys ar un o'r seiliau a ganlyn yn unig—

- (a) nad yw manylion yr ymgeisydd yn unol â gofynion y gyfraith;
- (b) nad yw ffurflen cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn cydymffurfio â rheol 9(2) i (6);
- (c) pan fo ffurflen cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn cynnwys datganiad na chaniateir cyhoeddi'r cyfeiriad cartref, nad yw'r ffurflen yn cydymffurfio â rheol 9(7);
- (d) nad yw'r papur enwebu wedi ei lofnodi gan yr ymgeisydd, neu nad yw llofnod yr ymgeisydd wedi ei ardystio, yn unol â gofynion rheol 5(5).

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid i'r swyddog canlyniadau, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i bob papur enwebu a ffurflen cyfeiriad cartref gael eu danfon, eu harchwilio a phenderfynu a yw'r ymgeisydd wedi ei enwebu'n ddilys.

(5) Os oes disgrifiad mewn papur enwebu wedi ei gynnwys ym marn y swyddog canlyniadau yn groes i reol 6(3) neu (4) neu 7, rhaid i'r swyddog canlyniadau roi penderfyniad nad yw manylion yr ymgeisydd yn unol â gofynion y gyfraith —

- (a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r papur enwebu gael ei ddanfon, a
- (b) beth bynnag, cyn diwedd y cyfnod o 24 awr sy'n dechrau â diwedd y cyfnod ar gyfer danfon papurau enwebu.

Decisions as to validity of nomination papers

10.—(1) This rule applies where a nomination paper and the accompanying home address form are delivered in accordance with these rules.

(2) The candidate stands nominated unless and until one of the following events occurs—

- (a) the returning officer decides that the nomination paper is invalid;
- (b) the returning officer is satisfied that the candidate has died;
- (c) the candidate withdraws.

(3) The returning officer is entitled to hold a nomination paper invalid only on one of the following grounds—

- (a) that the particulars of the candidate are not as required by law;
- (b) that the candidate's home address form does not comply with rule 9(2) to (6);
- (c) where the candidate's home address form contains a statement that the home address must not be made public, that the form does not comply with rule 9(7);
- (d) that the nomination paper is not signed by the candidate, or that the candidate's signature has not been attested, as required by rule 5(5).

(4) Subject to paragraph (5), the returning officer must, as soon as reasonably practicable after each nomination paper and home address form have been delivered, examine them and decide whether the candidate has been validly nominated.

(5) If in the opinion of the returning officer a description in a nomination paper has been included in breach of rule 6(3) or (4) or 7, the returning officer must give a decision that the candidate's particulars are not as required by law—

- (a) as soon as reasonably practicable after the delivery of the nomination paper, and
- (b) in any event, before the end of the period of 24 hours beginning with the close of the period for delivery of nomination papers.

(6) Pan fo'r swyddog canlyniadau'n penderfynu bod papur enwebu'n annilys, rhaid i'r swyddog canlyniadau arnodi ar y papur y ffaith bod y penderfyniad wedi ei wneud a'r rhesymau drosto a llofnodi'r arnodiad.

(7) Rhaid i'r swyddog canlyniadau roi hysbysiad i bob ymgeisydd yn datgan penderfyniad y swyddog canlyniadau a yw papur enwebu'r ymgeisydd yn ddilys ynteu'n annilys.

(8) Mae penderfyniad y swyddog canlyniadau bod papur enwebu yn ddilys yn derfynol ac ni chaniateir ei amau mewn unrhyw achos.

(9) Ac eithrio fel y darperir gan baragraff (8), nid oes dim yn y rheol hon yn atal dilysrwydd enwebiad rhag cael ei amau ar ddeiseb etholiad.

Enwebu mewn mwy nag un ardal etholiadol

11.—(1) Rhaid i ymgeisydd sydd wedi ei enwebu'n ddilys ar gyfer mwy nag un ardal etholiadol yn yr un gymuned dynnu'n ôl o ymgeisyddiaeth yn yr holl ardaloedd etholiadol hynny ond un.

(2) Mae ymgeisydd nad yw'n tynnu'n ôl yn unol â gofynion paragraff (1) i'w drin fel pe bai wedi tynnu'n ôl o ymgeisyddiaeth yn yr holl ardaloedd etholiadol lle cafodd yr ymgeisydd ei enwebu'n ddilys.

Ymgeiswyr yn tynnu'n ôl

12.—(1) Caiff ymgeisydd dynnu'n ôl o ymgeisyddiaeth drwy roi hysbysiad tynnu'n ôl i'r swyddog canlyniadau.

(2) Rhaid i'r hysbysiad tynnu'n ôl gael ei lofnodi gan yr ymgeisydd ym mhresenoldeb tyst sy'n gorfod tystio i lofnod yr ymgeisydd.

Cyhoeddi datganiad o'r personau a enwebwyd

13.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau baratoi a chyhoeddi datganiad ("datganiad o'r personau a enwebwyd") yn dangos—

- (a) y personau a enwebwyd ac sy'n dal wedi eu henwebu, a
- (b) unrhyw bersonau eraill a enwebwyd ond nad ydynt yn dal wedi eu henwebu mwyach, gyda'r rheswm nad ydynt yn dal wedi eu henwebu mwyach.

(2) Rhaid i'r datganiad ddangos—

- (a) enwau a disgrifiadau (os oes rhai) y personau a enwebwyd, fel y'u rhoddwyd yn eu papurau enwebu,
- (b) yr wybodaeth am eu cyfeiriad cartref (gweler paragraff (3)), ac

(6) Where the returning officer decides that a nomination paper is invalid, the returning officer must endorse on the paper the fact of the decision and the reasons for it and sign the endorsement.

(7) The returning officer must give a notice to each candidate stating the returning officer's decision as to whether the candidate's nomination paper is valid or invalid.

(8) The returning officer's decision that a nomination paper is valid is final and may not be questioned in any proceedings.

(9) Except as provided by paragraph (8), nothing in this rule prevents the validity of a nomination being questioned on an election petition.

Nomination in more than one electoral area

11.—(1) A candidate who is validly nominated for more than one electoral area of the same community must withdraw from candidature in all those electoral areas except one.

(2) A candidate who does not withdraw as required by paragraph (1) is to be treated as having withdrawn from candidature in all the electoral areas in which the candidate was validly nominated.

Withdrawal of candidates

12.—(1) A candidate may withdraw from candidature by giving a notice of withdrawal to the returning officer.

(2) The notice of withdrawal must be signed by the candidate in the presence of a witness who must attest the candidate's signature.

Publication of statement of persons nominated

13.—(1) The returning officer must prepare and publish a statement (a "statement of persons nominated") showing—

- (a) the persons who have been and stand nominated, and
- (b) any other persons who have been nominated but no longer stand nominated, with the reason why they no longer stand nominated.

(2) The statement must show—

- (a) the names and descriptions (if any) of the persons nominated, as given in their nomination papers,
- (b) their home address information (see paragraph (3)), and

- (c) yr wybodaeth a gynhwyswyd yn eu datganiadau o aelodaeth plaid, fel y'i rhoddwyd yn eu papurau enwebu.

(3) Yn y rheolau hyn, mae cyfeiriadau at yr wybodaeth am gyfeiriad cartref person a enwebwyd yn gyfeiriadau at yr wybodaeth a ganlyn fel y'i rhoddwyd yn y ffurflen cyfeiriad cartref sy'n cyd-fynd â'r papur enwebu—

- (a) pan fo'r ffurflen cyfeiriad cartref yn cynnwys datganiad na chaniateir cyhoeddi'r cyfeiriad cartref, yr wybodaeth a roddwyd yn unol â rheol 9(7);
- (b) pan nad yw'r ffurflen cyfeiriad cartref yn cynnwys datganiad o'r fath, cyfeiriad y person a enwebwyd.

(4) Rhaid i'r datganiad ddangos y personau sy'n dal wedi eu henwebu yn nhrefn yr wyddor yn ôl eu cyfenwau, ac os oes gan ddau neu ragor ohonynt yr un cyfenwau, rhaid i'r datganiad ddangos y personau hynny yn nhrefn yr wyddor yn ôl eu henwau eraill.

(5) Mae rheol 14 (defnyddio enwau a ddefnyddir yn gyffredin) a rheol 15 (enwau sydd yr un fath neu'n debyg) yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch cynnwys y datganiad o'r personau a enwebwyd.

Defnyddio enwau a ddefnyddir yn gyffredin yn y datganiad o'r personau a enwebwyd

14.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan fo papur enwebu person yn rhoi enwau blaen neu gyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin yn unol â rheol 5(4).

(2) Rhaid i'r datganiad o'r personau a enwebwyd ddangos enwau blaen neu gyfenwau'r person a ddefnyddir yn gyffredin (yn hytrach na'r enwau blaen neu'r cyfenwau a ddatganwyd yn y papur enwebu yn unol â rheol 5(3)(a)) oni bai bod y swyddog canlyniadau'n penderfynu—

- (a) y gallai defnyddio enwau blaen neu gyfenwau'r person a ddefnyddir yn gyffredin fod yn debygol o gamarwain neu ddrysus etholwyr, neu
- (b) bod yr enwau blaen neu'r cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin yn anwedus neu'n dramgwyddus.

(3) Pan fo paragraff (2)(a) neu (b) yn gymwys—

- (a) rhaid i'r datganiad o'r personau a enwebwyd ddangos enwau blaen neu gyfenwau eraill y person fel y'u datganwyd yn y papur enwebu yn unol â rheol 5(3)(a) (yn hytrach na'r enwau blaen neu'r cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin), a

- (c) the information contained in their statements of party membership, as given in their nomination papers.

(3) In these rules, references to the home address information of a person nominated are to the following information as given in the home address form accompanying the nomination paper—

- (a) where the home address form contains a statement that the home address must not be made public, the information given in accordance with rule 9(7);
- (b) where the home address form does not contain such a statement, the address of the person nominated.

(4) The statement must show the persons standing nominated arranged alphabetically in the order of their surnames, and if there are two or more of them with the same surnames, the statement must show those persons arranged alphabetically in the order of their other names.

(5) Rule 14 (use of commonly used names) and rule 15 (names that are the same or similar) make further provision about the content of the statement of persons nominated.

Use of commonly used names in statement of persons nominated

14.—(1) This rule applies where a person's nomination paper gives commonly used forenames or surnames in accordance with rule 5(4).

(2) The statement of persons nominated must show the person's commonly used forenames or surnames (instead of the forenames or surnames stated in the nomination paper in accordance with rule 5(3)(a)) unless the returning officer decides—

- (a) that the use of the person's commonly used forenames or surnames may be likely to mislead or confuse electors, or
- (b) that the commonly used forenames or surnames are obscene or offensive.

(3) Where paragraph (2)(a) or (b) applies—

- (a) the statement of persons nominated must show the person's other forenames or surnames as stated in the nomination paper in accordance with rule 5(3)(a) (instead of the commonly used forenames or surnames), and

- (b) rhaid i'r swyddog canlyniadau roi hysbysiad i'r ymgeisydd yn datgan y rhesymau dros wrthod caniatáu defnyddio'r enwau blaen neu'r cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin.

Enwau sydd yr un fath neu'n debyg

15.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan fo'r swyddog canlyniadau, wrth baratoi datganiad o'r personau a enwebwyd, yn penderfynu—

- (a) bod dau neu ragor o'r enwau a fyddai'n cael eu dangos ar y datganiad yr un fath neu mor debyg nes eu bod yn debygol o beri dryswch,
- (b) bod pob un o'r personau dan sylw wedi gwneud datganiad eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i'w cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi (gweler rheol 9(6)), ac
- (c) bod yr wybodaeth a roddwyd yn unol â rheol 9(7) yr un fath ar gyfer pob un ohonynt.

(2) Caiff y swyddog canlyniadau drefnu i unrhyw un neu ragor o'u manylion gael eu dangos ar y datganiad o'r personau a enwebwyd gydag unrhyw ddiwygiadau neu ychwanegiadau sy'n briodol ym marn y swyddog canlyniadau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o ddryswch.

(3) Wrth benderfynu a ddylid gwneud diwygiadau neu ychwanegiadau o dan y rheol hon, rhaid i'r swyddog canlyniadau roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan y Comisiwn Etholiadol at ddibenion y rheol hon.

(4) Pan fo'n ymarferol gwneud hynny cyn cyhoeddi'r datganiad, rhaid i'r swyddog canlyniadau ymgynghori ag unrhyw bersonau y bwriedir diwygio'u manylion neu ychwanegu at eu manylion o dan y rheol hon.

(5) Rhaid i'r swyddog canlyniadau roi hysbysiad i unrhyw berson y diwygiwyd ei fanylion neu yr ychwanegwyd at ei fanylion o dan y rheol hon, yn nodi'r diwygiadau neu'r ychwanegiadau.

(6) Ni chaniateir i unrhyw beth a wneir gan swyddog canlyniadau o dan y rheol hon gael ei amau mewn unrhyw achos heblaw achos ar ddeiseb etholiad.

Cywiro mân wallau mewn papur enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref

16.—(1) Caiff swyddog canlyniadau, unrhyw bryd cyn cyhoeddi'r datganiad o'r personau a enwebwyd, gywiro mân wallau mewn papur enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref.

(2) Mae'r gwallau y caniateir eu cywiro yn cynnwys—

- (a) gwallau o ran rhif etholiadol person;

- (b) the returning officer must give a notice to the candidate stating the reasons for refusing to allow the use of the commonly used forenames or surnames.

Names that are the same or similar

15.—(1) This rule applies where, in preparing a statement of persons nominated, the returning officer decides that—

- (a) two or more of the names that would be shown on the statement are the same or so similar as to be likely to cause confusion,
- (b) each of the persons concerned has made a statement that they require their home address not to be made public (see rule 9(6)), and
- (c) the information given in accordance with rule 9(7) is the same for each of them.

(2) The returning officer may arrange for any of their particulars to be shown on the statement of persons nominated with such amendments or additions as the returning officer thinks appropriate to reduce the likelihood of confusion.

(3) In deciding whether to make amendments or additions under this rule, the returning officer must have regard to any guidance given by the Electoral Commission for the purposes of this rule.

(4) Where it is practicable to do so before the publication of the statement, the returning officer must consult any persons whose particulars are to be amended or added to under this rule.

(5) The returning officer must give a notice to any person whose particulars are amended or added to under this rule, setting out the amendments or additions.

(6) Anything done by a returning officer under this rule may not be questioned in any proceedings other than proceedings on an election petition.

Correction of minor errors in a nomination paper or home address form

16.—(1) A returning officer may, at any time before the publication of the statement of persons nominated, correct minor errors in a nomination paper or home address form.

(2) Errors which may be corrected include—

- (a) errors as to a person's electoral number;

- (b) gwallau sillafu amlwg;
- (c) gwallau o ran yr wybodaeth a roddwyd yn unol â rheol 9(7) (gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys pan fo'r ymgeisydd wedi datgan na chaniateir cyhoeddi'r cyfeiriad cartref).

(3) Ni chaniateir i unrhyw beth a wneir gan swyddog canlyniadau yn unol â'r rheol hon gael ei amau mewn unrhyw achos heblaw achos ar ddeiseb etholiad.

(4) Wrth benderfynu a ddylid cywiro mân wallau o dan y rheol hon, rhaid i swyddog canlyniadau roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan y Comisiwn Etholiadol at ddibenion y rheol hon.

Archwilio papurau enwebu

17.—(1) Yn ystod yr amser ar gyfer archwilio, caiff unrhyw berson archwilio papurau enwebu sydd wedi eu danfon.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr “yr amser ar gyfer archwilio” yw oriau swyddfa arferol ar unrhyw ddiwrnod ar ôl y diwrnod olaf ar gyfer danfon papurau enwebu a chyn diwrnod y bleidlais, ac eithrio diwrnod eithriedig.

(3) Caiff person sy'n archwilio papurau enwebu gymryd copi o'r papurau, neu godi dyfyniadau ohonynt.

Archwilio ffurflenni cyfeiriad cartref

18.—(1) Yn ystod yr amser ar gyfer archwilio, caniateir i ffurflen cyfeiriad cartref ymgeisydd sy'n dal wedi ei enwebu gael ei harchwilio gan unrhyw un neu ragor o'r canlynol sy'n dymuno ei harchwilio—

- (a) ymgeisydd arall sy'n dal wedi ei enwebu yn yr un ardal etholiadol;
- (b) asiant etholiadol (os penodwyd un) ymgeisydd arall sy'n dal wedi ei enwebu yn yr ardal honno;
- (c) yn achos ymgeisydd arall sy'n dal wedi ei enwebu yn yr ardal honno ac sydd heb benodi asiant etholiadol, person arall a ddewisir gan yr ymgeisydd hwnnw.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr “yr amser ar gyfer archwilio” yw oriau swyddfa arferol ar unrhyw ddiwrnod ar ôl y diwrnod olaf ar gyfer danfon papurau enwebu a chyn diwrnod y bleidlais, ac eithrio diwrnod eithriedig.

(3) Ni chaiff ymgeisydd neu berson arall sy'n cynnal archwiliad o dan y rheol hon gymryd copi o ffurflen cyfeiriad cartref na chodi dyfyniadau ohoni.

(4) Ni chaiff y swyddog canlyniadau ganiatáu i ffurflen cyfeiriad cartref gael ei harchwilio heblaw yn unol â'r rheol hon neu at ryw ddiben arall a awdurdodir gan y gyfraith.

- (b) obvious errors of spelling;
- (c) errors as to the information given in accordance with rule 9(7) (information that must be included where the candidate has stated that the home address must not be made public).

(3) Anything done by a returning officer in pursuance of this rule may not be questioned in any proceedings other than proceedings on an election petition.

(4) In deciding whether to correct minor errors under this rule, a returning officer must have regard to any guidance given by the Electoral Commission for the purposes of this rule.

Inspection of nomination papers

17.—(1) During the time for inspection, any person may inspect nomination papers that have been delivered.

(2) In paragraph (1), “the time for inspection” means ordinary office hours on any day after the last day for the delivery of nomination papers and before the day of the poll, other than an excluded day.

(3) A person inspecting nomination papers may take a copy of, or make extracts from, the papers.

Inspection of home address forms

18.—(1) During the time for inspection, the home address form of a candidate standing nominated may be inspected by any of the following who wish to inspect it—

- (a) another candidate standing nominated in the same electoral area;
- (b) the election agent (if appointed) of another candidate standing nominated in that area;
- (c) in the case of another candidate standing nominated in that area who has not appointed an election agent, another person selected by that candidate.

(2) In paragraph (1), “the time for inspection” means ordinary office hours on any day after the last day for the delivery of nomination papers and before the day of the poll, other than an excluded day.

(3) A candidate or other person carrying out an inspection under this rule must not take a copy of, or make extracts from, a home address form.

(4) The returning officer must not permit a home address form to be inspected otherwise than in accordance with this rule or for some other purpose authorised by law.

Gohirio trafodion enwebu os ceir terfysg

19.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys os torrir ar draws trafodion ar gyfer enwebu, neu mewn cysylltiad ag enwebu, neu os rhwystrir y trafodion hynny, ar unrhyw ddiwrnod gan derfysg neu drais agored.

(2) Rhaid rhoi'r gorau i'r trafodion am y diwrnod hwnnw.

(3) Os y diwrnod olaf ar gyfer danfon papurau enwebu yw'r diwrnod y rhoddir y gorau i'r trafodion, rhaid ailddechrau'r trafodion drannoeth.

(4) Pan fo paragraff (3) yn ei gwneud yn ofynnol bod y trafodion yn ailddechrau drannoeth, mae'r dyddiadau cau a bennir yn ail golofn yr amserlen yn rheol 1 ar gyfer danfon papurau enwebu, danfon hysbysiadau tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl a chyhoeddi'r datganiad o'r personau a enwebwyd i gyd yn cael eu hymestyn un diwrnod.

(5) Pan roddir y gorau i drafodion o dan y rheol hon—

- (a) ni chaniateir i ddim byd gael ei wneud ar ôl ailddechrau'r trafodion os oedd yr amser ar gyfer ei wneud wedi mynd heibio pan roddwyd y gorau i'r trafodion, a
- (b) nid yw dim byd a wnaed cyn rhoi'r gorau i'r trafodion yn annyls oherwydd rhoi'r gorau iddynt.

Dull Ethol

Penderfynu a oes gornest yn yr etholiad a datgan y canlyniad os nad oes gornest

20.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau benderfynu a yw nifer y personau sy'n dal wedi eu henwebu'n ddilys ar gyfer yr ardal etholiadol ar ôl i unrhyw un neu ragor dynnu'n ôl o dan reol 12 yn fwy na nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol.

(2) Os nad yw nifer y personau sy'n dal wedi eu henwebu'n ddilys yn fwy na nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol, rhaid i'r swyddog canlyniadau ddatgan bod y person neu'r personau sy'n dal wedi ei enwebu neu eu henwebu'n ddilys wedi ei ethol neu wedi eu hethol.

(3) Rhaid hefyd i'r swyddog canlyniadau—

- (a) rhoi hysbysiad yn datgan enwau a chyfeiriadau'r rhai y datganwyd eu bod wedi eu hethol—
 - (i) i swyddog priodol y cyngor cymuned, a
 - (ii) i swyddog priodol y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y lleolir y gymuned ynddo, a
- (b) cyhoeddi eu henwau.

Adjournment of nomination proceedings in the case of riot

19.—(1) This rule applies if proceedings for, or in connection with, nomination are interrupted or obstructed on any day by riot or open violence.

(2) The proceedings must be abandoned for that day.

(3) If the day on which the proceedings are abandoned is the last day for the delivery of nomination papers, the proceedings must be resumed on the next day.

(4) Where paragraph (3) requires proceedings to be resumed on the next day, the deadlines specified in the second column of the timetable in rule 1 for the delivery of nomination papers, the delivery of notices of withdrawals of candidature and the publication of the statement as to persons nominated are each extended by one day.

(5) Where proceedings are abandoned under this rule—

- (a) nothing may be done after the proceedings are resumed if the time for doing it had passed when the proceedings were abandoned, and
- (b) nothing done before the proceedings were abandoned is invalidated by reason of the abandonment.

Method of Election

Decision as to whether election contested and declaration of result if uncontested

20.—(1) The returning officer must determine whether the number of persons remaining validly nominated for the electoral area after any withdrawals under rule 12 exceeds the number of councillors to be elected.

(2) If the number of persons remaining validly nominated does not exceed the number of councillors to be elected, the returning officer must declare the person or persons standing validly nominated to be elected.

(3) The returning officer must also—

- (a) give a notice stating the names and addresses of those declared to be elected—
 - (i) to the proper officer of the community council, and
 - (ii) to the proper officer of the council of the county or county borough in which the community is situated, and
- (b) publish their names.

(4) Os yw nifer y personau sy'n dal wedi eu henwebu'n ddilys yn fwy na nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol, rhaid cynnal pleidlais yn unol â Rhan 3.

RHAN 3

Y Bleidlais mewn Etholiadau lle Ceir Gornest

Darpariaethau Cyffredinol

Y bleidlais i'w chynnal drwy bleidlais gudd

21.—(1) Rhaid i'r pleidleisiau yn y bleidlais gael eu rhoi drwy bleidlais gudd.

(2) Rhaid canfod y canlyniad yn unol â Rhan 4 (cyfrif y pleidleisiau).

Y papurau pleidleisio

22.—(1) Rhaid i bleidlais gudd pob pleidleisiwr fod yn bapur pleidleisio.

(2) Yr unig bersonau sydd â hawl i gael eu henwau wedi eu gosod ar y papur pleidleisio yw'r rhai sy'n dal wedi eu henwebu'n ddilys ar gyfer yr ardal etholiadol ar ôl i unrhyw un neu ragor dynnu'n ôl o dan reol 12.

(3) Rhaid i bapur pleidleisio—

- (a) bod yn y ffurf yn Atodiad 2, a
- (b) bod wedi ei argraffu yn unol â'r cyfarwyddydau yn yr Atodiad hwnnw.

(4) Rhaid i'r papur pleidleisio—

- (a) cynnwys enwau a disgrifiadau (os oes rhai) yr ymgeiswyr a'r wybodaeth am eu cyfeiriad cartref, fel y'u dangoswyd yn y datganiad o'r personau a enwebwyd,
- (b) gallu cael ei blygu, ac
- (c) bod â rhif a marc adnabod unigryw arall wedi eu hargraffu ar y cefn.

(5) Ar gais ymgeisydd sydd wedi ei awdurdodi o dan reol 6(3)(c) i ddefnyddio disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â phlaidd wleidyddol gofrestredig, rhaid i'r papur pleidleisio gynnwys, gyferbyn â manylion yr ymgeisydd, un arwyddlun cofrestredig i'r blaidd.

(6) Ar gais ymgeisydd sydd wedi ei awdurdodi o dan reol 6(4)(c) i ddefnyddio disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â dwy neu ragor o bleidiau gwleidyddol cofrestredig, rhaid i'r papur pleidleisio gynnwys, gyferbyn â manylion yr ymgeisydd, un arwyddlun cofrestredig i un o'r pleidiau.

(4) If the number of persons remaining validly nominated exceeds the number of councillors to be elected, a poll must be taken in accordance with Part 3.

PART 3

The Poll at Contested Elections

General Provisions

Poll to be taken by ballot

21.—(1) The votes at the poll must be given by ballot.

(2) The result must be ascertained in accordance with Part 4 (counting of votes).

The ballot papers

22.—(1) The ballot of every voter must consist of a ballot paper.

(2) The only persons entitled to have their names inserted on the ballot paper are those remaining validly nominated for the electoral area after any withdrawals under rule 12.

(3) A ballot paper must be—

- (a) in the form in Appendix 2, and
- (b) printed in accordance with the directions in that Appendix.

(4) The ballot paper must—

- (a) contain the names and descriptions (if any) of the candidates and their home address information, as shown in the statement of persons nominated,
- (b) be capable of being folded up, and
- (c) have a number and other unique identifying mark printed on the back.

(5) At the request of a candidate who is authorised under rule 6(3)(c) to use a description likely to lead electors to associate the candidate with a registered political party, the ballot paper must contain, against the candidate's particulars, one registered emblem of the party.

(6) At the request of a candidate who is authorised under rule 6(4)(c) to use a description likely to lead electors to associate the candidate with two or more registered political parties, the ballot paper must contain, against the candidate's particulars, one registered emblem of one of the parties.

(7) Rhaid i gais yr ymgeisydd o dan baragraff (5) neu (6)—

- (a) cael ei wneud mewn ysgrifen i'r swyddog canlyniadau, a
- (b) dod i law'r swyddog canlyniadau cyn yr amser olaf ar gyfer danfon papurau enwebu fel y'i nodir yn yr amserlen yn rheol 1.

(8) Rhaid i drefn yr enwau yn y papur pleidleisio fod yr un fath ag yn y datganiad o'r personau a enwebwyd.

Rhestr rhifau cyfatebol

23.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau baratoi rhestr (“y rhestr rhifau cyfatebol”) yn unol â'r rheol hon.

(2) Rhaid i'r rhestr rhifau cyfatebol fod mewn dwy ran.

(3) Rhaid i Ran 1 gynnwys rhifau a marciau adnabod unigryw yr holl bapurau pleidleisio sydd i'w dyroddi yn unol â rheol 28(1) (papurau pleidleisio post).

(4) Rhaid i Ran 2 gynnwys rhifau (ond nid marciau adnabod unigryw) yr holl bapurau pleidleisio sydd i'w darparu yn unol â rheol 32(1) (darparu blychau pleidleisio a phapurau pleidleisio mewn gorsafoddedd pleidleisio).

(5) Rhaid i'r rhestr rhifau cyfatebol fod yn y ffurf a nodir yn Atodiad 3 neu ffurf i'r un perwyl.

Y marc swyddogol

24.—(1) Rhaid i bob papur pleidleisio gynnwys marc diogelwch priodol (“y marc swyddogol”).

(2) Rhaid cadw'r marc swyddogol yn gyfrinachol.

(3) Rhaid i gyfnod o ddim llai na phum mlynedd fynd heibio rhwng defnyddio'r un marc swyddogol mewn etholiadau ar gyfer yr un gymuned.

(4) Caiff y swyddog canlyniadau ddefnyddio marc swyddogol gwahanol at ddibenion gwahanol yn yr un etholiad.

Gwahardd datgelu pleidlais

25. Ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol i berson sydd wedi pleidleisio yn yr etholiad ddatgan dros bwy y pleidleisiodd mewn unrhyw achos cyfreithiol i amau'r etholiad.

Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus

26.—(1) Caiff y swyddog canlyniadau ddefnyddio unrhyw un neu ragor o'r ystafelloedd a ganlyn yn rhad ac am ddim er mwyn cynnal y bleidlais neu gyfrif y pleidleisiau—

(7) The candidate's request under paragraph (5) or (6) must be—

(a) made in writing to the returning officer, and

(b) received by the returning officer before the last time for the delivery of nomination papers as set out in the timetable in rule 1.

(8) The order of the names in the ballot paper must be the same as in the statement of persons nominated.

Corresponding number list

23.—(1) The returning officer must prepare a list (“the corresponding number list”) in accordance with this rule.

(2) The corresponding number list must be in two parts.

(3) Part 1 must contain the numbers and unique identifying marks of all ballot papers to be issued in pursuance of rule 28(1) (postal ballot papers).

(4) Part 2 must contain the numbers (but not the unique identifying marks) of all ballot papers to be provided in pursuance of rule 32(1) (provision of ballot boxes and ballot papers at polling stations).

(5) The corresponding number list must be in the form set out in Appendix 3 or a form to the like effect.

The official mark

24.—(1) Each ballot paper must contain an appropriate security marking (“the official mark”).

(2) The official mark must be kept secret.

(3) An interval of not less than five years must intervene between the use of the same official mark at elections for the same community.

(4) The returning officer may use a different official mark for different purposes at the same election.

Prohibition of disclosure of vote

25. A person who has voted at the election may not be required to state for whom they voted in any legal proceedings to question the election.

Use of schools and public rooms

26.—(1) The returning officer may use any of the following rooms free of charge for the purpose of taking the poll or counting the votes—

- (a) ystafell mewn ysgol a gynhelir neu a gynorthwyr gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;
- (b) ystafell mewn ysgol y mae grantiau'n cael eu rhoi mewn cysylltiad â hi o arian a ddarperir gan Senedd Cymru i'r person neu'r corff sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol;
- (c) unrhyw ystafell arall os yw cost cynnal a chadw'r ystafell yn daladwy yn gyfan gwbl neu'n bennaf o arian cyhoeddus.

(2) Pan ddefnyddir ystafell a ddisgrifir ym mharagraff (1) er mwyn cynnal y bleidlais neu gyfrif y pleidleisiau, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau—

- (a) cywiro unrhyw ddifrod i'r ystafell sy'n deillio o'i defnyddio at y diben hwnnw, a
- (b) talu unrhyw gost a ysgwyddir gan y person neu'r corff sydd â rheolaeth dros yr ystafell oherwydd ei defnyddio at y diben hwnnw.

Camau i'w cymryd cyn y bleidlais

Hysbysiad y bleidlais

27.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau gyhoeddi hysbysiad o'r bleidlais yn datgan—

- (a) y diwrnod a'r oriau a bennwyd ar gyfer y bleidlais,
- (b) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros yr ardal etholiadol, ac
- (c) enwau a disgrifiadau (os oes rhai) pob ymgeisydd sy'n dal wedi ei enwebu'n ddilys a'r wybodaeth am eu cyfeiriad cartref.

(2) Rhaid i fanylion yr ymgeiswyr, a threfn enwau'r ymgeiswyr, fod yr un fath ag yn y datganiad o'r personau a enwebwyd.

(3) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, cyn cyhoeddi hysbysiad o'r bleidlais, neu yr un pryd, hefyd gyhoeddi hysbysiad—

- (a) o safle pob gorsaf bleidleisio, a
- (b) o'r disgrifiad o bleidleiswyr sydd â hawl i bleidleisio yno.

(4) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi hysbysiad o dan baragraff (3), roi copi ohono i bob un o'r ymgeiswyr neu i'w hasiantau etholiadol (os penodwyd rhai).

- (a) a room in a school maintained or assisted by a county or county borough council;
- (b) a room in a school in respect of which grants are made out of money provided by Senedd Cymru to the person or body responsible for the management of the school;
- (c) any other room if the expense of maintaining the room is payable wholly or mainly out of public funds.

(2) Where a room described in paragraph (1) is used for the purpose of taking the poll or counting the votes, the returning officer must—

- (a) make good any damage to the room resulting from its use for that purpose, and
- (b) defray any expense incurred by the person or body having control over the room by reason of its use for that purpose.

Action to be taken before the poll

Notice of poll

27.—(1) The returning officer must publish notice of the poll stating—

- (a) the day and hours fixed for the poll,
- (b) the number of councillors to be elected for the electoral area, and
- (c) the names and descriptions (if any) of each candidate remaining validly nominated and their home address information.

(2) The candidates' particulars, and the order of the candidates' names, must be the same as in the statement of persons nominated.

(3) The returning officer must, before or at the same time as publishing notice of the poll, also publish notice of—

- (a) the situation of each polling station, and
- (b) the description of voters entitled to vote there.

(4) The returning officer must, as soon as practicable after publishing notice under paragraph (3), give a copy of it to each of the candidates or to their election agents (if appointed).

Papurau pleidleisio post

28.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, yn unol â rheoliadau o dan Ddeddf 1983(1), ddyroddi i'r rhai sydd â hawl i bleidleisio drwy'r post—

- (a) papur pleidleisio,
- (b) datganiad pleidleisio post yn y ffurf a nodir yn Atodiad 4 neu ffurf i'r un perwyl, ac
- (c) unrhyw amlenni ar gyfer dychwelyd y papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio post a ragnodir gan reoliadau o dan Ddeddf 1983.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd ddyroddi i'r rhai sydd â hawl i bleidleisio drwy'r post unrhyw wybodaeth y mae'r swyddog canlyniadau o'r farn ei bod yn briodol ynghylch sut i gael—

- (a) cyfieithiadau i ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg o unrhyw gyfarwyddydau neu ganllawiau i bleidleiswyr a anfonir gyda'r papur pleidleisio,
- (b) cyfieithiad i Braille o'r cyfarwyddydau neu'r canllawiau hynny,
- (c) delweddau graffig o'r cyfarwyddydau neu'r canllawiau hynny, a
- (d) y cyfarwyddydau neu'r canllawiau ar unrhyw ffurf arall (gan gynnwys unrhyw ffurf glywadwy).

(3) Rhaid i'r datganiad pleidleisio post gynnwys darpariaeth—

- (a) i'r ffurflen gael ei llofnodi gan yr etholwr neu, pan fo'r etholwr yn pleidleisio drwy ddirprwy, gan y dirprwy, oni bai bod y swyddog cofrestru wedi hepgor y gofyniad ynglŷn â llofnod, a
- (b) ar gyfer datgan dyddiad geni'r etholwr neu, pan fo'r etholwr yn pleidleisio drwy ddirprwy, dyddiad geni'r dirprwy.

(4) Yn achos papur pleidleisio a ddyroddir i berson mewn cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, rhaid i'r swyddog canlyniadau sicrhau bod y pleidleisiwr yn gallu dychwelyd y papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio post yn rhad ac am ddim.

Darparu gorsafoedd pleidleisio

29.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau—

- (a) darparu nifer digonol o orsafoedd pleidleisio, a
- (b) dyrannu'r etholwyr i'r gorsafoedd pleidleisio.

Postal ballot papers

28.—(1) The returning officer must, in accordance with regulations under the 1983 Act(1), issue to those entitled to vote by post—

- (a) a ballot paper,
- (b) a postal voting statement in the form set out in Appendix 4 or a form to the like effect, and
- (c) such envelopes for the return of the ballot paper and postal voting statement as may be prescribed by regulations under the 1983 Act.

(2) The returning officer must also issue to those entitled to vote by post such information as the returning officer considers appropriate about how to obtain—

- (a) translations into languages other than English and Welsh of any directions to or guidance for voters sent with the ballot paper,
- (b) a translation into Braille of such directions or guidance,
- (c) graphical representations of such directions or guidance, and
- (d) the directions or guidance in any other form (including any audible form).

(3) The postal voting statement must include provision—

- (a) for the form to be signed by the elector or, where the elector is voting by proxy, the proxy, unless the registration officer has dispensed with the requirement for a signature, and
- (b) for stating the date of birth of the elector or, where the elector is voting by proxy, the proxy.

(4) In the case of a ballot paper issued to a person at an address in the United Kingdom, the returning officer must ensure that the return of the ballot paper and postal voting statement is free of charge to the voter.

Provision of polling stations

29.—(1) The returning officer must—

- (a) provide a sufficient number of polling stations, and
- (b) allot the electors to the polling stations.

(1) Gweler Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (O.S. 2001/341); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2002/871, O.S. 2006/752, O.S. 2006/2910 ac O.S. 2013/3198.

(1) See the Representation of the People (England and Wales) Regulations 2001 (S.I. 2001/341); relevant amending instruments are S.I. 2002/871, S.I. 2006/752, S.I. 2006/2910 and S.I. 2013/3198.

(2) Caniateir darparu un neu ragor o orsafoedd pleidleisio yn yr un ystafell.

(3) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu i bob gorsaf bleidleisio unrhyw nifer o fythau a all fod yn angenrheidiol lle gall pleidleiswyr farcio'u pleidleisiau wedi eu sgrinio heb gael eu gweld.

Penodi swyddogion llywyddu a chlercod

30.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau benodi a thalu—

- (a) swyddog llywyddu i fod yn bresennol ym mhob gorsaf bleidleisio, a
- (b) unrhyw nifer o glercod sy'n angenrheidiol at ddibenion y bleidlais neu'r cyfrif neu fel arall at ddibenion yr etholiad.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau beidio â phenodi'n fwiadol fel swyddog llywyddu neu glerc berson a gyflogwyd gan neu ar ran ymgeisydd mewn cysylltiad â'r etholiad.

(3) Caiff y swyddog canlyniadau llywyddu mewn gorsaf bleidleisio.

(4) Pan fo'r swyddog canlyniadau yn llywyddu mewn gorsaf bleidleisio, mae'r rheolau hyn yn gymwys i'r swyddog canlyniadau sy'n llywyddu felly gyda'r addasiadau angenrheidiol o ran pethau a wneir gan y swyddog canlyniadau mewn perthynas â'r swyddog llywyddu neu gan y swyddog llywyddu mewn perthynas â'r swyddog canlyniadau.

(5) Caiff swyddog llywyddu awdurdodi'r clercod i wneud unrhyw beth (gan gynnwys gofyn cwestiynau) y mae'r rheolau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog llywyddu ei wneud neu'n awdurdodi'r swyddog llywyddu i'w wneud mewn gorsaf bleidleisio, ac eithrio gorchymyn i unrhyw berson gael ei wahardd neu ei symud o'r orsaf bleidleisio.

Dyrodidi cardiau pleidleisio swyddogol

31.—(1) Caiff y cyngor cymuned, heb fod yn hwyrach na 4 p.m. ar y pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad, ofyn i'r swyddog canlyniadau ddyrodidi cardiau pleidleisio ar gyfer yr etholiad.

(2) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael y cais, rhaid i'r swyddog canlyniadau anfon neu ddanfon—

- (a) cerdyn pleidleisio swyddogol i etholwyr nad ydynt yn pleidleisio drwy'r post,
- (b) cerdyn swyddogol pleidleisio drwy'r post i etholwyr sy'n pleidleisio drwy'r post ac nid drwy ddirprwy,
- (c) cerdyn swyddogol pleidleisio drwy ddirprwy i berson sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr ac nid drwy'r post, a

(2) One or more polling stations may be provided in the same room.

(3) The returning officer must provide each polling station with such number of compartments as may be necessary in which voters can mark their votes screened from observation.

Appointment of presiding officers and clerks

30.—(1) The returning officer must appoint and pay—

- (a) a presiding officer to attend at each polling station, and
- (b) such number of clerks as may be necessary for the purposes of the poll or the count or otherwise for the purposes of the election.

(2) The returning officer must not knowingly appoint, as a presiding officer or clerk, a person who has been employed by or on behalf of a candidate in connection with the election.

(3) The returning officer may preside at a polling station.

(4) Where the returning officer presides at a polling station, these rules apply to the returning officer so presiding with the necessary modifications as to things done by the returning officer in relation to the presiding officer or by the presiding officer in relation to the returning officer.

(5) A presiding officer may authorise the clerks to do anything (including asking questions) that the presiding officer is required or authorised by these rules to do at a polling station, except ordering the exclusion or removal of any person from the polling station.

Issue of official poll cards

31.—(1) The community council may, not later than 4 p.m. on the nineteenth day before the day of election, request the returning officer to issue poll cards for the election.

(2) The returning officer must, as soon as practicable after receiving the request, send or deliver—

- (a) an official poll card to electors not voting by post,
- (b) an official postal poll card to electors voting by post and not by proxy,
- (c) an official proxy poll card to a person voting as proxy for an elector and not by post, and

(d) cerdyn swyddogol pleidleisio drwy'r post drwy ddirprwy i berson sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr drwy'r post.

(3) Yn achos etholwr sydd â chofnod dienw, rhaid i'r swyddog canlyniadau ddyroddi'r cerdyn pleidleisio priodol p'un a yw'r cyngor wedi gofyn am i gardiau pleidleisio gael eu dyroddi o dan baragraff (1) ai peidio.

(4) Rhaid i gerdyn pleidleisio swyddogol neu gerdyn swyddogol pleidleisio drwy'r post gael ei anfon neu ei ddanfôn i gyfeiriad cymwys yr etholwr.

(5) Rhaid i gerdyn swyddogol pleidleisio drwy ddirprwy neu gerdyn swyddogol pleidleisio drwy'r post drwy ddirprwy gael ei anfon neu ei ddanfôn i gyfeiriad y dirprwy, fel y'i dangosir yn y rhestr dirprwyon.

(6) Rhaid i bob cerdyn pleidleisio fod yn y ffurf briodol yn Atodiad 5 neu ffurf i'r un perwyl a rhaid iddo nodi—

- (a) enw'r cyngor y mae cynghorwyr i'w hethol iddo,
- (b) yr ardal etholiadol y mae cynghorwyr i'w hethol drosti,
- (c) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros yr ardal etholiadol honno,
- (d) enw, cyfeiriad cymwys a rhif cofrestr yr etholwr,
- (e) dyddiad ac oriau'r bleidlais a safle gorsaf bleidleisio'r etholwr, ac
- (f) unrhyw wybodaeth arall y mae'r swyddog canlyniadau o'r farn ei bod yn briodol.

(7) Caniateir i wybodaeth wahanol gael ei darparu o dan baragraff (6)(f) i wahanol etholwyr neu ddisgrifiadau o etholwr.

(8) Yn achos etholwr sydd â chofnod dienw, rhaid i'r cerdyn pleidleisio—

- (a) cynnwys unrhyw wybodaeth a bennir yn y ffurf briodol yn Atodiad 5 yn hytrach na'r wybodaeth a nodir ym mharagraff (6)(d), a
- (b) cael ei anfon neu ei ddanfôn mewn amlen neu fath arall o orchudd fel nad yw'n datgelu bod gan yr etholwr gofnod dienw.

(9) Yn y rheol hon—

- (a) ystyr "etholwr" yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal etholiadol o dan sylw ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o'r etholiad, ac eithrio ei fod yn cynnwys person a ddangosir y pryd hwnnw yn y gofrestr (neu, yn achos person sydd â chofnod dienw yn y gofrestr, yn y cofnod o gofnodion dienw) fel person sydd o dan yr oedran

(d) an official proxy postal poll card to a person voting as proxy for an elector by post.

(3) In the case of an elector with an anonymous entry, the returning officer must issue the appropriate poll card whether or not the council has requested the issue of poll cards under paragraph (1).

(4) An official poll card or an official postal poll card must be sent or delivered to the elector's qualifying address.

(5) An official proxy poll card or an official proxy postal poll card must be sent or delivered to the proxy's address, as shown in the list of proxies.

(6) Each poll card must be in the appropriate form in Appendix 5 or a form to the like effect and must set out—

- (a) the name of the council to which councillors are to be elected,
- (b) the electoral area for which councillors are to be elected,
- (c) the number of councillors to be elected for that electoral area,
- (d) the elector's name, qualifying address and number on the register,
- (e) the date and hours of the poll and the situation of the elector's polling station, and
- (f) such other information as the returning officer considers appropriate.

(7) Different information may be provided under paragraph (6)(f) to different electors or descriptions of elector.

(8) In the case of an elector with an anonymous entry, the poll card—

- (a) must contain such information as is specified in the appropriate form in Appendix 5 instead of the information set out in paragraph (6)(d), and
- (b) must be sent or delivered in an envelope or other form of covering so as not to disclose that the elector has an anonymous entry.

(9) In this rule—

- (a) "elector" means a person who is registered in the register of local government electors for the electoral area in question on the last day for the publication of notice of the election, except that it includes a person then shown in the register (or, in the case of a person with an anonymous entry in the register, in the record of anonymous entries) as below voting age

pleidleisio dim ond os yw'n ymddangos o'r gofrestr (neu o'r cofnod o gofnodion dienw) y bydd y person o oedran pleidleisio ar y diwrnod a bennwyd ar gyfer y bleidlais;

- (b) mae i "cyfeiriad cymwys" yr un ystyr ag sydd i "qualifying address" yn Neddf 1983 (gweler adran 202(1) o'r Ddeddf honno(1)).

Cyfarpar gorsafodd pleidleisio

32.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu i bob swyddog llywyddu unrhyw nifer o flychau pleidleisio a phapurau pleidleisio y mae'r swyddog canlyniadau o'r farn eu bod yn angenrheidiol.

(2) Rhaid i bob blwch pleidleisio fod wedi ei adeiladu fel y gellir rhoi papurau pleidleisio ynddo, ond na ellir eu tynnu'n ôl ohono, heb i'r blwch gael ei ddatgloi neu, pan nad oes clo ar y blwch, heb i'r sêl gael ei thorri.

(3) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu i bob gorsaf bleidleisio—

- (a) deunyddiau i alluogi'r pleidleiswyr i farcio'r papurau pleidleisio,
- (b) copïau o'r gofrestr etholwyr berthnasol,
- (c) copïau o unrhyw hysbysiadau a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983(2) i'r graddau y maent yn ymwneud â'r gofrestr etholwyr berthnasol,
- (d) copïau o'r rhannau o unrhyw restrau o bersonau sydd â hawl i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy sy'n cyfateb i'r gofrestr etholwyr berthnasol, ac
- (e) rhestr ("rhestr rhifau cyfatebol yr orsaf bleidleisio") sy'n cynnwys y rhan honno o Ran 2 o'r rhestr rhifau cyfatebol a baratowyd o dan reol 23 sy'n cynnwys y rhifau, ond nid y marciau adnabod unigryw eraill, sy'n cyfateb i'r rhai ar y papurau pleidleisio a ddarperir i'r swyddog llywyddu o dan baragraff (1).

(4) Ym mharagraff (3), ystyr "y gofrestr etholwyr berthnasol" yw'r gofrestr etholwyr ar gyfer yr ardal etholiadol neu unrhyw ran ohoni sy'n cynnwys y cofnodion sy'n ymwneud â'r etholwyr a ddyrannwyd i'r orsaf bleidleisio.

only if it appears from the register (or the record of anonymous entries) that the person will be of voting age on the day fixed for the poll;

- (b) "qualifying address" has the same meaning as in the 1983 Act (see section 202(1) of that Act(1)).

Equipment of polling stations

32.—(1) The returning officer must provide each presiding officer with such number of ballot boxes and ballot papers as the returning officer considers necessary.

(2) Each ballot box must be constructed so that ballot papers can be put in it, but cannot be withdrawn from it, without the box being unlocked or, where the box has no lock, without the seal being broken.

(3) The returning officer must provide each polling station with—

- (a) materials to enable voters to mark the ballot papers,
- (b) copies of the relevant register of electors,
- (c) copies of any notices issued under section 13B(3B) or (3D) of the 1983 Act(2) so far as relating to the relevant register of electors,
- (d) copies of the parts of any lists of persons entitled to vote by post or by proxy that correspond to the relevant register of electors, and
- (e) a list ("the polling station's corresponding number list") consisting of that part of Part 2 of the corresponding number list prepared under rule 23 that contains the numbers, but not the other unique identifying marks, corresponding to those on the ballot papers provided to the presiding officer under paragraph (1).

(4) In paragraph (3), "the relevant register of electors" means the register of electors for the electoral area or such part of it as contains the entries relating to the electors allotted to the polling station.

(1) Diwygiwyd adran 202(1) er mwyn mewnosod diffiniad o "qualifying address" gan baragraff 22 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000.

(2) Rhoddwyd adrannau 13 i 13B o Ddeddf 1983 yn lle adran 13 o'r Ddeddf honno gan baragraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. Mewnosodwyd adran 13B(3B) a (3D) gan adran 11(4) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006.

(1) Section 202(1) was amended to insert a definition of "qualifying address" by paragraph 22 of Schedule 1 to the Representation of the People Act 2000.

(2) Sections 13 to 13B of the 1983 Act were substituted for section 13 of that Act by paragraph 6 of Schedule 1 to the Representation of the People Act 2000. Section 13B(3B) and (3D) were inserted by section 11(4) of the Electoral Administration Act 2006.

(5) Rhaid i'r swyddog canlyniadau beri i gopi sampl wedi ei ehangu o'r papur pleidleisio gael ei arddangos ym mhob gorsaf bleidleisio.

(6) Rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd ddarparu i bob gorsaf bleidleisio—

- (a) copi sampl wedi ei ehangu o'r papur pleidleisio i'w ddal yn y llaw er mwyn cynorthwyo pleidleiswyr sy'n rhannol ddall, a
- (b) dyfais i alluogi pleidleiswyr sy'n ddall neu'n rhannol ddall i bleidleisio heb fod angen cymorth y swyddog llywyddu neu gydymaith (gweler rheolau 43 i 45 o ran y cymorth y caniateir i'r swyddog llywyddu neu gydymaith ei roi).

(7) Rhaid i'r copi sampl o'r papur pleidleisio y mae'n ofynnol ei arddangos a'i ddarparu o dan baragraffau (5) a (6)(a) gael ei farcio'n glir fel sbesimen a'i ddarparu i arwain y pleidleiswyr yn unig.

(8) Rhaid i'r ddyfais y cyfeirir ati ym mharagraff (6)(b)—

- (a) caniatáu i bapur pleidleisio gael ei fewnosod yn y ddyfais a'i thynnu ohoni, neu ei gysylltu â'r ddyfais a'i datgysylltu oddi wrthi yn hawdd a heb ddifrodi'r papur,
- (b) dal y papur pleidleisio yn gadarn yn ei le wrth gael ei defnyddio, ac
- (c) darparu modd addas i'r pleidleisiwr—
 - (i) adnabod y bylchau ar y papur pleidleisio y gellir marcio pleidleisiau arnynt,
 - (ii) adnabod yr ymgeisydd y mae pob bwlch yn cyfeirio ato, a
 - (iii) marcio'i bleidlais yn y bwlch a ddewisir.

(9) Rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd beri i hysbysiad yn y ffurf yn Atodiad 6, yn rhoi cyfarwyddydau i arwain y pleidleiswyr wrth bleidleisio, gael ei arddangos—

- (a) y tu mewn i bob gorsaf bleidleisio (ond y tu allan i'r bythau pleidleisio), a
- (b) y tu allan i bob gorsaf bleidleisio.

(10) Caniateir hefyd i'r swyddog canlyniadau ddarparu copïau o'r hysbysiad mewn Braille neu mewn unrhyw ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg y mae'r swyddog canlyniadau o'r farn eu bod yn briodol.

(11) Rhaid dangos hysbysiad sy'n cynnwys yr wybodaeth a ganlyn y tu mewn i bob bwth pleidleisio ym mhob gorsaf bleidleisio—

- (a) pan fo un cynghorydd yn unig i gael ei ethol, cyfarwyddyd i'r pleidleisiwr i bleidleisio unwaith yn unig drwy roi croes [X] yn y blwch gyferbyn â'i ddewis;

(5) The returning officer must cause to be displayed at each polling station an enlarged sample copy of the ballot paper.

(6) The returning officer must also provide each polling station with—

- (a) an enlarged hand-held sample copy of the ballot paper for the assistance of voters who are partially-sighted, and
- (b) a device for enabling voters who are blind or partially-sighted to vote without any need for assistance from the presiding officer or a companion (see rules 43 to 45 for the assistance that may be obtained from the presiding officer or a companion).

(7) The sample copy of the ballot paper required to be displayed and provided by paragraphs (5) and (6)(a) must be clearly marked as specimen and provided only for the guidance of voters.

(8) The device referred to in paragraph (6)(b) must—

- (a) allow a ballot paper to be inserted into and removed from, or attached to and detached from, the device easily and without damage to the paper,
- (b) hold the ballot paper firmly in place during use, and
- (c) provide a suitable means for the voter to—
 - (i) identify the spaces on the ballot paper on which votes may be marked,
 - (ii) identify the candidate to which each space refers, and
 - (iii) mark their vote on the space chosen.

(9) The returning officer must also cause a notice in the form in Appendix 6, giving directions for the guidance of voters in voting, to be displayed—

- (a) inside each polling station (but outside the voting compartments), and
- (b) outside each polling station.

(10) The returning officer may also provide copies of the notice in Braille or in such languages other than English and Welsh as the returning officer considers appropriate.

(11) A notice containing the following information must be exhibited inside each voting compartment in each polling station—

- (a) where only one councillor is to be elected, an instruction to the voter to vote only once by putting a cross [X] in the box next to their choice;

- (b) pan fo mwy nag un cynghorydd i gael eu hethol, cyfarwyddyd i'r pleidleisiwr i bleidleisio dros ddim mwy na'r nifer sydd i'w ethol drwy roi croes [X] yn y blwch gyferbyn â phob un o'i ddewisiadau;
- (c) rhybudd i'r pleidleisiwr i beidio â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio neu mae'n bosibl na fydd ei bleidlais yn cyfrif.

Penodi asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif

33.—(1) Cyn i'r bleidlais ddechrau, caiff ymgeisydd benodi—

- (a) asiantau pleidleisio i fod yn bresennol mewn gorsafoddd pleidleisio er mwyn canfod cambersonadu, a
- (b) asiantau cyfrif i fod yn bresennol wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif.

(2) Caniateir i'r un person gael ei benodi'n asiant pleidleisio neu'n asiant cyfrif gan fwy nag un ymgeisydd.

(3) Uchafswm yr asiantau pleidleisio a gaiff fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio yw pedwar neu unrhyw nifer uwch a ganiateir gan y swyddog canlyniadau drwy hysbysiad.

(4) Os yw nifer yr asiantau pleidleisio a benodir i fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio benodol yn fwy na phedwar (neu unrhyw nifer uwch a ganiateir gan y swyddog canlyniadau drwy hysbysiad)—

- (a) rhaid i'r swyddog canlyniadau benderfynu pa asiantau y caniateir iddynt fod yn bresennol drwy fwrw coelbren, a
- (b) dim ond yr asiantau y mae'r coelbren yn mynd o'u plaid sydd i'w trin fel pe baent wedi eu penodi.

(5) Caiff y swyddog canlyniadau osod terfyn ar nifer yr asiantau cyfrif y caniateir i bob ymgeisydd eu penodi ond rhaid i'r terfyn—

- (a) bod yr un fath ar gyfer pob un o'r ymgeiswyr, a
- (b) oni bai bod amgylchiadau arbennig, beidio â bod yn llai na'r nifer a geir drwy rannu nifer y clerod a gyflogir yn y cyfrif â nifer yr ymgeiswyr (gan anwybyddu unrhyw weddill).

(6) At ddibenion y cyfrifiadau sy'n ofynnol gan baragraff (5), mae asiant cyfrif a benodwyd ar gyfer mwy nag un ymgeisydd yn asiant ar wahân ar gyfer pob un o'r ymgeiswyr y'i penodwyd ganddynt.

(7) Rhaid i'r ymgeisydd roi hysbysiad i'r swyddog canlyniadau pan benodir asiantau pleidleisio neu asiantau cyfrif.

- (b) where more than one councillor is to be elected, an instruction to the voter to vote for no more than the number to be elected by putting a cross [X] in the box next to each of their choices;
- (c) a warning to the voter to put no other mark on the ballot paper or their vote may not count.

Appointment of polling and counting agents

33.—(1) A candidate may, before the poll begins, appoint—

- (a) polling agents to attend at polling stations for the purpose of detecting personation, and
- (b) counting agents to attend at the counting of votes.

(2) The same person may be appointed as a polling agent or counting agent by more than one candidate.

(3) The maximum number of polling agents who may attend a polling station is four or such greater number as the returning officer may by notice permit.

(4) If the number of polling agents appointed to attend at a particular polling station exceeds four (or any greater number that the returning officer has by notice permitted)—

- (a) the returning officer must decide which agents are permitted to attend by lot, and
- (b) only the agents on whom the lot falls are to be treated as having been appointed.

(5) The returning officer may impose a limit on the number of counting agents who may be appointed by each candidate but the limit—

- (a) must be the same for all the candidates, and
- (b) unless there are special circumstances, must not be less than the number obtained by dividing the number of clerks employed at the count by the number of candidates (ignoring any remainder).

(6) For the purposes of the calculations required by paragraph (5), a counting agent who has been appointed for more than one candidate is a separate agent for each of the candidates by whom they have been appointed.

(7) The candidate must give a notice to the returning officer where polling agents or counting agents are appointed.

(8) Rhaid i'r hysbysiad—

- (a) rhoi enwau a chyfeiriadau'r personau a benodwyd, a
- (b) cael ei roi dim hwyrach na'r pumed diwrnod cyn diwrnod y bleidlais, gan ddiystyru unrhyw ddiwrnod eithriadig.

(9) Os bydd asiant pleidleisio neu asiant cyfrif yn marw neu'n dod yn analluog i weithredu—

- (a) caiff yr ymgeisydd benodi asiant arall yn ei le, a
- (b) rhaid i'r ymgeisydd roi hysbysiad i'r swyddog canlyniadau ar unwaith yn datgan enw a chyfeiriad yr asiant arall.

Asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif: darpariaeth atodol

34.—(1) Caiff ymgeisydd neu asiant etholiadol yr ymgeisydd (os penodwyd un)—

- (a) gwneud unrhyw beth y mae asiant pleidleisio neu asiant cyfrif yr ymgeisydd wedi ei awdurdodi i'w wneud (neu y byddai wedi ei awdurdodi i'w wneud, pe bai wedi ei benodi);
- (b) cynorthwyo asiant pleidleisio neu asiant cyfrif yr ymgeisydd i wneud unrhyw beth y mae'r asiant pleidleisio neu'r asiant cyfrif wedi ei awdurdodi i'w wneud.

(2) Caniateir i unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu yr awdurdodir ei wneud o dan y rheolau hyn ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio neu'r asiantau cyfrif gael ei wneud yn hytrach ym mhresenoldeb asiant etholiadol yr ymgeisydd (os penodwyd un).

(3) Pan fo'r rheolau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i rywbeth gael ei wneud neu'n awdurdodi rhywbeth i gael ei wneud ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio neu'r asiantau cyfrif, nid yw diffyg presenoldeb yr asiant neu'r asiantau ar yr adeg a'r lle a benodwyd yn peri bod y peth a wneir yn annilys.

(4) Pan nad oes gan ymgeisydd asiant cyfrif, caiff y swyddog canlyniadau roi unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi i'r asiant cyfrif o dan y rheolau hyn i'r ymgeisydd.

(8) The notice must—

- (a) give the names and addresses of the persons appointed, and
- (b) be given no later than the fifth day before the day of the poll, disregarding any excluded day.

(9) If a polling agent or counting agent dies or becomes incapable of acting, the candidate—

- (a) may appoint another agent instead, and
- (b) must immediately give the returning officer a notice stating the other agent's name and address.

Polling and counting agents: supplemental provision

34.—(1) A candidate or the candidate's election agent (if appointed) may—

- (a) do anything that the candidate's polling or counting agent is authorised to do (or would, if appointed, have been authorised to do);
- (b) assist the candidate's polling or counting agent to do anything that the polling or counting agent is authorised to do.

(2) Anything required or authorised by these rules to be done in the presence of the polling or counting agents may be done instead in the presence of the candidate's election agent (if appointed).

(3) Where these rules require or authorise something to be done in the presence of the polling or counting agents, the non-attendance of the agent or agents at the time and place appointed does not invalidate the thing done.

(4) Where a candidate does not have a counting agent, the returning officer may give the candidate any notice that is required by these rules to be given to the counting agent.

Hysbysu'r gofyniad cyfrinachedd

35.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau wneud trefniadau i sicrhau bod pawb sy'n bresennol mewn gorsaf bleidleisio, heblaw am berson a ddisgrifir ym mharagraff (2)(a) i (d), wedi cael hysbysiad yn nodi darpariaethau adran 66(1), (3) a (6) o Ddeddf 1983(1).

(2) Y personau nad yw'r ddyletswydd o dan baragraff (1) yn gymwys iddynt yw—

- (a) person sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio at ddiben pleidleisio;
- (b) person o dan 16 oed sy'n mynd yng nghwmni pleidleisiwr i'r orsaf bleidleisio;
- (c) person sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio fel cydymaith pleidleisiwr ag anableddau;
- (d) person sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio fel cwnstabl ar ddyletswydd.

(3) Yn y rheol hon, mae cyfeiriad at gwnstabl yn cynnwys cyfeiriad at berson a ddynodwyd yn swyddog cymorth cymunedol neu'n wirfoddolwr cymorth cymunedol o dan adran 38 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002(2) (pwerau'r heddlu i staff sy'n sifiliaid a gwirfoddolwyr).

Dychwelyd papurau pleidleisio post

36.—(1) Pan fo pleidlais bost wedi ei dychwelyd mewn cysylltiad â pherson sydd wedi ei gofnodi ar y rhestr pleidleiswyr post, rhaid i'r swyddog canlyniadau farcio'r rhestr yn y modd a ragnodir gan reoliadau o dan Ddeddf 1983.

(2) Pan fo pleidlais bost drwy ddirprwy wedi ei dychwelyd mewn cysylltiad â dirprwy sydd wedi ei gofnodi ar y rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy, rhaid i'r swyddog canlyniadau farcio'r rhestr yn y modd a ragnodir gan reoliadau o dan y Ddeddf honno.

(3) Nid yw rheol 54(8) yn gymwys at ddibenion penderfynu a yw pleidlais bost neu bleidlais bost drwy ddirprwy wedi ei dychwelyd at ddibenion y rheol hon.

Y Bleidlais

Derbyn i'r orsaf bleidleisio

37.—(1) Rhaid i'r swyddog llywyddu wahardd pawb o'r orsaf bleidleisio ac eithrio—

Notification of requirement of secrecy

35.—(1) The returning officer must make arrangements to ensure that every person attending at a polling station, other than a person described in paragraph (2)(a) to (d), has been given a notice setting out the provisions of section 66(1), (3) and (6) of the 1983 Act(1).

(2) The persons to whom the duty under paragraph (1) does not apply are—

- (a) a person attending the polling station for the purpose of voting;
- (b) a person under the age of 16 who accompanies a voter to the polling station;
- (c) a person attending the polling station as the companion of a voter with disabilities;
- (d) a person attending the polling station as a constable on duty.

(3) In this rule, a reference to a constable includes a person designated as a community support officer or community support volunteer under section 38 of the Police Reform Act 2002(2) (police powers for civilian staff and volunteers).

Return of postal ballot papers

36.—(1) Where a postal vote has been returned in respect of a person who is entered on the postal voters list, the returning officer must mark the list in the manner prescribed by regulations under the 1983 Act.

(2) Where a proxy postal vote has been returned in respect of a proxy who is entered on the proxy postal voters list, the returning officer must mark the list in the manner prescribed by regulations under that Act.

(3) Rule 54(8) does not apply for the purpose of deciding whether, for the purposes of this rule, a postal vote or a proxy postal vote is returned.

The Poll

Admission to polling station

37.—(1) The presiding officer must exclude all persons from the polling station except—

(1) Diwygiwyd adran 66 o Ddeddf 1983 gan baragraffau 82 ac 86 o Atodlen 1 i Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 a pharagraff 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985; mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheolau hyn.

(2) 2002 p. 30. Diwygiwyd adran 38 gan adran 38 o Ddeddf Plismona a Throseddau 2017.

(1) Section 66 of the 1983 Act was amended by paragraphs 82 and 86 of Schedule 1 to the Electoral Administration Act 2006 and paragraph 3 of Schedule 3 to the Representation of the People Act 1985; there are other amendments but none are relevant to these Rules.

(2) 2002 c. 30. Section 38 was amended by section 38 of the Policing and Crime Act 2017.

- (a) pleidleiswyr a ddyrannwyd i'r orsaf bleidleisio,
- (b) personau o dan 16 oed sy'n mynd yng nghwmni pleidleiswyr i'r orsaf bleidleisio,
- (c) yr ymgeiswyr a'u hasiantau etholiadol (os penodwyd rhai),
- (d) yr asiantau pleidleisio a benodwyd i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio,
- (e) y clercod a benodwyd i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio,
- (f) y swyddog canlyniadau neu aelodau staff y swyddog canlyniadau,
- (g) personau sydd â hawl i fod yn bresennol yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o adrannau 6A i 6D o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(1) (cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol a sylwedyddion achrededig),
- (h) y cwnstablaid ar ddyletswydd, ac
- (i) cymdeithion pleidleiswyr ag anableddau.

(2) Rhaid i'r swyddog llywyddu reoleiddio cyfanswm nifer y pleidleiswyr a'r personau o dan 16 oed sydd yn eu cwmni a dderbynnir i'r orsaf bleidleisio yr un pryd.

(3) Dim ond un asiant pleidleisio y caniateir ei dderbyn yr un pryd i orsaf bleidleisio ar ran yr un ymgeisydd.

(4) Caiff cwnstabl sy'n pleidleisio'n bersonol wneud hynny naill ai—

- (a) yn yr orsaf bleidleisio a ddyrannwyd o dan y rheolau hyn, neu
- (b) mewn gorsaf bleidleisio arall, os yw'r cwnstabl yn dangos ac yn ildio tystysgrif yn y ffurf yn Atodiad 7 neu ffurf i'r un perwyl, a lofnodwyd gan swyddog heddlu sydd â gradd arolygydd neu'n uwch.

(5) Caiff person a gyflogir gan y swyddog canlyniadau, os yw'n pleidleisio'n bersonol, wneud hynny naill ai—

- (a) yn yr orsaf bleidleisio a ddyrannwyd o dan y rheolau hyn, neu
- (b) mewn gorsaf bleidleisio arall, os yw'r person yn dangos ac yn ildio tystysgrif yn y ffurf yn Atodiad 7 neu ffurf i'r un perwyl, a lofnodwyd gan y swyddog canlyniadau.

(6) Rhaid i dystysgrif sy'n cael ei hildio o dan baragraff (4) neu (5) gael ei chanslo ar unwaith.

- (a) voters allotted to the polling station,
- (b) persons under the age of 16 who accompany voters to the polling station,
- (c) the candidates and their election agents (if appointed),
- (d) the polling agents appointed to attend at the polling station,
- (e) the clerks appointed to attend at the polling station,
- (f) the returning officer or members of the returning officer's staff,
- (g) persons who are entitled to attend by virtue of any of sections 6A to 6D of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000(1) (representatives of the Electoral Commission and accredited observers),
- (h) the constables on duty, and
- (i) the companions of voters with disabilities.

(2) The presiding officer must regulate the total number of voters and persons under the age of 16 who accompany them who are admitted to the polling station at the same time.

(3) Only one polling agent may be admitted at the same time to a polling station on behalf of the same candidate.

(4) A constable voting in person may do so either—

- (a) at the polling station allotted under these rules, or
- (b) at another polling station, if the constable produces and surrenders a certificate in the form in Appendix 7 or a form to the like effect, signed by an officer of police of or above the rank of inspector.

(5) A person employed by the returning officer, if voting in person, may do so either—

- (a) at the polling station allotted under these rules, or
- (b) at another polling station, if the person produces and surrenders a certificate in the form in Appendix 7 or a form to the like effect, signed by the returning officer.

(6) A certificate surrendered under paragraph (4) or (5) must immediately be cancelled.

(1) Mewnosodwyd adrannau 6A i 6D gan adran 29 o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006.

(1) Sections 6A to 6D were inserted by section 29 of the Electoral Administration Act 2006.

(7) Yn y rheol hon, mae cyfeiriad at gwnstabl yn cynnwys cyfeiriad at berson a ddynodwyd yn swyddog cymorth cymunedol neu'n wirfoddolwr cymorth cymunedol o dan adran 38 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (pwerau'r heddlu i staff sy'n sifiliaid a gwirfoddolwyr).

Cadw trefn yn yr orsaf

38.—(1) Rhaid i'r swyddog llywyddu gadw trefn yn yr orsaf bleidleisio.

(2) Os bydd person yn camymddwyn mewn gorsaf bleidleisio, neu'n methu ag ufuddhau i unrhyw orchmynion a roddir yn gyfreithlon gan y swyddog llywyddu, caiff y swyddog llywyddu orchymyn i'r person gael ei symud o'r orsaf bleidleisio.

(3) Pan fo'r swyddog llywyddu yn gorchymyn bod person yn cael ei symud, caniateir i'r person gael ei symud ar unwaith—

- (a) gan gwnstabl yn yr orsaf bleidleisio neu yn ei hymyl, neu
- (b) gan unrhyw berson arall a awdurdodir mewn ysgrifen gan y swyddog canlyniadau i symud pobl o'r orsaf bleidleisio.

(4) Pan fo person wedi ei symud, ni chaiff fynd yn ôl, heb ganiatâd y swyddog llywyddu, i'r orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais.

(5) Pan gyhuddir person sydd wedi ei symud o gyflawni trosedd yn yr orsaf bleidleisio, caniateir ymdrin â'r person fel person y mae cwnstabl wedi mynd ag ef i'r ddalfa am drosedd heb warant.

(6) Ni chaniateir i'r pwerau a roddir gan y rheol hon gael eu harfer er mwyn atal pleidleisiwr sydd fel arall â hawl i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio rhag cael cyfle i bleidleisio yn yr orsaf honno.

Selio blychau pleidleisio

39.—(1) Rhaid i'r swyddog llywyddu gymryd y camau a ganlyn yn union cyn i'r bleidlais ddechrau.

(2) Rhaid i'r swyddog llywyddu ddangos y blwch pleidleisio gwag i'r bobl hynny (os oes rhai) sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio, fel y gallant weld ei fod yn wag.

(3) Yna rhaid i'r swyddog llywyddu—

- (a) cloi'r blwch, os oes iddo glo, a
- (b) gosod sêl y swyddog canlyniadau arno, mewn modd sy'n ei atal rhag cael ei agor heb dorri'r sêl.

(4) Yna rhaid i'r swyddog llywyddu osod y blwch, o fewn golwg y swyddog llywyddu, i dderbyn papurau pleidleisio.

(7) In this rule, a reference to a constable includes a reference to a person designated as a community support officer or community support volunteer under section 38 of the Police Reform Act 2002 (police powers for civilian staff and volunteers).

Keeping of order in station

38.—(1) The presiding officer must keep order at the polling station.

(2) If a person engages in misconduct in a polling station, or fails to obey any orders lawfully given by the presiding officer, the presiding officer may order that the person be removed from the polling station.

(3) Where the presiding officer orders that a person be removed, the person may be removed immediately—

- (a) by a constable in or near the polling station, or
- (b) by any other person authorised in writing by the returning officer to remove people from the polling station.

(4) Where a person is removed, the person must not, without the presiding officer's permission, re-enter the polling station on the day of the poll.

(5) Where a person who is removed is charged with the commission of an offence in the polling station, the person may be dealt with as a person taken into custody by a constable for an offence without a warrant.

(6) The powers conferred by this rule must not be exercised so as to prevent a voter who is otherwise entitled to vote at a polling station from having an opportunity of voting at that station.

Sealing of ballot boxes

39.—(1) The presiding officer must take the following steps immediately before the poll begins.

(2) The presiding officer must show the empty ballot box to those people (if any) who are present in the polling station, so that they may see that it is empty.

(3) The presiding officer must then—

- (a) lock up the box, if it has a lock, and
- (b) place the returning officer's seal on it, in such a way as to prevent it being opened without breaking the seal.

(4) The presiding officer must then place the box, within the presiding officer's view, for the receipt of ballot papers.

(5) Rhaid i'r swyddog llywyddu gadw'r blwch dan glo a than sêl neu (os nad oes iddo glo) ei gadw dan sêl.

(5) The presiding officer must keep the box locked and sealed or (if it does not have a lock) keep it sealed.

Cwestiynau y caniateir eu gofyn i bleidleiswyr

Questions that may be put to voters

40.—(1) Adeg cais am bapur pleidleisio (ond nid wedyn), caiff y swyddog llywyddu ofyn i unrhyw berson a ddisgrifir yng ngholofn gyntaf Tabl 1 (a nodir ym mharagraff (3)) neu yng ngholofn gyntaf Tabl 2 (a nodir ym mharagraff (4)), un neu ragor o'r cwestiynau a nodir yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn.

40.—(1) At the time of an application for a ballot paper (but not afterwards), the presiding officer may put to any person described in the first column of Table 1 (set out in paragraph (3)) or in the first column of Table 2 (set out in paragraph (4)), one or more of the questions set out in the corresponding entry in the second column.

(2) Os bydd yr ymgeisydd neu asiant etholiadol neu asiant pleidleisio'r ymgeisydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog llywyddu wneud hynny, rhaid i'r swyddog llywyddu ofyn i unrhyw berson a ddisgrifir yng ngholofn gyntaf Tabl 1 un neu ragor o'r cwestiynau a nodir yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn.

(2) If required to do so by the candidate or the candidate's election or polling agent, the presiding officer must put to any person described in the first column of Table 1 one or more of the questions set out in the corresponding entry in the second column.

(3) Mae Tabl 1 yn nodi cwestiynau y caiff swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (1) ac y caiff ymgeisydd (neu asiant etholiadol neu asiant pleidleisio'r ymgeisydd) ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu gofyn o dan baragraff (2).

(3) Table 1 sets out questions that a presiding officer may put under paragraph (1) and that a candidate (or the candidate's election or polling agent) may require to be put under paragraph (2).

Tabl 1

<i>Disgrifiad</i>	<i>Cwestiynau</i>
1. Person sy'n gwneud cais fel etholwr	<p>1(a) Ai chi yw'r person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr etholiad hwn fel a ganlyn?</p> <p>Nodiadau ar 1(a) Yna rhaid i'r swyddog llywyddu ddarllen y cofnod cyfan o'r copïau o'r cofnodion cofrestru.</p> <p>1(b) Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward hon neu ward arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i'r gymuned hon, heblaw fel dirprwy ar ran rhyw berson arall?</p> <p>Nodiadau ar 1(b) Caniateir hepgor y geiriau “, yn y ward hon neu ward arall,” os oes etholiad yn digwydd mewn un ward yn unig neu os nad oes wardiau.</p>

Table 1

<i>Description</i>	<i>Questions</i>
1. A person applying as an elector	<p>1(a) Are you the person registered in the register of local government electors for this election as follows?</p> <p>Notes to 1(a) The presiding officer must then read the whole entry from the copies of the registration records.</p> <p>1(b) Have you already voted, in this or another ward, at the election of councillors for this community, otherwise than as proxy for some other person?</p> <p>Notes to 1(b) The words “, in this or another ward,” may be omitted if an election is taking place only in one ward or if there are no wards.</p>

<p>2. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ar ran etholwr heblaw etholwr sydd â chofnod dienw</p>	<p>2(a) Ai chi yw'r person y mae ei enw'n ymddangos fel AB yn y rhestr dirprwyon ar gyfer yr etholiad hwn fel person sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran CD?</p> <p>2(b) Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward hon neu ward arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i'r gymuned hon, fel dirprwy ar ran CD?</p> <p>2(c) Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, taid, nain, brawd, chwaer, plentyn, wŷr neu wyres CD?</p> <p>Nodiadau ar 2(a) i (c) Pan fo cwestiwn yn cyfeirio at AB, mae'r swyddog llywyddu'n darllen yr enw fel y mae'n ymddangos yn y rhestr dirprwyon. Pan fo cwestiwn yn cyfeirio at CD, mae'r swyddog llywyddu'n darllen enw'r etholwr. Nodyn ar 2(b) Caniateir hepgor y geiriau “, yn y ward hon neu ward arall,” os oes etholiad yn digwydd mewn un ward yn unig neu os nad oes wardiau.</p>	<p>2. A person applying as proxy for an elector other than an elector who has an anonymous entry</p>	<p>2(a) Are you the person whose name appears as AB in the list of proxies for this election as entitled to vote as proxy on behalf of CD?</p> <p>2(b) Have you already voted, in this or another ward, at the election of councillors for this community, as proxy on behalf of CD?</p> <p>2(c) Are you the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild of CD?</p> <p>Notes to 2(a) to (c) Where a question refers to AB, the presiding officer reads out the name as it appears in the list of proxies. Where a question refers to CD, the presiding officer reads out the name of the elector. Note to 2(b) The words “, in this or another ward,” may be omitted if an election is taking place only in one ward or if there are no wards.</p>
<p>3. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ar ran etholwr sydd â chofnod dienw</p>	<p>3(a) Ai chi yw'r person sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif [x] yn y gofrestr etholwyr?</p> <p>3(b) Ydych chi eisoes wedi pleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif [x] yn y gofrestr etholwyr?</p>	<p>3. A person applying as proxy for an elector who has an anonymous entry</p>	<p>3(a) Are you the person entitled to vote as proxy on behalf of the elector whose number on the register of electors is [x]?</p> <p>3(b) Have you already voted as proxy on behalf of the elector whose number on the register of electors is [x]?</p>

	<p>3(c) Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, taid, nain, brawd, chwaer, plentyn, wŷyr neu wyres y person sydd â'r rhif [x] yn y gofrestr etholwyr?</p> <p>Nodyn ar 3(a) i (c) Pan fo'r cwestiynau yn y cofnod hwn yn cyfeirio at [x], rhaid i'r swyddog llywyddu ddarllen rhif yr etholwr o'r copïau o'r cofnodion cofrestru.</p>
<p>4. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy y gofynnwyd y cwestiwn sydd wedi ei rifo 2(c) neu 3(c) yng ngholofn 2 iddo ac nad yw wedi ateb "Ie"</p>	<p>4. Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward hon neu ward arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i'r gymuned hon, ar ran dau berson nad ydych yn briod, partner sifil, rhiant, taid, nain, brawd, chwaer, plentyn, wŷyr neu wyres iddynt?</p> <p>Nodyn ar 4 Caniateir hepgor y geiriau " , yn y ward hon neu ward arall," os oes etholiad yn digwydd mewn un ward yn unig neu os nad oes wardiau.</p>

(4) Mae Tabl 2 yn nodi'r cwestiynau y caiff swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (1) (ond na chaniateir ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (2)).

Tabl 2

<i>Disgrifiad</i>	<i>Cwestiynau</i>
<p>1. Person sy'n gwneud cais fel etholwr y ceir cofnod mewn perthynas ag ef yn y rhestr pleidleiswyr post</p>	<p>1(a) Wnaethoch chi gais am bleidleisio drwy'r post?</p> <p>1(b) Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy'r post?</p>

	<p>3(c) Are you the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild of the person whose number on the register of electors is [x]?</p> <p>Note to 3(a) to (c) Where the questions in this entry refer to [x], the presiding officer must read the elector's number from the copies of the registration records.</p>
<p>4. A person applying as proxy who has been asked the question numbered 2(c) or 3(c) in column 2 and has not answered "Yes"</p>	<p>4. Have you already voted, in this or another ward, at the election of councillors for this community, on behalf of two persons of whom you are not the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild?</p> <p>Note to 4 The words " , in this or another ward," may be omitted if an election is taking place only in one ward or if there are no wards.</p>

(4) Table 2 sets out the questions that a presiding officer may put under paragraph (1) (but cannot be required to put under paragraph (2)).

Table 2

<i>Description</i>	<i>Questions</i>
<p>1. A person applying as an elector in relation to whom there is an entry in the postal voters list</p>	<p>1(a) Did you apply to vote by post?</p> <p>1(b) Why have you not voted by post?</p>

2. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ac sydd wedi ei enwi yn y rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy	2(a) Wnaethoch chi gais am bleidleisio drwy'r post fel dirprwy? 2(b) Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy'r post fel dirprwy?
---	---

(5) Ni chaniateir rhoi papur pleidleisio i unrhyw berson y mae'n ofynnol ateb un neu ragor o'r cwestiynau yn Nhabl 1 neu 2 oni bai bod y person wedi ateb y cwestiwn neu'r cwestiynau'n foddhaol.

(6) Ac eithrio fel yr awdurdodir gan y rheol hon, ni chaniateir ymholi ynglŷn â hawl unrhyw berson i bleidleisio.

(7) Yn y rheol hon, ystyr "y copïau o'r cofnodion cofrestru" yw'r copïau a ddarperir gan y swyddog canlyniadau ar gyfer yr orsaf bleidleisio o dan reol 32(3)(b) ac (c) (copïau o'r gofrestr etholwyr berthnasol a chopïau o unrhyw hysbysiadau a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983 sy'n ymwneud â'r gofrestr etholwyr berthnasol).

Herio pleidleisiwr

41. Ni chaniateir atal person rhag pleidleisio dim ond am fod y naill neu'r llall neu'r ddau o'r canlynol yn gymwys—

- (a) bod ymgeisydd, asiant etholiadol ymgeisydd (os penodwyd un) neu asiant pleidleisio ymgeisydd yn datgan bod ganddynt achos rhesymol dros gredu bod y person wedi cyflawni trosedd cambersonadu;
- (b) bod y person wedi ei arestio ar y sail yr amheuir ei fod wedi cyflawni neu ar fin cyflawni trosedd cambersonadu.

Gweithdrefn pleidleisio

42.—(1) Rhaid rhoi papur pleidleisio i bleidleisiwr sy'n gwneud cais am un.

(2) Yn union cyn i'r papur pleidleisio gael ei roi—

- (a) rhaid i rif yr etholwr, fel y'i nodir yn y copïau o'r cofnodion cofrestru, gael ei alw,
- (b) oni bai bod gan yr etholwr gofnod dienw, rhaid i enw'r etholwr, fel y'i nodir yn y copïau o'r cofnodion cofrestru, gael ei alw hefyd,
- (c) rhaid i rif yr etholwr gael ei farcio ar restr rhifau cyfatebol yr orsaf bleidleisio wrth ochr rhif y papur pleidleisio sydd i'w ddyroddi,

2. A person applying as proxy who is named in the proxy postal voters list	2(a) Did you apply to vote by post as proxy? 2(b) Why have you not voted by post as proxy?
--	---

(5) A ballot paper must not be given to any person required to answer one or more of the questions in Table 1 or 2 unless the person has answered the question or questions satisfactorily.

(6) Except as authorised by this rule, no inquiry is permitted as to the right of any person to vote.

(7) In this rule, "the copies of the registration records" means the copies provided by the returning officer for the polling station under rule 32(3)(b) and (c) (copies of the relevant register of electors and copies of any notices issued under section 13B(3B) or (3D) of the 1983 Act relating to the relevant register of electors).

Challenge of voter

41. A person must not be prevented from voting by reason only that either or both of the following apply—

- (a) a candidate, a candidate's election agent (if appointed) or a candidate's polling agent declares that they have reasonable cause to believe that the person has committed an offence of personation;
- (b) the person is arrested on the grounds that they are suspected of committing or being about to commit an offence of personation.

Voting procedure

42.—(1) A ballot paper must be given to a voter who applies for one.

(2) Immediately before the ballot paper is given—

- (a) the number of the elector, as stated in the copies of the registration records, must be called out,
- (b) unless the elector has an anonymous entry, the name of the elector, as stated in the copies of the registration records, must also be called out,
- (c) the number of the elector must be marked on the polling station's corresponding number list beside the number of the ballot paper to be issued,

- (d) rhaid gosod marc yn y copïau o'r cofnodion cofrestru gyferbyn â rhif yr etholwr i nodi bod papur pleidleisio wedi ei dderbyn, ond heb ddangos y papur pleidleisio penodol a dderbyniwyd, ac
- (e) yn achos person sy'n gwneud cais am bapur pleidleisio fel dirprwy, rhaid gosod marc hefyd gyferbyn ag enw'r person yn y rhestr dirprwyon.

(3) Yn achos etholwr sydd â chofnod dienw—

- (a) dim ond os dangosir cerdyn pleidleisio swyddogol yr etholwr neu, pan fo'r etholwr yn pleidleisio drwy ddirprwy, cerdyn pleidleisio swyddogol y dirprwy, i'r swyddog llywyddu y caniateir rhoi'r papur pleidleisio, a

(b) dim ond rhif yr etholwr y caniateir ei alw.

(4) Ar ôl cael y papur pleidleisio, rhaid i'r pleidleisiwr fynd ar unwaith i un o'r bythau yn yr orsaf bleidleisio.

(5) Heb oedi'n ddiangen, rhaid wedyn i'r pleidleisiwr—

- (a) marcio'r papur pleidleisio'n gyfrinachol,
- (b) plygu'r papur pleidleisio er mwyn cuddio'r bleidlais,
- (c) dangos cefn y papur pleidleisio i'r swyddog llywyddu, er mwyn datgelu'r rhif a'r marc adnabod unigryw arall, a
- (d) rhoi'r papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio ym mhresenoldeb y swyddog llywyddu.

(6) Cyn gynted ag y bydd y pleidleisiwr wedi rhoi'r papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio, rhaid i'r pleidleisiwr adael yr orsaf bleidleisio.

(7) Os bydd pleidleisiwr yn yr orsaf bleidleisio, neu mewn ciw y tu allan i'r orsaf bleidleisio, wrth i'r bleidlais gau ac nad yw wedi gallu bwrw ei bleidlais eto, rhaid i'r swyddog llywyddu ganiatáu i'r pleidleisiwr fwrw ei bleidlais cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(8) Yn y rheol hon, mae i "y copïau o'r cofnodion cofrestru" yr un ystyr ag yn rheol 40 (gweler paragraff (7) o'r rheol honno).

Pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy'n methu darllen: marcio pleidleisiau gan y swyddog llywyddu

43.—(1) Caiff pleidleisiwr wneud cais i'r swyddog llywyddu am i'w bleidlais gael ei marcio os yw'r pleidleisiwr—

- (d) a mark must be placed in the copies of the registration records against the number of the elector to note that a ballot paper has been received, but without showing the particular ballot paper that has been received, and
- (e) in the case of a person applying for a ballot paper as proxy, a mark must also be placed against the person's name in the list of proxies.

(3) In the case of an elector who has an anonymous entry—

- (a) the ballot paper may be given only if the elector's official poll card or, where the elector is voting by proxy, the proxy's official poll card is shown to the presiding officer, and

(b) only the elector's number may be called out.

(4) On receiving the ballot paper, the voter must go immediately into one of the compartments in the polling station.

(5) Without undue delay, the voter must then—

- (a) secretly mark the ballot paper,
- (b) fold the ballot paper up so as to conceal the vote,
- (c) show the presiding officer the back of the ballot paper, so as to disclose the number and other unique identifying mark, and
- (d) put the ballot paper into the ballot box in the presiding officer's presence.

(6) As soon as the voter has put the ballot paper in the ballot box, the voter must leave the polling station.

(7) If a voter is in the polling station, or in a queue outside the polling station, at the close of the poll and has not yet been able to cast their vote, the presiding officer must permit the voter to cast their vote as soon as practicable.

(8) In this rule, "the copies of the registration records" has the same meaning as in rule 40 (see paragraph (7) of that rule).

Voters with a disability or unable to read: marking of votes by presiding officer

43.—(1) A voter may apply to the presiding officer for their vote to be marked if the voter—

(a) yn methu, oherwydd dallineb neu anabledd arall, â phleidleisio yn y modd a gyfarwyddir gan y rheolau hyn, neu

(b) yn datgan ar lafar nad yw'n gallu darllen.

(2) Pan wneir cais, rhaid i'r swyddog llywyddu, ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yn yr orsaf bleidleisio pan wneir y cais—

(a) peri i bleidlais y pleidleisiwr gael ei marcio ar bapur pleidleisio yn y modd a gyfarwyddir gan y pleidleisiwr, a

(b) peri i'r papur pleidleisio gael ei osod yn y blwch pleidleisio.

(3) Pan fo pleidlais pleidleisiwr wedi ei marcio yn unol â pharagraff (2), rhaid i'r swyddog llywyddu nodi'r manylion a ganlyn ar restr a gedwir gan y swyddog llywyddu at ddbenion y rheol hon (“y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu”)—

(a) enw a rhif y pleidleisiwr, fel y'u dangosir yn y copiâu o'r cofnodion cofrestru, a

(b) y rheswm y cafodd y bleidlais ei marcio.

(4) Yn achos person sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr, y rhif sydd i'w gofnodi ynghyd ag enw'r pleidleisiwr yn y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu yw rhif yr etholwr.

(5) Yn y rheol hon, mae i “y copiâu o'r cofnodion cofrestru” yr un ystyr ag yn rheol 40 (gweler paragraff (7) o'r rheol honno).

Pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy'n methu darllen: cymorth cymdeithion

44.—(1) Caiff pleidleisiwr wneud cais i'r swyddog llywyddu, ar sail dallineb neu anabledd arall neu anallu i ddarllen, am ganiatâd i bleidleisio gyda chymorth cydymaith.

(2) Pan wneir cais, rhaid i'r swyddog llywyddu ei gwneud yn ofynnol i'r pleidleisiwr ddatgan, ar lafar neu mewn ysgrif, a yw dallineb neu anabledd arall, neu anallu i ddarllen, yn effeithio ar y pleidleisiwr fel na all bleidleisio heb gymorth cydymaith.

(3) Yn y darpariaethau a ganlyn yn y rheol hon, cyfeirir at bleidleisiwr sy'n datgan bod dallineb neu anabledd arall, neu anallu i ddarllen yn effeithio arno fel na all bleidleisio heb gymorth cydymaith fel pleidleisiwr ag anableddau.

(4) Pan wneir cais am bleidleisio gyda chymorth cydymaith, rhaid i'r cydymaith wneud datganiad ysgrifenedig gerbron y swyddog llywyddu bod y cydymaith—

(a) wedi cyrraedd 16 oed, a

(b) heb gynorthwyo mwy nag un pleidleisiwr ag anableddau o'r blaen i bleidleisio yn yr etholiad.

(a) is unable, because of blindness or other disability, to vote in the manner directed by these rules, or

(b) declares orally that they are unable to read.

(2) Where an application is made, the presiding officer must, in the presence of any polling agents who are in the polling station when the application is made—

(a) cause the voter's vote to be marked on a ballot paper in the manner directed by the voter, and

(b) cause the ballot paper to be placed in the ballot box.

(3) Where a voter's vote is marked in pursuance of paragraph (2), the presiding officer must enter the following details on a list maintained by the presiding officer for the purposes of this rule (“the list of votes marked by the presiding officer”)—

(a) the name and number of the voter, as shown in the copies of the registration records, and

(b) the reason why the vote was marked.

(4) In the case of a person voting as proxy for an elector, the number to be entered together with the voter's name in the list of votes marked by the presiding officer is the elector's number.

(5) In this rule, “the copies of the registration records” has the same meaning as in rule 40 (see paragraph (7) of that rule).

Voters with a disability or unable to read: assistance of companions

44.—(1) A voter may apply to the presiding officer, on the ground of blindness or other disability or inability to read, to be allowed to vote with the assistance of a companion.

(2) Where an application is made, the presiding officer must require the voter to declare, orally or in writing, whether the voter is so affected by blindness or other disability, or by inability to read, as to be unable to vote without the assistance of a companion.

(3) In the following provisions of this rule, a voter who declares that they are so affected by blindness or other disability, or by inability to read, as to be unable to vote without the assistance of a companion is referred to as a voter with disabilities.

(4) At the time when an application to vote with the assistance of a companion is made, the companion must make a written declaration before the presiding officer that the companion—

(a) has attained the age of 16, and

(b) has not previously assisted more than one voter with disabilities to vote at the election.

(5) Rhaid i ddatganiad y cydymaith—

- (a) bod yn y ffurf yn Atodiad 8, a
- (b) cael ei roi i'r swyddog llywyddu sy'n gorfod tystio iddo a'i gadw.

(6) Rhaid i'r swyddog llywyddu ganiatáu cais y pleidleisiwr am gymorth cydymaith os yw'r swyddog llywyddu—

- (a) wedi ei fodloni bod dallineb neu anabledd arall, neu anallu i ddarllen, yn effeithio ar y pleidleisiwr fel na all bleidleisio heb gymorth cydymaith, a
- (b) wedi ei fodloni hefyd gan ddatganiad ysgrifenedig y cydymaith fod y cydymaith wedi cyrraedd 16 oed ac nad yw'r cydymaith wedi cynorthwyo mwy nag un pleidleisiwr ag anableddau o'r blaen i bleidleisio yn yr etholiad.

(7) Pan ganiateir y cais—

- (a) caniateir i unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud o dan y rheolau hyn i'r pleidleisiwr mewn cysylltiad â rhoi'r bleidlais gael ei wneud yn hytrach i'r cydymaith, a
- (b) caiff y pleidleisiwr wneud unrhyw beth y mae angen ei wneud mewn cysylltiad â rhoi'r bleidlais gyda chymorth y cydymaith.

Pleidleisio gyda chymorth cydymaith: darpariaeth atodol

45.—(1) Pan roddir pleidlais gyda chymorth cydymaith yn unol â rheol 45, rhaid i'r swyddog llywyddu wedyn nodi'r manylion a ganlyn mewn rhestr a gedwir gan y swyddog llywyddu (“y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith”)—

- (a) enw a rhif y pleidleisiwr, fel y'u dangosir yn y copïau o'r cofnodion cofrestru, a
- (b) enw a chyfeiriad y cydymaith.

(2) Yn achos person sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr, y rhif sydd i'w nodi ynghyd ag enw'r pleidleisiwr yn y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith yw rhif yr etholwr.

(3) Pan fo gan y pleidleisiwr gofnod dienw, dim ond rhif y pleidleisiwr yn y copïau o'r cofnodion cofrestru y caniateir ei nodi yn y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith.

(4) Ni chaniateir codi ffi na thaliad arall mewn cysylltiad â datganiad a wneir gan gydymaith o dan reol 44(4).

(5) Yn y rheol hon, mae i “y copïau o'r cofnodion cofrestru” yr un ystyr ag yn rheol 40 (gweler paragraff (7) o'r rheol honno).

(5) The companion's declaration—

- (a) must be in the form in Appendix 8, and
- (b) must be given to the presiding officer who must attest it and retain it.

(6) The presiding officer must grant the voter's application for the assistance of a companion if the presiding officer—

- (a) is satisfied that the voter is so affected by blindness or other disability, or by inability to read, as to be unable to vote without the assistance of a companion, and
- (b) is also satisfied by the companion's written declaration that the companion has attained the age of 16 and has not previously assisted more than one voter with disabilities to vote at the election.

(7) Where the application is granted—

- (a) anything that is required to be done by these rules to the voter in connection with the giving of the vote may be done instead to the companion, and
- (b) the voter may do anything that needs to be done in connection with the giving of the vote with the assistance of the companion.

Voting with the assistance of a companion: supplemental provision

45.—(1) Where a vote is given with the assistance of a companion in accordance with rule 44, the presiding officer must then enter the following details in a list maintained by the presiding officer (“the list of voters with disabilities assisted by companions”)—

- (a) the name and number of the voter, as shown in the copies of the registration records, and
- (b) the name and address of the companion.

(2) In the case of a person voting as proxy for an elector, the number to be entered together with the voter's name in the list of voters with disabilities assisted by companions is the elector's number.

(3) Where the voter has an anonymous entry, only the voter's number in the copies of the registration records may be entered in the list of voters with disabilities assisted by companions.

(4) No fee or other payment may be charged in respect of a declaration made by a companion under rule 44(4).

(5) In this rule, “the copies of the registration records” has the same meaning as in rule 40 (see paragraph (7) of that rule).

Papurau pleidleisio a dendrwyd: yr amgylchiadau lle maent ar gael

46.—(1) Mae'r rheol hon yn nodi amgylchiadau pan fo gan berson sy'n gwneud cais am bleidlais ("y ceisydd") hawl i bleidleisio ar ôl ateb yn foddhaol y cwestiynau y mae'r gyfraith yn caniatáu eu gofyn yn y bleidlais ond pan fo'r weithdrefn ar gyfer rhoi'r bleidlais yn cael ei haddasu yn y ddwy ffordd a ganlyn—

- (a) bod rhaid i'r person ddefnyddio papur pleidleisio sydd o liw gwahanol i bapurau pleidleisio eraill, a
- (b) bod rhaid i'r person roi'r papur pleidleisio i'r swyddog llywyddu (yn hytrach na'i roi yn y blwch pleidleisio).

Amgylchiadau lle mae pleidlais eisoes wedi ei rhoi yn bersonol

(2) Y set gyntaf o amgylchiadau yw—

- (a) pan fo'r ceisydd yn honni ei fod yn etholwr penodol a enwir yn y copïau o'r cofnodion cofrestru ac nad yw wedi ei enwi yn y rhestr pleidleiswyr post neu'r rhestr dirprwyon, a
- (b) pan fo person arall eisoes wedi pleidleisio'n bersonol naill ai fel yr etholwr hwnnw neu fel dirprwy'r etholwr hwnnw.

(3) Yr ail set o amgylchiadau yw—

- (a) pan fo'r ceisydd yn honni ei fod yn berson penodol a enwir yn y rhestr dirprwyon fel dirprwy ar ran etholwr ac nad oes ganddo hawl i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy, a
- (b) pan fo person arall eisoes wedi pleidleisio'n bersonol naill ai fel yr etholwr hwnnw neu fel dirprwy'r etholwr hwnnw.

Amgylchiadau lle mae ceisydd ar y rhestr pleidleiswyr post yn honni nad yw wedi gwneud cais am bleidlais bost

(4) Y drydedd set o amgylchiadau yw—

- (a) pan fo'r ceisydd yn honni ei fod yn etholwr penodol a enwir yn y copïau o'r cofnodion cofrestru,
- (b) pan fo'r ceisydd hefyd wedi ei enwi yn y rhestr pleidleiswyr post, ac
- (c) pan fo'r ceisydd yn honni nad yw wedi gwneud cais am bleidleisio drwy'r post yn yr etholiad.

(5) Y bedwaredd set o amgylchiadau yw—

- (a) pan fo'r ceisydd yn honni ei fod yn berson penodol a enwir yn ddirprwy yn y rhestr dirprwyon,
- (b) pan fo'r person hwnnw hefyd wedi ei enwi ar y rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy, ac

Tendered ballot papers: circumstances where available

46.—(1) This rule sets out circumstances where a person who applies for a vote ("the applicant") is entitled to vote on satisfactorily answering the questions permitted by law to be asked at the poll but where the procedure for giving the vote is modified in the following two ways—

- (a) the person must use a ballot paper that is of a different colour to other ballot papers, and
- (b) the person must give the ballot paper to the presiding officer (instead of putting it in the ballot box).

Circumstances where vote already given in person

(2) The first set of circumstances is where—

- (a) the applicant represents themselves to be a particular elector named in the copies of the registration records and not named in the postal voters list or list of proxies, and
- (b) another person has already voted in person either as that elector or as that elector's proxy.

(3) The second set of circumstances is where—

- (a) the applicant represents themselves to be a particular person named in the list of proxies as proxy for an elector and not entitled to vote by post as proxy, and
- (b) another person has already voted in person either as that elector or as that elector's proxy.

Circumstances where applicant on postal voters list claims not to have applied for postal vote

(4) The third set of circumstances is where—

- (a) the applicant represents themselves to be a particular elector named in the copies of the registration records,
- (b) the applicant is also named in the postal voters list, and
- (c) the applicant claims not to have made an application to vote by post at the election.

(5) The fourth set of circumstances is where—

- (a) the applicant represents themselves to be a particular person named as a proxy in the list of proxies,
- (b) that person is also named in the proxy postal voters list, and

- (c) pan fo'r ceisydd yn honni nad yw wedi gwneud cais am bleidleisio drwy'r post fel dirprwy yn yr etholiad.

Amgylchiadau lle mae'r ceisydd yn honni ei fod wedi colli papur pleidleisio post etc.

(6) Y bumed set o amgylchiadau yw—

- (a) pan fo'r ceisydd, ar ôl yr amser olaf y caiff person wneud cais am bapur pleidleisio post newydd ond cyn i'r bleidlais gau, yn honni ei fod yn etholwr penodol a enwir yn y copïau o'r cofnodion cofrestru sydd hefyd wedi ei enwi yn y rhestr pleidleiswyr post, a

- (b) pan fo'r ceisydd yn honni ei fod wedi colli papur pleidleisio post y person hwnnw neu heb ei gael.

(7) Y chweched set o amgylchiadau yw—

- (a) pan fo'r ceisydd, ar ôl yr amser olaf y caiff person wneud cais am bapur pleidleisio post newydd ond cyn i'r bleidlais gau, yn honni ei fod yn berson penodol a enwir yn ddirprwy yn y rhestr dirprwyon sydd hefyd wedi ei enwi yn y rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy, a

- (b) pan fo'r ceisydd yn honni ei fod wedi colli papur pleidleisio post y person hwnnw neu heb ei gael.

(8) Cyfeirir at bapur pleidleisio a roddir i swyddog llywyddu yn unol â'r rheol hon yn y rheolau hyn fel "papur pleidleisio a dendrwyd".

(9) Pan fo gan etholwr gofnod dienw, mae'r cyfeiriadau yn y rheol hon at berson a enwir yn y copïau o'r cofnodion cofrestru neu mewn rhestr i'w darllen fel cyfeiriadau at berson sydd â rhif yn y copïau neu yn y rhestr.

(10) Yn y rheol hon, mae i "y copïau o'r cofnodion cofrestru" yr un ystyr ag yn rheol 40 (gweler paragraff (7) o'r rheol honno).

Dyletswyddau swyddogion llywyddu mewn perthynas â phapurau pleidleisio a dendrwyd

47.—(1) Mae'r rheol hon yn nodi dyletswyddau'r swyddog llywyddu mewn perthynas â phapurau pleidleisio a dendrwyd.

(2) Rhaid i'r swyddog llywyddu arnodi'r wybodaeth a ganlyn ar y papur pleidleisio—

- (a) enw'r pleidleisiwr, a
- (b) rhif y pleidleisiwr yn y copïau o'r cofnodion cofrestru neu, os yw'r pleidleisiwr yn pleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr, rhif yr etholwr.

(3) Rhaid i'r swyddog llywyddu roi'r papur pleidleisio mewn pecyn ar wahân.

- (c) the applicant claims not to have made an application to vote by post as proxy at the election.

Circumstances where applicant claims to have lost postal ballot paper etc.

(6) The fifth set of circumstances is where—

- (a) after the last time at which a person may apply for a replacement postal ballot paper but before the close of the poll, the applicant represents themselves to be a particular elector named in the copies of the registration records who is also named in the postal voters list, and

- (b) the applicant claims to have lost or not to have received that person's postal ballot paper.

(7) The sixth set of circumstances is where—

- (a) after the last time at which a person may apply for a replacement postal ballot paper but before the close of the poll, the applicant represents themselves to be a particular person named as a proxy in the list of proxies who is also named in the proxy postal voters list, and

- (b) the applicant claims to have lost or not to have received that person's postal ballot paper.

(8) A ballot paper that is given to a presiding officer in accordance with this rule is referred to in these rules as a "tendered ballot paper".

(9) Where an elector has an anonymous entry, the references in this rule to a person named in the copies of the registration records or a list are to be read as references to a person who has a number in the copies or list.

(10) In this rule, "the copies of the registration records" has the same meaning as in rule 40 (see paragraph (7) of that rule).

Duties of presiding officer in relation to tendered ballot papers

47.—(1) This rule sets out the duties of the presiding officer in relation to tendered ballot papers.

(2) The presiding officer must endorse the following information on the ballot paper—

- (a) the name of the voter, and
- (b) the voter's number in the copies of the registration records or, if the voter is voting as proxy for an elector, the number of the elector.

(3) The presiding officer must put the ballot paper in a separate packet.

(4) Rhaid cofnodi'r wybodaeth a ganlyn ar restr (y "restr pleidleisiau a dendrwyd")—

- (a) enw'r pleidleisiwr, a
- (b) rhif y pleidleisiwr yn y copïau o'r cofnodion cofrestru neu, os yw'r pleidleisiwr yn pleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr, rhif yr etholwr.

(5) Pan fo gan etholwr gofnod dienw, rhaid i'r swyddog llywyddu beidio â chynnwys enw'r pleidleisiwr ar y papur pleidleisio nac yn y rhestr pleidleisiau a dendrwyd.

(6) Yn y rheol hon, mae i "y copïau o'r cofnodion cofrestru" yr un ystyr ag yn rheol 40 (gweler paragraff (7) o'r rheol honno).

Papurau pleidleisio a ddifethwyd

48.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan fo pleidleisiwr wedi ymdrin yn anfwriadol â'i bapur pleidleisio yn y fath fodd fel na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus fel papur pleidleisio.

(2) Caiff y pleidleisiwr sicrhau papur pleidleisio arall—

- (a) drwy roi'r papur pleidleisio yr ymdriniwyd ag ef yn anfwriadol (y "papur pleidleisio a ddifethwyd") i'r swyddog llywyddu, a
- (b) drwy brofi er boddhad y swyddog llywyddu yr ymdriniwyd ag ef yn anfwriadol.

(3) Pan roddir papur pleidleisio arall i'r pleidleisiwr, rhaid i'r papur pleidleisio a ddifethwyd gael ei ganslo ar unwaith.

Cywiro gwallau ar ddiwrnod y bleidlais

49. Rhaid i'r swyddog llywyddu gadw rhestr o bersonau y rhoddir papurau pleidleisio iddynt o ganlyniad i addasiad yn y gofrestr a wneir yn rhinwedd adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983 sy'n dod yn effeithiol ar ddiwrnod y bleidlais.

Gohirio'r bleidlais os ceir terfysg

50.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan dorri ar draws y trafodion mewn unrhyw orsaf bleidleisio neu pan gânt eu rhwystro gan derfysg neu drais agored.

(2) Rhaid i'r swyddog llywyddu—

- (a) gohirio'r trafodion tan drannoeth, a
- (b) hysbysu'r swyddog canlyniadau ar unwaith.

(3) Pan gaiff y bleidlais ei gohirio mewn gorsaf bleidleisio—

- (a) rhaid i'r oriau pleidleisio ar y diwrnod y caiff ei gohirio iddo fod yr un fath ag ar gyfer y diwrnod gwreiddiol, a

(4) The following information must be entered on a list (the "tendered votes list")—

- (a) the name of the voter, and
- (b) the voter's number in the copies of the registration records or, if the voter is voting as proxy for an elector, the number of the elector.

(5) Where an elector has an anonymous entry, the presiding officer must not include the name of the voter on the ballot paper or in the tendered votes list.

(6) In this rule, "the copies of the registration records" has the same meaning as in rule 40 (see paragraph (7) of that rule).

Spoilt ballot papers

48.—(1) This rule applies where a voter has inadvertently dealt with their ballot paper in such a manner that it cannot conveniently be used as a ballot paper.

(2) The voter may obtain another ballot paper by—

- (a) giving the ballot paper that was inadvertently dealt with (the "spoilt ballot paper") to the presiding officer, and
- (b) proving to the presiding officer's satisfaction that it was dealt with inadvertently.

(3) Where the voter is given another ballot paper, the spoilt ballot paper must be cancelled immediately.

Correction of errors on day of poll

49. The presiding officer must keep a list of persons to whom ballot papers are given in consequence of an alteration to the register made by virtue of section 13B(3B) or (3D) of the 1983 Act which takes effect on the day of the poll.

Adjournment of poll in case of riot

50.—(1) This rule applies where proceedings at any polling station are interrupted or obstructed by riot or open violence.

(2) The presiding officer must—

- (a) adjourn the proceedings until the following day, and
- (b) immediately inform the returning officer.

(3) Where the poll is adjourned at a polling station—

- (a) the hours of polling on the day to which it is adjourned must be the same as for the original day, and

- (b) mae cyfeiriadau yn y rheolau hyn at gau'r bleidlais i'w darllen fel cyfeiriadau at ddiwedd yr oriau pleidleisio ar y diwrnod y caiff ei gohirio iddo.

- (b) references in these rules to the close of the poll are to be read as references to the end of the hours of polling on the day to which it is adjourned.

Y weithdrefn wrth gau'r bleidlais

51.—(1) Mae'r rheol hon yn nodi'r camau y mae'n rhaid i'r swyddog llywyddu eu cymryd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i bob pleidleisiwr fwrw ei bleidlais.

(2) Ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yn yr orsaf bleidleisio, rhaid i'r swyddog llywyddu selio pob blwch pleidleisio (gyda'r allwedd ynghlwm os oes un) a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr orsaf bleidleisio er mwyn atal gosod papurau pleidleisio ychwanegol ynddo, gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl.

(3) Ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yn yr orsaf bleidleisio, rhaid i'r swyddog llywyddu osod pob un o'r canlynol mewn pecynnau ar wahân, wedi eu selio gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl—

- (a) y papurau pleidleisio sydd heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd (gyda'i gilydd);
- (b) y papurau pleidleisio a dendrwyd;
- (c) y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestr dirprwyon (gyda'i gilydd);
- (d) rhestr rhifau cyfatebol yr orsaf bleidleisio, fel y'i marciwyd (gweler rheol 42(2)(c)) (y cyfeirir ati yn y darpariaethau a ganlyn yn y rheolau hyn fel “y rhestr rhifau cyfatebol a gwblhawyd”);
- (e) unrhyw dystysgrifau a ildwyd o dan reol 37(4) neu (5) (ildio dystysgrifau a ddyroddwyd i gwnstabiliaid neu staff swyddogion canlyniadau);
- (f) y rhestrau a'r datganiadau a ganlyn (gyda'i gilydd)—
 - (i) y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, ynghyd â datganiad o nifer y pleidleiswyr y mae eu pleidleisiau wedi eu marcio o dan y penawdau “anabledd” a “methu darllen” (gweler rheol 43);
 - (ii) y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau (gweler rheol 44);
 - (iii) y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith (gweler rheol 45);

Procedure on close of poll

51.—(1) This rule sets out the steps that must be taken by the presiding officer as soon as practicable after every voter has cast their vote.

(2) In the presence of any polling agents who are in the polling station, the presiding officer must seal each ballot box (with the key if any attached) in use at the polling station so as to prevent the introduction of additional ballot papers, using the presiding officer's seal and the seals of any polling agents who wish to affix their seal.

(3) In the presence of any polling agents who are in the polling station, the presiding officer must place each of the following in separate packets, sealed using the presiding officer's seal and the seals of any polling agents who wish to affix their seal—

- (a) the unused and spoiled ballot papers (together);
- (b) the tendered ballot papers;
- (c) the marked copies of the registration records and list of proxies (together);
- (d) the polling station's corresponding number list, as marked (see rule 42(2)(c)) (referred to in the following provisions of these rules as “the completed corresponding number list”);
- (e) any certificates surrendered under rule 37(4) or (5) (surrender of certificates issued to constables or staff of returning officers);
- (f) the following lists and declarations (together)—
 - (i) the list of votes marked by the presiding officer, together with a statement of the number of voters whose votes are marked under the heads “disability” and “unable to read” (see rule 43);
 - (ii) the declarations made by the companions of voters with disabilities (see rule 44);
 - (iii) the list of voters with disabilities assisted by companions (see rule 45);

(iv) y rhestr pleidleisiau a dendrwyd (gweler rheol 47);

(v) y rhestr a gadwyd o dan reol 49 (cywiro gwallau ar ddiwrnod y bleidlais).

(4) Rhaid i'r swyddog llywyddu ddanfon y blychau pleidleisio a'r pecynnau a seliwyd i'r swyddog canlyniadau neu beri iddynt gael eu danfon yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau.

(5) I gyd-fynd â'r pecynnau rhaid cael datganiad ("cyfriflen papurau pleidleisio") a baratowyd gan y swyddog llywyddu ac sy'n dangos—

- (a) nifer y papurau pleidleisio a roddwyd i'r swyddog llywyddu, a
- (b) sut y cyfrifwyd y papurau pleidleisio o dan y penawdau a ganlyn—
 - (i) nifer y papurau pleidleisio a ddyroddwyd ac na chyfrifwyd hwy fel arall;
 - (ii) nifer y papurau pleidleisio sydd heb eu defnyddio;
 - (iii) nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd;
 - (iv) nifer y papurau pleidleisio a dendrwyd.

(6) Yn y rheol hon, ystyr "y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru" yw'r copïau o'r cofnodion cofrestru (fel y'u diffinnir gan reol 40(7)), fel y'u marciwyd yn unol â'r rheolau hyn.

(iv) the tendered votes list (see rule 47);

(v) the list maintained under rule 49 (correction of errors on day of poll).

(4) The presiding officer must deliver the sealed ballot boxes and packets to the returning officer or cause them to be delivered in accordance with arrangements approved by the returning officer.

(5) The packets must be accompanied by a statement ("a ballot paper account") prepared by the presiding officer showing—

- (a) the number of ballot papers given to the presiding officer, and
- (b) how the ballot papers are accounted for under the following headings—
 - (i) the number of ballot papers issued and not otherwise accounted for;
 - (ii) the number of ballot papers unused;
 - (iii) the number of spoiled ballot papers;
 - (iv) the number of tendered ballot papers.

(6) In this rule, "the marked copies of the registration records" means the copies of the registration records (as defined by rule 40(7)) as marked in accordance with these rules.

RHAN 4

Cyfrif y Pleidleisiau a Datgan y Canlyniad mewn Etholiadau lle ceir Gornest

Trefniadau cyfrif y pleidleisiau

52.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau wneud trefniadau i'r pleidleisiau gael eu cyfrif ym mhresenoldeb yr asiantau cyfrif cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r bleidlais gau.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau roi hysbysiad i'r asiantau cyfrif yn datgan yr amser a'r lle y bydd y swyddog canlyniadau yn dechrau cyfrif y pleidleisiau.

Presenoldeb wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif

53.—(1) Mae gan y personau a ganlyn hawl i fod yn bresennol wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif—

- (a) y swyddog canlyniadau ac aelodau staff y swyddog canlyniadau;
- (b) pob ymgeisydd a gwestai i bob ymgeisydd;
- (c) yr asiantau etholiadol (os penodwyd rhai);
- (d) yr asiantau cyfrif;

PART 4

Counting of Votes and Declaration of Result at Contested Elections

Arrangements for the counting of votes

52.—(1) The returning officer must make arrangements for the votes to be counted in the presence of the counting agents as soon as practicable after the close of the poll.

(2) The returning officer must give the counting agents a notice stating the time and place at which the returning officer will begin to count the votes.

Attendance at the counting of votes

53.—(1) The following persons are entitled to be present at the counting of votes—

- (a) the returning officer and members of the returning officer's staff;
- (b) each candidate and a guest of each candidate;
- (c) the election agents (if appointed);
- (d) the counting agents;

- (e) unrhyw berson sydd â hawl i fod yn bresennol yn rhinwedd adrannau 6A i 6D o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol a sylwedyddion achrededig);

- (f) y cwnstablaid ar ddyletswydd.

(2) Caiff y swyddog canlyniadau ganiatáu i unrhyw berson arall fod yn bresennol wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif.

(3) Ni chaniateir rhoi caniatâd o dan baragraff (2) oni bai bod y swyddog canlyniadau—

- (a) wedi ei fodloni na fydd presenoldeb y person yn rhwystru'r pleidleisiau rhag cael eu cyfrif yn effeithlon, a
- (b) naill ai wedi ymgynghori â'r personau priodol ynghylch a ddylid rhoi caniatâd neu wedi penderfynu nad yw'n ymarferol ymgynghori â hwy.

(4) At ddibenion paragraff (3)(b) “y personau priodol” yw'r asiantau etholiadol (os penodwyd rhai) ac, yn achos ymgeiswyr sydd heb benodi asiantau etholiadol, yr ymgeiswyr.

(5) Rhaid i'r swyddog canlyniadau roi pob cyfleuster rhesymol i'r asiantau cyfrif ar gyfer goruchwylio'r trafodion, a'r holl wybodaeth amdanynt, y gall y swyddog canlyniadau eu rhoi yn gyson â chynnal y trafodion yn drefnus a chyflawni dyletswyddau'r swyddog canlyniadau.

(6) Yn benodol, pan fo'r pleidleisiau'n cael eu cyfrif drwy ddidoli'r papurau pleidleisio yn ôl yr ymgeisydd y rhoddir y bleidlais iddo ac wedyn cyfrif nifer y papurau pleidleisio ar gyfer pob ymgeisydd, mae gan yr asiantau cyfrif hawl i'w bodloni eu hunain fod y papurau pleidleisio wedi eu didoli'n gywir.

(7) Rhaid i'r swyddog canlyniadau wneud trefniadau i sicrhau bod pawb sy'n bresennol wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif (ac eithrio'r cwnstablaid ar ddyletswydd) wedi cael hysbysiad yn nodi darpariaethau adran 66(2) a (6) o Ddeddf 1983 (hysbysiad o ofyniad cyfrinachedd).

(8) Yn y rheol hon, mae cyfeiriad at gwnstabl yn cynnwys cyfeiriad at berson a ddynodwyd yn swyddog cymorth cymunedol neu'n wirfoddolwr cymorth cymunedol o dan adran 38 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (pwerau'r heddlu i staff sy'n sifiliaid a gwirfoddolwyr).

Y cyfrif: camau

54.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd y camau a ganlyn.

- (e) any person who is entitled to attend by virtue of sections 6A to 6D of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (representatives of the Electoral Commission and accredited observers);

- (f) the constables on duty.

(2) The returning officer may permit any other person to attend at the counting of votes.

(3) Permission may not be given under paragraph (2) unless the returning officer—

- (a) is satisfied that the person's attendance will not impede the efficient counting of votes, and
- (b) has either consulted the appropriate persons about whether to give permission or decided that it is not practicable to consult them.

(4) For the purposes of paragraph (3)(b), “the appropriate persons” are the election agents (if appointed) and, in the case of candidates who have not appointed election agents, the candidates.

(5) The returning officer must give the counting agents all such reasonable facilities for overseeing the proceedings, and all such information about them, as the returning officer is able to give consistently with the orderly conduct of the proceedings and the discharge of the returning officer's duties.

(6) In particular, where the votes are counted by sorting the ballot papers according to the candidate for whom the vote is given and then counting the number of ballot papers for each candidate, the counting agents are entitled to satisfy themselves that the ballot papers are correctly sorted.

(7) The returning officer must make arrangements to ensure that every person attending at the counting of votes (other than the constables on duty) has been given a notice setting out the provisions of section 66(2) and (6) of the 1983 Act (notification of requirement of secrecy).

(8) In this rule, a reference to a constable includes a reference to a person designated as a community support officer or community support volunteer under section 38 of the Police Reform Act 2002 (police powers for civilian staff and volunteers).

The count: steps

54.—(1) The returning officer must take the following steps.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, ym mhresenoldeb yr asiantau cyfrif, agor pob blwch pleidleisio, tynnu'r papurau pleidleisio, eu cyfrif a chofnodi nifer y papurau pleidleisio.

(3) Ni chaniateir i'r swyddog canlyniadau gyfrif unrhyw bapur pleidleisio a dendrwyd.

(4) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, ym mhresenoldeb yr asiantau etholiadol (os penodwyd rhai), ddilysu pob cyfriflen papurau pleidleisio drwy ei chymharu â nifer y papurau pleidleisio a gofnodwyd, y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisiau a ddifethwyd sydd ym meddiant y swyddog canlyniadau a'r rhestr pleidleisiau a dendrwyd (gan agor ac ailselio'r pecynnau sy'n cynnwys y papurau pleidleisio heb eu defnyddio, y papurau pleidleisio a ddifethwyd a'r rhestr pleidleisiau a dendrwyd).

(5) Rhaid i'r swyddog canlyniadau baratoi datganiad ynglŷn â chanlyniad y dilysiad a rhoi copi o'r datganiad i unrhyw asiant etholiadol sy'n gofyn amdano.

(6) Pan nad yw ymgeisydd wedi penodi asiant etholiadol—

- (a) rhaid i ddilysiad y gyfriflen papurau pleidleisio gael ei wneud yn hytrach ym mhresenoldeb asiantau cyfrif yr ymgeisydd, a
- (b) rhaid rhoi copi o'r datganiad i unrhyw un neu ragor o asiantau'r ymgeisydd sy'n gofyn amdano.

(7) Rhaid hefyd i'r swyddog canlyniadau—

- (a) cyfrif y papurau pleidleisio post sydd wedi eu dychwelyd yn briodol (gweler paragraff (8)), a
- (b) cofnodi'r nifer a gyfrifwyd.

(8) Mae papur pleidleisio post i'w drin fel pe bai wedi ei dychwelyd yn briodol os yw'r papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio post sy'n cyd-fynd ag ef sydd wedi ei gwblhau'n briodol—

- (a) wedi eu cyflwyno mewn gorsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol cyn i'r bleidlais gau,
- (b) wedi eu rhoi â llaw i'r swyddog canlyniadau cyn i'r bleidlais gau, neu
- (c) wedi dod i law'r swyddog canlyniadau drwy'r post cyn i'r bleidlais gau.

(9) Mae datganiad pleidleisio post wedi ei gwblhau'n briodol—

- (a) os yw wedi ei lofnodi gan yr etholwr neu (yn ôl y digwydd) y dirprwy, oni bai bod y swyddog cofrestru wedi hepgor y gofyniad ynglŷn â llofnod,
- (b) os yw'n datgan dyddiad geni'r etholwr neu (yn ôl y digwydd) dyddiad geni'r dirprwy, ac

(2) The returning officer must, in the presence of the counting agents, open each ballot box, take out the ballot papers, count them and record the number of ballot papers.

(3) The returning officer must not count any tendered ballot paper.

(4) The returning officer must, in the presence of the election agents (if appointed), verify each ballot paper account by comparing it with the number of ballot papers recorded, the unused and spoiled ballot papers in the returning officer's possession and the tendered votes list (opening and resealing the packets containing the unused and spoiled ballot papers and tendered votes list).

(5) The returning officer must prepare a statement as to the result of the verification and give a copy of the statement to any election agent who requests it.

(6) Where a candidate has not appointed an election agent—

- (a) the verification of the ballot paper account must be done in the presence of the candidate's counting agents instead, and
- (b) a copy of the statement must be given to any of the candidate's counting agents who requests it.

(7) The returning officer must also—

- (a) count the postal ballot papers that have been properly returned (see paragraph (8)), and
- (b) record the number counted.

(8) A postal ballot paper is to be treated as properly returned if the ballot paper and the accompanying postal voting statement properly completed are—

- (a) handed in at a polling station in the electoral area before the close of the poll,
- (b) given by hand to the returning officer before the close of the poll, or
- (c) received by the returning officer by post before the close of the poll.

(9) A postal voting statement is properly completed if—

- (a) it is signed by the elector or (as the case may be) the proxy, unless the registration officer has dispensed with the requirement for a signature,
- (b) it states the date of birth of the elector or (as the case may be) the proxy, and

- (c) mewn achos lle mae camau i ddilysu dyddiad geni a llofnod etholwr neu ddirprwy wedi eu rhagnodi gan reoliadau o dan Ddeddf 1983, os yw'r swyddog canlyniadau wedi cymryd y camau hynny ac wedi dilysu'r dyddiad geni ac (ac eithrio mewn achos lle mae'r gofyniad ynglŷn â llofnod wedi ei hepgor) y llofnod.

(10) Pan fo person, wrth i'r bleidlais gau, yn yr orsaf bleidleisio, neu mewn ciw y tu allan i'r orsaf bleidleisio, er mwyn cyflwyno papur pleidleisio post a datganiad pleidleisio post—

- (a) rhaid caniatáu i'r person gyflwyno'r papur pleidleisio a'r datganiad yn yr orsaf bleidleisio, a
- (b) pan fônt wedi eu cyflwyno, maent i'w trin fel pe baent wedi eu cyflwyno cyn diwedd y bleidlais at ddibenion y rheol hon.

(11) Ni chaiff y swyddog canlyniadau gyfrif y pleidleisiau a roddwyd ar unrhyw bapur pleidleisio—

- (a) yn achos papurau pleidleisio post, nes eu bod wedi eu cymysgu â'r papurau pleidleisio o un blwch pleidleisio o leiaf, a
- (b) yn achos papurau pleidleisio o flwch pleidleisio, nes eu bod wedi eu cymysgu â'r papurau pleidleisio o un blwch pleidleisio arall o leiaf.

(12) Wrth gyfrif a chofnodi nifer y papurau pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau, rhaid i'r swyddog canlyniadau—

- (a) cadw'r papurau pleidleisio â'u hwynebâu i fyny, a
- (b) cymryd unrhyw ragofalon eraill sy'n briodol i atal unrhyw berson rhag gweld y rhifau neu'r marcïau adnabod unigryw eraill a argraffwyd ar gefn y papurau.

Y cyfrif: cyffredinol

55.—(1) Rhaid canfod canlyniad y bleidlais drwy gyfrif y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd.

(2) Rhaid datgan bod yr ymgeisydd neu'r ymgeiswyr y rhoddwyd mwy o bleidleisiau iddo ef neu iddynt hwy nag i'r ymgeiswyr eraill wedi ei ethol neu wedi eu hethol, hyd at nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r swyddog canlyniadau, i'r graddau y bo'n ymarferol, fwrw ymlaen yn ddi-dor â'r gwaith cyfrif pleidleisiau, gan ganiatáu amser ar gyfer lluniaeth yn unig.

(4) Caiff y swyddog canlyniadau eithrio unrhyw oriau rhwng 7 p.m. a 9 a.m. fore trannoeth.

(5) Yn ystod unrhyw amser sydd wedi ei eithrio, rhaid i'r swyddog canlyniadau—

- (c) in a case where steps for verifying the date of birth and signature of an elector or proxy have been prescribed by regulations under the 1983 Act, the returning officer has taken those steps and verified the date of birth and (except in a case where the requirement for a signature has been dispensed with) the signature.

(10) Where, at the close of the poll, a person is in the polling station, or in a queue outside the polling station, for the purpose of handing in a postal ballot paper and postal voting statement—

- (a) the person must be permitted to hand the ballot paper and statement in at the polling station, and
- (b) where handed in, they are to be treated as having been handed in before the close of the poll for the purposes of this rule.

(11) The returning officer must not count the votes given on any ballot paper until—

- (a) in the case of postal ballot papers, they have been mixed with the ballot papers from at least one ballot box, and
- (b) in the case of ballot papers from a ballot box, they have been mixed with the ballot papers from at least one other ballot box.

(12) While counting and recording the number of ballot papers and counting the votes, the returning officer must—

- (a) keep the ballot papers with their faces upwards, and
- (b) take such other precautions as are appropriate for preventing any person from seeing the numbers or other unique identifying marks printed on the back of the papers.

The count: general

55.—(1) The result of the poll must be ascertained by counting the votes given to each candidate.

(2) The candidate or candidates to whom more votes have been given than to the other candidates, up to the number of councillors to be elected, must be declared to have been elected.

(3) Subject to paragraph (4), the returning officer must, so far as practicable, proceed continuously with the counting of votes, allowing only time for refreshment.

(4) The returning officer may exclude any hours between 7 p.m. and 9 a.m. on the following morning.

(5) During any time that is excluded, the returning officer must—

- (a) gosod y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill sy'n ymwneud â'r etholiad o dan sêl y swyddog canlyniadau a seliau unrhyw asiantau cyfrif sy'n dymuno gosod eu sêl, a
- (b) cymryd rhagofalon priodol fel arall ar gyfer diogelwch y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill.

- (a) place the ballot papers and other documents relating to the election under the returning officer's seal and the seals of any counting agents who wish to affix their seals, and
- (b) otherwise take proper precautions for the security of the ballot papers and other documents.

Y cyfrif: papurau pleidleisio a wrthodwyd

56.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (4), mae'r papurau pleidleisio a ganlyn yn ddi-rym ac ni chaniateir eu cyfrif—

- (a) papur pleidleisio nad oes arno farc swyddogol;
- (b) papur pleidleisio y rhoddwyd pleidleisiau arno dros fwy o ymgeiswyr nag y mae gan y pleidleisiwr hawl i bleidleisio drostynt;
- (c) papur pleidleisio y mae unrhyw beth wedi ei ysgrifennu neu wedi ei farcio arno y gellir adnabod y pleidleisiwr drwyddo ac eithrio'r rhif printiedig a'r marc adnabod unigryw arall ar y cefn;
- (d) papur pleidleisio sydd heb ei farcio neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd.

(2) Pan fo gan y pleidleisiwr hawl i bleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd, nid yw papur pleidleisio i'w drin fel pe bai'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd o ran unrhyw bleidlais nad oes ansicrwydd yn codi yn ei chylch a rhaid cyfrif y bleidlais honno.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys i bapur pleidleisio y marciwyd pleidlais arno—

- (a) mewn man heblaw'r man priodol,
- (b) heblaw drwy gyfrwng croes, neu
- (c) drwy fwy nag un marc.

(4) Nid yw'r papur pleidleisio i'w drin fel pe bai'n ddi-rym (naill ai'n gyfan gwbl neu o ran y bleidlais honno), oherwydd y modd y mae'r bleidlais wedi ei marcio yn unig—

- (a) os yw'n glir o'r papur pleidleisio fod y pleidleisiwr yn bwriadu pleidleisio dros un neu'r llall o'r ymgeiswyr,
- (b) os nad yw'r modd y mae'r papur pleidleisio wedi ei farcio ynddo'i hun yn adnabod y pleidleisiwr, ac
- (c) os yw'r swyddog canlyniadau wedi ei fodloni na ellir adnabod y pleidleisiwr o'r papur pleidleisio.

(5) Rhaid i'r swyddog canlyniadau—

- (a) arnodi'r gair "gwrthodwyd" ar unrhyw bapur pleidleisio nad yw, yn unol â'r rheol hon, i'w gyfrif;

The count: rejected ballot papers

56.—(1) Subject to paragraphs (2) and (4), the following ballot papers are void and must not be counted—

- (a) a ballot paper that does not bear the official mark;
- (b) a ballot paper on which votes are given for more candidates than the voter is entitled to vote for;
- (c) a ballot paper on which anything is written or marked by which the voter can be identified except the printed number and other unique identifying mark on the back;
- (d) a ballot paper that is unmarked or void for uncertainty.

(2) Where the voter is entitled to vote for more than one candidate, a ballot paper is not to be treated as void for uncertainty as respects any vote as to which no uncertainty arises and that vote must be counted.

(3) Paragraph (4) applies to a ballot paper on which a vote is marked—

- (a) elsewhere than in the proper place,
- (b) otherwise than by means of a cross, or
- (c) by more than one mark.

(4) The ballot paper is not, by reason only of how the vote is marked, to be treated as void (either wholly or as respects that vote) if—

- (a) it is clear from the ballot paper that the voter intended to vote for one or other of the candidates,
- (b) the way the ballot paper is marked does not itself identify the voter, and
- (c) the returning officer is satisfied that the voter cannot be identified from the ballot paper.

(5) The returning officer must—

- (a) endorse the word "rejected" on any ballot paper which, in accordance with this rule, is not to be counted;

- (b) arnodi'r geiriau "gwrthodwyd yn rhannol" ar unrhyw bapur pleidleisio y cyfrifir pleidlais arno yn unol â pharagraff (2) a nodi pa bleidlais neu bleidleisiau a gyfrifwyd.

(6) Os bydd asiant cyfrif yn gwrthwynebu penderfyniad y swyddog canlyniadau, rhaid i'r swyddog canlyniadau ychwanegu'r geiriau "gwrthwynebwyd y gwrthodiad" at yr arnodiad.

(7) Rhaid i'r swyddog canlyniadau baratoi datganiad yn dangos nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd a'r nifer a wrthodwyd yn rhannol.

(8) Rhaid i'r datganiad nodi'r nifer a wrthodwyd neu a wrthodwyd yn rhannol o dan bob un o'r penawdau yn is-baragraffau (a) i (d) o baragraff (1).

Ailgyfrif

57.—(1) Caiff ymgeisydd neu asiant etholiadol yr ymgeisydd (os penodwyd un), os yw'n bresennol pan fydd y cyfrif wedi ei gwblhau, ofyn i'r swyddog canlyniadau ailgyfrif y pleidleisiau.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau gydymffurfio â'r cais oni bai bod y swyddog canlyniadau o'r farn bod y cais yn afresymol.

(3) Ni chaniateir cymryd unrhyw gam pan fo'r cyfrif wedi ei gwblhau nes bod yr ymgeiswyr a'r asiantau etholiadol sy'n bresennol wedi cael cyfle rhesymol i ofyn i'r pleidleisiau gael eu hailgyfrif.

(4) Pan fydd ailgyfrif yn digwydd, mae'r rheol hon hefyd yn gymwys mewn perthynas â'r ailgyfrif (fel y gall yr ymgeisydd neu asiant etholiadol yr ymgeisydd (os penodwyd un), er enghraifft, os yw'n bresennol pan fydd yr ailgyfrif wedi ei gwblhau, ofyn i'r swyddog canlyniadau ailgyfrif y pleidleisiau).

Pleidleisiau cyfartal

58.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan fo'r pleidleisiau'n gyfartal rhwng unrhyw ymgeiswyr ar ôl cyfrif y pleidleisiau (gan gynnwys unrhyw ailgyfrif), a phan fyddai ychwanegu pleidlais yn rhoi'r hawl i unrhyw un o'r ymgeiswyr hynny gael ei ethol.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau benderfynu ar unwaith rhwng yr ymgeiswyr drwy fwrw coelbren a bwrw ymlaen fel pe bai'r ymgeisydd y mae'r coelbren yn mynd o'i blaid wedi cael pleidlais ychwanegol.

Penderfynu ar bapurau pleidleisio

59. Mae penderfyniad y swyddog canlyniadau ar unrhyw gwestiwn sy'n codi mewn cysylltiad â phapur pleidleisio yn derfynol, ond caniateir ei adolygu ar ddeiseb etholiad.

- (b) endorse the word "rejected in part" on any ballot paper on which a vote is counted in accordance with paragraph (2) and indicate which vote or votes have been counted.

(6) If a counting agent objects to the returning officer's decision, the returning officer must add the words "rejection objected to" to the endorsement.

(7) The returning officer must prepare a statement showing the number of ballot papers rejected and the number rejected in part.

(8) The statement must set out the number rejected or rejected in part under each of the headings in subparagraphs (a) to (d) of paragraph (1).

Re-count

57.—(1) A candidate or the candidate's election agent (if appointed) may, if present when the count is completed, request that the returning officer re-count the votes.

(2) The returning officer must comply with the request unless the returning officer's opinion is that the request is unreasonable.

(3) No step may be taken on the completion of the count until the candidates and election agents who are present have been given a reasonable opportunity to request that the votes are re-counted.

(4) Where a re-count takes place, this rule also applies in relation to the re-count (so that, for example, the candidate or the candidate's election agent (if appointed) may, if present when the re-count is completed, request that the returning officer re-count the votes).

Equality of votes

58.—(1) This rule applies where, after the counting of the votes (including any re-count), there is an equality of votes between any candidates and the addition of a vote would entitle any of those candidates to be elected.

(2) The returning officer must immediately decide between the candidates by lot and proceed as if the candidate on whom the lot falls had received an additional vote.

Decision on ballot papers

59. The decision of the returning officer on any question arising in respect of a ballot paper is final but may be reviewed on an election petition.

Datgan y canlyniad

60.—(1) Pan fydd y cyfrif wedi ei gwblhau, rhaid i'r swyddog canlyniadau ddatgan bod yr ymgeisydd neu'r ymgeiswyr y rhoddwyd mwy o bleidleisiau iddo ef neu iddynt hwy nag i ymgeiswyr eraill wedi ei ethol neu wedi eu hethol, hyd at nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau roi hysbysiad yn datgan enwau a chyfeiriadau'r ymgeiswyr a etholwyd—

- (a) i swyddog priodol y cyngor cymuned, a
- (b) i swyddog priodol cyngor y sir neu'r fwrdeistref sirol y lleolir y gymuned ynddo.

(3) Rhaid i'r swyddog canlyniadau gyhoeddi hysbysiad hefyd—

- (a) o enwau'r ymgeiswyr a etholwyd,
- (b) o gyfanswm nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd (p'un a etholwyd hwy ai peidio), ac
- (c) o nifer y papurau pleidleisiau a wrthodwyd o dan bob pennawd a ddangosir yn y datganiad o'r papurau pleidleisio a wrthodwyd (gweler rheol 56).

RHAN 5

Gwaredu Dogfennau

Selio papurau pleidleisio mewn etholiadau lle ceir gornest

61.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys ar ôl cwblhau cyfrif y pleidleisiau mewn etholiad lle ceir gornest.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau selio mewn pecynnau ar wahân—

- (a) y papurau pleidleisio a gyfrifwyd, a
- (b) y papurau pleidleisio a wrthodwyd (gan gynnwys y papurau pleidleisio a wrthodwyd yn rhannol).

(3) Ni chaiff y swyddog canlyniadau agor unrhyw becynnau a seliwyd o dan reol 51(3) sy'n cynnwys—

- (a) papurau pleidleisio a dendrwyd,
- (b) rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd,
- (c) tystysgrifau a ildwyd gan gwnstablaid neu staff swyddogion canlyniadau o dan reol 37(4) neu (5), neu
- (d) copiâu a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestrau dirprwyon.

Declaration of result

60.—(1) When the count has been completed, the returning officer must declare to be elected the candidate or candidates to whom more votes have been given than to other candidates, up to the number of councillors to be elected.

(2) The returning officer must give a notice stating the names and addresses of the candidates elected to—

- (a) the proper officer of the community council, and
- (b) the proper officer of the council of the county or county borough in which the community is situated.

(3) The returning officer must also publish notice of—

- (a) the names of the candidates elected,
- (b) the total number of votes given for each candidate (whether elected or not), and
- (c) the number of rejected ballot papers under each head shown in the statement of rejected ballot papers (see rule 56).

PART 5

Disposal of Documents

Sealing up of ballot papers at contested elections

61.—(1) This rule applies on the completion of the counting of votes at a contested election.

(2) The returning officer must seal up in separate packets—

- (a) the counted ballot papers, and
- (b) the rejected ballot papers (including the ballot papers rejected in part).

(3) The returning officer must not open any packets sealed under rule 51(3) that contain—

- (a) tendered ballot papers,
- (b) completed corresponding number lists,
- (c) certificates surrendered by constables or staff of returning officers under rule 37(4) or (5), or
- (d) marked copies of the registration records and list of proxies.

Danfôn dogfennau i'r swyddog cofrestru mewn etholiadau lle ceir gornest

62.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan fo'r swyddog canlyniadau wedi selio'r papurau pleidleisio a gyfrifwyd ac a wrthodwyd o dan reol 61(2).

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau anfon y dogfennau a ganlyn at swyddog cofrestru'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y cynhelir yr etholiad yn ei ardal—

- (a) y pecynnau o bapurau pleidleisio sydd ym meddiant y swyddog canlyniadau;
- (b) y cyfriflenni papurau pleidleisio a baratowyd o dan reol 51(5);
- (c) y datganiadau o'r papurau pleidleisio a wrthodwyd a baratowyd o dan reol 56(7);
- (d) y datganiadau ynglŷn â chanlyniad dilysiad y cyfriflenni papurau pleidleisio a baratowyd o dan reol 54(5);
- (e) y rhestrau a'r datganiadau a ganlyn—
 - (i) y rhestrau pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, ynghyd â datganiad o nifer y pleidleiswyr y mae eu pleidleisiau wedi eu marcio o dan y penawdau "anabledd" a "methu darllen" (gweler rheol 43);
 - (ii) y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau (gweler rheol 44);
 - (iii) y rhestrau pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion (gweler rheol 45);
 - (iv) y rhestrau pleidleisiau a dendrwyd (gweler rheol 47);
 - (v) y rhestrau a gadwyd o dan reol 49 (cywiro gwallau ar ddiwrnod y bleidlais);
- (f) y pecynnau sy'n cynnwys y rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd;
- (g) y pecynnau sy'n cynnwys tystysgrifau a ildwyd gan gwnstabiliaid neu staff swyddogion canlyniadau o dan reol 37(4) neu (5);
- (h) y pecynnau sy'n cynnwys copïau o gofnodion cofrestru a rhestrau dirprwyon;
- (i) y pecynnau sy'n cynnwys y rhestr pleidleiswyr post a'r rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy.

Delivery of documents to registration officer at contested elections

62.—(1) This rule applies where the returning officer has sealed up the counted and rejected ballot papers under rule 61(2).

(2) The returning officer must forward the following documents to the registration officer of the county or county borough council in whose area the election is held—

- (a) the packets of ballot papers in the returning officer's possession;
- (b) the ballot paper accounts prepared under rule 51(5);
- (c) the statements of rejected ballot papers prepared under rule 56(7);
- (d) the statements as to the result of the verification of the ballot paper accounts prepared under rule 54(5);
- (e) the following lists and declarations—
 - (i) the lists of votes marked by the presiding officer, together with a statement of the number of voters whose votes are marked under the heads "disability" and "unable to read" (see rule 43);
 - (ii) the declarations made by the companions of voters with disabilities (see rule 44);
 - (iii) the lists of voters with disabilities assisted by companions (see rule 45);
 - (iv) the tendered votes lists (see rule 47);
 - (v) the lists maintained under rule 49 (correction of errors on the day of the poll);
- (f) the packets containing completed corresponding number lists;
- (g) the packets containing certificates surrendered by constables or staff of returning officers under rule 37(4) or (5);
- (h) the packets containing copies of registration records and lists of proxies;
- (i) the packets containing the postal voters list and the proxy postal voters list.

Dangos etc. dogfennau

63.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys mewn perthynas â'r dogfennau a ganlyn pan fyddant ym meddiant y swyddog cofrestru (ar ôl cael eu hanfon o dan reol 62)—

- (a) papurau pleidleisio a wrthodwyd ac a gyfrifwyd;
- (b) pecynnau a seliwyd sy'n cynnwys rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd;
- (c) pecynnau a seliwyd sy'n cynnwys tystysgrifau a ildwyd gan gwnstabiliaid neu staff swyddogion canlyniadau o dan reol 37(4) neu (5).

(2) Caiff llys sirol wneud unrhyw un neu ragor o'r gorchymynion a ganlyn, os yw wedi ei fodloni gan dystiolaeth ar lw fod angen y gorchymyn er mwyn naill ai cychwyn neu gynnal erlyniad am drosedd mewn perthynas â phapurau pleidleisio neu at ddibenion deiseb etholiad—

- (a) gorchymyn i archwilio neu ddangos unrhyw un neu ragor o'r papurau pleidleisio a wrthodwyd (gan gynnwys unrhyw bapurau pleidleisio a wrthodwyd yn rhannol);
- (b) gorchymyn i archwilio unrhyw un neu ragor o'r papurau pleidleisio a gyfrifwyd;
- (c) gorchymyn i agor unrhyw un neu ragor o'r pecynnau a seliwyd sy'n cynnwys—
 - (i) rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd, neu
 - (ii) tystysgrifau a ildwyd gan gwnstabiliaid neu staff swyddogion canlyniadau o dan reol 37(4) neu (5);
- (d) pan wneir gorchymyn i agor unrhyw un neu ragor o'r pecynnau a seliwyd o dan is-baragraff (c), gorchymyn i archwilio neu ddangos y cyfan neu ran o'r cynnwys.

(3) Caiff llys etholiad wneud—

- (a) gorchymyn i archwilio unrhyw un neu ragor o'r papurau pleidleisio a gyfrifwyd;
- (b) gorchymyn i agor unrhyw un neu ragor o'r pecynnau a seliwyd sy'n cynnwys—
 - (i) rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd, neu
 - (ii) tystysgrifau a ildwyd gan gwnstabiliaid neu staff swyddogion canlyniadau o dan reol 37(4) neu (5);
- (c) pan wneir gorchymyn i agor unrhyw un neu ragor o'r pecynnau a seliwyd o dan is-baragraff (b), gorchymyn i archwilio neu ddangos y cyfan neu ran o'r cynnwys.

Production etc. of documents

63.—(1) This rule applies in relation to the following documents when in the custody of the registration officer (having been forwarded under rule 62)—

- (a) rejected and counted ballot papers;
- (b) sealed packets containing completed corresponding number lists;
- (c) sealed packets containing certificates surrendered by constables or staff of returning officers under rule 37(4) or (5).

(2) A county court may make any of the following orders, if satisfied by evidence on oath that the order is required either for the purpose of instituting or maintaining a prosecution for an offence in relation to ballot papers or for the purpose of an election petition—

- (a) an order for the inspection or production of any of the rejected ballot papers (including any ballot papers rejected in part);
- (b) an order for the inspection of any of the counted ballot papers;
- (c) an order for the opening of any of the sealed packets containing—
 - (i) completed corresponding number lists, or
 - (ii) certificates surrendered by constables or staff of returning officers under rule 37(4) or (5);
- (d) where an order for the opening of any of the sealed packets is made under sub-paragraph (c), an order for the inspection or production of the whole or part of its contents.

(3) An election court may make—

- (a) an order for the inspection of any of the counted ballot papers;
- (b) an order for the opening of any of the sealed packets containing—
 - (i) completed corresponding number lists, or
 - (ii) certificates surrendered by constables or staff of returning officers under rule 37(4) or (5);
- (c) where an order for the opening of any of the sealed packets is made under sub-paragraph (b), an order for the inspection or production of the whole or part of its contents.

(4) Caniateir i orchymyn o dan y rheol hon gael ei wneud yn ddarostyngedig i unrhyw un neu ragor o'r amodau a ganlyn y mae'r llys yn credu eu bod yn briodol—

- (a) amodau ynglŷn â phersonau;
- (b) amodau ynglŷn ag amser;
- (c) amodau ynglŷn â'r lle archwilio a'r dull archwilio;
- (d) amodau ynglŷn â dangos neu agor.

(5) Rhaid i lys, wrth wneud gorchymyn o dan y rheol hon i archwilio papurau pleidleisio a gyfrifwyd neu i agor pecyn a seliwyd, osod unrhyw amodau o dan baragraff (4) y mae'r llys o'r farn eu bod yn briodol i sicrhau na ddatgelir y modd y mae etholwr wedi rhoi ei bleidlais oni bai a hyd nes y profwyd—

- (a) bod yr etholwr wedi rhoi ei bleidlais, a
- (b) bod y bleidlais wedi ei datgan yn annilys gan lys cymwys.

(6) Rhaid i unrhyw berson sy'n rhoi ei effaith i orchymyn o dan y rheol hon i archwilio papurau pleidleisio a gyfrifwyd neu i agor pecyn a seliwyd gymryd gofal i sicrhau na ddatgelir y modd y mae etholwr wedi rhoi ei bleidlais oni bai a hyd nes y profwyd—

- (a) bod yr etholwr wedi rhoi ei bleidlais, a
- (b) bod y bleidlais wedi ei datgan yn annilys gan lys cymwys.

(7) At yr Uchel Lys y cyfeirir apêl sy'n deillio o orchymyn llys sirol o dan y rheol hon.

(8) Caniateir i bwerau llys sirol o dan y rheol hon gael eu harfer gan unrhyw un neu ragor o farnwyr y llys heblaw mewn llys agored.

(9) Ac eithrio fel y darperir gan y rheol hon, ni chaiff neb—

- (a) archwilio unrhyw un neu ragor o'r papurau pleidleisio a wrthodwyd neu a gyfrifwyd;
- (b) agor unrhyw un neu ragor o'r pecynnau a seliwyd sy'n cynnwys—
 - (i) rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd, neu
 - (ii) tystysgrifau a ildwyd gan gwnstabiliaid neu staff swyddogion canlyniadau o dan reol 37(4) neu (5).

Gorchymynion i ddangos etc. dogfennau: darpariaeth atodol

64.—(1) Mae paragraffau (2) a (3) yn gymwys pan wneir gorchymyn o dan reol 63 i swyddog cofrestru ddangos dogfen sydd ym meddiant y swyddog cofrestru ac sy'n ymwneud ag etholiad a bennwyd yn y gorchymyn.

(4) An order under this rule may be made subject to such of the following conditions as the court thinks appropriate—

- (a) conditions as to persons;
- (b) conditions as to time;
- (c) conditions as to the place and method of inspection;
- (d) conditions as to production or opening.

(5) A court, in making an order under this rule for the inspection of counted ballot papers or for the opening of a sealed packet, must impose such conditions under paragraph (4) as the court considers appropriate to ensure that the way in which an elector has given their vote is not disclosed unless and until it has been proved—

- (a) that the elector has given their vote, and
- (b) that the vote has been declared by a competent court to be invalid.

(6) Any person giving effect to an order under this rule for the inspection of counted ballot papers or for the opening of a sealed packet must take care to ensure that the way in which an elector has given their vote is not disclosed unless and until it has been proved—

- (a) that the elector has given their vote, and
- (b) that the vote has been declared by a competent court to be invalid.

(7) An appeal lies to the High Court from an order of a county court under this rule.

(8) The powers of a county court under this rule may be exercised by any judge of the court otherwise than in open court.

(9) Except as provided by this rule, no person may—

- (a) inspect any of the rejected or counted ballot papers;
- (b) open any of the sealed packets containing—
 - (i) completed corresponding number lists, or
 - (ii) certificates surrendered by constables or staff of returning officers under rule 37(4) or (5).

Orders for the production etc. of documents: supplemental provision

64.—(1) Paragraphs (2) and (3) apply where an order is made under rule 63 for the production by a registration officer of a document in the registration officer's custody relating to an election specified in the order.

(2) Mae dangos y ddogfen gan y swyddog cofrestru neu asiant y swyddog cofrestru yn y modd a gyfarwyddwyd gan y gorchymyn yn dystiolaeth bendant bod y ddogfen yn ymwneud â'r etholiad a bennwyd.

(3) Os bydd pecyn o bapurau pleidleisio sydd ag arnodiad ar y pecyn yn cael ei ddangos gan y swyddog cofrestru neu asiant y swyddog cofrestru i gydymffurfio â'r gorchymyn, mae'r arnodiad yn dystiolaeth prima facie mai'r papurau pleidleisio yw'r hyn y mae'r arnodiad yn dweud eu bod.

(4) Mae paragraff (5) yn gymwys pan fo swyddog cofrestru neu asiant swyddog cofrestru, er mwyn cydymffurfio â gorchymyn o dan reol 63, wedi dangos—

- (a) papur pleidleisio sy'n honni ei fod wedi ei ddefnyddio mewn etholiad, a
- (b) rhestr rhifau cyfatebol a gwblhawyd a oedd yn cael ei defnyddio yn yr etholiad, gyda rhif wedi ei farcio mewn ysgrifen wrth ochr rhif y papur pleidleisio hwnnw ar y rhestr.

(5) Mae dangos y papur pleidleisio a'r rhestr yn dystiolaeth prima facie mai'r etholwr y rhodddwyd ei bleidlais gan y papur pleidleisio hwnnw oedd y person yr oedd ei gofnod adeg yr etholiad yn y gofrestr etholwyr, neu ar hysbysiad a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983, yn cynnwys yr un rhif â'r rhif a ysgrifennwyd ar y papur pleidleisio.

Cadw a dinistrio dogfennau a anfonwyd at y swyddog cofrestru

65.—(1) Rhaid i'r swyddog cofrestru gadw'r holl ddogfennau a anfonwyd o dan reol 62 am gyfnod o flwyddyn sy'n dechrau â'r diwrnod y daethant i law'r swyddog cofrestru.

(2) Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw o flwyddyn, rhaid i'r swyddog cofrestru beri i'r dogfennau gael eu dinistrio oni chyfarwyddir fel arall gan orchymyn llys sirol, Llys y Goron, llys ynadon neu lys etholiad.

Dinistrio ffurflenni cyfeiriad cartref gan y swyddog canlyniadau

66.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddinistrio ffurflen cyfeiriad cartref pob ymgeisydd—

- (a) drannoeth y 35^{ain} diwrnod ar ôl i'r swyddog canlyniadau ddychwelyd enwau'r cynghorwyr a etholwyd, oni bai bod deiseb etholiad sy'n amau etholiad neu ddychweliad yr ymgeiswyr yn cael ei chyflwyno cyn y diwrnod hwnnw;

(2) The production by the registration officer or the registration officer's agent of the document in the manner directed by the order is conclusive evidence that the document relates to the specified election.

(3) If a packet of ballot papers with an endorsement on the packet is produced by the registration officer or the registration officer's agent to comply with the order, the endorsement is prima facie evidence that the ballot papers are what they are stated to be by the endorsement.

(4) Paragraph (5) applies where, to comply with an order under rule 63, a registration officer or a registration officer's agent has produced—

- (a) a ballot paper purporting to have been used at an election, and
- (b) a completed corresponding number list in use at the election, with a number marked in writing beside the number of that ballot paper on the list.

(5) The production of the ballot paper and the list are prima facie evidence that the elector whose vote was given by that ballot paper was the person whose entry at the time of the election in the register of electors, or on a notice issued under section 13B(3B) or (3D) of the 1983 Act, contained the same number as the number written on the ballot paper.

Retention and destruction of documents forwarded to registration officer

65.—(1) The registration officer must retain all documents forwarded under rule 62 for a period of one year beginning with the day on which they were received by the registration officer.

(2) At the end of that period of one year, the registration officer must cause the documents to be destroyed unless otherwise directed by an order of a county court, a Crown Court, a magistrates' court or an election court.

Destruction of home address forms by returning officer

66.—(1) The returning officer must destroy each candidate's home address form—

- (a) on the next day following the 35th day after the returning officer has returned the names of the councillors elected, unless an election petition questioning the election or the return of candidates is presented before that day;

- (b) os cyflwynir deiseb etholiad sy'n amau etholiad neu ddychweliad cynghorwyr cyn y diwrnod hwnnw, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r achos ynglŷn â'r ddeiseb ddod i ben (gan gynnwys achos yr apêl, pan geir apêl).

(2) Er mwyn penderfynu ar y diwrnod y mae'n rhaid dinistrio ffurflenni cyfeiriad cartref ymgeiswyr, rhaid diystyru unrhyw ddiwrnod sy'n ddiwrnod eithriedig.

RHAN 6

Marwolaeth Ymgeisydd

Diddymu pleidlais neu roi'r gorau iddi ar ôl i ymgeisydd farw

67.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan fo'r swyddog canlyniadau, mewn etholiad lle ceir gornest, wedi ei fodloni cyn i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan fod un o'r personau a enwyd neu sydd i'w enwi yn ymgeisydd yn y papurau pleidleisio wedi marw.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddiddymu hysbysiad y bleidlais neu, os yw'r pleidleisio wedi dechrau, rhaid i'r swyddog canlyniadau gyfarwyddo rhoi'r gorau i'r bleidlais ac ni chaniateir dyroddi rhagor o bapurau pleidleisio.

(3) Pan roddir y gorau i'r bleidlais, rhaid i'r swyddog llywyddu mewn unrhyw orsaf bleidleisio sy'n cael ei defnyddio yn yr etholiad gymryd y camau (i'r graddau nad ydynt eisoes wedi eu cymryd) y byddai'n ofynnol i'r swyddog llywyddu eu cymryd o dan reol 51 ar ddiwedd y bleidlais, ac eithrio nad oes angen i'r swyddog llywyddu baratoi cyfriflen papurau pleidleisio.

(4) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ymdrin â phapurau pleidleisio a dogfennau eraill sydd ym meddiant y swyddog canlyniadau pan roddir y gorau i'r bleidlais, neu a ddanfonir i'r swyddog canlyniadau wedyn er mwyn cydymffurfio â pharagraff (3), yn yr un modd ag y byddai'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau ymdrin â phapurau pleidleisio a dogfennau eraill o dan reolau 61 a 62 ar ôl cwblhau cyfrif y pleidleisiau, ac eithrio—

- (a) bod rhaid i'r swyddog canlyniadau selio'r holl bapurau pleidleisio (p'un a yw'r pleidleisiau arnynt wedi eu cyfrif ai peidio), ac

- (b) if an election petition questioning the election or return of councillors is presented before that day, as soon as practicable following the conclusion of proceedings on the petition (including, where there is an appeal, the proceedings on the appeal).

(2) For the purpose of deciding the day on which candidates' home address forms must be destroyed, any day that is an excluded day must be disregarded.

PART 6

Death of Candidate

Countermand or abandonment of poll on death of a candidate

67.—(1) This rule applies where, at a contested election, the returning officer is satisfied before the result of the election is declared that one of the persons named or to be named as a candidate in the ballot papers has died.

(2) The returning officer must countermand notice of the poll or, if polling has begun, the returning officer must direct that the poll be abandoned and no further ballot papers may be issued.

(3) Where the poll is abandoned, the presiding officer at any polling station in use at the election must take the steps (so far as not already taken) that the presiding officer would be required to take under rule 51 on the close of the poll, except that it is not necessary for the presiding officer to prepare a ballot paper account.

(4) The returning officer must deal with ballot papers and other documents that are in the returning officer's possession when the poll is abandoned, or that are subsequently delivered to the returning officer to comply with paragraph (3), in the same way that the returning officer would be required to deal with ballot papers and other documents under rules 61 and 62 on the completion of the counting of votes, except that—

- (a) the returning officer must seal up all the ballot papers (whether the votes on them have been counted or not), and

(b) nad oes angen selio papurau pleidleisio a gyfrifwyd ac a wrthodwyd mewn pecynnau ar wahân.

(5) Mae darpariaethau rheolau 63 i 65 yn gymwys i bapurau pleidleisio a dogfennau eraill sy'n ymwneud â phleidlais y rhoddwyd y gorau iddi oherwydd marwolaeth ymgeisydd, ac eithrio—

- (a) bod papurau pleidleisio na chafodd y pleidleisiau arnynt eu cyfrif na'u gwrthod i'w trin fel papurau pleidleisio a gyfrifwyd, a
- (b) y caniateir i orchymyn gael ei wneud o dan reol 63(2) neu (3) er mwyn cychwyn neu gynnal erlyniad am drosedd mewn perthynas â phapurau pleidleisio yn unig.

(6) O ran yr hyn sy'n digwydd ar ôl i hysbysiad o bleidlais gael ei ddiddymu neu ar ôl rhoi'r gorau i bleidlais, gweler adran 39 o Ddeddf 1983(1).

(b) it is not necessary to seal up counted and rejected ballot papers in separate packets.

(5) The provisions of rules 63 to 65 apply to ballot papers and other documents relating to a poll that is abandoned by reason of a candidate's death, except that—

- (a) ballot papers on which the votes were neither counted nor rejected are to be treated as counted ballot papers, and
- (b) an order may be made under rule 63(2) or (3) only for the purpose of instituting or maintaining a prosecution for an offence in relation to ballot papers.

(6) For what happens after notice of a poll is countermanded or a poll is abandoned, see section 39 of the 1983 Act(1).

(1) Diwygiwyd adran 39 gan adran 19 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985, paragraff 68 o Atodlen 16 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 2(7) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(1) Section 39 was amended by section 19 of the Representation of the People Act 1985, paragraph 68 of Schedule 16 to the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 19) and paragraph 2(7) of Schedule 2 to the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

ATODIADAU

Nodyn: Caniateir i'r ffurflenni a geir yn yr Atodiadau hyn gael eu haddasu i'r graddau y bo'r amgylchiadau'n gofyn.

Atodiad 1

Rheol 5(1)

APPENDICES

Note: The forms contained in these Appendices may be adapted so far as circumstances require.

Appendix 1

Rule 5(1)

Ffurf papur enwebu	Form of nomination paper
<p>Adran 1: Manylion yr etholiad</p> <p>Etholiad cynghorwyr i [rhowch enw'r cyngor cymuned]</p> <p>Ardal etholiadol: Dyddiad yr etholiad (gweler nodyn 1):</p>	<p>Section 1: Details of election</p> <p>Election of councillors to the [insert name of the community council]</p> <p>Electoral area: Date of election (see note 1):</p>
<p>Adran 2: Manylion personol yr ymgeisydd</p> <p>Cyfenwau'r ymgeisydd:</p> <p>Enwau blaen yr ymgeisydd:</p> <p>Cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin gan yr ymgeisydd (gweler nodyn 2 isod):</p> <p>Enwau blaen a ddefnyddir yn gyffredin gan yr ymgeisydd (gweler nodyn 2 isod):</p> <p>Dyddiad geni'r ymgeisydd:</p>	<p>Section 2: Candidate's personal details</p> <p>Candidate's surnames:</p> <p>Candidate's forenames:</p> <p>Candidate's commonly used surnames (see note 2 below):</p> <p>Candidate's commonly used forenames (see note 2 below):</p> <p>Candidate's date of birth:</p>
<p>Adran 3: Disgrifiad (os oes un) (gweler nodyn 3 isod)</p>	<p>Section 3: Description (if any) (see note 3 below)</p>
<p>Adran 4: Datganiad yr ymgeisydd o aelodaeth plaid (gweler nodyn 4 isod)</p> <p>Ydych chi wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig unrhyw bryd yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben â'r diwrnod y cyhoeddwyd hysbysiad yr etholiad? Ydw/Nac ydw</p> <p>Os ydych chi wedi ateb "Ydw", llenwch y tabl isod mewn perthynas â phob plaid wleidyddol gofrestredig rydych chi wedi bod yn aelod ohoni unrhyw bryd yn ystod y cyfnod hwnnw. Ychwanegwch ragor o resi os oes eu hangen. Rhaid ichi lenwi'r tabl hyd yn oed os yw'r blaid wedi peidio â bod neu os nad yw'n blaid wleidyddol gofrestredig mwyach.</p>	<p>Section 4: Candidate's statement of party membership (see note 4 below)</p> <p>Have you been a member of any registered political party at any time during the period of 12 months ending with the day on which the notice of election is published? Yes/No</p> <p>If you have answered "Yes", complete the table below in relation to each registered political party of which you have been a member at any time during that period. Add further rows if necessary. You must complete the table even if the party has ceased to exist or is no longer a registered political party.</p>

Does dim angen llenwi'r tabl os ydych wedi cynnwys disgrifiad plaid a ganiateir yn adran 3 o'r ffurflen hon ac nad ydych wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestrredig yn ystod y cyfnod o 12 mis heblaw'r blaid neu'r pleidiau y mae'r disgrifiad yn ymwneud â hi neu â nhw.

Gofalwch sicrhau bod yr wybodaeth rydych chi'n ei rhoi yn gywir. Mae rheol 13 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau gynnwys yr wybodaeth hon yn y datganiad o'r personau a enwebwyd, ac mae hwnnw'n cael ei gyhoeddi.

Enw neu enwau cofrestredig pob plaid wleidyddol gofrestrredig	Y dyddiadau yn ystod y cyfnod o 12 mis pan oeddech chi'n aelod (gan ddefnyddio'r fformat dd/mm/bbbb i dd/mm/bbbb)

Adran 5: Datganiadau (gweler nodyn 5)

Cwblhewch y datganiadau a ganlyn a'u llofnodi.

Rwyf yn datgan fy mod yn gymwys ar y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn, ac y byddaf yn gymwys ar ddiwrnod yr etholiad, i gael fy ethol yn gynghorydd ar y sail fy mod i ar y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn, ac y byddaf fi ar ddiwrnod yr etholiad, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon, yn ddinesydd perthnasol o'r Undeb neu'n ddinesydd tramor cymwys sydd wedi cyrraedd 18 oed ac—*

(a) fy mod wedi cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal [rhowch enw'r cyngor cymuned] ar y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn ac y byddaf yn dal i fod felly ar ddiwrnod yr etholiad;

(b) fy mod wedi meddiannu fel perchennog neu denant dir neu fangre arall yn ardal [rhowch enw'r cyngor cymuned] yn ystod y cyfnod cyfan o 12 mis cyn y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn ac y byddaf wedi meddiannu fel perchennog neu denant dir neu fangre arall yn yr ardal honno yn ystod y cyfnod cyfan o 12 mis cyn diwrnod yr etholiad;

It is not necessary to complete the table if you have included a permitted party description in section 3 of this form and you have not been a member of any registered political party during the 12 months period other than the party or parties to which the description relates.

Please take care to ensure that the information you provide is accurate. The returning officer is required by rule 13 of Schedule 1 to the Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021 to include this information in the statement of persons nominated, which is published.

Registered name or names of each registered political party	The dates during the 12 months period when you were a member (using the format dd/mm/yyyy to dd/mm/yyyy)

Section 5: Declarations (see note 5)

Complete and sign the following declarations.

I declare that I am qualified on the day on which I complete this nomination paper, and that I will be qualified on the day of election, to be elected as councillor on the basis that I am on the day on which I complete this nomination paper, and will be on the day of election, a qualifying Commonwealth citizen, a citizen of the Republic of Ireland, a relevant citizen of the Union or a qualifying foreign citizen who has attained the age of 18 years and that—*

(a) I am registered as a local government elector for the area of [insert the name of the community council] on the day on which I complete this nomination paper and will continue to be on the day of election;

(b) I have occupied as owner or tenant land or other premises in the area of [insert the name of the community council] during the whole of the period of 12 months preceding the day on which I complete this nomination paper and I will have occupied as owner or tenant land or other premises in that area during the whole of the period of 12 months preceding the day of election;

<p>(c) bod fy mhrif weithle neu fy unig weithle yn ystod y cyfnod o 12 mis cyn y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn wedi bod yn ardal [rhowch enw'r cyngor cymuned] ac y bydd fy mhrif weithle neu fy unig weithle yn ystod y 12 mis cyn diwrnod yr etholiad wedi bod yn yr ardal honno;</p> <p>(d) fy mod wedi preswyllo yn [rhowch enw'r gymuned] neu o fewn tair milltir iddi yn ystod y cyfnod cyfan o 12 mis cyn y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn ac y byddaf wedi preswyllo yn y gymuned honno neu o fewn tair milltir iddi yn ystod y cyfnod cyfan o 12 mis cyn diwrnod yr etholiad.</p> <p>*Dylai'r ymgeiswyr nodi pa un neu ragor o baragraffau (a) i (d) sy'n gymwys iddynt drwy dicio'r rhai sy'n gymwys a thynnu llinell drwy'r rhai nad ydynt yn gymwys.</p> <p>Rwyf hefyd yn datgan nad wyf, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, wedi fy anghymhwyso rhag cael fy ethol yn gynghorydd oherwydd unrhyw anghymhwysiad a nodir yn adran 80A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu unrhyw benderfyniad a wnaed o dan adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac nad oes gennyf swydd a gyfyngir yn wleidyddol, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, o dan awdurdod lleol, o fewn ystyr y Rhan honno.</p> <p>Llofnod yr ymgeisydd i'r datganiadau:</p> <p>Dyddiad y llofnod:</p>	<p>(c) my principal or only place of work during the period of 12 months preceding the day on which I complete this nomination paper has been in the area of [insert the name of the community council] and my principal or only place of work during the 12 months preceding the day of election will have been in that area;</p> <p>(d) I have resided in [insert the name of the community] or within three miles of it during the whole of the period of 12 months preceding the day on which I complete this nomination paper and I will have resided in that community or within three miles of it during the whole of the period of 12 months preceding the day of election.</p> <p>*Candidates should indicate which one or more of paragraphs (a) to (d) apply to them by ticking those that apply and putting a line through those that do not apply.</p> <p>I also declare that to the best of my knowledge and belief I am not disqualified from being elected as councillor by reason of any disqualification set out in section 80A of the Local Government Act 1972 or any decision made under section 79 of the Local Government Act 2000 and I do not hold a politically restricted post, within the meaning of Part 1 of the Local Government and Housing Act 1989, under a local authority, within the meaning of that Part.</p> <p>Candidate's signature to declarations:</p> <p>Date of signature:</p>
<p>Adran 6: Llofnod yr ymgeisydd i'r papur enwebu ac ardystiad tyst</p> <p>Llofnod yr ymgeisydd:</p> <p>Dyddiad y llofnod:</p> <p>Llofnodwyd ym mhresenoldeb tyst: [Enw'r tyst]</p> <p>Llofnod y tyst:</p>	<p>Section 6: Candidate's signature to nomination paper and attestation by witness</p> <p>Candidate's signature:</p> <p>Date of signature:</p> <p>Signed in the presence of a witness: [Name of witness]</p> <p>Signature of witness:</p>
<p>Nodiadau ar ffurf y papur enwebu</p> <p>Nodyn 1: Y dyddiad y cynhelir y bleidlais yw'r dyddiad sydd i'w roi yma.</p>	<p>Notes to the form of nomination paper</p> <p>Note 1: The date to be given here is the date on which the poll is to take place.</p>

Nodyn 2: Os yw ymgeisydd yn defnyddio'n gyffredin enwau blaen neu gyfenwau sy'n wahanol mewn unrhyw ffordd i'r enwau blaen neu'r cyfenwau a roddir yn rhan gyntaf adran 2, caniateir rhoi'r enwau blaen neu'r cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin gan yr ymgeisydd yn y lle priodol yn ail ran adran 2 os yw'r ymgeisydd yn dymuno gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys achosion lle y gwahaniaeth yw bod yr enwau blaen neu'r cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin mewn trefn wahanol, yn cynnwys rhai o'r enwau yn unig neu'n cynnwys enwau ychwanegol (ond nid yw'n gyfyngedig i hynny). Pan roddir enwau blaen neu gyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin, bydd yr enwau hynny'n ymddangos fel arfer yn y datganiad o'r personau a enwebwyd ac ar y papur pleidleisio (yn lle unrhyw enwau eraill). Ceir amgylchiadau lle caiff y swyddog canlyniadau wrthod defnyddio'r enwau a ddefnyddir yn gyffredin ac mae'r rhain wedi eu nodi yn rheol 14 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.

Nodyn 3: Yr unig ddisgrifiadau y caniateir eu rhoi yw (a) disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â phlaid wleidyddol gofrestredig neu â dwy neu ragor o bleidiau gwleidyddol cofrestredig ac a ganiateir o dan reol 6 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 ("disgrifiad plaid a ganiateir"), neu (b) y gair "Independent" neu'r gair "Annibynnol", neu'r ddau air hynny.

O dan amgylchiadau penodol, caiff ymgeisydd sy'n defnyddio disgrifiad plaid a ganiateir ychwanegu'r gair "Wales", "Welsh", "Cymru" neu "Cymreig" at y disgrifiad. Nodir yr amgylchiadau hynny yn rheol 7 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.

Nodyn 4: Nodir y gofynion ynglŷn â datganiadau o aelodaeth plaid yn rheol 8 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.

Nodyn 5: Mae'r datganiad cyntaf yn adlewyrchu'r gofynion a nodir yn adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r adran honno'n diffinio "qualifying Commonwealth citizen", "relevant citizen of the Union" a "qualifying foreign citizen".

Nodyn 6: Pan ddanfonir y papur enwebu, rhaid cael ffurflen cyfeiriad cartref yr ymgeisydd i gyd-fynd ag ef, sef ffurflen y mae'n rhaid iddi gydymffurfio â rheol 9 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.

Note 2: If a candidate commonly uses forenames or surnames that are different in any respect from the forenames or surnames that are given in the first part of section 2, the candidate's commonly used forenames or surnames may be given in the appropriate place in the second part of section 2 if the candidate so wishes. This includes (but is not limited to) cases where the difference is that the commonly used forenames or surnames are in a different order, include only some of the names or include additional names. Where commonly used forenames or surnames are given, those names will generally appear in the statement of persons nominated and on the ballot paper (instead of any other names). There are circumstances in which the returning officer may refuse to use the commonly used names and these are set out in rule 14 of Schedule 1 to the Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021.

Note 3: The only descriptions that may be given are (a) a description that is likely to lead electors to associate the candidate with a registered political party or with two or more registered political parties and is permitted under rule 6 of Schedule 1 to the Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021 ("a permitted party description"), or (b) the word "Independent" or the word "Annibynnol", or both those words.

In certain circumstances, a candidate using a permitted party description may add the word "Wales", "Welsh", "Cymru" or "Cymreig" to the description. Those circumstances are set out in rule 7 of Schedule 1 to the Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021.

Note 4: The requirements for statements of party membership are set out in rule 8 of Schedule 1 to the Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021.

Note 5: The first declaration reflects the requirements set out in section 79 of the Local Government Act 1972. That section defines "qualifying Commonwealth citizen", "relevant citizen of the Union" and "qualifying foreign citizen".

Note 6: When the nomination paper is delivered, it must be accompanied by the candidate's home address form which must comply with rule 9 of Schedule 1 to the Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021.

Ffurf blaen y papur pleidleisio	Form of front of ballot paper
Etholiad cynghorwyr i [rhowch enw'r cyngor cymuned]	Election of councillors to [insert the name of the community council]
<p>Pleidleisiwch dros un ymgeisydd yn unig drwy roi croes [x] yn y blwch nesaf at eich dewis. NEU Pleidleisiwch dros ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr drwy roi croes [x] yn y blwch nesaf at bob un o'ch dewisiadau.*</p> <p>*Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddewis y geiriad sy'n briodol ar gyfer yr etholiad.</p>	<p>Vote for only one candidate by putting a cross [x] in the box next to your choice. OR Vote for no more than [insert number of candidates to be elected] candidates by putting a cross [x] in the box next to each of your choices.*</p> <p>*The returning officer must select the wording that is appropriate for the election.</p>
<p>JAMES, Lisa 6, Y Stryd, Y Dre CY36 4EZ Plaid Hybu Moeseg mewn Llywodraeth Leol</p> <p style="text-align: center;">Ar <input type="checkbox"/> wv <input type="checkbox"/></p>	<p>JAMES, Lisa 6, Y Stryd, Y Dre CY36 4EZ Promotion of Ethics in Local Government Party</p> <p style="text-align: center;">E <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/></p>
<p>THOMAS, Gareth Gwlad yr Iâ Plaid Gwella'r Gyfraith Etholiadol</p> <p style="text-align: center;">Ar <input type="checkbox"/> wv <input type="checkbox"/></p>	<p>THOMAS, Gareth Iceland Electoral Law Improvement Party</p> <p style="text-align: center;">E <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/></p>
<p>THOMAS RICHARDS, Angharad Sir Hafod Plaid Cyfraith Dda</p> <p style="text-align: center;">Ar <input type="checkbox"/> wv <input type="checkbox"/></p>	<p>THOMAS RICHARDS, Angharad The County of Hafod Good Law Party</p> <p style="text-align: center;">E <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/></p>
<p>WYATT, Cath Sir Gernyw Plaid Effeithlonrwydd</p> <p style="text-align: center;">Ar <input type="checkbox"/> wv <input type="checkbox"/></p>	<p>WYATT, Cath The County of Cornwall Efficiency Party</p> <p style="text-align: center;">E <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/></p>
Ffurf cefn y papur pleidleisio	Form of back of ballot paper
<p>Rhif:</p> <p>Marc adnabod unigryw arall:</p> <p>Etholiad ar gyfer ward [rhowch yr enw] yn [rhowch enw'r gymuned] ar [rhowch ddyddiad y bleidlais] NEU (yn achos cymuned nad yw wedi ei rhannu'n wardiau) Etholiad ar gyfer [rhowch enw'r gymuned] ar [rhowch ddyddiad y bleidlais]</p>	<p>Number:</p> <p>Other unique identifying mark:</p> <p>Election for the [insert name] ward of the [insert name of the community] on [insert date of poll] OR (in the case of a community that is not divided into wards) Election for the [insert name of the community] on [insert date of poll]</p>

Ffurff Cyfarwyddydau ynghylch Argraffu'r Papur Pleidleisio

1. Ni chaniateir argraffu dim ar y papur pleidleisio ac eithrio yn unol â'r cyfarwyddydau hyn.
2. I'r graddau y bo'n ymarferol, rhaid dilyn y cyfarwyddydau a nodir ym mharagraffau 3 i 13 wrth argraffu'r papur pleidleisio.
3. Ni chaniateir argraffu gair ar flaen y papur pleidleisio ac eithrio:
 - (a) y pennawd "Etholiad cynghorwyr i [rhowch enw'r cyngor cymuned]";
 - (b) y cyfarwyddyd "Pleidleisiwch dros un ymgeisydd yn unig drwy roi croes [x] yn y blwch nesaf at eich dewis" neu, pan fo mwy nag un ymgeisydd i'w ethol, "Pleidleisiwch dros ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr drwy roi croes [x] yn y blwch nesaf at bob un o'ch dewisiadau";
 - (c) enwau a disgrifiadau (os oes rhai) yr ymgeiswyr a'r wybodaeth am eu cyfeiriad cartref, fel y'u dangosir yn y datganiad o'r personau a enwebwyd;
 - (d) geiriau sy'n ffurfio rhan o unrhyw arwyddlun i'w gynnwys yn erbyn manylion yr ymgeisydd.
4. Rhaid argraffu blwch o amgylch y pennawd y cyfeirir ato ym mharagraff 3(a) a'r cyfarwyddyd y cyfeirir ato ym mharagraff 3(b), a rhaid gwahanu'r pennawd a'r cyfarwyddyd o fewn y blwch â llinell lorweddol sy'n ymestyn ar ei draws.
5. Ni chaniateir argraffu llinell ar flaen y papur pleidleisio ac eithrio:
 - (a) fel rhan o'r blwch y cyfeirir ato ym mharagraff 4;
 - (b) y llinell lorweddol y cyfeirir ati yn y paragraff hwnnw;
 - (c) llinell lorweddol uwchben manylion yr ymgeisydd cyntaf;
 - (d) llinellau llorweddol yn gwahanu manylion pob ymgeisydd o fanylion yr ymgeiswyr eraill;
 - (e) llinell lorweddol islaw manylion yr ymgeisydd olaf; ac
 - (f) fel rhan o'r blychau ar ochr dde'r papur pleidleisio lle mae'r bleidlais i'w marcio.
6. Rhaid i'r llinellau llorweddol y cyfeirir atynt ym mharagraff 5(c), (d) ac (e) fod â bylchau cyfartal rhyngddynt a rhaid i'r blwch rhwng pob un ohonynt fod yn 2.5 centimetr o leiaf.
7. Rhaid i'r blychau y cyfeirir atynt ym mharagraff 5(f) beidio â chyffwrdd ag unrhyw linell lorweddol a rhaid i bob un fod yr un mor bell oddi wrth y llinell lorweddol uwchben a'r llinell lorweddol islaw.

Form of Directions as to Printing the Ballot Paper

1. Nothing may be printed on the ballot paper except in accordance with these directions.
2. So far as practicable, the directions set out in paragraphs 3 to 13 must be followed in the printing of the ballot paper.
3. No word may be printed on the front of the ballot paper except:
 - (a) the heading "Election of councillors to [insert the name of the community council]";
 - (b) the direction "Vote for only one candidate by putting a cross [x] in the box next to your choice" or, where more than one candidate is to be elected, "Vote for no more than [insert the number of candidates to be elected] candidates by putting a cross [x] in the box next to each of your choices";
 - (c) the names and descriptions (if any) of the candidates and their home address information, as shown in the statement of persons nominated;
 - (d) words forming part of any emblem to be included against the candidate's particulars.
4. A box must be printed around the heading referred to in paragraph 3(a) and the direction referred to in paragraph 3(b), and the heading and direction must be separated within the box by a horizontal line extending across it.
5. No line may be printed on the front of the ballot paper except:
 - (a) as part of the box referred to in paragraph 4;
 - (b) the horizontal line referred to in that paragraph;
 - (c) a horizontal line above the particulars of the first candidate;
 - (d) horizontal lines separating the particulars of each candidate from the particulars of the other candidates;
 - (e) a horizontal line below the particulars of the last candidate; and
 - (f) as part of the boxes on the right-hand side of the ballot paper where the vote is to be marked.
6. The horizontal lines referred to in paragraph 5(c), (d) and (e) must be equally spaced and the space between each of them must be a minimum of 2.5 centimetres.
7. The boxes referred to in paragraph 5(f) must not touch any horizontal line and each one must be equidistant between the horizontal line above it and the horizontal line below it.

8. Rhaid i bob un o'r llinellau llorweddol y cyfeirir atynt ym mharagraff 5(c) a (d) ymestyn o bwynt sy'n lefel â'r testun ar ochr chwith y dudalen hyd at bwynt sy'n uniongyrchol uwchben canol y blwch islaw'r llinell honno.

9. Rhaid i'r llinell lorweddol y cyfeirir ati ym mharagraff 5(e):

- (a) ymestyn o bwynt sy'n lefel â'r testun ar ochr chwith y dudalen hyd at bwynt sy'n uniongyrchol islaw ymyl dde'r blwch uwchben y llinell honno; a
- (b) bod yn fwy trwchus na'r llinellau llorweddol eraill.

10. Pan fo arwyddlun cofrestredig i'w argraffu yn erbyn manylion ymgeisydd:

- (a) rhaid ei argraffu yn gyfagos i fanylion yr ymgeisydd ac i'r dde ohonynt; a
- (b) ni chaniateir i'w faint fel y'i hargreffir fod yn fwy na 2 centimetr sgwâr.

11. Rhaid i'r holl eiriau ar flaen y papur pleidleisio ymddangos yn yr un print mawr ac eithrio:

- (a) rhaid i'r pennawd y cyfeirir ato ym mharagraff 3(a) ymddangos mewn print mawr iawn a thrwm;
- (b) yn y cyfarwyddyd y cyfeirir ato ym mharagraff 3(b), rhaid i'r geiriau "un ymgeisydd yn unig" neu, yn ôl y digwydd, "ddim mwy na [rhewch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr" ymddangos mewn print mawr iawn a thrwm;
- (c) rhaid i weddill y cyfarwyddyd hwnnw ymddangos mewn print mawr iawn; a
- (d) rhaid i enwau'r ymgeiswyr a'r disgrifiadau (os oes rhai) ymddangos mewn print trwm.

12. Rhaid i gyfenwau pob ymgeisydd ymddangos mewn priflythrennau a rhaid i enwau eraill yr ymgeisydd ac unrhyw ddisgrifiad fod mewn llythrennau bach gyda phriflythrennau cychwynnol.

13. Rhaid i'r rhif a'r marc adnabod unigryw arall gael eu hargraffu'n agos at ei gilydd ar gefn y papur pleidleisio.

8. Each of the horizontal lines referred to in paragraph 5(c) and (d) must extend from a point level with the text on the left-hand side of the page to a point directly above the centre of the box below that line.

9. The horizontal line referred to in paragraph 5(e) must:

- (a) extend from a point level with the text on the left-hand side of the page to a point directly below the right-hand edge of the box above that line; and
- (b) be thicker than the other horizontal lines.

10. Where a registered emblem is to be printed against a candidate's particulars:

- (a) it must be printed adjacent to and to the right of the candidate's particulars; and
- (b) its size as printed must not exceed 2 centimetres square.

11. All the words on the front of the ballot paper must appear in the same large type except that:

- (a) the heading referred to in paragraph 3(a) must appear in very large and bold type;
- (b) in the direction referred to in paragraph 3(b), the words "only one candidate" or, as the case may be, "no more than [insert the number of candidates to be elected] candidates" must appear in very large and bold type;
- (c) the remainder of that direction must appear in very large type; and
- (d) the names of the candidates and the descriptions (if any) must appear in bold type.

12. The surnames of each candidate must appear in capitals and the candidate's other names and any description must be in lower case with initial capitals.

13. The number and other unique identifying mark must be printed close to each other on the back of the ballot paper.

Ffurff Datganiad Pleidleisio Post

Enw'r etholwr*:

*Rhaid i'r swyddog canlyniadau hepgor enw'r etholwr pan fo'r papur pleidleisio yn cael ei anfon neu ei ddanfôn i etholwr sydd â chofnod dienw yn y gofrestr neu i ddirprwy etholwr sydd â chofnod dienw yn y gofrestr.

[Enw'r pleidleisiwr (pan fo'n wahanol i enw'r etholwr am fod yr etholwr yn pleidleisio drwy ddirprwy)*:]

*Gall y llinell sy'n ymwneud ag enw'r etholwr gael ei hepgor pan nad yw'r etholwr yn pleidleisio drwy ddirprwy.

Rhif y papur pleidleisio:

Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y diwedd cyn llenwi'r ffurflen hon a'r papur pleidleisio.

FI YW'R PERSON Y CAFODD Y PAPUR
PLEIDLEISIO Â'R RHIF UCHOD EI ANFON NEU
EI DDANFON IDDO.

Fy nyddiad geni (yn y fformat dd/mm/yyyy):

*Fy llofnod:

(Cadwch eich llofnod o fewn y terfyn)

* Rhaid i'r swyddog canlyniadau hepgor y gofyniad ynglŷn â llofnod pan fo'r person wedi cael hepgoriad.

Rhybudd: Mae twyll etholiadol yn drosedd. Rhaid ichi beidio â phleidleisio drwy ddefnyddio papur pleidleisio nad yw wedi ei gyfeirio atoch chi nac ymyrryd â phapur pleidleisio pleidleisiwr arall. Mae'n anghyfreithlon pleidleisio fwy nag unwaith (oni bai eich bod wedi'ch penodi'n ddirprwy ar ran etholwr arall) yn yr un etholiad.

Cyfarwyddiadau ar farcio'r papurau pleidleisio a chwblhau'r datganiad pleidleisio post

1. Pleidleisiwch dros UN ymgeisydd yn unig NEU Pleidleisiwch dros ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr. (Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddewis y geiriad sy'n briodol ar gyfer yr etholiad.)

Form of Postal Voting Statement

Elector's name*:

*The returning officer must omit the elector's name where the ballot paper is sent or delivered to an elector with an anonymous entry in the register or to the proxy of an elector with an anonymous entry in the register.

[Voter's name (where this differs from the elector's name because the elector is voting by proxy)*:]

*The line relating to the voter's name may be omitted where the elector is not voting by proxy.

Ballot paper No:

Please read the instructions at the end before completing this form and the ballot paper.

I AM THE PERSON THE BALLOT PAPER
NUMBERED ABOVE WAS SENT OR DELIVERED
TO.

My date of birth (in the format dd/mm/yyyy):

*My Signature:

(Keep signature within border)

* The returning officer must omit the requirement for a signature where the person has been granted a waiver.

Warning: Electoral fraud is a crime. You must not vote using a ballot paper that is not addressed to you or interfere with another voter's ballot paper. It is illegal to vote more than once (unless you are appointed as proxy for another elector) at the same election.

Instructions on marking the ballot paper and completing the postal voting statement

1. Vote for ONE candidate only OR Vote for no more than [insert the number of candidates to be elected] candidates. (The returning officer must select the wording that is appropriate for the election.)

2. Marciwch groes [x] yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw'r ymgeisydd/ymgeiswyr rydych chi'n pleidleisio drosto/drostynt. Peidiwch â marcio'ch papur pleidleisio mewn unrhyw ffordd arall neu mae'n bosibl na chyfrifir eich pleidlais/pleidleisiau.*

*Pan fo'r papur pleidleisio wedi ei anfon at berson sy'n pleidleisio fel dirprwy, dylid diwygio'r paragraff hwn fel ei fod yn darllen:

2. Marciwch groes [x] yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw'r ymgeisydd/ymgeiswyr y mae'r etholwr yn pleidleisio drosto/drostynt. Peidiwch â marcio'r papur pleidleisio mewn unrhyw ffordd arall neu mae'n bosibl na chyfrifir y bleidlais/pleidleisiau.

3. Os oes arnoch angen help i bleidleisio, rhaid i'r person sy'n eich helpu beidio â dweud wrth neb i bwy y rhoddwyd y bleidlais.

4. Rhwch y papur pleidleisio yn yr amlen fach sydd wedi ei marcio **A** a'i selio.

5. Cwblhewch y datganiad pleidleisio post drwy ei lofnodi a darparu'ch dyddiad geni. Os na wnewch chi, bydd y datganiad pleidleisio post yn annilys ac ni chyfrifir y bleidlais/pleidleisiau. Sylwch mai eich **dyddiad geni** sy'n ofynnol, nid y dyddiad rydych chi'n llofnodi'r datganiad.*

*Pan fo'r gofyniad ynglŷn â llofnod wedi ei hepgor, rhaid i'r swyddog canlyniadau newid y cyfarwyddyd hwn fel ei fod yn darllen:

5. Cwblhewch y datganiad pleidleisio post drwy ddarparu'ch dyddiad geni. Os na wnewch chi, bydd y datganiad pleidleisio post yn annilys ac ni chyfrifir y bleidlais/pleidleisiau. Sylwch mai eich **dyddiad geni** sy'n ofynnol, nid y dyddiad rydych chi'n llofnodi'r datganiad pleidleisio post.

6. Yna rhwch yr amlen sydd wedi ei marcio **A** ynghyd â'r datganiad pleidleisio post yn yr amlen fwy sydd wedi ei marcio **B**. Dychwelwch hi cyn gynted â phosibl.

7. Ar ôl cael y bleidlais bost, chewch chi ddim pleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio yn yr etholiad hwn.*

*Pan fo'r papur pleidleisio wedi ei anfon at berson sy'n pleidleisio fel dirprwy, dylid diwygio'r paragraff hwn fel ei fod yn darllen:

7. Ar ôl cael y bleidlais bost, chewch chi ddim pleidleisio fel dirprwy dros yr etholwr yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio yn yr etholiad hwn.

2. Mark a cross [x] in the box on the right-hand side of the ballot paper opposite the name of the candidate(s) you are voting for. Do not mark your ballot paper in any other way or your vote(s) may not be counted.*

*Where the ballot paper has been sent to a person voting as proxy, this paragraph should be amended so that it reads:

2. Mark a cross [x] in the box on the right-hand side of the ballot paper opposite the name of the candidate(s) the elector is voting for. Do not mark the ballot paper in any other way or the vote(s) may not be counted.

3. If you need help voting, the person helping you must not tell anyone for whom the vote was given.

4. Put the ballot paper in the small envelope marked **A** and seal it.

5. Complete the postal voting statement by signing it and providing your date of birth. If you do not, the postal voting statement will be invalid and the vote(s) will not be counted. Note that it is your **date of birth** that is required, not the date on which you sign the statement.*

*Where the requirement for a signature has been waived, the returning officer must change this instruction so that it reads:

5. Complete the postal voting statement by providing your date of birth. If you do not, the postal voting statement will be invalid and the vote(s) will not be counted. Note that it is your **date of birth** that is required, not the date on which you complete the postal voting statement.

6. Then put the envelope marked **A** together with the postal voting statement in the larger envelope marked **B**. Return it as soon as possible.

7. After receiving the postal vote, you cannot vote in person at a polling station at this election.*

*Where the ballot paper has been sent to a person voting as proxy, this paragraph should be amended so that it reads:

7. After receiving the postal vote, you cannot vote as proxy for the elector in person at a polling station at this election.

8. Os byddwch yn difetha'r papur pleidleisio'n ddamweiniol, cewch wneud cais i'r swyddog canlyniadau am un newydd cyn 5 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais]. Rhaid ichi ddychwelyd y papur pleidleisio a ddifethwyd, y datganiad pleidleisio post a'r amlenni sydd wedi eu marcio A a B. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â'r swyddog canlyniadau cyn gynted â phosibl. [Y swyddog canlyniadau i ddarparu manylion cysylltu i gael cymorth.]

9. Rhaid i'r papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio post—

- (a) cael eu hanfon drwy'r post at y swyddog canlyniadau mewn da bryd i ddod i law'r swyddog canlyniadau cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais];
- (b) cael eu rhoi â llaw i'r swyddog canlyniadau cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais]; neu
- (c) cael eu cyflwyno ar [rhowch ddyddiad y bleidlais] mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol cyn 10 p.m.

8. If you accidentally spoil the ballot paper, you can apply to the returning officer for a replacement before 5 p.m. on [insert the date of the poll]. You must return the spoiled ballot paper, the postal voting statement and the envelopes marked A and B. Make sure you contact the returning officer as soon as possible. [Returning officer to provide contact details for assistance.]

9. The ballot paper and the postal voting statement must be—

- (a) sent by post to the returning officer in sufficient time for them to be received by the returning officer before 10 p.m. on [insert the date of the poll];
- (b) given by hand to the returning officer before 10 p.m. on [insert the date of the poll]; or
- (c) handed in on [insert date of the poll] at any polling station in the electoral area before 10 p.m.

Cardiau Pleidleisio

Poll Cards

Cerdyn Pleidleisio Swyddogol (i'w anfon neu i'w ddanfon i etholwr sy'n pleidleisio'n bersonol)

Blaen y Cerdyn

Cerdyn Pleidleisio Swyddogol

Cyngor: Ardal etholiadol: Nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros yr ardal etholiadol: Diwrnod Pleidleisio: Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m. Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:	Rhif ar y gofrestr: *Enw: *Cyfeiriad: *Sylwch: Rhaid hepgor yr enw a'r cyfeiriad pan fydd y cerdyn pleidleisio'n cael ei anfon neu ei ddanfon i etholwr sydd â chofnod dienw. Rhaid anfon neu ddanfon cerdyn pleidleisio a anfonir neu a ddanfonir i etholwr sydd â chofnod dienw mewn amlen wedi ei selio.
--	--

***Cerdyn er gwybodaeth yn unig yw hwn. Cewch bleidleisio hebddo ond bydd yn arbed amser ichi os ewch ag ef i'r orsaf bleidleisio a'i ddangos i'r clerwr yno.**

Gweler rhagor o wybodaeth ar gefn y cerdyn hwn.

Cefn y cerdyn

Etholiad Llywodraeth Leol

*Pan ewch chi i'r orsaf bleidleisio, dywedwch eich enw a'ch cyfeiriad, fel y'u dangosir ar flaen y cerdyn hwn, wrth y clerwr.

*Bydd y clerwr yn cadarnhau'ch manylion ar y gofrestr.

Pan roddir eich papur pleidleisio i chi, ewch i un o'r bythau pleidleisio. Marciwch groes (x) yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw(au) yr ymgeisydd/ymgeiswyr rydych chi'n pleidleisio drosto/drostynt.

Official Poll Card (to be sent or delivered to an elector voting in person)

Front of card

Official Poll Card

Council: Electoral area: Number of councillors to be elected for the electoral area: Polling Day: Polling Hours: 7 a.m. to 10 p.m. Your polling station will be:	Number on register: *Name: *Address: *Note: The name and address must be omitted where the poll card is sent or delivered to an elector with an anonymous entry. A poll card sent or delivered to an elector with an anonymous entry must be sent or delivered in a sealed envelope.
---	---

***This card is for information only. You can vote without it but it will save you time if you take it to the polling station and show it to the clerk there.**

See further information on the back of this card.

Back of card

Local Government Election

*When you go to the polling station, tell the clerk your name and address, as shown on the front of this card.

*The clerk will confirm your details on the register.

When you are given your ballot paper, go to one of the polling booths. Mark a cross (x) in the box on the right-hand side of the ballot paper opposite the name(s) of the candidate(s) you are voting for.

Pleidleisiwch dros UN ymgeisydd yn unig NEU Pleidleisiwch dros ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr. (Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddewis y geiriad sy'n briodol ar gyfer yr etholiad.)

Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio neu mae'n bosibl na chyfrifir eich pleidlais.

Os byddwch yn difetha'r papur pleidleisio drwy gamgymeriad, dangoswch ef i'r swyddog llywyddu a gofynnwch am un newydd.

Pan fyddwch wedi marcio'r papur pleidleisio, plygwch ef yn ddau. Dangoswch y rhif a'r marc adnabod unigryw arall ar gefn y papur pleidleisio i'r swyddog llywyddu ond peidiwch â gadael i neb weld eich pleidlais. Rhowch y papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio a gadewch yr orsaf pleidleisio.

Os byddwch i ffwrdd ar ddyddiad y bleidlais, mae yna ffyrdd eraill o bleidleisio.

(1) Cewch wneud cais am bleidlais bost. Rhaid i'ch cais ddod i law'r swyddog canlyniadau cyn 5 p.m. ar [rhowch y dyddiad cau]. Os cewch chi bleidlais bost, fydd dim hawl gennych i bleidleisio'n bersonol yn yr etholiad hwn.

(2) Cewch wneud cais am bleidleisio drwy ddirprwy (mae hyn yn golygu y caiff rhywun bleidleisio ar eich rhan). Fel arfer, rhaid i'ch cais ddod i law cyn 5 p.m. ar [rhowch y dyddiad cau]. Os byddwch yn penodi dirprwy, rydych yn dal yn cael pleidleisio yn yr etholiad hwn eich hun os gwnewch chi hynny cyn i'ch dirprwy bleidleisio ar eich rhan.

O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd yn bosibl gwneud cais am bleidleisio drwy ddirprwy ar ôl [rhowch y dyddiad cau].

Os hoffech chi bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, cysylltwch â [rhowch rif y llinell gymorth] cyn gynted â phosibl.

Dyrodwyd gan y swyddog canlyniadau

Testun amgen pan fo gan etholwr gofnod dienw

*Pan fo'r cerdyn pleidleisio yn cael ei anfon neu ei ddanfôn i etholwr sydd â chofnod dienw, yn lle'r paragraffau ar flaen a chefn y cerdyn hwn sydd wedi eu marcio â seren, rhowch y paragraffau a ganlyn:

Rhaid ichi gael y cerdyn hwn gyda chi pan fyddwch yn pleidleisio. Chewch chi ddim pleidleisio hebdo. Pan ewch chi i'r orsaf bleidleisio, gofynnwch am gael siarad â'r swyddog llywyddu a dangoswch y cerdyn hwn i'r swyddog llywyddu. Bydd y swyddog llywyddu'n cadarnhau'ch cofnod ar y gofrestr.

Vote for ONE candidate only OR Vote for no more than [insert the number of candidates to be elected] candidates. (The returning officer must select the wording that is appropriate for the election.)

Do not put any other mark on the ballot paper or your vote may not be counted.

If you spoil the ballot paper by mistake, show it to the presiding officer and ask for a replacement.

When you have marked the ballot paper, fold it in two. Show the presiding officer the number and other unique identifying mark on the back of the ballot paper but do not let anyone see your vote. Put the ballot paper in the ballot box and leave the polling station.

If you will be away on the date of the poll, there are other ways of voting.

(1) You can apply to vote by post. Your application must be received by the returning officer before 5 p.m. on [insert the deadline date]. If you are given a postal vote, you will not be entitled to vote in person at this election.

(2) You can apply to vote by proxy (this means someone can vote on your behalf). Your application must normally be received before 5 p.m. on [insert the deadline date]. If you appoint a proxy, you can still vote in this election yourself if you do so before your proxy has voted for you.

In certain circumstances it may be possible to apply to vote by proxy after [insert the deadline date].

If you want to vote by post or proxy, please contact [insert helpline number] as soon as possible.

Issued by the returning officer

Alternative text where elector has an anonymous entry

*Where the poll card is sent or delivered to an elector with an anonymous entry substitute for the paragraphs on the front and back of this card marked with an asterisk the following paragraphs:

You must have this card with you when you vote. You cannot vote without it.

When you go to the polling station, ask to speak to the presiding officer and show them this card.

The presiding officer will confirm your entry on the register.

Cerdyn Swyddogol Pleidleisio drwy'r Post (i'w anfon neu i'w ddanfon i etholwr sy'n pleidleisio drwy'r post)

Blaen y cerdyn

Cerdyn Swyddogol Pleidleisio drwy'r Post

<p>Cyngor: Ardal etholiadol: Nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros yr ardal etholiadol: Ar gyfer yr etholiad ar: [rhowch ddyddiad y bleidlais] Rhif ar y gofrestr: *Enw a chyfeiriad: *Sylwch: Rhaid hepgor yr enw a'r cyfeiriad pan fydd y cerdyn pleidleisio'n cael ei anfon neu ei ddanfon i etholwr sydd â chofnod dienw. Rhaid anfon neu ddanfon cerdyn pleidleisio a anfonir neu a ddanfonir i etholwr sydd â chofnod dienw mewn amlen wedi ei selio.</p>	<p>Cerdyn yw hwn i ddweud wrthoch eich bod wedi gofyn am bleidleisio drwy'r post ar gyfer yr etholiad hwn, ac na fyddwch yn cael pleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio. Os hoffech chi ganslo'ch pleidlais bost, ffoniwch rif y llinell gymorth [rhowch rif y llinell gymorth] cyn 5 p.m. ar [rhowch y dyddiad cau]. Byddwn yn anfon neu'n danfon eich papurau pleidleisio post o gwmpas [rhowch y dyddiad], wedi eu cyfeirio at [rhowch yr enw a'r cyfeiriad]. Os na fydd eich papurau pleidleisio post wedi cyrraedd erbyn [rhowch y dyddiad], ffoniwch [rhowch rif y llinell gymorth] a gofynnwch am help.</p>
---	--

Os byddwch yn colli neu'n difetha'ch papur pleidleisio post yn ddamweiniol, ffoniwch rif y llinell gymorth a ddangosir uchod cyn gynted â phosibl. Dim ond cyn 5 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais] y gellir dyroddi papurau pleidleisio newydd.

Cerdyn i roi gwybodaeth ichi am bleidleisio drwy'r post yw hwn.

Gweler rhagor o wybodaeth ar gefn y cerdyn hwn.

Cefn y cerdyn

Etholiad Llywodraeth Leol
Pan gewch chi'ch pecyn pleidleisio post, darllenwch y cyfarwyddiadau gydag ef yn ofalus wrth ichi gwblhau'ch papur pleidleisio post.

Official Postal Poll Card (to be sent or delivered to an elector voting by post)

Front of card

Official Postal Poll Card

<p>Council: Electoral area: Number of councillors to be elected for the electoral area: For the election on: [insert date of poll] Number on register: *Name and address: *Note: The name and address must be omitted where the poll card is sent or delivered to an elector with an anonymous entry. A poll card sent or delivered to an elector with an anonymous entry must be sent or delivered in a sealed envelope.</p>	<p>This card is to tell you that you have asked to vote by post for this election, and you will not be able to vote in person in a polling station. If you want to cancel your postal vote please call the helpline number [insert helpline number] before 5 p.m. on [insert deadline date]. We will send or deliver your postal voting papers around [insert date], addressed to [insert name and address]. If your postal voting papers have not arrived by [insert date], call [insert helpline number] and ask for help.</p>
---	--

If you lose or accidentally spoil your postal ballot paper, please call the helpline number shown above as soon as possible. Replacement ballot papers can only be issued before 5 p.m. on [insert date of poll.]

This card is to provide you with information about voting by post.

See further information on the back of this card.

Back of card

Local Government Election
When you receive your postal voting pack, please read the instructions with it carefully when completing your postal ballot paper.

Peidiwch â gadael i neb weld eich pleidlais. Os oes arnoch angen help i bleidleisio, rhaid i'r person sy'n eich helpu beidio â dweud wrth neb sut rydych chi wedi pleidleisio. Gallwch gael help annibynnol gan y swyddog canlyniadau drwy ffonio'r llinell gymorth ar [rhowch rif y llinell gymorth].

Rhaid ichi **lofnodi'r** datganiad pleidleisio post a **darparu'ch dyddiad geni**. Mesur diogelwch yw hwn. Ni fydd yn effeithio ar eich pleidlais nac yn golygu bod y ffordd y rhoesoch eich pleidlais yn hysbys. Heb eich llofnod a'ch dyddiad geni, ni fydd y datganiad yn ddilys ac ni fydd eich pleidlais yn cael ei chyfrif. Gall y swyddog canlyniadau groeswrio'ch llofnod a'ch dyddiad geni yn erbyn cofnodion eraill sydd ganddo.*

*Pan fo'r gofyniad ynglŷn â llofnod wedi ei hepgor, rhaid i'r swyddog canlyniadau gynnwys yn hytrach y paragraff a ganlyn.

Rhaid ichi **ddarparu'ch dyddiad geni**. Mesur diogelwch yw hwn. Ni fydd yn effeithio ar eich pleidlais nac yn golygu bod y ffordd y rhoesoch eich pleidlais yn hysbys. Heb eich dyddiad geni, ni fydd y datganiad yn ddilys ac ni fydd eich pleidlais yn cael ei chyfrif. Gall y swyddog canlyniadau groeswrio'ch dyddiad geni yn erbyn cofnodion eraill sydd ganddo.

Os byddwch yn colli neu'n difetha'ch papur pleidleisio'n ddamweiniol, ffoniwch rif y llinell gymorth a ddangosir isod cyn gynted â phosibl. Dim ond cyn 5 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais] y gallwn ddyroddi papurau pleidleisio post newydd.

Cwblhewch a dychwelwch eich pleidlais bost cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r swyddog canlyniadau gael eich pleidlais bost cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais]. Ar ôl eu cwblhau, cewch ddanfôn eich datganiad pleidleisio post a'ch papur pleidleisio mewn un o dair ffordd.

Cewch eu hanfôn drwy'r post at y swyddog canlyniadau fel eu bod yn dod i law cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais].

Cewch eu cyflwyno i'r swyddog canlyniadau cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais].

Ar ddiwrnod y bleidlais, gallwch eu danfôn i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol cyn 10 p.m.

Os hoffech chi bleidleisio'n bersonol yn yr etholiadau, rhaid ichi ganslo'ch pleidlais bost cyn 5 p.m. ar [rhowch y dyddiad cau].

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth, ffoniwch y llinell gymorth ar [rhowch rif y llinell gymorth].

Mae'n drosedd pleidleisio drwy ddefnyddio papur pleidleisio na chafodd ei gyfeirio atoch chi.

Dyroddwyd gan y swyddog canlyniadau

Do not let anyone see your vote. If you need help voting, the person helping you must not tell anyone how you have voted. You can get independent help from the returning officer by calling the helpline on [insert helpline number].

You must **sign** the postal voting statement and **provide your date of birth**. This is a security measure. It will not affect your vote or mean that the way in which you gave your vote is known. Without your signature and date of birth, the statement will not be valid and your vote will not be counted. The returning officer can cross-check your signature and date of birth against other records that they hold.*

*Where the requirement for a signature has been waived, the returning officer must include the following paragraph instead.

You must **provide your date of birth**. This is a security measure. It will not affect your vote or mean that the way in which you gave your vote is known. Without your date of birth, the statement will not be valid and your vote will not be counted. The returning officer can cross-check your date of birth against other records that they hold.

If you lose or accidentally spoil your ballot paper, please call the helpline number shown below as soon as possible. We can only issue replacement postal ballot papers before 5 p.m. on [insert date of the poll].

Complete and return your postal vote as soon as possible. The returning officer must receive your postal vote before 10 p.m. on [insert date of the poll].

You can deliver your completed postal voting statement and ballot paper in one of three ways.

You can send them by post to the returning officer so that they are received before 10 p.m. on [insert date of the poll].

You can hand them to the returning officer before 10 p.m. on [insert date of the poll].

On the day of the poll, you can deliver them to any polling station in the electoral area before 10 p.m.

If you want to vote in person at the elections, you must cancel your postal vote before 5 p.m. on [insert deadline].

If you need any assistance, please call the helpline on [insert helpline number].

It is an offence to vote using a ballot paper that was not addressed to you.

Issued by the returning officer

Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy (i'w anfon neu i'w ddanfon i ddirprwy sy'n pleidleisio'n bersonol)

Blaen y cerdyn

Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy

<p>Cyngor: Ardal etholiadol: Nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros yr ardal etholiadol: Diwrnod Pleidleisio: Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m. Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:</p>	<p>*Cerdyn pleidleisio yw hwn i ddweud wrthoch fod yr etholwr a enwir ar gefn y cerdyn hwn wedi'ch penodi'n ddirprwy ar gyfer yr etholiad hwn. *Enw'r dirprwy: *Cyfeiriad y dirprwy: *Sylwch: Mae'r adran hon i'w hepgor pan fydd y cerdyn pleidleisio yn cael ei anfon neu ei ddanfon i ddirprwy etholwr sydd â chofnod diennw. Rhaid anfon neu ddanfon cerdyn pleidleisio a anfonir neu a ddanfonir i etholwr sydd â chofnod diennw mewn amlen wedi ei selio.</p>
--	---

*** Cerdyn er gwybodaeth yn unig yw hwn. Cewch bleidleisio hebddo ond bydd yn arbed amser ichi os ewch ag ef i'r orsaf bleidleisio a'i ddangos i'r clerwr yno.**

Gweler rhagor o wybodaeth ar gefn y cerdyn hwn.

Cefn y cerdyn

<p>Etholiad Llywodraeth Leol *Cerdyn pleidleisio yw hwn i ddweud wrthoch eich bod wedi'ch penodi, ar gyfer yr etholiad hwn, yn ddirprwy ar ran: *[Rhowch enw'r etholwr] *[Rhowch gyfeiriad yr etholwr] *[Rhowch rif yr etholwr ar y gofrestr]</p> <p>*Pan ewch chi i'r orsaf bleidleisio, dywedwch wrth y clerwr yr hoffech chi bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr a ddangosir uchod. *Bydd y clerwr yn cadarnhau'r manylion ar y gofrestr.</p> <p>Pan roddir y papur pleidleisio i chi, ewch i un o'r bythau pleidleisio. Marciwch groes (x) yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw(au) yr ymgeisydd/ymgeiswyr y mae'r etholwr yn pleidleisio drosto/drostant.</p>
--

Official Proxy Poll Card (to be sent or delivered to a proxy voting in person)

Front of card

Official Proxy Poll Card

<p>Council: Electoral area: Number of councillors to be elected for the electoral area: Polling Day: Polling Hours: 7 a.m. to 10 p.m. Your polling station will be:</p>	<p>*This poll card is to tell you that for this election the elector named on the back of this card has appointed you as their proxy. *Proxy's name: *Proxy's address: *Note: This section is to be omitted where the poll card is sent or delivered to the proxy of an elector with an anonymous entry. A poll card sent or delivered to the proxy of an elector with an anonymous entry must be sent or delivered in a sealed envelope.</p>
---	---

***This card is for information only. You can vote without it but it will save you time if you take it to the polling station and show it to the clerk there.**

See further information on the back of this card.

Back of card

<p>Local Government Election *This poll card is to tell you that for this election you are appointed as proxy for: *[Insert elector's name] *[Insert elector's address] *[Insert elector's number on register]</p> <p>*When you go to the polling station, tell the clerk that you wish to vote as proxy on behalf of the elector shown above. *The clerk will confirm the details on the register.</p> <p>When you are given the ballot paper, go to one of the polling booths. Mark a cross (x) in the box on the right-hand side of the ballot paper opposite the name(s) of the candidate(s) the elector is voting for.</p>

Pleidleisiwch dros UN ymgeisydd yn unig NEU Pleidleisiwch dros ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr. (Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddewis y geiriad sy'n briodol ar gyfer yr etholiad.)

Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio neu mae'n bosibl na chyfrifir y bleidlais.

Os byddwch yn difetha'r papur pleidleisio drwy gamgymeriad, dangoswch ef i'r swyddog llywyddu a gofynnwch am un newydd.

Pan fyddwch wedi marcio'r papur pleidleisio, plygwch ef yn ddau. Dangoswch y rhif a'r marc adnabod unigryw arall ar gefn y papur pleidleisio i'r swyddog llywyddu ond peidiwch â gadael i neb weld y bleidlais. Rhowch y papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio a gadewch yr orsaf bleidleisio.

Caiff y person a'ch penododd yn ddirprwy bleidleisio yn yr etholiad hwn. Os hoffai wneud hynny, rhaid iddo bleidleisio'n bersonol cyn i chithau bleidleisio ar ei ran.

Os byddwch i ffwrdd ar ddyddiad y bleidlais, cewch wneud cais am bleidleisio drwy'r post fel dirprwy. Rhaid i'ch cais ddod i law'r swyddog canlyniadau cyn 5 p.m. ar [rhowch y dyddiad cau]. Os rhoddir pleidlais bost drwy ddirprwy i chi, ni fydd gennych chi (ar ran yr etholwr) na'r etholwr hawl i bleidleisio'n bersonol yn yr etholiad hwn.

Mae'n anghyfreithlon gwneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

Pleidleisio fwy nag unwaith (oni bai eich bod wedi'ch penodi'n ddirprwy ar ran etholwr arall) yn yr un etholiad.

Pleidleisio fel dirprwy yn yr un etholiad ar ran dau berson neu ragor oni bai eich bod yn briod, partner sifil, rhiant, taid neu nain, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres iddynt.

Pleidleisio fel dirprwy dros berson os ydych yn gwybod bod y person o dan anghymhwyster cyfreithiol i bleidleisio.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth, ffoniwch ein llinell gymorth ar [rhowch rif y llinell gymorth].

Dyrodwyd gan y swyddog canlyniadau

Testun amgen pan fo gan yr etholwr gofnod dienw

*Pan fydd y cerdyn pleidleisio yn cael ei anfon neu ei ddanfôn i ddirprwy etholwr sydd â chofnod dienw, yn lle'r paragraffau ar flaen a chefn y cerdyn hwn sydd wedi eu marcio â seren, rhowch y paragraffau a ganlyn:

Vote for ONE candidate only OR Vote for no more than [insert the number of candidates to be elected] candidates. (The returning officer must select the wording that is appropriate for the election.)

Do not put any other mark on the ballot paper or the vote may not be counted.

If you spoil the ballot paper by mistake, show it to the presiding officer and ask for a replacement.

When you have marked the ballot paper, fold it in two. Show the presiding officer the number and other unique identifying mark on the back of the ballot paper but do not let anyone see the vote. Put the ballot paper in the ballot box and leave the polling station.

The person who appointed you as proxy may vote at this election. If they wish to do so, they must vote in person before you vote on their behalf.

If you will be away on the date of the poll, you can apply to vote by post as proxy. Your application must be received by the returning officer before 5 p.m. on [insert the deadline date]. If you are given a proxy postal vote, neither you (on the elector's behalf) nor the elector will be entitled to vote in person at this election.

It is illegal to do any of the following—

Vote more than once (unless you are appointed as proxy for another elector) at the same election.

Vote as proxy at the same election for two or more persons unless you are their spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild.

Vote as proxy for a person if you know that the person is subject to a legal incapacity to vote.

If you need any assistance, please call our helpline on [insert helpline number].

Issued by the returning officer

Alternative text where elector has an anonymous entry

*Where the poll card is sent or delivered to the proxy of an elector with an anonymous entry substitute for the paragraphs on the front and back of this card marked with an asterisk the following paragraphs:

Rhaid ichi gael y cerdyn hwn gyda chi pan fyddwch yn pleidleisio. Chewch chi ddim pleidleisio fel dirprwy hebddo.

Mae gennych chi hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr y dangosir ei rif etholiadol isod.

[Rhowch rif yr etholwr ar y gofrestr]

Er mwyn pleidleisio fel dirprwy, rhaid ichi fynd i'r orsaf bleidleisio a ddangosir ar flaen y cerdyn hwn. Gofynnwch am gael siarad â'r swyddog llywyddu a dangoswch y cerdyn hwn i'r swyddog llywyddu. Bydd y clerch yn cadarnhau'r manylion ar y gofrestr.

You must have this card with you when you vote.

You cannot vote as proxy without it.

You are entitled to vote as proxy for the elector whose electoral number is shown below.

[Insert elector's number on register]

To vote as proxy you must go to the polling station shown on the front of this card. Ask to speak to the presiding officer and show them this card. The clerk will confirm the details on the register.

Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy drwy'r Post (i'w anfon neu i'w ddanfon i ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post)

Blaen y cerdyn

Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy drwy'r Post

Cyngor: Ardal etholiadol: Nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros yr ardal etholiadol: Ar gyfer yr etholiad ar: [rhowch ddyddiad y bleidlais]: Enw a chyfeiriad y dirprwy:	*Cerdyn pleidleisio yw hwn i ddweud wrthoch fod yr etholwr a enwir ar gefn y cerdyn hwn wedi'ch penodi'n ddirprwy iddo ar gyfer yr etholiad hwn a'ch bod chithau wedi penderfynu pleidleisio drwy'r post. Fyddwch chi ddim yn cael pleidleisio ar ran yr etholwr mewn gorsaf bleidleisio. Os hoffech chi ganslo'r bleidlais bost hon a phleidleisio'n bersonol ar ddiwrnod y bleidlais, ffoniwch y llinell gymorth isod cyn 5 p.m. ar [rhowch y dyddiad cau]. Byddwn yn anfon neu'n danfon y papurau pleidleisio post drwy ddirprwy o gwmpas [rhowch y dyddiad]. Os na fydd y papurau pleidleisio post drwy ddirprwy wedi cyrraedd erbyn [rhowch y dyddiad], ffoniwch [rhowch rif y llinell gymorth] a gofynnwch am help.
---	---

Official Proxy Postal Poll Card (to be sent or delivered to a proxy voting by post)

Front of card

Official Proxy Postal Poll Card

Council: Electoral area: Number of councillors to be elected for the electoral area: For the election on: [insert date of poll]: Proxy's name and address:	*This poll card is to tell you that for this election the elector named on the back of this card has appointed you as their proxy and you have decided to vote by post. You will not be able to vote on behalf of the elector in a polling station. If you want to cancel this postal vote and vote in person on polling day, please call the helpline shown below before 5 p.m. on [insert date of deadline]. We will send or deliver the proxy postal voting papers around [insert date]. If the proxy postal voting papers have not arrived by [insert date], please call [insert helpline number] and ask for help.
---	---

Os byddwch yn colli neu'n difetha papur pleidleisio post yr etholwr yn ddamweiniol, ffoniwch rif y llinell gymorth a d dangosir uchod cyn gynted â phosibl. Dim ond cyn 5 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais] y gellir dyroddi papurau pleidleisio newydd.

Cerdyn yw hwn i roi gwybodaeth ichi am bleidleisio drwy'r post fel dirprwy.

Gweler rhagor o wybodaeth ar gefn y cerdyn hwn.

Cefn y cerdyn

Etholiad Llywodraeth Leol

***Cerdyn pleidleisio yw hwn i ddweud wrthoch eich bod wedi'ch penodi, ar gyfer yr etholiad hwn, yn ddirprwy ar ran yr etholwr a enwir isod a'ch bod chithau wedi penderfynu pleidleisio drwy'r post:**

*[Rhowch enw'r etholwr]

*[Rhowch gyfeiriad yr etholwr]

Pan gewch chi'r pecyn pleidleisio post, darllenwch y cyfarwyddiadau gydag ef yn ofalus wrth ichi gwblhau'ch papur pleidleisio post.

Peidiwch â gadael i neb weld y bleidlais. Os oes arnoch angen help i bleidleisio, rhaid i'r person sy'n eich helpu beidio â dweud wrth neb sut rydych chi wedi pleidleisio fel dirprwy. Gallwch gael help annibynnol gan y swyddog canlyniadau drwy ffonio'r llinell gymorth ar [rhowch rif y llinell gymorth].

Rhaid ichi **lofnodi'r** datganiad pleidleisio post a **darparu'ch dyddiad geni**. Mesur diogelwch yw hwn. Ni fydd yn effeithio ar y bleidlais nac yn golygu bod y ffordd y rhoesoch y bleidlais fel dirprwy yn hysbys. Heb eich llofnod a'ch dyddiad geni, ni fydd y datganiad yn ddilys ac ni fydd y bleidlais yn cael ei chyfrif. Gall y swyddog canlyniadau groeswiro'ch llofnod a'ch dyddiad geni yn erbyn cofnodion eraill sydd ganddo.**

** Pan fo'r gofyniad ynglŷn â llofnod wedi ei hepgor, rhaid i'r swyddog canlyniadau gynnwys yn hytrach y paragraff a ganlyn.

Rhaid ichi **ddarparu'ch dyddiad geni**. Mesur diogelwch yw hwn. Ni fydd yn effeithio ar y bleidlais nac yn golygu bod y ffordd y rhoesoch y bleidlais fel dirprwy yn hysbys. Heb eich dyddiad geni, ni fydd y datganiad yn ddilys ac ni fydd y bleidlais yn cael ei chyfrif. Gall y swyddog canlyniadau groeswiro'ch dyddiad geni yn erbyn cofnodion eraill sydd ganddo.

Os byddwch yn colli neu'n difetha'r papur pleidleisio'n ddamweiniol, ffoniwch rif y llinell gymorth cyn gynted â phosibl. Dim ond cyn 5 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais] y gallwn ddyroddi papurau pleidleisio post newydd.

If you lose or accidentally spoil the elector's postal ballot paper, please call the helpline number shown above as soon as possible. Replacement ballot papers can only be issued before 5 p.m. on [insert date of the poll].

This card is to provide you with information about voting by post as proxy.

See further information on the back of this card.

Back of card

Local Government Election

***This poll card is to tell you that for this election you are appointed as proxy for the elector named below and you have decided to vote by post:**

*[Insert elector's name]

*[Insert elector's address]

When you receive the postal voting pack, please read the instructions with it carefully when completing your postal ballot paper.

Do not let anyone see the vote. If you need help voting as proxy, the person helping you must not tell anyone how you have voted as proxy. You can get independent help from the returning officer by calling the helpline on [insert helpline number].

You must **sign** the postal voting statement and **provide your date of birth**. This is a security measure. It will not affect the vote or mean that the way in which you gave the vote as proxy is known. Without your signature and date of birth the statement will not be valid and the vote will not be counted. The returning officer can cross-check your signature and date of birth against other records that they hold.**

**Where the requirement for a signature has been waived, the returning officer must include the following paragraph instead.

You must **provide your date of birth**. This is a security measure. It will not affect the vote or mean that the way in which you gave the vote as proxy is known. Without your date of birth, the statement will not be valid and the vote will not be counted. The returning officer can cross-check your date of birth against other records that they hold.

If you lose or accidentally spoil the ballot paper, please call the helpline number as soon as possible. We can only issue replacement postal ballot papers before 5 p.m. on [insert date of the poll].

Cwblhewch a dychwelwch y bleidlais bost cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r swyddog canlyniadau gael y bleidlais bost cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais]. Ar ôl eu cwblhau, cewch ddanfôn eich datganiad pleidleisio post a'r papur pleidleisio mewn un o dair ffordd.

Cewch eu hanfon drwy'r post at y swyddog canlyniadau fel eu bod yn dod i law cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais].

Cewch eu cyflwyno i'r swyddog canlyniadau cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais].

Ar ddiwrnod y bleidlais, gallwch eu danfon i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol cyn 10 p.m.

Os hoffech chi bleidleisio'n bersonol fel dirprwy yn yr etholiad, rhaid ichi ganslo'ch pleidlais bost cyn 5 p.m. ar [rhowch y dyddiad cau].

Mae'n anghyfreithlon gwneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

Pleidleisio fwy nag unwaith (oni bai eich bod wedi'ch penodi'n ddirprwy ar ran etholwr arall) yn yr un etholiad.

Pleidleisio fel dirprwy yn yr un etholiad ar ran dau berson neu ragor oni bai eich bod yn briod, partner sifil, rhiant, taid neu nain, brawd, chwaer, plentyn, wŷyr neu wyres iddynt.

Pleidleisio fel dirprwy dros berson os ydych yn gwybod bod y person o dan anghymhwyster cyfreithiol i bleidleisio.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth, ffoniwch ein llinell gymorth ar [rhowch rif y llinell gymorth].

Dyroddwyd gan y swyddog canlyniadau

Testun amgen pan fo gan yr etholwr gofnod dienw

*Pan fydd y cerdyn pleidleisio yn cael ei anfon neu ei ddanfôn i ddirprwy etholwr sydd â chofnod dienw, yn lle'r paragraffau uchod sydd wedi eu marcio â seren, rhowch y paragraffau a ganlyn:

Cerdyn pleidleisio yw hwn i ddweud wrthoch eich bod wedi'ch penodi'n ddirprwy ar ran yr etholwr y dangosir ei rif etholiadol isod ar gyfer yr etholiad hwn a'ch bod chithau wedi penderfynu pleidleisio drwy'r post.

Mae gennych chi hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr y dangosir ei rif etholiadol isod:

[Rhowch rif yr etholwr ar y gofrestr]

Complete and return the postal vote as soon as possible. The returning officer must receive the postal vote before 10 p.m. on [insert date of the poll]. You can deliver your completed postal voting statement and the ballot paper in one of three ways.

You can send them by post to the returning officer so that they are received before 10 p.m. on [insert date of the poll].

You can hand them to the returning officer before 10 p.m. on [insert date of the poll].

On the day of the poll, you can deliver them to any polling station in the electoral area before 10 p.m.

If you want to vote in person as proxy at the election, you must cancel your postal vote before 5 p.m. on [insert deadline].

It is illegal to do any of the following—

Vote more than once (unless you are appointed as proxy for another elector) at the same election

Vote as proxy at the same election for two or more persons unless you are their spouse, civil partner,

parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild

Vote as proxy for a person if you know that the person is subject to a legal incapacity to vote.

If you need any assistance, please call our helpline on [insert helpline number].

Issued by the returning officer

Alternative text where the elector has an anonymous entry

*Where the poll card is sent or delivered to the proxy of an elector with an anonymous entry, substitute for the paragraphs on the front and back of this card marked with an asterisk the following paragraphs:

This poll card is to tell you that for this election you are appointed as proxy for the elector whose electoral number is shown below and you have decided to vote by post.

You are entitled to vote as proxy for the elector whose electoral number is shown below:

[Insert elector's number on register]

Canllawiau i Bleidleiswyr

1. Pan roddir eich papur pleidleisio i chi, ewch i un o'r bythau pleidleisio.
2. Marciwch groes [x] yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw(au) yr ymgeisydd/ymgeiswyr rydych chi'n pleidleisio drosto/drostynt.
3. Pleidleisiwch dros UN ymgeisydd yn unig NEU Pleidleisiwch dros ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr.*
4. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio neu mae'n bosibl na chyfrifir eich pleidlais/pleidleisiau.
5. Plygwch y papur pleidleisio yn ddau.
6. Dangoswch y rhif a'r marc adnabod unigryw arall ar gefn y papur pleidleisio i'r swyddog llywyddu ond peidiwch â gadael i neb weld eich pleidlais.
7. Rhowch y papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio a gadewch yr orsaf bleidleisio.
8. Os byddwch yn difetha'ch papur pleidleisio drwy gangymeriad, dangoswch ef i'r swyddog llywyddu a gofynnwch am un newydd.

* Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddewis pa gyfarwyddyd bynnag sy'n briodol ar gyfer yr etholiad.

Guidance for Voters

1. When you are given your ballot paper, go to one of the polling booths.
2. Mark a cross [x] in the box on the right-hand side of the ballot paper opposite the name(s) of the candidate(s) you are voting for.
3. Vote for ONE candidate only OR Vote for no more than [insert the number of candidates to be elected] candidates.*
4. Put no other mark on the ballot paper or your vote(s) may not be counted.
5. Fold the ballot paper in two.
6. Show the presiding officer the number and other unique identifying mark on the back of the ballot paper but do not let anyone see your vote.
7. Put the ballot paper in the ballot box and leave the polling station.
8. If you spoil your ballot paper by mistake, show it to the presiding officer and ask for a replacement.

* The returning officer must choose whichever direction is appropriate for the election.

Ffurf dystysgrif o ran dyletswyddau

Etholiad yn ardal etholiadol [rhowch yr enw] yn [rhowch enw'r gymuned y cynhelir yr etholiad mewn cysylltiad â hi]

Rwy'n ardystio nad yw'n rhesymol disgwyl i [rhowch yr enw] sydd â rhif [rhowch y rhif yn y gofrestr] yn y gofrestr etholwyr ar gyfer yr ardal etholiadol a enwir uchod fynd yn bersonol i'r orsaf bleidleisio a ddyrannwyd iddo/iddi yn yr etholiad ar [rhowch ddyddiad y bleidlais] oherwydd amgylchiadau eu dyletswyddau ar y diwrnod hwnnw at ddiben sy'n gysylltiedig â'r etholiad.

Llofnod priodol:

Dyddiad:

Y llofnod priodol yw llofnod y swyddog canlyniadau pan fo'r person a enwir yn aelod o staff y swyddog canlyniadau a llofnod swyddog heddlu o radd arolygydd neu'n uwch pan fo'r person a enwir yn gwnstabl (sydd, at y dibenion hyn, yn cynnwys swyddog cymorth cymunedol neu wirfoddolwr cymorth cymunedol).

Sylwch: Mae gan y person a enwir hawl i bleidleisio mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol drwy ddangos ac ildio'r dystysgrif i'r swyddog llywyddu.

Form of certificate as to duties

Election in the [insert name] electoral area of [insert name of the community in respect of which the election is held]

I certify that [insert name] whose number in the register of electors for the electoral area named above is [insert number in the register] cannot reasonably be expected to go in person to the polling station allotted to them at the election on [insert date of the poll] because of the circumstances of their duties on that day for a purpose connected with the election.

Appropriate signature:

Date:

The appropriate signature is the signature of the returning officer where the person named is a member of the returning officer's staff and the signature of a police officer of the rank of inspector or above where the person named is a constable (which, for these purposes, includes a community support officer or community support volunteer).

Note: The person named is entitled to vote at any polling station in the electoral area on production and surrender of the certificate to the presiding officer.

Ffurf datganiad sydd i'w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau

Rwyf fi [rhowch enw'r cydymaith] o [rhowch gyfeiriad y cydymaith], ar ôl cael cais i gynorthwyo [rhowch enw'r pleidleisiwr sy'n cael cymorth], sydd â rhif [rhowch rif y pleidleisiwr sy'n cael cymorth] ar y gofrestr, i roi ei bleidlais yn yr etholiad sy'n cael ei gynnal nawr yn yr ardal etholiadol hon, drwy hyn yn datgan*—

Fy mod wedi cyrraedd 16 oed.

Nad wyf wedi cynorthwyo unrhyw bleidleisiwr ag anableddau o'r blaen i bleidleisio ac eithrio [rhowch enw a chyfeiriad unrhyw bleidleisiwr arall sydd wedi cael cymorth gan y cydymaith i bleidleisio yn yr etholiad] (gweler nodyn 2).

Llofnod y cydymaith:
Dyddiad:

*Os gofynnir i'r cydymaith gynorthwyo pleidleisiwr ag anableddau sy'n pleidleisio fel dirprwy, rhaid i eiriau agoriadol y datganiad fod yn hytrach "Rwyf fi [rhowch enw'r cydymaith] o [rhowch gyfeiriad y cydymaith] ar ôl cael cais i gynorthwyo [rhowch enw'r pleidleisiwr sy'n cael cymorth] sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran [rhowch enw'r etholwr], sydd â rhif [rhowch rif yr etholwr] ar y gofrestr, i roi ei bleidlais yn yr etholiad sy'n cael ei gynnal nawr yn yr ardal etholiadol hon, drwy hyn yn datgan—".

Rwyf fi, sy'n llofnodi isod, sef y swyddog llywyddu ar gyfer [rhowch enw'r orsaf bleidleisio] ar gyfer ardal etholiadol [rhowch yr enw] yn [rhowch enw'r gymuned] drwy hyn yn ardystio bod y datganiad uchod wedi ei ddarllen i'r cydymaith ac wedi ei llofnodi gan y cydymaith yn fy mhresenoldeb i.

Llofnod y swyddog llywyddu:
Dyddiad:
Amser:

Nodiadau ar ffurf y datganiad sydd i'w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau

1. Pleidleisiwr ag anableddau yw pleidleisiwr sydd wedi gwneud datganiad o dan reol 44(2) ei fod yn cael ei effeithio gan ddallineb neu anabledd arall, neu gan anallu i ddarllen, fel nad yw'n gallu pleidleisio heb gymorth cydymaith.
2. Caniateir i'r cydymaith fod wedi cynorthwyo un (a dim ond un) person arall i bleidleisio yn yr etholiad.

Form of declaration to be made by the companion of a voter with disabilities

I [insert name of companion] of [insert address of companion] having been asked to assist [insert name of voter being assisted], whose number on the register is [insert number of voter being assisted], to give their vote at the election now being held in this electoral area, hereby declare that*—

I have attained the age of 16.

I have not previously assisted any voter with disabilities to vote except [insert the name and address of any other voter who has been assisted by the companion to vote at the election] (see note 2).

Signed by companion:
Date:

*If the companion is asked to assist a voter with disabilities voting as proxy the opening words of the declaration must instead be "I [insert name of companion] of [insert address of companion] having been asked to assist [insert name of voter being assisted] who is voting as proxy for [insert name of elector], whose number on the register is [insert number of elector], to give their vote at the election now being held in this electoral area hereby declare that—".

I, the undersigned, being the presiding officer for [insert name of polling station] for the [insert name] electoral area of [insert name of community] hereby certify that the above declaration was read to the companion and was signed by the companion in my presence.

Signed by presiding officer:
Date:
Time:

Notes to the form of declaration by the companion of a voter with disabilities

1. A voter with disabilities is a voter who has made a declaration under rule 44(2) that they are so affected by blindness or other disability, or by inability to read, as to be unable to vote without the assistance of a companion.
2. The companion may have assisted one (and only one) other person to vote at the election.

Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer cymuned pan gynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad perthnasol

CYNNWYS

RHAN 1

Darpariaethau ynglŷn ag Amser

1. Amserlen
2. Cyfrif amser

RHAN 2

Hysbysiad Etholiad, Enwebu a Dull Ethol

Hysbysiad Etholiad

3. Hysbysiad etholiad
Enwebu
4. Dyletswydd y swyddog canlyniadau i gyflenwi ffurflenni enwebu etc.
5. Enwebu ymgeiswyr
6. Papurau enwebu: disgrifiadau
7. Ychwanegu “Wales”, “Welsh”, “Cymru” neu “Cymreig”
8. Papurau enwebu: datganiadau aelodaeth plaid
9. Ffurflenni cyfeiriad cartref
10. Penderfyniadau ynglŷn â dilysrwydd papurau enwebu
11. Enwebu mewn mwy nag un ardal etholiadol
12. Ymgeiswyr yn tynnu’n ôl
13. Cyhoeddi datganiad o’r personau a enwebwyd
14. Defnyddio enwau a ddefnyddir yn gyffredin yn y datganiad o’r personau a enwebwyd
15. Enwau sydd yr un fath neu’n debyg
16. Cywiro mân wallau mewn papur enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref
17. Archwilio papurau enwebu
18. Archwilio ffurflenni cyfeiriad cartref
19. Gohirio trafodion enwebu os ceir terfysg

Dull Ethol

20. Penderfynu a oes gornest yn yr etholiad a datgan y canlyniad os nad oes gornest

Rules for conduct of an election of councillors for a community where poll is taken together with poll at a relevant election

CONTENTS

PART 1

Provisions as to Time

1. Timetable
2. Computation of time

PART 2

Notice of Election, Nomination and Method of Election

Notice of Election

3. Notice of election
- Nomination
4. Duty of returning officer to supply forms of nomination etc.
 5. Nomination of candidates
 6. Nomination papers: descriptions
 7. Addition of “Wales”, “Welsh”, “Cymru” or “Cymreig”
 8. Nomination papers: statements of party membership
 9. Home address forms
 10. Decisions as to validity of nomination papers
 11. Nomination in more than one electoral area
 12. Withdrawal of candidates
 13. Publication of statement of persons nominated
 14. Use of commonly used names in statement of persons nominated

15. Names that are the same or similar
16. Correction of minor errors in a nomination paper or home address form
17. Inspection of nomination papers
18. Inspection of home address forms
19. Adjournment of nomination proceedings in the case of riot

Method of Election

20. Decision as to whether election contested and declaration of result if uncontested

RHAN 3

Y Bleidlais mewn Etholiadau lle Ceir Gornest

Darpariaethau Cyffredinol

21. Y bleidlais i'w chynnal drwy bleidlais gudd
22. Y papurau pleidleisio
23. Rhestr rhifau cyfatebol
24. Y marc swyddogol
25. Gwahardd datgelu pleidlais
26. Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus

Camau i'w cymryd cyn y bleidlais

27. Hysbysiad y bleidlais
28. Papurau pleidleisio post
29. Darparu gorsafoddedd pleidleisio
30. Penodi swyddogion llywyddu a chlercod
31. Dyroddi cardiau pleidleisio swyddogol
32. Cyfarpar gorsafoddedd pleidleisio
33. Penodi asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif
34. Asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif: darpariaeth atodol
35. Hysbysu'r gofyniad cyfrinachedd
36. Dychwelyd papurau pleidleisio post

Y Bleidlais

37. Derbynn i'r orsaf bleidleisio
38. Cadw trefn yn yr orsaf
39. Selio blychau pleidleisio
40. Cwestiynau y caniateir eu gofyn i bleidleiswyr
41. Herio pleidleisiwr
42. Gweithdrefn pleidleisio
43. Pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy'n methu darllen: marcio pleidleisiau gan y swyddog llywyddu
44. Pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy'n methu darllen: cymorth cymdeithion
45. Pleidleisio gyda chymorth cydymaith: darpariaeth atodol
46. Papurau pleidleisio a dendrwyd: yr amgylchiadau lle maent ar gael
47. Dyletswyddau swyddogion llywyddu mewn perthynas â phapurau pleidleisio a dendrwyd
48. Papurau pleidleisio a ddifethwyd
49. Cywiro gwallau ar ddiwrnod y bleidlais
50. Gohirio'r bleidlais os ceir terfysg
51. Y weithdrefn wrth gau'r bleidlais

PART 3

The Poll at Contested Elections

General Provisions

21. Poll to be taken by ballot
22. The ballot papers
23. Corresponding number list
24. The official mark
25. Prohibition of disclosure of vote
26. Use of schools and public rooms

Action to be taken before the poll

27. Notice of poll
28. Postal ballot papers
29. Provision of polling stations
30. Appointment of presiding officers and clerks
31. Issue of official poll cards
32. Equipment of polling stations
33. Appointment of polling and counting agents
34. Polling and counting agents: supplemental provision
35. Notification of requirement of secrecy
36. Return of postal ballot papers

The Poll

37. Admission to polling station
38. Keeping of order in station
39. Sealing of ballot boxes
40. Questions that may be put to voters
41. Challenge of voter
42. Voting procedure
43. Voters with a disability or unable to read: marking of votes by presiding officer
44. Voters with a disability or unable to read: assistance of companions
45. Voting with the assistance of a companion: supplemental provision
46. Tendered ballot papers: circumstances where available
47. Duties of presiding officer in relation to tendered ballot papers
48. Spoilt ballot papers
49. Correction of errors on day of poll
50. Adjournment of poll in case of riot
51. Procedure on close of poll

RHAN 4

Cyfrif y Pleidleisiau a Datgan y Canlyniad mewn Etholiadau lle Ceir Gornest

52. Trosolwg o'r rheolau a dehongli
53. Presenoldeb mewn trafodion o dan y Rhan hon
54. Dyletswyddau rhagarweiniol a chyffredinol pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau
55. Gwahanu papurau pleidleisio etc. pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau
56. Dyletswyddau rhagarweiniol a chyffredinol pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau
57. Agor cynwysyddion etc. pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau
58. Darpariaeth bellach ynghylch papurau pleidleisio post
59. Y cyfrif: cyffredinol
60. Y cyfrif: papurau pleidleisio a wrthodwyd
61. Ailgyfrif
62. Pleidleisiau cyfartal
63. Penderfynu ar bapurau pleidleisio
64. Datgan y canlyniad

RHAN 5

Gwaredu Dogfennau

65. Selio papurau pleidleisio mewn etholiadau lle ceir gornest
66. Danfon dogfennau i'r swyddog cofrestru mewn etholiadau lle ceir gornest
67. Dangos etc. dogfennau
68. Gorchmynion i ddangos etc. dogfennau: darpariaeth atodol
69. Cadw a dinistrio dogfennau a anfonwyd at y swyddog cofrestru
70. Dinistrio ffurflenni cyfeiriad cartref gan y swyddog canlyniadau

RHAN 6

Marwolaeth Ymgeisydd

71. Diddymu pleidlais neu roi'r gorau iddi ar ôl i ymgeisydd farw

PART 4

Counting of Votes and Declaration of Result at Contested Elections

52. Overview of rules and interpretation
53. Attendance at proceedings under this Part
54. Preliminary and general duties where returning officer is co-ordinating returning officer
55. Separation of ballot papers etc. where returning officer is co-ordinating returning officer
56. Preliminary and general duties where returning officer is not the co-ordinating returning officer
57. Opening of containers etc. where returning officer is not the co-ordinating returning officer
58. Further provision about postal ballot papers
59. The count: general
60. The count: rejected ballot papers
61. Re-count
62. Equality of votes
63. Decision on ballot papers
64. Declaration of result

PART 5

Disposal of Documents

65. Sealing up of ballot papers at contested elections
66. Delivery of documents to registration officer at contested elections
67. Production etc. of documents
68. Orders for the production etc. of documents: supplemental provision
69. Retention and destruction of documents forwarded to registration officer
70. Destruction of home address forms by returning officer

PART 6

Death of Candidate

71. Countermand or abandonment of poll on death of a candidate

RHAN 1

Darpariaethau ynglŷn ag Amser

Amserlen

1.—(1) Rhaid i drafodion yr etholiad gael eu cynnal yn unol â'r amserlen a ganlyn.

Amserlen

<i>Trafodion</i>	<i>Amser</i>
Cyhoeddi hysbysiad etholiad	Dim hwyrach na'r pumed diwrnod ar hugain cyn diwrnod yr etholiad
Danfon papurau enwebu	Dim hwyrach na 4 p.m. ar y pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad
Danfon hysbysiadau tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl	Dim hwyrach na 4 p.m. ar y pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad
Cyhoeddi datganiad ynghylch y personau a enwebwyd	Dim hwyrach na 4 p.m. ar y deunawfed diwrnod cyn diwrnod yr etholiad
Hysbysiad o etholiad heb ornest Hysbysiad o bleidlais mewn etholiad lle ceir gornest	Dim hwyrach na'r chweched diwrnod cyn diwrnod yr etholiad
Pleidleisio	Rhwng 7 a.m. a 10 p.m. ar ddiwrnod yr etholiad

PART 1

Provisions as to Time

Timetable

1.—(1) The proceedings at the election must be conducted in accordance with the following timetable.

Timetable

<i>Proceedings</i>	<i>Time</i>
Publication of notice of election	Not later than the twenty-fifth day before the day of election
Delivery of nomination papers	Not later than 4 p.m. on the nineteenth day before the day of election
Delivery of notices of withdrawals of candidature	Not later than 4 p.m. on the nineteenth day before the day of election
Publication of statement as to persons nominated	Not later than 4 p.m. on the eighteenth day before the day of election
Notice of uncontested election Notice of poll in contested election	Not later than the sixth day before the day of election
Polling	Between the hours of 7 a.m. and 10 p.m. on the day of election

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys pan fo—

- (a) papur enwebu yn cael ei anfon yn electronig neu ei gyflwyno ar-lein yn unol â threfniadau a nodir yn yr hysbysiad etholiad (gweler rheol 3), neu
- (b) hysbysiad tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl o dan reol 12 yn cael ei anfon yn electronig.

(3) At ddiben penderfynu a yw'r papur neu'r hysbysiad wedi ei ddanfôn yn unol â'r amserlen ym mharagraff (1), mae'r papur neu'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei ddanfôn ar yr amser y mae ei ddanfôn yn cael ei gofnodi ar y system gyfrifiadurol a ddefnyddir gan y swyddog canlyniadau ar gyfer derbyn y papur neu'r hysbysiad.

(4) Yn y rheol hon, ystyr “diwrnod yr etholiad” yw'r diwrnod a bennwyd yn hysbysiad yr etholiad fel y diwrnod y câi pleidlais ei chynnal pe ceid gornest.

Cyfrif amser

2.—(1) Mae diwrnod eithriedig i'w ddiystyru wrth gyfrif unrhyw gyfnod a nodir yn ail golofn yr amserlen yn rheol 1.

(2) Ni chaniateir i drafodion o dan y rheolau hyn hyd at gau'r bleidlais gael eu cynnal ar ddiwrnod eithriedig.

(3) Nid yw'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau fwrw ymlaen â chyfrif pleidleisiau ar ddiwrnod eithriedig.

RHAN 2

Hysbysiad Etholiad, Enwebu a Dull Ethol

Hysbysiad Etholiad

Hysbysiad etholiad

3.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau gyhoeddi hysbysiad o'r etholiad.

(2) Rhaid i'r hysbysiad ddatgan—

- (a) nifer y cynghorwyr sydd i'w dychwelyd ar gyfer pob ardal etholiadol,
- (b) dyddiad y bleidlais os ceir gornest,
- (c) y man lle gellir cael ffurflenni papurau enwebu a pha bryd a gwybodaeth am sut y gellir cael ffurflenni papur enwebu ar-lein a pha bryd,
- (d) yr amser hwyraf ar gyfer danfon papurau enwebu, ac
- (e) y man lle gellir danfon papurau enwebu a'r amserau pan ganiateir eu danfon i'r man hwnnw.

(2) Paragraph (3) applies where—

- (a) a nomination paper is sent electronically or submitted online in accordance with arrangements set out in the notice of election (see rule 3), or
- (b) a notice of withdrawal of candidature under rule 12 is sent electronically.

(3) For the purpose of determining whether the paper or notice has been delivered in accordance with the timetable in paragraph (1), the paper or notice is to be treated as having been delivered at the time when its delivery is recorded on the computer system in use by the returning officer for receiving the paper or notice.

(4) In this rule, “the day of election” means the day specified in the notice of election as the day on which a poll would take place in the event of a contest.

Computation of time

2.—(1) An excluded day is to be disregarded in calculating any period set out in the second column of the timetable in rule 1.

(2) No proceedings under these rules up to the close of the poll may take place on an excluded day.

(3) The returning officer is not required to proceed with the counting of votes on an excluded day.

PART 2

Notice of Election, Nomination and Method of Election

Notice of Election

Notice of election

3.—(1) The returning officer must publish notice of the election.

(2) The notice must state—

- (a) the number of councillors to be returned for each electoral area,
- (b) the date of the poll in the event of a contest,
- (c) the place where, and the times at which, forms of nomination paper may be obtained and information about how and when forms of nomination paper may be obtained online,
- (d) the latest time for the delivery of nomination papers, and
- (e) the place where nomination papers may be delivered and the times at which they may be delivered to that place.

(3) Rhaid i'r hysbysiad ddatgan hefyd erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i geisiadau am bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, a cheisiadau a hysbysiadau eraill ynghylch pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, gyrraedd y swyddog cofrestru er mwyn bod yn effeithiol ar gyfer yr etholiad.

(4) Rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd gynnwys yn yr hysbysiad ddatganiad danfon electronig.

(5) Mae datganiad danfon electronig yn ddatganiad y caniateir i bapurau enwebu gael eu danfon—

- (a) drwy eu hanfon yn electronig i gyfeiriad ebost yn unol â threfniadau a nodir yn y datganiad,
- (b) drwy eu cyflwyno ar-lein yn unol â threfniadau a nodir yn y datganiad, neu
- (c) naill ai drwy eu hanfon yn electronig fel y crybwyllir yn is-baragraff (a) neu drwy eu cyflwyno ar-lein fel y crybwyllir yn is-baragraff (b).

Enwebu

Dyletswydd y swyddog canlyniadau i gyflenwi ffurflenni enwebu etc.

4.—(1) Yn y man ac ar yr amserau ar gyfer cael ffurflenni papurau enwebu a nodir yn hysbysiad yr etholiad, rhaid i'r swyddog canlyniadau—

- (a) cyflenwi cynifer o ffurflenni papurau enwebu i unrhyw berson ag y bydd y person yn gofyn amdanynt, a
- (b) os gwneir cais, paratoi papur enwebu i'w lofnodi.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau wneud trefniadau hefyd i sicrhau bod modd cael ffurflenni enwebu ar-lein yn unol â'r wybodaeth a roddir yn hysbysiad yr etholiad.

(3) Er hynny, nid oes angen i enwebiad gael ei wneud ar ffurflen a gyflenwir gan y swyddog canlyniadau neu a geir ar-lein.

Enwebu ymgeiswyr

5.—(1) Rhaid i ymgeisydd ei enwebu ei hun gan ddefnyddio papur enwebu yn y ffurf yn Atodiad 1 neu ffurf i'r un perwyl.

(2) Caniateir i'r papur enwebu gael ei ddanfoni naill ai—

- (a) yn y man a bennir gan y swyddog canlyniadau yn hysbysiad yr etholiad, neu
- (b) yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad danfon electronig.

(3) The notice must also state the date by which applications to vote by post or by proxy, and other applications and notices about postal or proxy voting, must reach the registration officer in order to be effective for the election.

(4) The returning officer must also include in the notice an electronic delivery statement.

(5) An electronic delivery statement is a statement that nomination papers may be delivered—

- (a) by being sent electronically to an email address in accordance with arrangements set out in the statement,
- (b) by submission online in accordance with arrangements set out in the statement, or
- (c) either by being sent electronically as mentioned in sub-paragraph (a) or by submission online as mentioned in sub-paragraph (b).

Nomination

Duty of returning officer to supply forms of nomination etc.

4.—(1) At the place and times for obtaining forms of nomination paper set out in the notice of election, the returning officer must—

- (a) supply any person with as many forms of nomination paper as the person may require, and
- (b) on request, prepare a nomination paper for signature.

(2) The returning officer must also make arrangements to ensure that forms of nomination paper may be obtained online in accordance with the information given in the notice of election.

(3) It is not, however, necessary for a nomination to be made on a form supplied by the returning officer or obtained online.

Nomination of candidates

5.—(1) A candidate must nominate themselves using a nomination paper in the form in Appendix 1 or a form to the like effect.

(2) The nomination paper may be delivered either—

- (a) at the place specified by the returning officer in the notice of election, or
- (b) in accordance with the arrangements set out in the electronic delivery statement.

(3) Rhaid i'r papur enwebu—

- (a) datgan enwau llawn yr ymgeisydd, gan osod y cyfenwau'n gyntaf,
- (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno, cynnwys disgrifiad sy'n cydymffurfio â rheol 6,
- (c) cynnwys datganiad o aelodaeth plaid sy'n cydymffurfio â rheol 8, a
- (d) cynnwys y datganiadau a nodir yn y ffurf yn Atodiad 1, wedi eu llofnodi gan yr ymgeisydd.

(4) Os yw ymgeisydd yn defnyddio'n gyffredin enwau blaen neu gyfenwau sy'n wahanol mewn unrhyw ffordd i'r enwau blaen neu'r cyfenwau a ddatgenir yn unol â pharagraff (3)(a) (gan gynnwys pan y gwahaniaeth yw defnyddio'r enwau blaen neu'r cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin mewn trefn wahanol, cynnwys rhai o'r enwau yn unig neu gynnwys enwau ychwanegol), caniateir i'r papur enwebu hefyd ddatgan yr enwau blaen neu'r cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin.

(5) Rhaid i'r papur enwebu gael ei lofnodi gan yr ymgeisydd ym mhresenoldeb tyst sy'n gorfod tystio i'r llofnod.

(6) I gyd-fynd â'r papur enwebu rhaid cael ffurflen ("ffurflen cyfeiriad cartref") sy'n cydymffurfio â rheol 9.

Papurau enwebu: disgrifiadau

6.—(1) Mae'r rheol hon yn nodi gofynion ynghylch y disgrifiadau y caniateir eu cynnwys mewn papur enwebu fel y crybwyllir yn rheol 5(3)(b).

(2) Caiff y disgrifiad fod naill ai—

- (a) yn ddisgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â phlaidd wleidyddol gofrestredig neu â dwy neu ragor o bleidiau gwleidyddol cofrestredig ac a ganiateir o dan baragraff (3) neu (yn ôl y digwydd) paragraff (4), neu
- (b) y gair "Independent" neu'r gair "Annibynnol", neu'r ddau air hynny.

(3) Caniateir disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â phlaidd wleidyddol gofrestredig—

- (a) pan fo'r blaidd yn blaidd gymwys,
- (b) pan fo'r disgrifiad naill ai—
 - (i) yn enw cofrestredig y blaidd neu, os yw'r blaidd wedi cofrestru enw Cymraeg ac enw Saesneg, y naill neu'r llall o'r enwau hynny neu'r ddau, neu

(3) The nomination paper must—

- (a) state the candidate's full names, with the surnames placed first,
- (b) if the candidate wishes, include a description that complies with rule 6,
- (c) include a statement of party membership that complies with rule 8, and
- (d) include the declarations set out in the form in Appendix 1, signed by the candidate.

(4) If a candidate commonly uses forenames or surnames that are different in any respect from the forenames or surnames stated in accordance with paragraph (3)(a) (including where the difference is that the commonly used forenames or surnames are in a different order, include only some of the names or include additional names), the nomination paper may also state the commonly used forenames or surnames.

(5) The nomination paper must be signed by the candidate in the presence of a witness who must attest the signature.

(6) The nomination paper must be accompanied by a form (a "home address form") that complies with rule 9.

Nomination papers: descriptions

6.—(1) This rule sets out requirements about the descriptions that may be included in a nomination paper as mentioned in rule 5(3)(b).

(2) The description may be either—

- (a) a description that is likely to lead electors to associate the candidate with a registered political party or with two or more registered political parties and is permitted under paragraph (3) or (as the case may be) paragraph (4), or
- (b) the word "Independent" or the word "Annibynnol", or both those words.

(3) A description that is likely to lead electors to associate the candidate with a registered political party is permitted where—

- (a) the party is a qualifying party,
- (b) the description is either—
 - (i) the party's registered name or, if the party has registered a name in English and a name in Welsh, either or both of those names, or

- (ii) yn ddisgrifiad cofrestredig i'r blaidd neu, yn achos disgrifiad a gofrestrwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg, y naill neu'r llall o'r disgrifiadau hynny neu'r ddau, ac
 - (c) pan fo defnydd y disgrifiad gan yr ymgeisydd wedi ei awdurdodi gan dystysgrif a ddyroddwyd gan neu ar ran swyddog enwebu cofrestredig y blaidd ac a ddaeth i law'r swyddog canlyniadau cyn yr amser olaf ar gyfer danfon papurau enwebu.
- (4) Caniateir disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â dwy neu ragor o bleidiau gwleidyddol cofrestredig—
- (a) pan fo pob un o'r pleidiau'n bleidiau cymwys,
 - (b) pan fo'r disgrifiad yn cynnwys enw cofrestredig pob un o'r pleidiau a ddangosir yn y naill neu'r llall o'r fersiynau a ddisgrifir ym mharagraff (5) neu'r ddau, ac
 - (c) pan fo defnydd y disgrifiad gan yr ymgeisydd wedi ei awdurdodi gan dystysgrif a ddyroddwyd gan neu ar ran swyddog enwebu cofrestredig pob un o'r pleidiau ac a ddaeth i law'r swyddog canlyniadau cyn yr amser olaf ar gyfer danfon papurau enwebu.
- (5) Y fersiynau y cyfeirir atynt ym mharagraff (4)(b) yw—
- (a) fersiwn sy'n dangos (mewn unrhyw drefn) enwau cofrestredig y pleidiau, ynghyd ag ychwanegu unrhyw gysyllteiriau ac atalnodau priodol yn Saesneg (“y fersiwn Saesneg”);
 - (b) fersiwn sy'n dangos (mewn unrhyw drefn) enwau cofrestredig y pleidiau, ynghyd ag ychwanegu unrhyw gysyllteiriau ac atalnodau priodol yn Gymraeg (“y fersiwn Gymraeg”).
- (6) Pan fo unrhyw un neu ragor o'r pleidiau wedi cofrestru enw Saesneg ac enw Cymraeg—
- (a) caniateir i enw cofrestredig y blaidd yn Saesneg (ac nid enw cofrestredig y blaidd yn Gymraeg) gael ei ddefnyddio yn y fersiwn Saesneg, a
 - (b) caniateir i enw cofrestredig y blaidd yn Gymraeg (ac nid enw cofrestredig y blaidd yn Saesneg) gael ei ddefnyddio yn y fersiwn Gymraeg.
- (7) Gweler hefyd reol 7 (sy'n nodi pryd a sut y caniateir ychwanegu'r gair “Wales”, “Welsh”, “Cymru” neu “Cymreig” at ddisgrifiadau a ganiateir o dan baragraff (3) neu (4)).
- (8) Mae person yn euog o arfer lwgr os yw'r person hwnnw'n honni'n dwyllodrus ei fod wedi ei awdurdodi i ddyroddi dystysgrif o dan baragraff (3)(c) neu (4)(c) ar ran swyddog enwebu plaid wleidyddol gofrestrredig.

- (ii) a registered description of the party or, in the case of a description that has been registered in both English and Welsh, either or both of those descriptions, and
 - (c) the use of the description by the candidate is authorised by a certificate issued by or on behalf of the registered nominating officer of the party and received by the returning officer before the last time for the delivery of nomination papers.
- (4) A description that is likely to lead electors to associate the candidate with two or more registered political parties is permitted where—
- (a) the parties are each qualifying parties,
 - (b) the description consists of the registered name of each of the parties shown in either or both of the versions described in paragraph (5), and
 - (c) the use of the description by the candidate is authorised by a certificate issued by or on behalf of the registered nominating officer of each of the parties and received by the returning officer before the last time for the delivery of nomination papers.
- (5) The versions referred to in paragraph (4)(b) are—
- (a) a version showing (in any order) the parties' registered names, together with the addition of any appropriate conjunctions and punctuation in English (“the English version”);
 - (b) a version showing (in any order) the parties' registered names, together with the addition of any appropriate conjunctions and punctuation in Welsh (“the Welsh version”).
- (6) Where any of the parties has registered a name in English and a name in Welsh—
- (a) the party's registered name in English (and not the party's registered name in Welsh) may be used in the English version, and
 - (b) the party's registered name in Welsh (and not the party's registered name in English) may be used in the Welsh version.
- (7) See also rule 7 (which sets out when and how the word “Wales”, “Welsh”, “Cymru” or “Cymreig” may be added to descriptions permitted under paragraph (3) or (4)).
- (8) A person is guilty of a corrupt practice if that person fraudulently purports to be authorised to issue a certificate under paragraph (3)(c) or (4)(c) on behalf of a registered political party's nominating officer.

(9) Yn y rheol hon—

- (a) mae cyfeiriadau at enw cofrestredig plaid wleidyddol gofrestrdig yn gyfeiriadau at enw'r plaid a gofrestrwyd o dan adran 28 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000;
- (b) mae cyfeiriadau at ddisgrifiad cofrestredig plaid wleidyddol gofrestrdig yn gyfeiriadau at ddisgrifiad o'r plaid a gofrestrwyd o dan adran 28A o'r Ddeddf honno.

(10) At ddibenion cymhwyso'r rheol hon mewn perthynas ag etholiad—

- (a) ystyr “plaid wleidyddol gofrestrdig” yw plaid sydd wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ar y diwrnod sydd ddau ddiwrnod cyn y diwrnod olaf ar gyfer danfon papurau enwebu yn yr etholiad (gan ddiystyru unrhyw ddiwrnod eithriedig);
- (b) mae plaid wleidyddol gofrestrdig yn blaid gymwys os yw'r plaid, ar y diwrnod hwnnw, wedi ei chofrestru mewn cysylltiad â Chymru yng nghofrestr Prydain Fawr a gynhelir o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno.

Ychwanegu “Wales”, “Welsh”, “Cymru” neu “Cymreig”

7.—(1) Mae'r rheol hon yn nodi pryd a sut y caiff ymgeisydd wneud ychwanegiadau mewn papur enwebu at ddisgrifiad y caniateir i'r ymgeisydd ei ddefnyddio o dan reol 6(3) neu (4).

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys—

- (a) pan fo enw cofrestredig yn ddisgrifiad y caniateir i'r ymgeisydd ei ddefnyddio o dan reol 6(3) neu'n ffurfio rhan o'r disgrifiad hwnnw, a
- (b) pan nad yw'r enw cofrestredig yn cynnwys yr un o'r geiriau “Wales”, “Welsh”, “Cymru” a “Cymreig”.

(3) Caiff yr ymgeisydd wneud un o'r canlynol—

- (a) ychwanegu'r gair “Wales” o flaen yr enw;
- (b) ychwanegu'r gair “Welsh” o flaen yr enw;
- (c) ychwanegu'r gair “Cymru” ar ôl yr enw;
- (d) ychwanegu'r gair “Cymreig” ar ôl yr enw.

(4) Mae paragraffau (5) a (6) yn gymwys—

- (a) pan fo enw cofrestredig yn ffurfio rhan o ddisgrifiad y caniateir i'r ymgeisydd ei ddefnyddio o dan reol 6(4), a
- (b) pan nad yw'r enw cofrestredig yn cynnwys yr un o'r geiriau “Wales”, “Welsh”, “Cymru” a “Cymreig”.

(9) In this rule—

- (a) references to a registered name of a registered political party are to a name of the party registered under section 28 of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000;
- (b) references to a registered description of a registered political party are to a description of the party registered under section 28A of that Act.

(10) For the purposes of the application of this rule in relation to an election—

- (a) “registered political party” means a party that is registered under Part 2 of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 on the day that is two days before the last day for the delivery of nomination papers at the election (disregarding any excluded day);
- (b) a registered political party is a qualifying party if, on that day, the party is registered in respect of Wales in the Great Britain register maintained under Part 2 of that Act.

Addition of “Wales”, “Welsh”, “Cymru” or “Cymreig”

7.—(1) This rule sets out when and how a candidate may make additions in a nomination paper to a description that the candidate is permitted to use under rule 6(3) or (4).

(2) Paragraph (3) applies where—

- (a) a registered name is or forms part of a description that a candidate is permitted to use under rule 6(3), and
- (b) the registered name includes none of the words “Wales”, “Welsh”, “Cymru” and “Cymreig”.

(3) The candidate may do one of the following—

- (a) add the word “Wales” before the name;
- (b) add the word “Welsh” before the name;
- (c) add the word “Cymru” after the name;
- (d) add the word “Cymreig” after the name.

(4) Paragraphs (5) and (6) apply where—

- (a) a registered name forms part of a description that a candidate is permitted to use under rule 6(4), and
- (b) the registered name includes none of the words “Wales”, “Welsh”, “Cymru” and “Cymreig”.

(5) Os yw'r enw cofrestredig yn y fersiwn Saesneg o'r disgrifiad (p'un a yw hefyd yn y fersiwn Gymraeg ai peidio), caiff yr ymgeisydd ychwanegu naill ai'r gair "Wales" neu'r gair "Welsh" o flaen yr enw yn y fersiwn honno.

(6) Os yw'r enw cofrestredig yn y fersiwn Gymraeg o'r disgrifiad (p'un a yw hefyd yn y fersiwn Saesneg ai peidio), caiff yr ymgeisydd ychwanegu naill ai'r gair "Cymru" neu'r gair "Cymreig" ar ôl yr enw yn y fersiwn honno.

(7) Mae paragraff (8) yn gymwys—

- (a) pan fo disgrifiad cofrestredig yn ddisgrifiad y caniateir i'r ymgeisydd ei ddefnyddio o dan reol 6(3) neu'n ffurfio rhan o'r disgrifiad hwnnw, a
- (b) pan nad yw'r disgrifiad cofrestredig yn cynnwys yr un o'r geiriau "Wales", "Welsh", "Cymru" a "Cymreig".

(8) Caiff yr ymgeisydd wneud un o'r canlynol—

- (a) ychwanegu'r gair "Wales" ar ddechrau'r disgrifiad cofrestredig;
- (b) ychwanegu'r gair "Welsh" ar ddechrau'r disgrifiad cofrestredig;
- (c) ychwanegu'r gair "Cymru" ar ddiwedd y disgrifiad cofrestredig;
- (d) ychwanegu'r gair "Cymreig" ar ddiwedd y disgrifiad cofrestredig.

(9) At ddibenion paragraffau (3)(a) a (b) a (5), pan fo'r gair "the" (neu unrhyw air mewn iaith arall sydd â'r un swyddogaeth â'r gair "the") yn ymddangos ar ddechrau enw cofrestredig, rhaid ei anwybyddu.

(10) Pan fo ymgeisydd yn ychwanegu unrhyw beth at ddisgrifiad mewn papur enwebu yn unol â'r rheol hon, mae cyfeiriadau yn y darpariaethau a ganlyn yn yr Atodlen hon at y disgrifiad yn gyfeiriadau at y disgrifiad gyda'r ychwanegiad.

Papurau enwebu: datganiadau aelodaeth plaid

8.—(1) Mae'r rheol hon yn nodi'r gofynion ynglŷn â datganiadau aelodaeth plaid y mae'n rhaid eu cynnwys mewn papurau enwebu fel y crybwyllir yn rheol 5(3)(c).

(2) Rhaid i'r datganiad ddatgan a yw'r ymgeisydd wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestrdig unrhyw bryd yn ystod y cyfnod perthnasol.

(3) Os yw'r ymgeisydd wedi bod yn aelod o un neu ragor o bleidiau gwleidyddol cofrestredig unrhyw bryd yn ystod y cyfnod perthnasol, rhaid i'r datganiad hefyd gynnwys yr wybodaeth a ganlyn mewn perthynas â'r blaid neu (yn ôl y digwydd) pob un o'r pleidiau y bu'r ymgeisydd yn aelod ohonynt—

(5) If the registered name is in the English version of the description (whether or not it is also in the Welsh version), the candidate may add either the word "Wales" or the word "Welsh" before the name in that version.

(6) If the registered name is in the Welsh version of the description (whether or not it is also in the English version), the candidate may add either the word "Cymru" or the word "Cymreig" after the name in that version.

(7) Paragraph (8) applies where—

- (a) a registered description is or forms part of a description that a candidate is permitted to use under rule 6(3), and
- (b) the registered description includes none of the words "Wales", "Welsh", "Cymru" and "Cymreig".

(8) The candidate may do one of the following—

- (a) add the word "Wales" at the beginning of the registered description;
- (b) add the word "Welsh" at the beginning of the registered description;
- (c) add the word "Cymru" at the end of the registered description;
- (d) add the word "Cymreig" at the end of the registered description.

(9) For the purposes of paragraphs (3)(a) and (b) and (5), where the word "the" (or any word in another language that has the same function as the word "the") appears at the beginning of a registered name, it must be ignored.

(10) Where a candidate adds anything to a description in a nomination paper in accordance with this rule, references in the following provisions of this Schedule to the description are references to the description with the addition.

Nomination papers: statements of party membership

8.—(1) This rule sets out the requirements for statements of party membership that must be included in nomination papers as mentioned in rule 5(3)(c).

(2) The statement must state whether the candidate has been a member of any registered political party at any time during the relevant period.

(3) If the candidate has been a member of one or more registered political parties at any time during the relevant period, the statement must also include the following information in relation to the party or (as the case may be) each of the parties of which the candidate has been a member—

- (a) enw cofrestredig y blaid neu, pan fo gan y blaid ddau enw cofrestredig, enwau cofrestredig y blaid, a
 - (b) y dyddiadau yn ystod y cyfnod perthnasol pan fu'r ymgeisydd yn aelod o'r blaid.
- (4) Nid yw paragraff (3) yn gymwys—
- (a) pan fo'r papur enwebu'n cynnwys disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â phlaidd wleidyddol gofrestredig neu â dwy neu ragor o bleidiau gwleidyddol cofrestredig ac a ganiateir o dan reol 6(3) neu (yn ôl y digwydd) rheol 6(4), a
 - (b) pan nad yw'r ymgeisydd wedi bod yn aelod o blaid wleidyddol gofrestredig unrhyw bryd yn ystod y cyfnod perthnasol ac eithrio'r blaid neu'r pleidiau y mae'r disgrifiad hwnnw'n ymwneud â hi neu â hwy.
- (5) Mae ymgeisydd sy'n methu'n fwriadol â chynnwys yn y papur enwebu ddatganiad o aelodaeth plaid sy'n cydymffurfio â gofynion y rheol hon yn euog o arfer lwgr.
- (6) Yn y rheol hon—
- (a) ystyr “plaid wleidyddol gofrestredig” yw plaid sydd wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 unrhyw bryd yn ystod y cyfnod perthnasol pan fo'r ymgeisydd yn aelod;
 - (b) mae cyfeiriadau at enw cofrestredig plaid wleidyddol gofrestredig yn gyfeiriadau at enw'r blaid a gofrestrwyd o dan adran 28 o'r Ddeddf honno;
 - (c) ystyr “y cyfnod perthnasol” yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben â'r diwrnod y cyhoeddir hysbysiad yr etholiad.

Ffurflenni cyfeiriad cartref

- 9.—**(1) Mae'r rheol hon yn nodi'r gofynion ynglŷn â ffurflenni cyfeiriad cartref y mae'n rhaid iddynt gyd-fynd â phapurau enwebu o dan reol 5(6).
- (2) Rhaid i ffurflen cyfeiriad cartref ddatgan—
- (a) enwau llawn yr ymgeisydd,
 - (b) cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn llawn,
 - (c) cyfeiriad neu gyfeiriadau cymwys yr ymgeisydd, a
 - (d) y cymhwyster y mae pob cyfeiriad cymwys yn ymwneud ag ef.
- (3) Mae cyfeiriad neu gyfeiriadau cymwys yr ymgeisydd, a'r cymhwyster y mae pob cyfeiriad cymwys yn ymwneud ag ef, yn dibynnu ar ba un neu ragor o opsiynau (a) i (d) ar y papur enwebu sydd wedi eu dewis gan yr ymgeisydd, fel y'u nodir yn y tabl a ganlyn.

- (a) the party's registered name or, where the party has two registered names, the party's registered names, and
 - (b) the dates during the relevant period when the candidate has been a member of the party.
- (4) Paragraph (3) does not apply where—
- (a) the nomination paper includes a description that is likely to lead electors to associate the candidate with a registered political party or with two or more registered political parties and is permitted under rule 6(3) or (as the case may be) rule 6(4), and
 - (b) the candidate has not at any time during the relevant period been a member of a registered political party other than the party or parties to which that description relates.
- (5) A candidate who knowingly fails to include in the nomination paper a statement of party membership that complies with the requirements of this rule is guilty of a corrupt practice.
- (6) In this rule—
- (a) “registered political party” means a party that is registered under Part 2 of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 at any time during the relevant period when the candidate is a member;
 - (b) references to a registered name of a registered political party are to a name of the party registered under section 28 of that Act;
 - (c) “the relevant period” means the period of 12 months ending with the day on which the notice of election is published.

Home address forms

- 9.—**(1) This rule sets out the requirements for home address forms that must accompany nomination papers under rule 5(6).
- (2) A home address form must state—
- (a) the candidate's full names,
 - (b) the candidate's home address in full,
 - (c) the candidate's qualifying address or addresses, and
 - (d) the qualification to which each qualifying address relates.
- (3) The candidate's qualifying address or addresses, and the qualification to which each qualifying address relates, depend on which one or more of options (a) to (d) on the nomination paper have been selected by the candidate, as set out in the following table.

<i>Yr opsiwn a ddewisir ar y papur enwebu</i>	<i>Cyfeiriad cymwys yr ymgeisydd</i>	<i>Y cymhwyster y mae cyfeiriad cymwys yr ymgeisydd yn ymwneud ag ef</i>
Opsiwn (a)	Y cyfeiriad llawn y mae'r ymgeisydd wedi ei gofrestru fel etholwr llywodraeth leol mewn cysylltiad ag ef	Y cymhwyster a ddisgrifir yn opsiwn (a) (cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal y cyngor cymuned)
Opsiwn (b)	Disgrifiad a chyfeiriad y tir neu'r fangre y mae'r ymgeisydd wedi eu meddiannu fel perchennog neu denant (neu, os yw'r ymgeisydd yn dibynnu ar fwy nag un meddiant i fodloni'r cymhwyster, y disgrifiadau a'r cyfeiriadau)	Y cymhwyster a ddisgrifir yn opsiwn (b) (meddiannu tir neu fangre arall yn ardal y cyngor cymuned fel perchennog neu denant)
Opsiwn (c)	Cyfeiriad gweithle'r ymgeisydd (neu, os yw'r ymgeisydd yn dibynnu ar fwy nag un gweithle i fodloni'r cymhwyster, y cyfeiriadau)	Y cymhwyster a ddisgrifir yn opsiwn (c) (prif neu unig weithle yn ardal y cyngor cymuned)

<i>Option selected on nomination paper</i>	<i>Candidate's qualifying address</i>	<i>Qualification to which candidate's qualifying address relates</i>
Option (a)	The address in full in respect of which the candidate is registered as a local government elector	The qualification described in option (a) (registration as a local government elector for the area of the community council)
Option (b)	A description and the address of the land or premises that the candidate has occupied as owner or tenant (or, if the candidate is relying on more than one occupation to meet the qualification, the descriptions and addresses)	The qualification described in option (b) (occupation as owner or tenant of land or other premises in the area of the community council)
Option (c)	The address of the candidate's place of work (or, if the candidate is relying on more than one place of work to meet the qualification, the addresses)	The qualification described in option (c) (principal or only place of work in the area of the community council)

Opsiwn (d)	Y cyfeiriad neu'r cyfeiriadau llawn lle mae'r ymgeisydd wedi preswyllo	Y cymhwyster a ddisgrifir yn opsiwn (d) (preswyllo yn y gymuned neu o fewn 3 milltir iddi)
------------	--	--

Option (d)	The address or addresses in full where the candidate has resided	The qualification described in option (d) (residence in the community or within 3 miles of it)
------------	--	--

(4) Os yw papur enwebu'r ymgeisydd yn cynnwys enwau blaen neu gyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin, rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref hefyd ddatgan yr enwau a ddefnyddir yn gyffredin.

(5) Rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref ddatgan hefyd—

- (a) enwau llawn y person sy'n dyst i lofnod yr ymgeisydd ar y papur enwebu, a
- (b) cyfeiriad cartref y person hwnnw yn llawn.

(6) Caiff y ffurflen cyfeiriad cartref gynnwys datganiad a wnaed ac a lofnodwyd gan yr ymgeisydd na chaniateir cyhoeddi cyfeiriad cartref yr ymgeisydd.

(7) Os yw'r ffurflen cyfeiriad cartref yn cynnwys datganiad o'r fath, mae'n rhaid iddi—

- (a) pan fo cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn y Deyrnas Unedig, ddatgan enw'r ardal berthnasol (gweler paragraff (8));
- (b) pan fo cyfeiriad cartref yr ymgeisydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ddatgan y wlad y mae wedi ei leoli ynddi.

(8) Yn y rheol hon, ystyr "ardal berthnasol" yw—

- (a) pan fo cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yng Nghymru—
 - (i) os yw'r cyfeiriad mewn sir, y sir honno;
 - (ii) os yw'r cyfeiriad mewn bwrdeistref sirol, y fwrdeistref sirol honno;
- (b) pan fo cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn Lloegr—
 - (i) os yw'r cyfeiriad mewn dosbarth y ceir cyngor dosbarth ar ei gyfer, y dosbarth hwnnw;
 - (ii) os yw'r cyfeiriad mewn sir nad oes dosbarthau â chynghorau ynddi, y sir honno;
 - (iii) os yw'r cyfeiriad yn un o fwrdeistrefi Llundain, y fwrdeistref honno yn Llundain;
 - (iv) os yw'r cyfeiriad yn Ninas Llundain (gan gynnwys y Temlau Mewnol a Chanol), Dinas Llundain;

(4) If the candidate's nomination paper includes commonly used forenames or surnames, the home address form must also state the commonly used names.

(5) The home address form must also state—

- (a) the full names of the person who witnesses the candidate's signature on the nomination paper, and
- (b) that person's home address in full.

(6) The home address form may contain a statement made and signed by the candidate that the candidate's home address must not be made public.

(7) If the home address form contains such a statement, it must—

- (a) where the candidate's home address is in the United Kingdom, state the name of the relevant area (see paragraph (8));
- (b) where the candidate's home address is outside the United Kingdom, state the country in which it is situated.

(8) In this rule, "relevant area" means—

- (a) where the candidate's home address is in Wales—
 - (i) if the address is within a county, that county;
 - (ii) if the address is within a county borough, that county borough;
- (b) where the candidate's home address is in England—
 - (i) if the address is within a district for which there is a district council, that district;
 - (ii) if the address is within a county in which there are no districts with councils, that county;
 - (iii) if the address is within a London borough, that London borough;
 - (iv) if the address is within the City of London (including the Inner and Middle Temples), the City of London;

- (v) os yw'r cyfeiriad yn Ynysoedd Sili, Ynysoedd Sili;
- (c) pan fo cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn yr Alban, yr ardal llywodraeth leol y mae'r cyfeiriad wedi ei leoli ynddi;
- (d) pan fo cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yng Ngogledd Iwerddon, y dosbarth llywodraeth leol y mae wedi ei leoli ynddo.

(v) if the address is within the Isles of Scilly, the Isles of Scilly;

- (c) where the candidate's home address is in Scotland, the local government area in which the address is situated;
- (d) where the candidate's home address is in Northern Ireland, the local government district in which it is situated.

Penderfyniadau ynglŷn â dilysrwydd papurau enwebu

10.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan ddanfonir papur enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref sy'n cydfynd ag ef yn unol â'r rheolau hyn.

(2) Mae'r ymgeisydd yn dal wedi ei enwebu oni bai a hyd nes y bydd un o'r digwyddiadau a ganlyn yn digwydd—

- (a) bod y swyddog canlyniadau'n penderfynu bod y papur enwebu'n annilys;
- (b) bod y swyddog canlyniadau wedi ei fodloni bod yr ymgeisydd wedi marw;
- (c) bod yr ymgeisydd yn tynnu'n ôl.

(3) Mae gan y swyddog canlyniadau hawl i ddyfarnu bod papur enwebu'n annilys ar un o'r seiliau a ganlyn yn unig—

- (a) nad yw manylion yr ymgeisydd yn unol â gofynion y gyfraith;
- (b) nad yw ffurflen cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn cydymffurfio â rheol 9(2) i (6);
- (c) pan fo ffurflen cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn cynnwys datganiad na chaniateir cyhoeddi'r cyfeiriad cartref, nad yw'r ffurflen yn cydymffurfio â rheol 9(7);
- (d) nad yw'r papur enwebu wedi ei lofnodi gan yr ymgeisydd, neu nad yw llofnod yr ymgeisydd wedi ei ardystio, yn unol â gofynion rheol 5(5).

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid i'r swyddog canlyniadau, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i bob papur enwebu a ffurflen cyfeiriad cartref gael eu danfon, eu harchwilio a phenderfynu a yw'r ymgeisydd wedi ei enwebu'n ddilys.

(5) Os oes disgrifiad mewn papur enwebu wedi ei gynnwys ym marn y swyddog canlyniadau yn groes i reol 6(3) neu (4) neu 7, rhaid i'r swyddog canlyniadau roi penderfyniad nad yw manylion yr ymgeisydd yn unol â gofynion y gyfraith—

- (a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r papur enwebu gael ei ddanfon, a

Decisions as to validity of nomination papers

10.—(1) This rule applies where a nomination paper and the accompanying home address form are delivered in accordance with these rules.

(2) The candidate stands nominated unless and until one of the following events occurs—

- (a) the returning officer decides that the nomination paper is invalid;
- (b) the returning officer is satisfied that the candidate has died.
- (c) the candidate withdraws.

(3) The returning officer is entitled to hold a nomination paper invalid only on one of the following grounds—

- (a) that the particulars of the candidate are not as required by law;
- (b) that the candidate's home address form does not comply with rule 9(2) to (6);
- (c) where the candidate's home address form contains a statement that the home address must not be made public, that the form does not comply with rule 9(7);
- (d) that the nomination paper is not signed by the candidate, or that the candidate's signature has not been attested, as required by rule 5(5).

(4) Subject to paragraph (5), the returning officer must, as soon as reasonably practicable after each nomination paper and home address form have been delivered, examine them and decide whether the candidate has been validly nominated.

(5) If in the opinion of the returning officer a description in a nomination paper has been included in breach of rule 6(3) or (4) or 7, the returning officer must give a decision that the candidate's particulars are not as required by law—

- (a) as soon as reasonably practicable after the delivery of the nomination paper, and

(b) beth bynnag, cyn diwedd y cyfnod o 24 awr sy'n dechrau â diwedd y cyfnod ar gyfer danfon papurau enwebu.

(6) Pan fo'r swyddog canlyniadau'n penderfynu bod papur enwebu'n annilys, rhaid i'r swyddog canlyniadau arnodi ar y papur y ffaith bod y penderfyniad wedi ei wneud a'r rhesymau drosto a llofnodi'r arnodiad.

(7) Rhaid i'r swyddog canlyniadau roi hysbysiad i bob ymgeisydd yn datgan penderfyniad y swyddog canlyniadau a yw papur enwebu'r ymgeisydd yn ddilys ynteu'n annilys.

(8) Mae penderfyniad y swyddog canlyniadau bod papur enwebu yn ddilys yn derfynol ac ni chaniateir ei amau mewn unrhyw achos.

(9) Ac eithrio fel y darperir gan baragraff (8), nid oes dim yn y rheol hon yn atal dilysrwydd enwebiad rhag cael ei amau ar ddeiseb etholiad.

Enwebu mewn mwy nag un ardal etholiadol

11.—(1) Rhaid i ymgeisydd sydd wedi ei enwebu'n ddilys ar gyfer mwy nag un ardal etholiadol yn yr un gymuned dynnu'n ôl o ymgeisyddiaeth yn yr holl ardaloedd etholiadol hynny ond un.

(2) Mae ymgeisydd nad yw'n tynnu'n ôl yn unol â gofynion paragraff (1) i'w drin fel pe bai wedi tynnu'n ôl o ymgeisyddiaeth yn yr holl ardaloedd etholiadol lle cafodd yr ymgeisydd ei enwebu'n ddilys.

Ymgeiswyr yn tynnu'n ôl

12.—(1) Caiff ymgeisydd dynnu'n ôl o ymgeisyddiaeth drwy roi hysbysiad tynnu'n ôl i'r swyddog canlyniadau.

(2) Rhaid i'r hysbysiad tynnu'n ôl gael ei lofnodi gan yr ymgeisydd ym mhresenoldeb tyst sy'n gorfod tystio i lofnod yr ymgeisydd.

Cyhoeddi datganiad o'r personau a enwebwyd

13.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau baratoi a chyhoeddi datganiad ("datganiad o'r personau a enwebwyd") yn dangos—

- (a) y personau a enwebwyd ac sy'n dal wedi eu henwebu, a
- (b) unrhyw bersonau eraill a enwebwyd ond nad ydynt yn dal wedi eu henwebu mwyach, gyda'r rheswm nad ydynt yn dal wedi eu henwebu mwyach.

(2) Rhaid i'r datganiad ddangos—

- (a) enwau a disgrifiadau (os oes rhai) y personau a enwebwyd, fel y'u rhoddwyd yn eu papurau enwebu,

(b) in any event, before the end of the period of 24 hours beginning with the close of the period for delivery of nomination papers.

(6) Where the returning officer decides that a nomination paper is invalid, the returning officer must endorse on the paper the fact of the decision and the reasons for it and sign the endorsement.

(7) The returning officer must give a notice to each candidate stating the returning officer's decision as to whether the candidate's nomination paper is valid or invalid.

(8) The returning officer's decision that a nomination paper is valid is final and may not be questioned in any proceedings.

(9) Except as provided by paragraph (8), nothing in this rule prevents the validity of a nomination being questioned on an election petition.

Nomination in more than one electoral area

11.—(1) A candidate who is validly nominated for more than one electoral area of the same community must withdraw from candidature in all those electoral areas except one.

(2) A candidate who does not withdraw as required by paragraph (1) is to be treated as having withdrawn from candidature in all the electoral areas in which the candidate was validly nominated.

Withdrawal of candidates

12.—(1) A candidate may withdraw from candidature by giving a notice of withdrawal to the returning officer.

(2) The notice of withdrawal must be signed by the candidate in the presence of a witness who must attest the candidate's signature.

Publication of statement of persons nominated

13.—(1) The returning officer must prepare and publish a statement (a "statement of persons nominated") showing—

- (a) the persons who have been and stand nominated, and
- (b) any other persons who have been nominated but no longer stand nominated, with the reason why they no longer stand nominated.

(2) The statement must show—

- (a) the names and descriptions (if any) of the persons nominated, as given in their nomination papers,

- (b) yr wybodaeth am eu cyfeiriad cartref (gweler paragraff (3)), ac
- (c) yr wybodaeth a gynhwyswyd yn eu datganiadau o aelodaeth plaid, fel y'i rhoddwyd yn eu papurau enwebu.

(3) Yn y rheolau hyn, mae cyfeiriadau at yr wybodaeth am gyfeiriad cartref person a enwebwyd yn gyfeiriadau at yr wybodaeth a ganlyn fel y'i rhoddwyd yn y ffurflen cyfeiriad cartref sy'n cyd-fynd â'r papur enwebu—

- (a) pan fo'r ffurflen cyfeiriad cartref yn cynnwys datganiad na chaniateir cyhoeddi'r cyfeiriad cartref, yr wybodaeth a roddwyd yn unol â rheol 9(7);
- (b) pan nad yw'r ffurflen cyfeiriad cartref yn cynnwys datganiad o'r fath, cyfeiriad y person a enwebwyd.

(4) Rhaid i'r datganiad ddangos y personau sy'n dal wedi eu henwebu yn nhrefn yr wyddor yn ôl eu cyfenwau, ac os oes gan ddau neu ragor ohonynt yr un cyfenwau, rhaid i'r datganiad ddangos y personau hynny yn nhrefn yr wyddor yn ôl eu henwau eraill.

(5) Mae rheol 14 (defnyddio enwau a ddefnyddir yn gyffredin) a rheol 15 (enwau sydd yr un fath neu'n debyg) yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch cynnwys y datganiad o'r personau a enwebwyd.

Defnyddio enwau a ddefnyddir yn gyffredin yn y datganiad o'r personau a enwebwyd

14.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan fo papur enwebu person yn rhoi enwau blaen neu gyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin yn unol â rheol 5(4).

(2) Rhaid i'r datganiad o'r personau a enwebwyd ddangos enwau blaen neu gyfenwau'r person a ddefnyddir yn gyffredin (yn hytrach na'r enwau blaen neu'r cyfenwau a ddatganwyd yn y papur enwebu yn unol â rheol 5(3)(a)) oni bai bod y swyddog canlyniadau'n penderfynu—

- (a) y gallai defnyddio enwau blaen neu gyfenwau'r person a ddefnyddir yn gyffredin fod yn debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu
- (b) bod yr enwau blaen neu'r cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin yn anwedus neu'n dramgwyddus.

(3) Pan fo paragraff (2)(a) neu (b) yn gymwys—

- (a) rhaid i'r datganiad o'r personau a enwebwyd ddangos enwau blaen neu gyfenwau eraill y person fel y'u datganwyd yn y papur enwebu yn unol â rheol 5(3)(a) (yn hytrach na'r enwau blaen neu'r cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin), a

- (b) their home address information, (see paragraph (3)), and
- (c) the information contained in their statements of party membership, as given in their nomination papers.

(3) In these rules, references to the home address information of a person nominated are to the following information as given in the home address form accompanying the nomination paper—

- (a) where the home address form contains a statement that the home address must not be made public, the information given in accordance with rule 9(7);
- (b) where the home address form does not contain such a statement, the address of the person nominated.

(4) The statement must show the persons standing nominated arranged alphabetically in the order of their surnames, and if there are two or more of them with the same surnames, the statement must show those persons arranged alphabetically in the order of their other names.

(5) Rule 14 (use of commonly used names) and rule 15 (names that are the same or similar) make further provision about the content of the statement of persons nominated.

Use of commonly used names in statement of persons nominated

14.—(1) This rule applies where a person's nomination paper gives commonly used forenames or surnames in accordance with rule 5(4).

(2) The statement of persons nominated must show the person's commonly used forenames or surnames (instead of the forenames or surnames stated in the nomination paper in accordance with rule 5(3)(a)) unless the returning officer decides—

- (a) that the use of the person's commonly used forenames or surnames may be likely to mislead or confuse electors, or
- (b) that the commonly used forenames or surnames are obscene or offensive.

(3) Where paragraph(2)(a) or (b) applies—

- (a) the statement of persons nominated must show the person's other forenames or surnames as stated in the nomination paper in accordance with rule 5(3)(a) (instead of the commonly used forenames or surnames), and

- (b) rhaid i'r swyddog canlyniadau roi hysbysiad i'r ymgeisydd yn datgan y rhesymau dros wrthod caniatáu defnyddio'r enwau blaen neu'r cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin.

Enwau sydd yr un fath neu'n debyg

15.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan fo'r swyddog canlyniadau, wrth baratoi datganiad o'r personau a enwebwyd, yn penderfynu—

- (a) bod dau neu ragor o'r enwau a fyddai'n cael eu dangos ar y datganiad yr un fath neu mor debyg nes eu bod yn debygol o beri dryswch,
- (b) bod pob un o'r personau dan sylw wedi gwneud datganiad eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i'w cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi (gweler rheol 9(6)), ac
- (c) bod yr wybodaeth a roddwyd yn unol â rheol 9(7) yr un fath ar gyfer pob un ohonynt.

(2) Caiff y swyddog canlyniadau drefnu i unrhyw un neu ragor o'u manylion gael eu dangos ar y datganiad o'r personau a enwebwyd gydag unrhyw ddiwygiadau neu ychwanegiadau sy'n briodol ym marn y swyddog canlyniadau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o ddryswch.

(3) Wrth benderfynu a ddylid gwneud diwygiadau neu ychwanegiadau o dan y rheol hon, rhaid i'r swyddog canlyniadau roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan y Comisiwn Etholiadol at ddibenion y rheol hon.

(4) Pan fo'n ymarferol gwneud hynny cyn cyhoeddi'r datganiad, rhaid i'r swyddog canlyniadau ymgynghori ag unrhyw bersonau y bwriedir diwygio'u manylion neu ychwanegu at eu manylion o dan y rheol hon.

(5) Rhaid i'r swyddog canlyniadau roi hysbysiad i unrhyw berson y diwygiwyd ei fanylion neu yr ychwanegwyd at ei fanylion o dan y rheol hon, yn nodi'r diwygiadau neu'r ychwanegiadau.

(6) Ni chaniateir i unrhyw beth a wneir gan swyddog canlyniadau o dan y rheol hon gael ei amau mewn unrhyw achos heblaw achos ar ddeiseb etholiad.

Cywiro mân wallau mewn papur enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref

16.—(1) Caiff swyddog canlyniadau, unrhyw bryd cyn cyhoeddi'r datganiad o'r personau a enwebwyd, gywiro mân wallau mewn papur enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref.

(2) Mae'r gwallau y caniateir eu cywiro yn cynnwys—

- (a) gwallau o ran rhif etholiadol person;
- (b) gwallau sillafu amlwg;

- (b) the returning officer must give a notice to the candidate stating the reasons for refusing to allow the use of the commonly used forenames or surnames.

Names that are the same or similar

15.—(1) This rule applies where, in preparing a statement of persons nominated, the returning officer decides that—

- (a) two or more of the names that would be shown on the statement are the same or so similar as to be likely to cause confusion,
- (b) each of the persons concerned has made a statement that they require their home address not to be made public (see rule 9(6)), and
- (c) the information given in accordance with rule 9(7) is the same for each of them.

(2) The returning officer may arrange for any of their particulars to be shown on the statement of persons nominated with such amendments or additions as the returning officer thinks appropriate to reduce the likelihood of confusion.

(3) In deciding whether to make amendments or additions under this rule, the returning officer must have regard to any guidance given by the Electoral Commission for the purposes of this rule.

(4) Where it is practicable to do so before the publication of the statement, the returning officer must consult any persons whose particulars are to be amended or added to under this rule.

(5) The returning officer must give a notice to any person whose particulars are amended or added to under this rule, setting out the amendments or additions.

(6) Anything done by a returning officer under this rule may not be questioned in any proceedings other than proceedings on an election petition.

Correction of minor errors in a nomination paper or home address form

16.—(1) A returning officer may, at any time before the publication of the statement of persons nominated, correct minor errors in a nomination paper or home address form.

(2) Errors which may be corrected include—

- (a) errors as to a person's electoral number;
- (b) obvious errors of spelling;

- (c) gwallau o ran yr wybodaeth a roddwyd yn unol â rheol 9(7) (gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys pan fo'r ymgeisydd wedi datgan na chaniateir cyhoeddi'r cyfeiriad cartref).

(3) Ni chaniateir i unrhyw beth a wneir gan swyddog canlyniadau yn unol â'r rheol hon gael ei amau mewn unrhyw achos heblaw achos ar ddeiseb etholiad.

(4) Wrth benderfynu a ddylid cywiro mân wallau o dan y rheol hon, rhaid i swyddog canlyniadau roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan y Comisiwn Etholiadol at ddibenion y rheol hon.

Archwilio papurau enwebu

17.—(1) Yn ystod yr amser ar gyfer archwilio, caiff unrhyw berson archwilio papurau enwebu sydd wedi eu danfon.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr “yr amser ar gyfer archwilio” yw oriau swyddfa arferol ar unrhyw ddiwrnod ar ôl y diwrnod olaf ar gyfer danfon papurau enwebu a chyn diwrnod y bleidlais, ac eithrio diwrnod eithriedig.

(3) Caiff person sy'n archwilio papurau enwebu gymryd copi o'r papurau, neu godi dyfyniadau ohonynt.

Archwilio ffurflenni cyfeiriad cartref

18.—(1) Yn ystod yr amser ar gyfer archwilio, caniateir i ffurflen cyfeiriad cartref ymgeisydd sy'n dal wedi ei enwebu gael ei harchwilio gan unrhyw un neu ragor o'r canlynol sy'n dymuno ei harchwilio—

- (a) ymgeisydd arall sy'n dal wedi ei enwebu yn yr un ardal etholiadol;
- (b) asiant etholiadol (os penodwyd un) ymgeisydd arall sy'n dal wedi ei enwebu yn yr ardal honno;
- (c) yn achos ymgeisydd arall sy'n dal wedi ei enwebu yn yr ardal honno ac sydd heb benodi asiant etholiadol, person arall a ddewisir gan yr ymgeisydd hwnnw.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr “yr amser ar gyfer archwilio” yw oriau swyddfa arferol ar unrhyw ddiwrnod ar ôl y diwrnod olaf ar gyfer danfon papurau enwebu a chyn diwrnod y bleidlais, ac eithrio diwrnod eithriedig

(3) Ni chaiff ymgeisydd neu berson arall sy'n cynnal archwiliad o dan y rheol hon gymryd copi o ffurflen cyfeiriad cartref na chodi dyfyniadau ohoni.

(4) Ni chaiff y swyddog canlyniadau ganiatáu i ffurflen cyfeiriad cartref gael ei harchwilio heblaw yn unol â'r rheol hon neu at ryw ddiben arall a awdurdodir gan y gyfraith.

- (c) errors as to the information given in accordance with rule 9(7) (information that must be included where the candidate has stated that the home address must not be made public).

(3) Anything done by a returning officer in pursuance of this rule may not be questioned in any proceedings other than proceedings on an election petition.

(4) In deciding whether to correct minor errors under this rule, a returning officer must have regard to any guidance given by the Electoral Commission for the purposes of this rule.

Inspection of nomination papers

17.—(1) During the time for inspection, any person may inspect nomination papers that have been delivered.

(2) In paragraph (1), “the time for inspection” means ordinary office hours on any day after the last day for the delivery of nomination papers and before the day of the poll, other than an excluded day.

(3) A person inspecting nomination papers may take a copy of, or make extracts from, the papers.

Inspection of home address forms

18.—(1) During the time for inspection, the home address form of a candidate standing nominated may be inspected by any of the following who wish to inspect it—

- (a) another candidate standing nominated in the same electoral area;
- (b) the election agent (if appointed) of another candidate standing nominated in that area;
- (c) in the case of another candidate standing nominated in that area who has not appointed an election agent, another person selected by that candidate.

(2) In paragraph (1), “the time for inspection” means ordinary office hours on any day after the last day for the delivery of nomination papers and before the day of the poll, other than an excluded day.

(3) A candidate or other person carrying out an inspection under this rule must not take a copy of, or make extracts from, a home address form.

(4) The returning officer must not permit a home address form to be inspected otherwise than in accordance with this rule or for some other purpose authorised by law.

Gohirio trafodion enwebu os ceir terfysg

19.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys os torrir ar draws trafodion ar gyfer enwebu, neu mewn cysylltiad ag enwebu, neu os rhwystrir y trafodion hynny, ar unrhyw ddiwrnod gan derfysg neu drais agored.

(2) Rhaid rhoi'r gorau i'r trafodion am y diwrnod hwnnw.

(3) Os y diwrnod olaf ar gyfer danfon papurau enwebu yw'r diwrnod y rhoddir y gorau i'r trafodion, rhaid ailddechrau'r trafodion drannoeth.

(4) Pan fo paragraff (3) yn ei gwneud yn ofynnol bod y trafodion yn ailddechrau drannoeth, mae'r dyddiadau cau a bennir yn ail golofn yr amserlen yn rheol 1 ar gyfer danfon papurau enwebu, danfon hysbysiadau tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl a chyhoeddi'r datganiad o'r personau a enwebwyd i gyd yn cael eu hymestyn un diwrnod.

(5) Pan roddir y gorau i drafodion o dan y rheol hon—

- (a) ni chaniateir i ddim byd gael ei wneud ar ôl ailddechrau'r trafodion os oedd yr amser ar gyfer ei wneud wedi mynd heibio pan roddwyd y gorau i'r trafodion, a
- (b) nid yw dim byd a wnaed cyn rhoi'r gorau i'r trafodion yn annilys oherwydd rhoi'r gorau iddynt.

Dull Ethol

Penderfynu a oes gornest yn yr etholiad a datgan y canlyniad os nad oes gornest

20.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau benderfynu a yw nifer y personau sy'n dal wedi eu henwebu'n ddilys ar gyfer yr ardal etholiadol ar ôl i unrhyw un neu ragor dynnu'n ôl o dan reol 12 yn fwy na nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol.

(2) Os nad yw nifer y personau sy'n dal wedi eu henwebu'n ddilys yn fwy na nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol, rhaid i'r swyddog canlyniadau ddatgan bod y person neu'r personau sy'n dal wedi ei enwebu neu wedi eu henwebu'n ddilys wedi ei ethol neu wedi eu hethol.

(3) Rhaid hefyd i'r swyddog canlyniadau—

- (a) rhoi hysbysiad yn datgan enwau a chyfeiriadau'r rhai y datganwyd eu bod wedi eu hethol—
 - (i) i swyddog priodol y cyngor cymuned, a
 - (ii) i swyddog priodol y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y lleolir y gymuned ynddo, a
- (b) cyhoeddi eu henwau.

Adjournment of nomination proceedings in the case of riot

19.—(1) This rule applies if proceedings for, or in connection with, nomination are interrupted or obstructed on any day by riot or open violence.

(2) The proceedings must be abandoned for that day.

(3) If the day on which the proceedings are abandoned is the last day for the delivery of nomination papers, the proceedings must be resumed on the next day.

(4) Where paragraph (3) requires proceedings to be resumed on the next day, the deadlines specified in the second column of the timetable in rule 1 for the delivery of nomination papers, the delivery of notices of withdrawals of candidature and the publication of the statement as to persons nominated are each extended by one day.

(5) Where proceedings are abandoned under this rule—

- (a) nothing may be done after the proceedings are resumed if the time for doing it had passed when the proceedings were abandoned, and
- (b) nothing done before the proceedings were abandoned is invalidated by reason of the abandonment.

Method of Election

Decision as to whether election contested and declaration of result if uncontested

20.—(1) The returning officer must determine whether the number of persons remaining validly nominated for the electoral area after any withdrawals under rule 12 exceeds the number of councillors to be elected.

(2) If the number of persons remaining validly nominated does not exceed the number of councillors to be elected, the returning officer must declare the person or persons standing validly nominated to be elected.

(3) The returning officer must also—

- (a) give a notice stating the names and addresses of those declared to be elected—
 - (i) to the proper officer of the community council, and
 - (ii) to the proper officer of the council of the county or county borough in which the community is situated, and
- (b) publish their names.

(4) Os yw nifer y personau sy'n dal wedi eu henwebu'n ddilys yn fwy na nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol, rhaid cynnal pleidlais yn unol â Rhan 3.

RHAN 3

Y Bleidlais mewn Etholiadau lle Ceir Gornest

Darpariaethau Cyffredinol

Y bleidlais i'w chynnal drwy bleidlais gudd

21.—(1) Rhaid i'r pleidleisiau yn y bleidlais gael eu rhoi drwy bleidlais gudd.

(2) Rhaid canfod y canlyniad yn unol â Rhan 4 (cyfrif y pleidleisiau).

Y papurau pleidleisio

22.—(1) Rhaid i bleidlais gudd pob pleidleisiwr fod yn bapur pleidleisio.

(2) Yr unig bersonau sydd â hawl i gael eu henwau wedi eu gosod ar y papur pleidleisio yw'r rhai sy'n dal wedi eu henwebu'n ddilys ar gyfer yr ardal etholiadol ar ôl i unrhyw un neu ragor dynnu'n ôl o dan reol 12.

(3) Rhaid i bapur pleidleisio—

- (a) bod yn y ffurf yn Atodiad 2, a
- (b) bod wedi ei argraffu yn unol â'r cyfarwyddydau yn yr Atodiad hwnnw.

(4) Rhaid i'r papur pleidleisio—

- (a) cynnwys enwau a disgrifiadau (os oes rhai) yr ymgeiswyr a'r wybodaeth am eu cyfeiriad cartref, fel y'i dangoswyd yn y datganiad o'r personau a enwebwyd,
- (b) gallu cael ei blygu,
- (c) bod â rhif a marc adnabod unigryw arall wedi eu hargraffu ar y cefn, a
- (d) bod o liw gwahanol i liw unrhyw bapurau pleidleisio a defnyddir mewn etholiad perthnasol.

(5) Ar gais ymgeisydd sydd wedi ei awdurdodi o dan reol 6(3)(c) i ddefnyddio disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â phlaid wleidyddol gofrestredig, rhaid i'r papur pleidleisio gynnwys, gyferbyn â manylion yr ymgeisydd, un arwyddlun cofrestredig i'r blaidd.

(6) Ar gais ymgeisydd sydd wedi ei awdurdodi o dan reol 6(4)(c) i ddefnyddio disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â dwy neu ragor o bleidiau gwleidyddol cofrestredig, rhaid i'r papur pleidleisio gynnwys, gyferbyn â manylion yr ymgeisydd, un arwyddlun cofrestredig i un o'r pleidiau.

(4) If the number of persons remaining validly nominated exceeds the number of councillors to be elected, a poll must be taken in accordance with Part 3.

PART 3

The Poll at Contested Elections

General Provisions

Poll to be taken by ballot

21.—(1) The votes at the poll must be given by ballot.

(2) The result must be ascertained in accordance with Part 4 (counting of votes).

The ballot papers

22.—(1) The ballot of every voter must consist of a ballot paper.

(2) The only persons entitled to have their names inserted on the ballot paper are those remaining validly nominated for the electoral area after any withdrawals under rule 12.

(3) A ballot paper must be—

- (a) in the form in Appendix 2, and
- (b) printed in accordance with the directions in that Appendix.

(4) The ballot paper must—

- (a) contain the names and descriptions (if any) of the candidates and their home address information, as shown in the statement of persons nominated,
- (b) be capable of being folded up,
- (c) have a number and other unique identifying mark printed on the back, and
- (d) be of a different colour to that of any ballot papers used at a relevant election.

(5) At the request of a candidate who is authorised under rule 6(3)(c) to use a description likely to lead electors to associate the candidate with a registered political party, the ballot paper must contain, against the candidate's particulars, one registered emblem of the party.

(6) At the request of a candidate who is authorised under rule 6(4)(c) to use a description likely to lead electors to associate the candidate with two or more registered political parties, the ballot paper must contain, against the candidate's particulars, one registered emblem of one of the parties.

(7) Rhaid i gais yr ymgeisydd o dan baragraff (5) neu (6)—

- (a) cael ei wneud mewn ysgrifen i'r swyddog canlyniadau, a
- (b) dod i law'r swyddog canlyniadau cyn yr amser olaf ar gyfer danfon papurau enwebu fel y'i nodir yn yr amserlen yn rheol 1.

(8) Rhaid i drefn yr enwau yn y papur pleidleisio fod yr un fath ag yn y datganiad o'r personau a enwebwyd.

Rhestr rhifau cyfatebol

23.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau baratoi rhestr (“y rhestr rhifau cyfatebol”) yn unol â'r rheol hon.

(2) Rhaid i'r rhestr rhifau cyfatebol fod mewn dwy ran.

(3) Rhaid i Ran 1 gynnwys rhifau a marciau adnabod unigryw yr holl bapurau pleidleisio sydd i'w dyroddi yn unol â rheol 28(1) (papurau pleidleisio post).

(4) Rhaid i Ran 2 gynnwys rhifau (ond nid marciau adnabod unigryw) yr holl bapurau pleidleisio sydd i'w darparu yn unol â rheol 32(1) (darparu blychau pleidleisio a phapurau pleidleisio mewn gorsafoddd pleidleisio).

(5) Rhaid i'r rhestr rhifau cyfatebol fod yn y ffurf a nodir yn Atodiad 3 neu ffurf i'r un perwyl.

(6) Pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, gweler hefyd reoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau (sy'n darparu ar gyfer amgylchiadau lle mae swyddogaethau'r swyddog canlyniadau o dan y rheol hon i gael eu cyflawni gan y swyddog canlyniadau cydlynol).

Y marc swyddogol

24.—(1) Rhaid i bob papur pleidleisio gynnwys marc diogelwch priodol (“y marc swyddogol”).

(2) Rhaid cadw'r marc swyddogol yn gyfrinachol.

(3) Rhaid i gyfnod o ddim llai na phum mlynedd fynd heibio rhwng defnyddio'r un marc swyddogol mewn etholiadau ar gyfer yr un gymuned.

(4) Caiff y swyddog canlyniadau ddefnyddio marc swyddogol gwahanol at ddibenion gwahanol yn yr un etholiad.

Gwahardd datgelu pleidlais

25. Ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol i berson sydd wedi pleidleisio yn yr etholiad ddatgan dros bwy y pleidleisiodd mewn unrhyw achos cyfreithiol i amau'r etholiad.

(7) The candidate's request under paragraph (5) or (6) must be—

(a) made in writing to the returning officer, and

(b) received by the returning officer before the last time for the delivery of nomination papers as set out in the timetable in rule 1.

(8) The order of the names in the ballot paper must be the same as in the statement of persons nominated.

Corresponding number list

23.—(1) The returning officer must prepare a list (“the corresponding number list”) in accordance with this rule.

(2) The corresponding number list must be in two parts.

(3) Part 1 must contain the numbers and unique identifying marks of all ballot papers to be issued in pursuance of rule 28(1) (postal ballot papers).

(4) Part 2 must contain the numbers (but not the unique identifying marks) of all ballot papers to be provided in pursuance of rule 32(1) (provision of ballot boxes and ballot papers at polling stations).

(5) The corresponding number list must be in the form set out in Appendix 3 or a form to the like effect.

(6) Where the returning officer is not the co-ordinating returning officer, see also regulations 4 and 5 of the Combination of Polls Regulations (which provide for circumstances in which the functions of the returning officer under this rule are to be discharged by the co-ordinating returning officer).

The official mark

24.—(1) Each ballot paper must contain an appropriate security marking (“the official mark”).

(2) The official mark must be kept secret.

(3) An interval of not less than five years must intervene between the use of the same official mark at elections for the same community.

(4) The returning officer may use a different official mark for different purposes at the same election.

Prohibition of disclosure of vote

25. A person who has voted at the election may not be required to state for whom they voted in any legal proceedings to question the election.

Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus

26.—(1) Caiff y swyddog canlyniadau ddefnyddio unrhyw un neu ragor o'r ystafelloedd a ganlyn yn rhad ac am ddim er mwyn cynnal y bleidlais neu gyfrif y pleidleisiau—

- (a) ystafell mewn ysgol a gynhelir neu a gynorthwyr gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;
- (b) ystafell mewn ysgol y mae grantiau'n cael eu rhoi mewn cysylltiad â hi o arian a ddarperir gan Senedd Cymru i'r person neu'r corff sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol;
- (c) unrhyw ystafell arall os yw cost cynnal a chadw'r ystafell yn daladwy yn gyfan gwbl neu'n bennaf o arian cyhoeddus.

(2) Pan ddefnyddir ystafell a ddisgrifir ym mharagraff (1) er mwyn cynnal y bleidlais neu gyfrif y pleidleisiau, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau—

- (a) cywiro unrhyw ddifrod i'r ystafell sy'n deillio o'i defnyddio at y diben hwnnw, a
- (b) talu unrhyw gost a ysgwyddir gan y person neu'r corff sydd â rheolaeth dros yr ystafell oherwydd ei defnyddio at y diben hwnnw.

Camau i'w cymryd cyn y bleidlais

Hysbysiad y bleidlais

27.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau gyhoeddi hysbysiad o'r bleidlais yn datgan—

- (a) y diwrnod a'r oriau a bennwyd ar gyfer y bleidlais,
- (b) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros yr ardal etholiadol, ac
- (c) enwau a disgrifiadau (os oes rhai) pob ymgeisydd sy'n dal wedi ei enwebu'n ddilys a'r wybodaeth am eu cyfeiriad cartref.

(2) Rhaid i fanylion yr ymgeiswyr, a threfn enwau'r ymgeiswyr, fod yr un fath ag yn y datganiad o'r personau a enwebwyd.

(3) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, cyn cyhoeddi hysbysiad o'r bleidlais, neu yr un pryd, hefyd gyhoeddi hysbysiad—

- (a) o safle pob gorsaf bleidleisio, a
- (b) o'r disgrifiad o bleidleiswyr sydd â hawl i bleidleisio yno.

(4) Rhaid i'r hysbysiad a gyhoeddir o dan baragraff (3)—

- (a) datgan bod y bleidlais yn etholiad y gymuned i'w chynnal ynghyd â phleidlais mewn un neu ragor o etholiadau perthnasol,

Use of schools and public rooms

26.—(1) The returning officer may use any of the following rooms free of charge for the purpose of taking the poll or counting the votes—

- (a) a room in a school maintained or assisted by a county or county borough council;
- (b) a room in a school in respect of which grants are made out of money provided by Senedd Cymru to the person or body responsible for the management of the school;
- (c) any other room if the expense of maintaining the room is payable wholly or mainly out of public funds.

(2) Where a room described in paragraph (1) is used for the purpose of taking the poll or counting the votes, the returning officer must—

- (a) make good any damage to the room resulting from its use for that purpose, and
- (b) defray any expense incurred by the person or body having control over the room by reason of its use for that purpose.

Action to be taken before the poll

Notice of poll

27.—(1) The returning officer must publish notice of the poll stating—

- (a) the day and hours fixed for the poll,
- (b) the number of councillors to be elected for the electoral area, and
- (c) the names and descriptions (if any) of each candidate remaining validly nominated and their home address information.

(2) The candidates' particulars, and the order of the candidates' names, must be the same as in the statement of persons nominated.

(3) The returning officer must, before or at the same time as publishing notice of the poll, also publish notice of—

- (a) the situation of each polling station, and
- (b) the description of voters entitled to vote there.

(4) The notice published under paragraph (3) must—

- (a) state that the poll at the community election is to be taken together with the poll at one or more relevant elections,

- (b) pennu'r etholaeth neu, fel y bo'n briodol, yr ardal arall y mae pob etholiad perthnasol yn ymwneud â hi, ac
- (c) pan gynhelir unrhyw un neu ragor o'r pleidleisiau ar y cyd mewn rhan yn unig o'r gymuned, pennu'r rhan honno.

(5) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi hysbysiad o dan baragraff (3), roi copi ohono i bob un o'r ymgeiswyr neu i'w hasiantau etholiadol (os penodwyd rhai).

(6) Pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, gweler hefyd reoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau (sy'n darparu ar gyfer amgylchiadau lle mae swyddogaethau'r swyddog canlyniadau o dan baragraffau (3) i (5) i gael eu cyflawni gan y swyddog canlyniadau cydlynol).

Papurau pleidleisio post

28.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, yn unol â rheoliadau o dan Ddeddf 1983, ddyroddi i'r rhai sydd â hawl i bleidleisio drwy'r post—

- (a) papur pleidleisio,
- (b) datganiad pleidleisio post yn y ffurf a nodir yn Atodiad 4 neu ffurf i'r un perwyl, ac
- (c) unrhyw amlenni ar gyfer dychwelyd y papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio post a ragnodir gan reoliadau o dan Ddeddf 1983.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd ddyroddi i'r rhai sydd â hawl i bleidleisio drwy'r post unrhyw wybodaeth y mae'r swyddog canlyniadau o'r farn ei bod yn briodol ynghylch sut i gael—

- (a) cyfieithiadau i ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg o unrhyw gyfarwyddydau neu ganllawiau i bleidleiswyr a anfonir gyda'r papur pleidleisio,
- (b) cyfieithiad i Braille o'r cyfarwyddydau neu'r canllawiau hynny,
- (c) delweddu graffig o'r cyfarwyddydau neu'r canllawiau hynny, a
- (d) y cyfarwyddydau neu'r canllawiau ar unrhyw ffurf arall (gan gynnwys unrhyw ffurf glywadwy).

(3) Rhaid i'r datganiad pleidleisio post gynnwys darpariaeth—

- (a) i'r ffurflen gael ei llofnodi gan yr etholwr neu, pan fo'r etholwr yn pleidleisio drwy ddirprwy, gan y dirprwy, oni bai bod y swyddog cofrestru wedi hepgor y gofyniad ynglŷn â llofnod, a
- (b) ar gyfer datgan dyddiad geni'r etholwr neu, pan fo'r etholwr yn pleidleisio drwy ddirprwy, dyddiad geni'r dirprwy.

- (b) specify the constituency or, as appropriate, other area to which each relevant election relates, and
- (c) where any of the polls are to be taken together only in part of the community, specify that part.

(5) The returning officer must, as soon as practicable after publishing notice under paragraph (3), give a copy of it to each of the candidates or their election agents (if appointed).

(6) Where the returning officer is not the co-ordinating returning officer, see also regulations 4 and 5 of the Combination of Polls Regulations (which provide for circumstances in which the functions of the returning officer under paragraphs (3) to (5) are to be discharged by the co-ordinating returning officer).

Postal ballot papers

28.—(1) The returning officer must, in accordance with regulations under the 1983 Act, issue to those entitled to vote by post—

- (a) a ballot paper,
- (b) a postal voting statement in the form set out in Appendix 4 or a form to the like effect, and
- (c) such envelopes for the return of the ballot paper and postal voting statement as may be prescribed by regulations under the 1983 Act.

(2) The returning officer must also issue to those entitled to vote by post such information as the returning officer considers appropriate about how to obtain—

- (a) translations into languages other than English and Welsh of any directions to or guidance for voters sent with the ballot paper,
- (b) a translation into Braille of such directions or guidance,
- (c) graphical representations of such directions or guidance, and
- (d) the directions or guidance in any other form (including any audible form).

(3) The postal voting statement must include provision—

- (a) for the form to be signed by the elector or, where the elector is voting by proxy, the proxy, unless the registration officer has dispensed with the requirement for a signature, and
- (b) for stating the date of birth of the elector or, where the elector is voting by proxy, the proxy.

(4) Yn achos papur pleidleisio a ddyroddir i berson mewn cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, rhaid i'r swyddog canlyniadau sicrhau bod y pleidleisiwr yn gallu dychwelyd y papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio post yn rhad ac am ddim.

(5) Pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, gweler hefyd reoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau (sy'n darparu ar gyfer amgylchiadau lle mae swyddogaethau'r swyddog canlyniadau o dan y rheol hon i gael eu cyflawni gan y swyddog canlyniadau cydlynol).

Darparu gorsafoddd pleidleisio

29.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau—

- (a) darparu nifer digonol o orsafoedd pleidleisio, a
- (b) dyrannu'r etholwyr i'r gorsafoddd pleidleisio.

(2) Caniateir darparu un neu ragor o orsafoedd pleidleisio yn yr un ystafell.

(3) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu i bob gorsaf bleidleisio unrhyw nifer o fythau a all fod yn angenrheidiol lle gall pleidleiswyr farcio'u pleidleisiau wedi eu sgrinio heb gael eu gweld.

(4) Pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, gweler hefyd reoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau (sy'n darparu ar gyfer amgylchiadau lle mae swyddogaethau'r swyddog canlyniadau o dan y rheol hon i gael eu cyflawni gan y swyddog canlyniadau cydlynol).

Penodi swyddogion llywyddu a chlercod

30.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau benodi a thalu—

- (a) swyddog llywyddu i fod yn bresennol ym mhob gorsaf bleidleisio, a
- (b) unrhyw nifer o glercod sy'n angenrheidiol at ddibenion y bleidlais neu'r cyfrif neu fel arall at ddibenion yr etholiad.

(2) Ni chaiff y swyddog canlyniadau benodi'n fwriadol yn swyddog llywyddu neu glerc berson a gyflogwyd gan neu ar ran ymgeisydd mewn cysylltiad â'r etholiad.

(3) Caiff y swyddog canlyniadau lywyddu mewn gorsaf bleidleisio.

(4) Pan fo'r swyddog canlyniadau yn llywyddu mewn gorsaf bleidleisio, mae'r rheolau hyn yn gymwys i'r swyddog canlyniadau sy'n llywyddu felly gyda'r addasiadau angenrheidiol o ran pethau a wneir gan y swyddog canlyniadau mewn perthynas â'r swyddog llywyddu neu gan y swyddog llywyddu mewn perthynas â'r swyddog canlyniadau.

(4) In the case of a ballot paper issued to a person at an address in the United Kingdom, the returning officer must ensure that the return of the ballot paper and postal voting statement is free of charge to the voter.

(5) Where the returning officer is not the co-ordinating returning officer, see also regulations 4 and 5 of the Combination of Polls Regulations (which provide for circumstances in which the functions of the returning officer under this rule are to be discharged by the co-ordinating returning officer).

Provision of polling stations

29.—(1) The returning officer must—

- (a) provide a sufficient number of polling stations, and
- (b) allot the electors to the polling stations.

(2) One or more polling stations may be provided in the same room.

(3) The returning officer must provide each polling station with such number of compartments as may be necessary in which voters can mark their votes screened from observation.

(4) Where the returning officer is not the co-ordinating returning officer, see also regulations 4 and 5 of the Combination of Polls Regulations (which provide for circumstances in which the functions of the returning officer under this rule are to be discharged by the co-ordinating returning officer).

Appointment of presiding officers and clerks

30.—(1) The returning officer must appoint and pay—

- (a) a presiding officer to attend at each polling station, and
- (b) such number of clerks as may be necessary for the purposes of the poll or the count or otherwise for the purposes of the election.

(2) The returning officer must not knowingly appoint, as a presiding officer or clerk, a person who has been employed by or on behalf of a candidate in connection with the election.

(3) The returning officer may preside at a polling station.

(4) Where the returning officer presides at a polling station, these rules apply to the returning officer so presiding with the necessary modifications as to things done by the returning officer in relation to the presiding officer or by the presiding officer in relation to the returning officer.

(5) Caiff swyddog llywyddu awdurdodi'r clerod i wneud unrhyw beth (gan gynnwys gofyn cwestiynau) y mae'r rheolau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog llywyddu ei wneud neu'n awdurdodi'r swyddog llywyddu i'w wneud mewn gorsaf bleidleisio, ac eithrio gorchymyn i unrhyw berson gael ei wahardd neu ei symud o'r orsaf bleidleisio.

(6) Pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, gweler hefyd reoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau (sy'n darparu ar gyfer amgylchiadau lle mae swyddogaethau'r swyddog canlyniadau o dan y rheol hon mewn perthynas â phenodi swyddogion llywyddu a chlerod i gael eu cyflawni gan y swyddog canlyniadau cydlynol).

Dyroddi cardiau pleidleisio swyddogol

31.—(1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi hysbysiad o'r etholiad, rhaid i'r swyddog canlyniadau anfon neu ddanfôn—

- (a) cerdyn pleidleisio swyddogol i etholwyr nad ydynt yn pleidleisio drwy'r post,
- (b) cerdyn swyddogol pleidleisio drwy'r post i etholwyr sy'n pleidleisio drwy'r post ac nid drwy ddirprwy,
- (c) cerdyn swyddogol pleidleisio drwy ddirprwy i berson sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr ac nid drwy'r post, a
- (d) cerdyn swyddogol pleidleisio drwy'r post drwy ddirprwy i berson sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr drwy'r post.

(2) Rhaid i gerdyn pleidleisio swyddogol neu gerdyn swyddogol pleidleisio drwy'r post gael ei anfon neu ei ddanfôn i gyfeiriad cymwys yr etholwr.

(3) Rhaid i gerdyn swyddogol pleidleisio drwy ddirprwy neu gerdyn swyddogol pleidleisio drwy'r post drwy ddirprwy gael ei anfon neu ei ddanfôn i gyfeiriad y dirprwy, fel y'i dangosir yn y rhestr dirprwyon.

(4) Rhaid i bob cerdyn pleidleisio fod yn y ffurf briodol yn Atodiad 5 neu ffurf i'r un perwyl a rhaid iddo nodi—

- (a) enw'r cyngor y mae cynghorwyr i'w hethol iddo,
- (b) yr ardal etholiadol y mae cynghorwyr i'w hethol drosti,
- (c) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros yr ardal etholiadol honno,
- (d) enw, cyfeiriad cymwys a rhif cofrestr yr etholwr,
- (e) dyddiad ac oriau'r bleidlais a safle gorsaf bleidleisio'r etholwr, ac

(5) A presiding officer may authorise the clerks to do anything (including asking questions) that the presiding officer is required or authorised by these rules to do at a polling station, except ordering the exclusion or removal of any person from the polling station.

(6) Where the returning officer is not the co-ordinating returning officer, see also regulations 4 and 5 of the Combination of Polls Regulations (which provide for circumstances in which the functions of the returning officer under this rule in relation to the appointment of presiding officers and clerks are to be discharged by the co-ordinating returning officer).

Issue of official poll cards

31.—(1) The returning officer must, as soon as practicable after publishing notice of the election, send or deliver—

- (a) an official poll card to electors not voting by post;
- (b) an official postal poll card to electors voting by post and not by proxy;
- (c) an official proxy poll card to a person voting as proxy for an elector and not by post; and
- (d) an official proxy postal poll card to a person voting as proxy for an elector by post.

(2) An official poll card or an official postal poll card must be sent or delivered to the elector's qualifying address.

(3) An official proxy poll card or an official proxy postal poll card must be sent or delivered to the proxy's address, as shown in the list of proxies.

(4) Each poll card must be in the appropriate form in Appendix 5 or a form to the like effect and must set out—

- (a) the name of the council to which councillors are to be elected,
- (b) the electoral area for which councillors are to be elected,
- (c) the number of councillors to be elected for that electoral area,
- (d) the elector's name, qualifying address and number on the register,
- (e) the date and hours of the poll and the situation of the elector's polling station, and

(f) unrhyw wybodaeth arall y mae'r swyddog canlyniadau o'r farn ei bod yn briodol.

(5) Caniateir i wybodaeth wahanol gael ei darparu o dan baragraff (4)(f) i wahanol etholwyr neu ddisgrifiadau o etholwr.

(6) Yn achos etholwr sydd â chofnod dienw, rhaid i'r cerdyn pleidleisio—

(a) cynnwys unrhyw wybodaeth a bennir yn y ffurf briodol yn Atodiad 5 yn hytrach na'r wybodaeth a nodir ym mharagraff (4)(d), a

(b) cael ei anfon neu ei ddanfôn mewn amlen neu fath arall o orchudd fel nad yw'n datgelu bod gan yr etholwr gofnod dienw.

(7) Os yw'r swyddog canlyniadau a'r swyddog canlyniadau ar gyfer etholiad perthnasol o'r farn ei bod yn briodol, caniateir i gerdyn pleidleisio a ddyroddir o dan y rheol hon gael ei gyfuno â cherdyn pleidleisio o'r un math a ddyroddir ym mhob etholiad perthnasol.

(8) Yn y rheol hon—

(a) ystyr "etholwr" yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal etholiadol o dan sylw ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o'r etholiad, ac eithrio ei fod yn cynnwys person a ddangosir y pryd hwnnw yn y gofrestr (neu, yn achos person sydd â chofnod dienw yn y gofrestr, yn y cofnod o gofnodion dienw) fel person sydd o dan yr oedran pleidleisio dim ond os yw'n ymddangos o'r gofrestr (neu o'r cofnod o gofnodion dienw) y bydd y person o oedran pleidleisio ar y diwrnod a bennwyd ar gyfer y bleidlais;

(b) mae i "cyfeiriad cymwys" yr un ystyr ag sydd i "qualifying address" yn Neddf 1983 (gweler adran 202(1) o'r Ddeddf honno).

Cyfarpar gorsafoedd pleidleisio

32.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu i bob swyddog llywyddu unrhyw nifer o flychau pleidleisio a phapurau pleidleisio y mae'r swyddog canlyniadau o'r farn eu bod yn angenrheidiol.

(2) Rhaid i bob blwch pleidleisio fod wedi ei adeiladu fel y gellir rhoi papurau pleidleisio ynddo, ond na ellir eu tynnu'n ôl ohono, heb i'r blwch gael ei ddatgloi neu, pan nad oes clo ar y blwch, heb i'r sêl gael ei thorri.

(3) Os yw'r swyddog canlyniadau o'r farn ei bod yn briodol, caniateir defnyddio'r un blwch pleidleisio ar gyfer y bleidlais yn etholiad y gymuned a'r bleidlais ym mhob etholiad perthnasol.

(f) such other information as the returning officer considers appropriate.

(5) Different information may be provided under paragraph (4)(f) to different electors or descriptions of elector.

(6) In the case of an elector with an anonymous entry, the poll card—

(a) must contain such information as is specified in the appropriate form in Appendix 5 instead of the information set out in paragraph (4)(d), and

(b) must be sent or delivered in an envelope or other form of covering so as not to disclose that the elector has an anonymous entry.

(7) If the returning officer and the returning officer for each relevant election consider it appropriate, a poll card issued under this rule may be combined with a poll card of the same type issued at each relevant election.

(8) In this rule —

(a) "elector" means a person who is registered in the register of local government electors for the electoral area in question on the last day for the publication of notice of the election, except that it includes a person then shown in the register (or, in the case of a person with an anonymous entry in the register, in the record of anonymous entries) as below voting age only if it appears from the register (or the record of anonymous entries) that the person will be of voting age on the day fixed for the poll;

(b) "qualifying address" has the same meaning as in the 1983 Act (see section 202(1) of that Act).

Equipment of polling stations

32.—(1) The returning officer must provide each presiding officer with such number of ballot boxes and ballot papers as the returning officer considers necessary.

(2) Each ballot box must be constructed so that ballot papers can be put in it, but cannot be withdrawn from it, without the box being unlocked or, where the box has no lock, without the seal being broken.

(3) If the returning officer considers it appropriate, the same ballot box may be used for the poll at the community election and the poll at each relevant election.

(4) Os bwriedir defnyddio blychau ar wahân, rhaid i bob blwch gael ei farcio'n glir—

- (a) â'r etholiad y mae'n ymwneud ag ef, fel y'i dangosir ar bapurau pleidleisio'r etholiad hwnnw, a
- (b) â gwybodaeth sy'n pennu lliw'r papurau pleidleisio y caniateir eu gosod yn y blwch.

(5) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu i bob gorsaf bleidleisio—

- (a) deunyddiau i alluogi'r pleidleiswyr i farcio'r papurau pleidleisio,
- (b) copïau o'r gofrestr etholwyr berthnasol,
- (c) copïau o unrhyw hysbysiadau a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983 i'r graddau y maent yn ymwneud â'r gofrestr etholwyr berthnasol,
- (d) copïau o'r rhannau o unrhyw restrau o bersonau sydd â hawl i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy sy'n cyfateb i'r gofrestr etholwyr berthnasol, ac
- (e) rhestr ("rhestr rhifau cyfatebol yr orsaf bleidleisio") sy'n cynnwys y rhan honno o Ran 2 o'r rhestr rhifau cyfatebol a baratowyd o dan reol 23 sy'n cynnwys y rhifau, ond nid y marciau adnabod unigryw eraill, sy'n cyfateb i'r rhai ar y papurau pleidleisio a ddarperir i'r swyddog llywyddu o dan baragraff (1).

(6) Ym mharagraff (5), ystyr "y gofrestr etholwyr berthnasol" yw'r gofrestr etholwyr ar gyfer yr ardal etholiadol neu unrhyw ran ohoni sy'n cynnwys y cofnodion sy'n ymwneud â'r etholwyr a ddyrannwyd i'r orsaf bleidleisio.

(7) Rhaid i'r swyddog canlyniadau beri i gopi sampl wedi ei ehangu o'r papur pleidleisio gael ei arddangos ym mhob gorsaf bleidleisio.

(8) Rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd ddarparu i bob gorsaf bleidleisio—

- (a) copi sampl wedi ei ehangu o'r papur pleidleisio i'w ddal yn y llaw er mwyn cynorthwyo pleidleiswyr sy'n rhannol ddall, a
- (b) dyfais i alluogi pleidleiswyr sy'n ddall neu'n rhannol ddall i bleidleisio heb fod angen cymorth y swyddog llywyddu neu gydymaith (gweler rheolau 43 i 45 o ran y cymorth y caiff y swyddog llywyddu neu gydymaith ei roi).

(9) Rhaid i'r copi sampl o'r papur pleidleisio y mae'n ofynnol ei arddangos a'i ddarparu o dan baragraffau (7) ac (8)(a) gael ei farcio'n glir fel sbesimen a'i ddarparu i arwain y pleidleiswyr yn unig.

(4) If separate ballot boxes are to be used, each ballot box must be clearly marked with—

- (a) the election to which it relates, as shown on the ballot papers for that election, and
- (b) information specifying the colour of the ballot papers that may be placed in the box.

(5) The returning officer must provide each polling station with—

- (a) materials to enable voters to mark the ballot papers,
- (b) copies of the relevant register of electors,
- (c) copies of any notices issued under section 13B(3B) or (3D) of the 1983 Act so far as relating to the relevant register of electors,
- (d) copies of the parts of any lists of persons entitled to vote by post or by proxy that correspond to the relevant register of electors, and
- (e) a list ("the polling station's corresponding number list") consisting of that part of Part 2 of the corresponding number list prepared under rule 23 that contains the numbers, but not the other unique identifying marks, corresponding to those on the ballot papers provided to the presiding officer under paragraph (1).

(6) In paragraph (5), "the relevant register of electors" means the register of electors for the electoral area or such part of it as contains the entries relating to the electors allotted to the polling station.

(7) The returning officer must cause to be displayed at each polling station an enlarged sample copy of the ballot paper.

(8) The returning officer must also provide each polling station with—

- (a) an enlarged hand-held sample copy of the ballot paper for the assistance of voters who are partially-sighted, and
- (b) a device for enabling voters who are blind or partially-sighted to vote without any need for assistance from the presiding officer or a companion (see rules 43 to 45 for the assistance that may be obtained from the presiding officer or a companion).

(9) The sample copy of the ballot paper required to be displayed and provided by paragraphs (7) and (8)(a) must be clearly marked as specimen and provided only for the guidance of voters.

(10) Rhaid i'r ddyfais y cyfeirir ati ym mharagraff (8)(b)—

- (a) caniatáu i bapur pleidleisio gael ei fewnosod yn y ddyfais a'i thynnu ohoni, neu ei gysylltu â'r ddyfais a'i datgysylltu oddi wrthi yn hawdd a heb ddifrodi'r papur,
- (b) dal y papur pleidleisio yn gadarn yn ei le wrth gael ei defnyddio, ac
- (c) darparu modd addas i'r pleidleisiwr—
 - (i) adnabod y bylchau ar y papur pleidleisio y gellir marcio pleidleisiau arnynt,
 - (ii) adnabod yr ymgeisydd y mae pob bwlch yn cyfeirio ato, a
 - (iii) marcio'i bleidlais yn y bwlch a ddewisir.

(11) Rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd beri i hysbysiad yn y ffurf yn Atodiad 6, yn rhoi cyfarwyddydau i arwain y pleidleiswyr wrth bleidleisio, gael ei arddangos—

- (a) y tu mewn i bob gorsaf bleidleisio (ond y tu allan i'r bythau pleidleisio), a
- (b) y tu allan i bob gorsaf bleidleisio.

(12) Caniateir hefyd i'r swyddog canlyniadau ddarparu copïau o'r hysbysiad mewn Braille neu mewn unrhyw ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg y mae'r swyddog canlyniadau o'r farn eu bod yn briodol.

(13) Rhaid arddangos hysbysiad sy'n cynnwys yr wybodaeth a ganlyn y tu mewn i bob bwth pleidleisio ym mhob gorsaf bleidleisio—

- (a) pan fo un cynghorydd yn unig i gael ei ethol, cyfarwyddyd i'r pleidleisiwr i bleidleisio unwaith yn unig drwy roi croes [X] yn y blwch gyferbyn â'i ddewis;
- (b) pan fo mwy nag un cynghorydd i gael eu hethol, cyfarwyddyd i'r pleidleisiwr i bleidleisio dros ddim mwy na'r nifer sydd i'w ethol drwy roi croes [X] yn y blwch gyferbyn â phob un o'i ddewisiadau;
- (c) rhybudd i'r pleidleisiwr i beidio â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio neu mae'n bosibl na fydd ei bleidlais yn cyfrif.

(14) Pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, gweler hefyd reoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau (sy'n darparu ar gyfer amgylchiadau lle mae swyddogaethau'r swyddog canlyniadau o dan y rheol hon i gael eu cyflawni gan y swyddog canlyniadau cydlynol).

(10) The device referred to in paragraph (8)(b) must—

- (a) allow a ballot paper to be inserted into and removed from, or attached to and detached from, the device easily and without damage to the paper,
- (b) hold the ballot paper firmly in place during use, and
- (c) provide a suitable means for the voter to—
 - (i) identify the spaces on the ballot paper on which votes may be marked,
 - (ii) identify the candidate to which each space refers, and
 - (iii) mark their vote on the space chosen.

(11) The returning officer must also cause a notice in the form in Appendix 6, giving directions for the guidance of voters in voting, to be displayed—

- (a) inside each polling station (but outside the voting compartments), and
- (b) outside each polling station.

(12) The returning officer may also provide copies of the notice in Braille or in such languages other than English and Welsh as the returning officer considers appropriate.

(13) A notice containing instructions for marking the ballot paper at the community election and each relevant election must be exhibited inside each voting compartment in each polling station and, in relation to the community election, that information must include the following—

- (a) where only one councillor is to be elected, an instruction to the voter to vote only once by putting a cross [X] in the box next to their choice;
- (b) where more than one councillor is to be elected, an instruction to the voter to vote for no more than the number to be elected by putting a cross [X] in the box next to their choices;
- (c) a warning to the voter to put no other mark on the ballot paper or their vote may not count.

(14) Where the returning officer is not the co-ordinating returning officer, see also regulations 4 and 5 of the Combination of Polls Regulations (which provide for circumstances in which the functions of the returning officer under this rule are to be discharged by the co-ordinating returning officer).

Penodi asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif

33.—(1) Cyn i'r bleidlais ddechrau, caiff ymgeisydd benodi—

- (a) asiantau pleidleisio i fod yn bresennol mewn gorsafodd pleidleisio er mwyn canfod cambersonadu, a
- (b) asiantau cyfrif i fod yn bresennol wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif.

(2) Caniateir i'r un person gael ei benodi'n asiant pleidleisio neu'n asiant cyfrif gan fwy nag un ymgeisydd.

(3) Uchafswm yr asiantau pleidleisio a gaiff fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio yw pedwar neu unrhyw nifer uwch a ganiateir gan y swyddog canlyniadau drwy hysbysiad.

(4) Os yw nifer yr asiantau pleidleisio a benodir i fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio benodol yn fwy na phedwar (neu unrhyw nifer uwch a ganiateir gan y swyddog canlyniadau drwy hysbysiad)—

- (a) rhaid i'r swyddog canlyniadau benderfynu pa asiantau y caniateir iddynt fod yn bresennol drwy fwrw coelbren, a
- (b) dim ond yr asiantau y mae'r coelbren yn mynd o'u plaid sydd i'w trin fel pe baent wedi eu penodi.

(5) Caiff y swyddog canlyniadau osod terfyn ar nifer yr asiantau cyfrif y caniateir i bob ymgeisydd eu penodi ond rhaid i'r terfyn—

- (a) bod yr un fath ar gyfer pob un o'r ymgeiswyr, a
- (b) oni bai bod amgylchiadau arbennig, beidio â bod yn llai na'r nifer a geir drwy rannu nifer y clerod a gyflogir yn y cyfrif â nifer yr ymgeiswyr (gan anwybyddu unrhyw weddill).

(6) At ddibenion y cyfrifiadau sy'n ofynnol gan baragraff (5), mae asiant cyfrif a benodwyd ar gyfer mwy nag un ymgeisydd yn asiant ar wahân ar gyfer pob un o'r ymgeiswyr y'i penodwyd ganddynt.

(7) Rhaid i'r ymgeisydd roi hysbysiad i'r swyddog canlyniadau cydlynol pan benodir asiantau pleidleisio neu asiantau cyfrif.

(8) Rhaid i'r hysbysiad—

- (a) rhoi enwau a chyfeiriadau'r personau a benodwyd, a
- (b) cael ei roi dim hwyrach na'r pumed diwrnod cyn diwrnod y bleidlais, gan ddiystyru unrhyw ddiwrnod eithriadig.

Appointment of polling and counting agents

33.—(1) A candidate may, before the poll begins, appoint—

- (a) polling agents to attend at polling stations for the purpose of detecting personation, and
- (b) counting agents to attend at the counting of votes.

(2) The same person may be appointed as a polling agent or counting agent by more than one candidate.

(3) The maximum number of polling agents who may attend a polling station is four or such greater number as the returning officer may by notice permit.

(4) If the number of polling agents appointed to attend at a particular polling station exceeds four (or any greater number that the returning officer has by notice permitted)—

- (a) the returning officer must decide which agents are permitted to attend by lot, and
- (b) only the agents on whom the lot falls are to be treated as having been appointed.

(5) The returning officer may impose a limit on the number of counting agents who may be appointed by each candidate but the limit—

- (a) must be the same for all the candidates, and
- (b) unless there are special circumstances, must not be less than the number obtained by dividing the number of clerks employed at the count by the number of candidates (ignoring any remainder).

(6) For the purposes of the calculations required by paragraph (5), a counting agent who has been appointed for more than one candidate is a separate agent for each of the candidates by whom they have been appointed.

(7) The candidate must give a notice to the co-ordinating returning officer where polling or counting agents are appointed.

(8) The notice must—

- (a) give the names and addresses of the persons appointed, and
- (b) be given no later than the fifth day before the day of the poll, disregarding any excluded day.

(9) Os bydd asiant pleidleisio neu asiant cyfrif yn marw neu'n dod yn analluog i weithredu—

- (a) caiff yr ymgeisydd benodi asiant arall yn ei le, a
- (b) rhaid i'r ymgeisydd roi hysbysiad i'r swyddog canlyniadau cydlynol ar unwaith yn datgan enw a chyfeiriad yr asiant arall.

Asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif: darpariaeth atodol

34.—(1) Caiff ymgeisydd neu asiant etholiadol yr ymgeisydd (os penodwyd un)—

- (a) gwneud unrhyw beth y mae asiant pleidleisio neu asiant cyfrif yr ymgeisydd wedi ei awdurdodi i'w wneud (neu y byddai wedi ei awdurdodi i'w wneud, pe bai wedi ei benodi);
- (b) cynorthwyo asiant pleidleisio neu asiant cyfrif yr ymgeisydd i wneud unrhyw beth y mae'r asiant pleidleisio neu'r asiant cyfrif wedi ei awdurdodi i'w wneud.

(2) Caniateir i unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu yr awdurdodir ei wneud o dan y rheolau hyn ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio neu'r asiantau cyfrif gael ei wneud yn hytrach ym mhresenoldeb asiant etholiadol yr ymgeisydd (os penodwyd un).

(3) Pan fo'r rheolau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ryw beth gael ei wneud neu'n awdurdodi rhywbeth i gael ei wneud ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio neu'r asiantau cyfrif, nid yw diffyg presenoldeb yr asiant neu'r asiantau ar yr adeg a'r lle a benodwyd yn peri bod y peth a wneir yn annilys.

(4) Pan nad oes gan ymgeisydd asiant cyfrif, caiff y swyddog canlyniadau roi unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi i'r asiant cyfrif o dan y rheolau hyn i'r ymgeisydd.

Hysbysu'r gofyniad cyfrinachedd

35.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau wneud trefniadau i sicrhau bod pawb sy'n bresennol mewn gorsaf bleidleisio, heblaw am berson a ddisgrifir ym mharagraff (2)(a) i (d), wedi cael hysbysiad yn nodi darpariaethau adran 66(1), (3) a (6) o Ddeddf 1983.

(2) Y personau nad yw'r ddyletswydd o dan baragraff (1) yn gymwys iddynt yw—

- (a) person sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio at ddiben pleidleisio;
- (b) person o dan 16 oed sy'n mynd yng nghwmni pleidleisiwr i'r orsaf bleidleisio;
- (c) person sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio fel cydymaith pleidleisiwr ag anableddau;

(9) If a polling agent or counting agent dies or becomes incapable of acting, the candidate—

- (a) may appoint another agent instead, and
- (b) must immediately give the co-ordinating returning officer a notice stating the other agent's name and address.

Polling and counting agents: supplemental provision

34.—(1) A candidate or the candidate's election agent (if appointed) may—

- (a) do anything that the candidate's polling or counting agent is authorised to do (or would, if appointed, have been authorised to do);
- (b) assist the candidate's polling or counting agent to do anything that the polling or counting agent is authorised to do.

(2) Anything required or authorised by these rules to be done in the presence of the polling or counting agents may be done instead in the presence of the candidate's election agent (if appointed).

(3) Where these rules require or authorise something to be done in the presence of the polling or counting agents, the non-attendance of the agent or agents at the time and place appointed does not invalidate the thing done.

(4) Where a candidate does not have a counting agent, the returning officer may give the candidate any notice that is required by these rules to be given to the counting agent.

Notification of requirement of secrecy

35.—(1) The returning officer must make arrangements to ensure that every person attending at a polling station, other than a person described in paragraph (2)(a) to (d), has been given a notice setting out the provisions of section 66(1), (3) and (6) of the 1983 Act.

(2) The persons to whom the duty under paragraph (1) does not apply are—

- (a) a person attending the polling station for the purpose of voting;
- (b) a person under the age of 16 who accompanies a voter to the polling station;
- (c) a person attending the polling station as the companion of a voter with disabilities;

(d) person sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio fel cwnstabl ar ddyletswydd.

(3) Yn y rheol hon, mae cyfeiriad at gwnstabl yn cynnwys cyfeiriad at berson a ddynodwyd yn swyddog cymorth cymunedol neu'n wirfoddolwr cymorth cymunedol o dan adran 38 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (pŵerau'r heddlu i staff sy'n sifiliaid a gwirfoddolwyr).

(4) Pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, gweler hefyd reoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau (sy'n darparu ar gyfer amgylchiadau lle mae swyddogaethau'r swyddog canlyniadau o dan y rheol hon i gael eu cyflawni gan y swyddog canlyniadau cydlynol).

Dychwelyd papurau pleidleisio post

36.—(1) Pan fo pleidlais bost wedi ei dychwelyd mewn cysylltiad â pherson sydd wedi ei gofnodi ar y rhestr pleidleiswyr post, rhaid i'r swyddog canlyniadau farcio'r rhestr yn y modd a ragnodir gan reoliadau o dan Ddeddf 1983.

(2) Pan fo pleidlais bost drwy ddirprwy wedi ei dychwelyd mewn cysylltiad â dirprwy sydd wedi ei gofnodi ar y rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy, rhaid i'r swyddog canlyniadau farcio'r rhestr yn y modd a ragnodir gan reoliadau o dan y Ddeddf honno.

(3) Nid yw rheol 58 yn gymwys at ddibenion penderfynu a yw pleidlais bost neu bleidlais bost drwy ddirprwy wedi ei dychwelyd at ddibenion y rheol hon.

(4) Pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, gweler hefyd reoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau (sy'n darparu ar gyfer amgylchiadau lle mae swyddogaethau'r swyddog canlyniadau o dan y rheol hon i gael eu cyflawni gan y swyddog canlyniadau cydlynol).

Y Bleidlais

Derbyn i'r orsaf bleidleisio

37.—(1) Rhaid i'r swyddog llywyddu wahardd pawb o'r orsaf bleidleisio ac eithrio—

- (a) pleidleiswyr a ddyrannwyd i'r orsaf bleidleisio,
- (b) personau o dan 16 oed sy'n mynd yng nghwmni pleidleiswyr i'r orsaf bleidleisio,
- (c) yr ymgeiswyr a'u hasiantau etholiadol (os penodwyd un),
- (d) yr asiantau pleidleisio a benodwyd i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio,
- (e) y clercod a benodwyd i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio,

(d) a person attending the polling station as a constable on duty.

(3) In this rule, a reference to a constable includes a person designated as a community support officer or community support volunteer under section 38 of the Police Reform Act 2002 (police powers for civilian staff and volunteers).

(4) Where the returning officer is not the co-ordinating returning officer, see also regulations 4 and 5 of the Combination of Polls Regulations (which provide for circumstances in which the functions of the returning officer under this rule are to be discharged by the co-ordinating returning officer).

Return of postal ballot papers

36.—(1) Where a postal vote has been returned in respect of a person who is entered on the postal voters list, the returning officer must mark the list in the manner prescribed by regulations under the 1983 Act.

(2) Where a proxy postal vote has been returned in respect of a proxy who is entered on the proxy postal voters list, the returning officer must mark the list in the manner prescribed by regulations under that Act.

(3) Rule 58 does not apply for the purpose of deciding whether, for the purposes of this rule, a postal vote or a proxy postal vote is returned.

(4) Where the returning officer is not the co-ordinating returning officer, see also regulations 4 and 5 of the Combination of Polls Regulations (which provide for circumstances in which the functions of the returning officer under this rule are to be discharged by the co-ordinating returning officer).

The Poll

Admission to polling station

37.—(1) The presiding officer must exclude all persons from the polling station except—

- (a) voters allotted to the polling station,
- (b) persons under the age of 16 who accompany voters to the polling station,
- (c) the candidates and their election agents (if appointed),
- (d) the polling agents appointed to attend at the polling station,
- (e) the clerks appointed to attend at the polling station,

- (f) y swyddog canlyniadau neu aelodau staff y swyddog canlyniadau,
- (g) personau sydd â hawl i fod yn bresennol yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o adrannau 6A i 6D o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol a sylwedyddion achrededig),
- (h) y cwnstablaid ar ddyletswydd,
- (i) cymdeithion pleidleiswyr ag anableddau, a
- (j) personau sydd â hawl i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio at ddibenion etholiad perthnasol.

(2) Rhaid i'r swyddog llywyddu reoleiddio cyfanswm nifer y pleidleiswyr a'r personau o dan 16 oed sydd yn eu cwmni a dderbynnir i'r orsaf bleidleisio yr un pryd.

(3) Dim ond un asiant pleidleisio y caniateir ei dderbyn yr un pryd i orsaf bleidleisio ar ran yr un ymgeisydd.

(4) Caiff cwnstabl sy'n pleidleisio'n bersonol wneud hynny naill ai—

- (a) yn yr orsaf bleidleisio a ddyrannwyd o dan y rheolau hyn, neu
- (b) mewn gorsaf bleidleisio arall, os yw'r cwnstabl yn dangos ac yn ildio tystysgrif yn y ffurf yn Atodiad 7 neu ffurf i'r un perwyl, a lofnodwyd gan swyddog heddlu sydd â gradd arolygydd neu'n uwch.

(5) Caiff person a gyflogir gan y swyddog canlyniadau, os yw'n pleidleisio'n bersonol, wneud hynny naill ai—

- (a) yn yr orsaf bleidleisio a ddyrannwyd o dan y rheolau hyn, neu
- (b) mewn gorsaf bleidleisio arall, os yw'r person yn dangos ac yn ildio tystysgrif yn y ffurf yn Atodiad 7 neu ffurf i'r un perwyl, a lofnodwyd gan y swyddog canlyniadau.

(6) Caniateir i un dystysgrif gael ei defnyddio ar gyfer etholiad y gymuned a phob etholiad perthnasol.

(7) Rhaid i dystysgrif sy'n cael ei hildio o dan baragraff (4) neu (5) gael ei chanslo ar unwaith.

(8) Yn y rheol hon, mae cyfeiriad at gwnstabl yn cynnwys cyfeiriad at berson a ddynodwyd yn swyddog cymorth cymunedol neu'n wirfoddolwr cymorth cymunedol o dan adran 38 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (pwerau'r heddlu i staff sy'n sifiliaid a gwirfoddolwyr).

(9) Pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, gweler hefyd reoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau (sy'n darparu ar gyfer amgylchiadau lle mae swyddogaeth llofnodi tystysgrif

- (f) the returning officer or members of the returning officer's staff,
- (g) persons who are entitled to attend by virtue of any of sections 6A to 6D of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (representatives of the Electoral Commission and accredited observers),
- (h) the constables on duty,
- (i) the companions of voters with disabilities, and
- (j) persons entitled to be present at the polling station for the purposes of a relevant election.

(2) The presiding officer must regulate the total number of voters and persons under the age of 16 who accompany them who are admitted to the polling station at the same time.

(3) Only one polling agent may be admitted at the same time to a polling station on behalf of the same candidate.

(4) A constable voting in person may do so either—

- (a) at the polling station allotted under these rules, or
- (b) at another polling station, if the constable produces and surrenders a certificate in the form in Appendix 7 or a form to the like effect, signed by an officer of police of or above the rank of inspector.

(5) A person employed by the returning officer, if voting in person, may do so either—

- (a) at the polling station allotted under these rules, or
- (b) at another polling station, if the person produces and surrenders a certificate in the form in Appendix 7 or a form to the like effect, signed by the returning officer.

(6) A single certificate may be used for the community election and each relevant election.

(7) A certificate surrendered under paragraph (4) or (5) must immediately be cancelled.

(8) In this rule, a reference to a constable includes a reference to a person designated as a community support officer or community support volunteer under section 38 of the Police Reform Act 2002 (police powers for civilian staff and volunteers).

(9) Where the returning officer is not the co-ordinating returning officer, see also regulations 4 and 5 of the Combination of Polls Regulations (which provide for circumstances in which the function of signing a certificate for the purpose of paragraph (5) of

at ddibenion paragraff (5) o'r rheol hon i gael ei chyflawni gan y swyddog canlyniadau cydlynol).

Cadw trefn yn yr orsaf

38.—(1) Rhaid i'r swyddog llywyddu gadw trefn yn yr orsaf bleidleisio.

(2) Os bydd person yn camymddwyn mewn gorsaf bleidleisio, neu'n methu ag ufuddhau i unrhyw orchymynion a roddir yn gyfreithlon gan y swyddog llywyddu, caiff y swyddog llywyddu orchymyn i'r person gael ei symud o'r orsaf bleidleisio.

(3) Pan fo'r swyddog llywyddu yn gorchymyn bod person yn cael ei symud, caniateir i'r person gael ei symud ar unwaith—

- (a) gan gwnstabl yn yr orsaf bleidleisio neu yn ei hymyl, neu
- (b) gan unrhyw berson arall a awdurdodir mewn ysgrifen gan y swyddog canlyniadau i symud pobl o'r orsaf bleidleisio.

(4) Pan fo person wedi ei symud, ni chaiff fynd yn ôl, heb ganiatâd y swyddog llywyddu, i'r orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais.

(5) Pan gyhuddir person sydd wedi ei symud o gyflawni trosedd yn yr orsaf bleidleisio, caniateir ymddrin â'r person fel person y mae cwnstabl wedi mynd ag ef i'r ddalfa am drosedd heb warant.

(6) Ni chaniateir i'r pwerau a roddir gan y rheol hon gael eu harfer er mwyn atal pleidleisiwr sydd fel arall â hawl i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio rhag cael cyfle i bleidleisio yn yr orsaf honno.

(7) Pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, gweler hefyd reoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau (sy'n darparu ar gyfer amgylchiadau lle mae swyddogaeth y swyddog canlyniadau o dan baragraff (3)(b) o'r rheol hon i gael ei chyflawni gan y swyddog canlyniadau cydlynol).

Selio blychau pleidleisio

39.—(1) Rhaid i'r swyddog llywyddu gymryd y camau a ganlyn yn union cyn i'r bleidlais ddechrau.

(2) Rhaid i'r swyddog llywyddu ddangos y blwch pleidleisio gwag i'r bobl hynny (os oes rhai) sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio, fel y gallant weld ei fod yn wag.

(3) Yna rhaid i'r swyddog llywyddu—

- (a) cloi'r blwch, os oes iddo glo, a
- (b) gosod sêl y swyddog canlyniadau arno, mewn modd sy'n ei atal rhag cael ei agor heb dorri'r sêl.

this rule is to be discharged by the co-ordinating returning officer).

Keeping of order in station

38.—(1) The presiding officer must keep order at the polling station.

(2) If a person engages in misconduct in a polling station, or fails to obey any orders lawfully given by the presiding officer, the presiding officer may order that the person be removed from the polling station.

(3) Where the presiding officer orders that a person be removed, the person may be removed immediately—

- (a) by a constable in or near the polling station, or
- (b) by any other person authorised in writing by the returning officer to remove people from the polling station.

(4) Where a person is removed, the person may not, without the presiding officer's permission, re-enter the polling station on the day of the poll.

(5) Where a person who is removed is charged with the commission of an offence in the polling station, the person may be dealt with as a person taken into custody by a constable for an offence without a warrant.

(6) The powers conferred by this rule must not be exercised so as to prevent a voter who is otherwise entitled to vote at a polling station from having an opportunity of voting at that station.

(7) Where the returning officer is not the co-ordinating returning officer, see also regulations 4 and 5 of the Combination of Polls Regulations (which provide for circumstances in which the function of the returning officer under paragraph (3)(b) of this rule is to be discharged by the co-ordinating returning officer).

Sealing of ballot boxes

39.—(1) The presiding officer must take the following steps immediately before the poll begins.

(2) The presiding officer must show the empty ballot box to those people (if any) who are present in the polling station, so that they may see that it is empty.

(3) The presiding officer must then—

- (a) lock up the box, if it has a lock, and
- (b) place the returning officer's seal on it, in such a way as to prevent it being opened without breaking the seal.

(4) Yna rhaid i'r swyddog llywyddu osod y blwch, o fewn golwg y swyddog llywyddu, i dderbyn papurau pleidleisio.

(5) Rhaid i'r swyddog llywyddu gadw'r blwch dan glo a than sêl neu (os nad oes iddo glo) ei gadw dan sêl.

Cwestiynau y caniateir eu gofyn i bleidleiswyr

40.—(1) Adeg cais am bapur pleidleisio (ond nid wedyn), caiff y swyddog llywyddu ofyn i unrhyw berson a ddisgrifir yng ngholofn gyntaf Tabl 1 (a nodir ym mharagraff (3)) neu yng ngholofn gyntaf Tabl 2 (a nodir ym mharagraff (4)), un neu ragor o'r cwestiynau a nodir yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn.

(2) Os bydd yr ymgeisydd neu asiant etholiadol neu asiant pleidleisio'r ymgeisydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog llywyddu wneud hynny, rhaid i'r swyddog llywyddu ofyn i unrhyw berson a ddisgrifir yng ngholofn gyntaf Tabl 1 un neu ragor o'r cwestiynau a nodir yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn.

(3) Mae Tabl 1 yn nodi cwestiynau y caiff swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (1) ac y caiff ymgeisydd (neu asiant etholiadol neu asiant pleidleisio'r ymgeisydd) ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu gofyn o dan baragraff (2).

Tabl 1

<i>Disgrifiad</i>	<i>Cwestiynau</i>
1. Person sy'n gwneud cais fel etholwr	<p>1(a) Ai chi yw'r person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr etholiad hwn fel a ganlyn?</p> <p>Nodiadau ar 1(a) Yna rhaid i'r swyddog llywyddu ddarllen y cofnod cyfan o'r copïau o'r cofnodion cofrestru.</p> <p>1(b) Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward hon neu ward arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i'r gymuned hon, heblaw fel dirprwy ar ran rhyw berson arall?</p>

(4) The presiding officer must then place the box, within the presiding officer's view, for the receipt of ballot papers.

(5) The presiding officer must keep the box locked and sealed or (if it does not have a lock) keep it sealed.

Questions that may be put to voters

40.—(1) At the time of an application for a ballot paper (but not afterwards), the presiding officer may put to any person described in the first column of Table 1 (set out in paragraph (3)) or in the first column of Table 2 (set out in paragraph (4)), one or more of the questions set out in the corresponding entry in the second column.

(2) If required to do so by the candidate or the candidate's election or polling agent, the presiding officer must put to any person described in the first column of Table 1 one or more of the questions set out in the corresponding entry in the second column.

(3) Table 1 sets out questions that a presiding officer may put under paragraph (1) and that a candidate (or the candidate's election or polling agent) may require to be put under paragraph (2).

Table 1

<i>Description</i>	<i>Questions</i>
1. A person applying as an elector	<p>1(a) Are you the person registered in the register of local government electors for this election as follows?</p> <p>Notes to 1(a) The presiding officer must then read the whole entry from the copies of the registration records.</p> <p>1(b) Have you already voted, in this or another ward, at the election of councillors for this community, otherwise than as proxy for some other person?</p>

	<p>Nodiadau ar 1(b) Caniateir hepgor y geiriau “, yn y ward hon neu ward arall,” os oes etholiad yn digwydd mewn un ward yn unig neu os nad oes wardiau.</p>
<p>2. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ar ran etholwr heblaw etholwr sydd â chofnod dienw</p>	<p>2(a) Ai chi yw'r person y mae ei enw'n ymddangos fel AB yn y rhestr dirprwyon ar gyfer yr etholiad hwn fel person sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran CD?</p> <p>2(b) Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward hon neu ward arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i'r gymuned hon, fel dirprwy ar ran CD?</p> <p>2(c) Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, taid, nain, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres CD?</p> <p>Nodiadau ar 2(a) i (c) Pan fo cwestiwn yn cyfeirio at AB, mae'r swyddog llywyddu'n darllen yr enw fel y mae'n ymddangos yn y rhestr dirprwyon. Pan fo cwestiwn yn cyfeirio at CD, mae'r swyddog llywyddu'n darllen enw'r etholwr. Nodyn ar 2(b) Caniateir hepgor y geiriau “, yn y ward hon neu ward arall,” os oes etholiad yn digwydd mewn un ward yn unig neu os nad oes wardiau.</p>

	<p>Notes to 1(b) The words “, in this or another ward,” may be omitted if an election is taking place only in one ward or if there are no wards.</p>
<p>2. A person applying as proxy for an elector other than an elector who has an anonymous entry</p>	<p>2(a) Are you the person whose name appears as AB in the list of proxies for this election as entitled to vote as proxy on behalf of CD?</p> <p>2(b) Have you already voted, in this or another ward, at the election of councillors for this community, as proxy on behalf of CD?</p> <p>2(c) Are you the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild of CD?</p> <p>Notes to 2(a) to (c) Where a question refers to AB, the presiding officer reads out the name as it appears in the list of proxies. Where a question refers to CD, the presiding officer reads out the name of the elector. Note to 2(b) The words “, in this or another ward,” may be omitted if an election is taking place only in one ward or if there are no wards.</p>

<p>3. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ar ran etholwr sydd â chofnod dienw</p>	<p>3(a) Ai chi yw'r person sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif [x] yn y gofrestr etholwyr?</p> <p>3(b) Ydych chi eisoes wedi pleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif [x] yn y gofrestr etholwyr?</p> <p>3(c) Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, taid, nain, brawd, chwaer, plentyn, wŷr neu wyres y person sydd â'r rhif [x] yn y gofrestr etholwyr?</p> <p>Nodyn ar 3(a) i (c) Pan fo'r cwestiynau yn y cofnod hwn yn cyfeirio at [x], rhaid i'r swyddog llywyddu ddarllen rhif yr etholwr o'r copïau o'r cofnodion cofrestru.</p>
<p>4. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy y gofynnwyd y cwestiwn sydd wedi ei rifo 2(c) neu 3(c) yng ngholofn 2 iddo ac nad yw wedi ateb "Ie"</p>	<p>4. Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward hon neu ward arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i'r gymuned hon, ar ran dau berson nad ydych yn briod, partner sifil, rhiant, taid, nain, brawd, chwaer, plentyn, wŷr neu wyres iddynt?</p> <p>Nodyn ar 4 Caniateir hepgor y geiriau “, yn y ward hon neu ward arall,” os oes etholiad yn digwydd mewn un ward yn unig neu os nad oes wardiau.</p>

<p>3. A person applying as proxy for an elector who has an anonymous entry</p>	<p>3(a) Are you the person entitled to vote as proxy on behalf of the elector whose number on the register of electors is [x]?</p> <p>3(b) Have you already voted as proxy on behalf of the elector whose number on the register of electors is [x]?</p> <p>3(c) Are you the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild of the person whose number on the register of electors is [x]?</p> <p>Note to 3(a) to (c) Where the questions in this entry refer to [x], the presiding officer must read the elector's number from the copies of the registration records.</p>
<p>4. A person applying as proxy who has been asked the question numbered 2(c) or 3(c) in column 2 and has not answered "Yes"</p>	<p>4. Have you already voted, in this or another ward, at the election of councillors for this community, on behalf of two persons of whom you are not the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild?</p> <p>Note to 4 The words “, in this or another ward,” may be omitted if an election is taking place only in one ward or if there are no wards.</p>

(4) Mae Tabl 2 yn nodi'r cwestiynau y caiff swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (1) (ond na chaniateir ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (2)).

Tabl 2

<i>Disgrifiad</i>	<i>Cwestiynau</i>
1. Person sy'n gwneud cais fel etholwr y ceir cofnod mewn perthynas ag ef yn y rhestr pleidleiswyr post	1(a) Wnaethoch chi gais am bleidleisio drwy'r post? 1(b) Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy'r post?
2. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ac sydd wedi ei enwi yn y rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy	2(a) Wnaethoch chi gais am bleidleisio drwy'r post fel dirprwy? 2(b) Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy'r post fel dirprwy?

(5) Ni chaniateir rhoi papur pleidleisio i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo ateb un neu ragor o'r cwestiynau yn Nhabl 1 neu 2 oni bai bod y person wedi ateb y cwestiwn neu'r cwestiynau'n foddhaol.

(6) Ac eithrio fel yr awdurdodir gan y rheol hon, ni chaniateir ymholi ynglŷn â hawl unrhyw berson i bleidleisio.

(7) Yn y rheol hon, ystyr "y copïau o'r cofnodion cofrestru" yw'r copïau a ddarperir gan y swyddog canlyniadau ar gyfer yr orsaf bleidleisio o dan real 32(5)(b) ac (c) (copïau o'r gofrestr etholwyr berthnasol a chopïau o unrhyw hysbysiadau a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983 sy'n ymwneud â'r gofrestr etholwyr berthnasol).

Herio pleidleisiwr

41. Ni chaniateir atal person rhag pleidleisio dim ond am fod y naill neu'r llall neu'r ddau o'r canlynol yn gymwys—

- (a) bod ymgeisydd, asiant etholiadol ymgeisydd (os penodwyd un) neu asiant pleidleisio ymgeisydd wedi datgan bod ganddynt achos rhesymol dros gredu bod y person wedi cyflawni trosedd cambersonadu;
- (b) bod y person wedi ei arestio ar y sail yr amheuir ei fod wedi cyflawni neu ar fin cyflawni trosedd cambersonadu.

(4) Table 2 sets out the questions that a presiding officer may put under paragraph (1) (but cannot be required to put under paragraph (2)).

Table 2

<i>Description</i>	<i>Questions</i>
1. A person applying as an elector in relation to whom there is an entry in the postal voters list	1(a) Did you apply to vote by post? 1(b) Why have you not voted by post?
2. A person applying as proxy who is named in the proxy postal voters list	2(a) Did you apply to vote by post as proxy? 2(b) Why have you not voted by post as proxy?

(5) A ballot paper must not be given to any person required to answer one or more of the questions in Table 1 or 2 unless the person has answered the question or questions satisfactorily.

(6) Except as authorised by this rule, no inquiry is permitted as to the right of any person to vote.

(7) In this rule, "the copies of the registration records" means the copies provided by the returning officer for the polling station under rule 32(5)(b) and (c) (copies of the relevant register of electors and copies of any notices issued under section 13B(3B) or (3D) of the 1983 Act relating to the relevant register of electors).

Challenge of voter

41. A person must not be prevented from voting by reason only that either or both of the following apply—

- (a) a candidate, a candidate's election agent (if appointed) or a candidate's polling agent declares that they have reasonable cause to believe that the person has committed an offence of personation;
- (b) the person is arrested on the grounds that they are suspected of committing or being about to commit an offence of personation.

Gweithdrefn pleidleisio

42.—(1) Rhaid rhoi papur pleidleisio i bleidleisiwr sy'n gwneud cais am un.

(2) Yn union cyn i'r papur pleidleisio gael ei roi—

- (a) rhaid i rif yr etholwr, fel y'i nodir yn y copiâu o'r cofnodion cofrestru, gael ei alw,
- (b) oni bai bod gan yr etholwr gofnod dienw, rhaid i enw'r etholwr, fel y'i nodir yn y copiâu o'r cofnodion cofrestru, gael ei alw hefyd,
- (c) rhaid i rif yr etholwr gael ei farcio ar restr rhifau cyfatebol yr orsaf bleidleisio wrth ochr rhif y papur pleidleisio sydd i'w ddyroddi,
- (d) rhaid gosod marc yn y copiâu o'r cofnodion cofrestru gyferbyn â rhif yr etholwr i nodi bod papur pleidleisio wedi ei dderbyn, ond heb ddangos y papur pleidleisio penodol a dderbyniwyd, ac
- (e) yn achos person sy'n gwneud cais am bapur pleidleisio fel dirprwy, rhaid gosod marc hefyd gyferbyn ag enw'r person yn y rhestr dirprwyon.

(3) Yn achos etholwr sydd â chofnod dienw—

- (a) dim ond os dangosir cerdyn pleidleisio swyddogol yr etholwr neu, pan fo'r etholwr yn pleidleisio drwy ddirprwy, cerdyn pleidleisio swyddogol y dirprwy, i'r swyddog llywyddu y caniateir rhoi'r papur pleidleisio, a

(b) dim ond rhif yr etholwr y caniateir ei alw.

(4) Ar ôl cael y papur pleidleisio, rhaid i'r pleidleisiwr fynd ar unwaith i un o'r bythau yn yr orsaf bleidleisio.

(5) Heb oedi'n ddiangen, rhaid wedyn i'r pleidleisiwr—

- (a) marcio'r papur pleidleisio'n gyfrinachol,
- (b) plygu'r papur pleidleisio er mwyn cuddio'r bleidlais,
- (c) dangos cefn y papur pleidleisio i'r swyddog llywyddu, er mwyn datgelu'r rhif a'r marc adnabod unigryw arall, a
- (d) rhoi'r papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio yn mhresenoldeb y swyddog llywyddu.

(6) Cyn gynted ag y bydd y pleidleisiwr wedi rhoi'r papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio, rhaid i'r pleidleisiwr adael yr orsaf bleidleisio.

(7) Os bydd pleidleisiwr yn yr orsaf bleidleisio, neu mewn ciw y tu allan i'r orsaf bleidleisio, wrth i'r bleidlais gau ac nad yw wedi gallu bwrw ei bleidlais eto, rhaid i'r swyddog llywyddu ganiatáu i'r

Voting procedure

42.—(1) A ballot paper must be given to a voter who applies for one.

(2) Immediately before the ballot paper is given—

- (a) the number of the elector, as stated in the copies of the registration records, must be called out,
- (b) unless the elector has an anonymous entry, the name of the elector, as stated in the copies of the registration records, must also be called out,
- (c) the number of the elector must be marked on the polling station's corresponding number list beside the number of the ballot paper to be issued,
- (d) a mark must be placed in the copies of the registration records against the number of the elector to note that a ballot paper has been received, but without showing the particular ballot paper that has been received, and
- (e) in the case of a person applying for a ballot paper as proxy, a mark must also be placed against the person's name in the list of proxies.

(3) In the case of an elector who has an anonymous entry—

- (a) the ballot paper may be given only if the elector's official poll card or, where the elector is voting by proxy, the proxy's official poll card is shown to the presiding officer, and

(b) only the elector's number may be called out.

(4) On receiving the ballot paper, the voter must go immediately into one of the compartments in the polling station.

(5) Without undue delay, the voter must then—

- (a) secretly mark the ballot paper,
- (b) fold the ballot paper up so as to conceal the vote,
- (c) show the presiding officer the back of the ballot paper, so as to disclose the number and other unique identifying mark, and
- (d) put the ballot paper into the ballot box in the presiding officer's presence.

(6) As soon as the voter has put the ballot paper in the ballot box, the voter must leave the polling station.

(7) If a voter is in the polling station, or in a queue outside the polling station, at the close of the poll and has not yet been able to cast their vote, the presiding

pleidleisiwr fwrw ei bleidlais cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(8) Caniateir i'r copïau o'r cofnodion cofrestru a ddefnyddir ar gyfer etholiad y gymuned gael eu defnyddio hefyd ar gyfer pob etholiad perthnasol.

(9) Pan ddyroddir papurau pleidleisio i bleidleisiwr mewn cysylltiad ag etholiad y gymuned ac mewn cysylltiad â phob etholiad perthnasol, caniateir gosod un marc yn y copïau o'r cofnodion cofrestru a, lle bo'n briodol, yn y rhestr dirprwyon i ddynodi bod y papurau pleidleisio wedi eu dyroddi.

(10) Mewn unrhyw achos arall, rhaid marcio'r copïau o'r cofnodion cofrestru a, lle bo'n briodol, y rhestr dirprwyon mewn modd sy'n dynodi pob etholiad y mae papur pleidleisio wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad ag ef.

(11) Yn y rheol hon, mae i "y copïau o'r cofnodion cofrestru" yr un ystyr ag yn rheol 40 (gweler paragraff (7) o'r rheol honno).

Pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy'n methu darllen: marcio pleidleisiau gan y swyddog llywyddu

43.—(1) Caiff pleidleisiwr wneud cais i'r swyddog llywyddu am i'w bleidlais gael ei marcio os yw'r pleidleisiwr—

- (a) yn methu, oherwydd dallineb neu anabledd arall, â phleidleisio yn y modd a gyfarwyddir gan y rheolau hyn, neu
- (b) yn datgan ar lafar nad yw'n gallu darllen.

(2) Pan wneir cais, rhaid i'r swyddog llywyddu, ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yn yr orsaf bleidleisio pan wneir y cais—

- (a) peri i bleidlais y pleidleisiwr gael ei marcio ar bapur pleidleisio yn y modd a gyfarwyddir gan y pleidleisiwr, a
- (b) peri i'r papur pleidleisio gael ei osod yn y blwch pleidleisio.

(3) Pan fo pleidlais pleidleisiwr wedi ei marcio yn unol â pharagraff (2), rhaid i'r swyddog llywyddu nodi'r manylion a ganlyn ar restr a gedwir gan y swyddog llywyddu at ddibenion y rheol hon ("y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu")—

- (a) enw a rhif y pleidleisiwr, fel y'u dangosir yn y copïau o'r cofnodion cofrestru, a
- (b) y rheswm y cafodd y bleidlais ei marcio.

(4) Yn achos person sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr, y rhif sydd i'w gofnodi ynghyd ag enw'r pleidleisiwr yn y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu yw rhif yr etholwr.

officer must permit the voter to cast their vote as soon as practicable.

(8) The copies of the registration records that are used for the community election may also be used for each relevant election.

(9) Where ballot papers are issued to a voter in respect of the community election and in respect of each relevant election, one mark may be placed in the copies of the registration records and, where appropriate, in the list of proxies to denote that the ballot papers have been issued.

(10) In any other case, the copies of the registration records and, where appropriate, the list of proxies must be marked in such a way as to identify each election in respect of which a ballot paper has been issued.

(11) In this rule, "the copies of the registration records" has the same meaning as in rule 40 (see paragraph (7) of that rule).

Voters with a disability or unable to read: marking of votes by presiding officer

43.—(1) A voter may apply to the presiding officer for their vote to be marked if the voter—

- (a) is unable, because of blindness or other disability, to vote in the manner directed by these rules, or
- (b) declares orally that they are unable to read.

(2) Where an application is made, the presiding officer must, in the presence of any polling agents who are in the polling station when the application is made—

- (a) cause the voter's vote to be marked on a ballot paper in the manner directed by the voter, and
- (b) cause the ballot paper to be placed in the ballot box.

(3) Where a voter's vote is marked in pursuance of paragraph (2), the presiding officer must enter the following details on a list maintained by the presiding officer for the purposes of this rule ("the list of votes marked by the presiding officer")—

- (a) the name and number of the voter, as shown in the copies of the registration records, and
- (b) the reason why the vote was marked.

(4) In the case of a person voting as proxy for an elector, the number to be entered together with the voter's name in the list of votes marked by the presiding officer is the elector's number.

(5) Caniateir defnyddio'r un rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu ar gyfer etholiad y gymuned a phob etholiad perthnasol.

(6) Pan ddefnyddir yr un rhestr, mae cofnod yn y rhestr i'w gymryd fel pe bai'n golygu bod pleidlais y pleidleisiwr wedi ei marcio mewn cysylltiad ag etholiad y gymuned ac mewn cysylltiad â phob etholiad perthnasol, oni bai bod y rhestr yn dynodi un neu ragor o etholiadau lle cafodd pleidlais y pleidleisiwr ei marcio.

(7) Yn y rheol hon, mae i "y copïau o'r cofnodion cofrestru" yr un ystyr ag yn rheol 40 (gweler paragraff (7) o'r rheol honno).

Pleidleisiwyr sydd ag anabledd neu sy'n methu darllen: cymorth cydmeithion

44.—(1) Caiff pleidleisiwr wneud cais i'r swyddog llywyddu, ar sail dallineb neu anabledd arall neu anallu i ddarllen, am ganiatâd i bleidleisio gyda chymorth cydymaith.

(2) Pan wneir cais, rhaid i'r swyddog llywyddu ei gwneud yn ofynnol i'r pleidleisiwr ddatgan, ar lafar neu mewn ysgrifen, a yw dallineb neu anabledd arall, neu anallu i ddarllen, yn effeithio ar y pleidleisiwr fel na all bleidleisio heb gymorth cydymaith.

(3) Yn y darpariaethau a ganlyn yn y rheol hon, cyfeirir at bleidleisiwr sy'n datgan bod dallineb neu anabledd arall, neu anallu i ddarllen yn effeithio arno fel na all bleidleisio heb gymorth cydymaith fel pleidleisiwr ag anableddau.

(4) Pan wneir cais am bleidleisio gyda chymorth cydymaith, rhaid i'r cydymaith wneud datganiad ysgrifenedig gerbron y swyddog llywyddu bod y cydymaith—

- (a) wedi cyrraedd 16 oed, a
- (b) heb gynorthwyo mwy nag un pleidleisiwr ag anableddau o'r blaen i bleidleisio yn yr etholiad.

(5) Rhaid i ddatganiad y cydymaith—

- (a) bod ar ffurf y datganiad sy'n ymwneud ag etholiad y gymuned yn Atodiad 8, a
- (b) cael ei roi i'r swyddog llywyddu sy'n gorfod tystio iddo a'i gadw.

(6) Caniateir i ddatganiad y cydymaith yn etholiad y gymuned ac ym mhob etholiad perthnasol gael ei wneud yn yr un ddogfen.

(7) Rhaid i'r swyddog llywyddu ganiatáu cais y pleidleisiwr am gymorth cydymaith os yw'r swyddog llywyddu—

(5) The same list of votes marked by the presiding officer may be used for the community election and each relevant election.

(6) Where the same list is used, an entry in the list is to be taken as meaning that the voter's vote was marked in respect of the community election and in respect of each relevant election, unless the list identifies one or more elections at which the voter's vote was marked.

(7) In this rule, "the copies of the registration records" has the same meaning as in rule 40 (see paragraph (7) of that rule).

Voters with a disability or unable to read: assistance of companions

44.—(1) A voter may apply to the presiding officer, on the ground of blindness or other disability or inability to read, to be allowed to vote with the assistance of a companion.

(2) Where an application is made, the presiding officer must require the voter to declare, orally or in writing, whether the voter is so affected by blindness or other disability, or by inability to read, as to be unable to vote without the assistance of a companion.

(3) In the following provisions of this rule, a voter who declares that they are so affected by blindness or other disability, or by inability to read, as to be unable to vote without the assistance of a companion is referred to as a voter with disabilities.

(4) At the time when an application to vote with the assistance of a companion is made, the companion must make a written declaration before the presiding officer that the companion—

- (a) has attained the age of 16, and
- (b) has not previously assisted more than one voter with disabilities to vote at the election.

(5) The companion's declaration—

- (a) must be in the form of the declaration relating to the community election in Appendix 8, and
- (b) must be given to the presiding officer who must attest it and retain it.

(6) The companion's declaration at the community election and each relevant election may be made in the same document.

(7) The presiding officer must grant the voter's application for the assistance of a companion if the presiding officer—

- (a) wedi ei fodloni bod dallineb neu anabledd arall, neu anallu i ddarllen, yn effeithio ar y pleidleisiwr fel na all bleidleisio heb gymorth cydymaith, a
- (b) wedi ei fodloni hefyd gan ddatganiad ysgrifenedig y cydymaith fod y cydymaith wedi cyrraedd 16 oed ac nad yw'r cydymaith wedi cynorthwyo mwy nag un pleidleisiwr ag anableddau o'r blaen i bleidleisio yn yr etholiad.

(8) Pan ganiateir y cais—

- (a) caniateir i unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud o dan y rheolau hyn i'r pleidleisiwr mewn cysylltiad â rhoi'r bleidlais gael ei wneud yn hytrach i'r cydymaith, a
- (b) caiff y pleidleisiwr wneud unrhyw beth y mae angen ei wneud mewn cysylltiad â rhoi'r bleidlais gyda chymorth y cydymaith.

Pleidleisio gyda chymorth cydymaith: darpariaeth atodol

45.—(1) Pan roddir pleidlais gyda chymorth cydymaith yn unol â rheol 44, rhaid i'r swyddog llywyddu wedyn nodi'r manylion a ganlyn mewn rhestr a gedwir gan y swyddog llywyddu ("y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan cydymaith")—

- (a) enw a rhif y pleidleisiwr, fel y'u dangosir yn y copïau o'r cofnodion cofrestru, a
- (b) enw a chyfeiriad y cydymaith.

(2) Yn achos person sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr, y rhif sydd i'w nodi ynghyd ag enw'r pleidleisiwr yn y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith yw rhif yr etholwr.

(3) Pan fo gan y pleidleisiwr gofnod dienw, dim ond rhif y pleidleisiwr yn y copïau o'r cofnodion cofrestru y caniateir ei nodi yn y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith.

(4) Ni chaniateir codi ffi na thaliad arall mewn cysylltiad â datganiad a wneir gan gydymaith o dan reol 44(4).

(5) Caniateir defnyddio'r un rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith ar gyfer etholiad y gymuned a phob etholiad perthnasol.

(6) Pan ddefnyddir yr un rhestr, mae cofnod yn y rhestr i'w gymryd fel pe bai'n golygu bod pleidlais y pleidleisiwr wedi ei rhoi gyda chymorth mewn cysylltiad ag etholiad y gymuned ac mewn cysylltiad â phob etholiad perthnasol, oni bai bod y rhestr yn dynodi un neu ragor o etholiadau lle cafodd pleidlais y pleidleisiwr ei rhoi gyda chymorth.

(a) is satisfied that the voter is so affected by blindness or other disability, or by inability to read, as to be unable to vote without the assistance of a companion, and

(b) is also satisfied by the companion's written declaration that the companion has attained the age of 16 and has not previously assisted more than one voter with disabilities to vote at the election.

(8) Where the application is granted—

(a) anything that is required to be done by these rules to the voter in connection with the giving of the vote may be done instead to the companion, and

(b) the voter may do anything that needs to be done in connection with the giving of the vote with the assistance of the companion.

Voting with the assistance of a companion: supplemental provision

45.—(1) Where a vote is given with the assistance of a companion in accordance with rule 44, the presiding officer must then enter the following details in a list maintained by the presiding officer ("the list of voters with disabilities assisted by companions")—

- (a) the name and number of the voter, as shown in the copies of the registration records, and
- (b) the name and address of the companion.

(2) In the case of a person voting as proxy for an elector, the number to be entered together with the voter's name in the list of voters with disabilities assisted by companions is the elector's number.

(3) Where the voter has an anonymous entry, only the voter's number in the copies of the registration records may be entered in the list of voters with disabilities assisted by companions.

(4) No fee or other payment may be charged in respect of a declaration made by a companion under rule 44(4).

(5) The same list of voters with disabilities assisted by companions may be used for the community election and each relevant election.

(6) Where the same list is used, an entry in the list is to be taken as meaning that the voter's vote was given with assistance in respect of the community election and in respect of each relevant election, unless the list identifies one or more elections at which the voter's vote was given with assistance.

(7) Yn y rheol hon, mae i “y copïau o’r cofnodion cofrestru” yr un ystyr ag yn rheol 40 (gweler paragraff (7) o’r rheol honno).

Papurau pleidleisio a dendrwyd: yr amgylchiadau lle maent ar gael

46.—(1) Mae’r rheol hon yn nodi amgylchiadau pan fo gan berson sy’n gwneud cais am bleidlais (“y ceisydd”) hawl i bleidleisio ar ôl ateb yn foddhaol y cwestiynau y mae’r gyfraith yn caniatáu eu gofyn yn y bleidlais ond pan fo’r weithdrefn ar gyfer rhoi’r bleidlais yn cael ei haddasu yn y ddwy ffordd a ganlyn—

- (a) bod rhaid i’r person ddefnyddio papur pleidleisio sydd o liw gwahanol i bapurau pleidleisio eraill, a
- (b) bod rhaid i’r person roi’r papur pleidleisio i’r swyddog llywyddu (yn hytrach na’i roi yn y blwch pleidleisio).

Amgylchiadau lle mae pleidlais eisoes wedi ei rhoi yn bersonol

(2) Y set gyntaf o amgylchiadau yw—

- (a) pan fo’r ceisydd yn honni ei fod yn etholwr penodol a enwir yn y copïau o’r cofnodion cofrestru ac nad yw wedi ei enwi yn y rhestr pleidleiswyr post neu’r rhestr dirprwyon, a
- (b) pan fo person arall eisoes wedi pleidleisio’n bersonol naill ai fel yr etholwr hwnnw neu fel dirprwy’r etholwr hwnnw.

(3) Yr ail set o amgylchiadau yw—

- (a) pan fo’r ceisydd yn honni ei fod yn berson penodol a enwir yn y rhestr dirprwyon fel dirprwy ar ran etholwr ac nad oes ganddo hawl i bleidleisio drwy’r post fel dirprwy, a
- (b) pan fo person arall eisoes wedi pleidleisio’n bersonol naill ai fel yr etholwr hwnnw neu fel dirprwy’r etholwr hwnnw.

Amgylchiadau lle mae ceisydd ar y rhestr pleidleiswyr post yn honni nad yw wedi gwneud cais am bleidlais bost

(4) Y drydedd set o amgylchiadau yw—

- (a) pan fo’r ceisydd yn honni ei fod yn etholwr penodol a enwir yn y copïau o’r cofnodion cofrestru,
- (b) pan fo’r ceisydd hefyd wedi ei enwi yn y rhestr pleidleiswyr post, ac
- (c) pan fo’r ceisydd yn honni nad yw wedi gwneud cais am bleidleisio drwy’r post yn yr etholiad.

(7) In this rule, “the copies of the registration records” has the same meaning as in rule 40 (see paragraph (7) of that rule).

Tendered ballot papers: circumstances where available

46.—(1) This rule sets out circumstances where a person who applies for a vote (“the applicant”) is entitled to vote on satisfactorily answering the questions permitted by law to be asked at the poll but where the procedure for giving the vote is modified in the following two ways—

- (a) the person must use a ballot paper that is of a different colour to other ballot papers, and
- (b) the person must give the ballot paper to the presiding officer (instead of putting it in the ballot box).

Circumstances where vote already given in person

(2) The first set of circumstances is where—

- (a) the applicant represents themselves to be a particular elector named in the copies of the registration records and not named in the postal voters list or list of proxies, and
- (b) another person has already voted in person either as that elector or as that elector’s proxy.

(3) The second set of circumstances is where—

- (a) the applicant represents themselves to be a particular person named in the list of proxies as proxy for an elector and not entitled to vote by post as proxy, and
- (b) another person has already voted in person either as that elector or as that elector’s proxy.

Circumstances where applicant on postal voters list claims not to have applied for postal vote

(4) The third set of circumstances is where—

- (a) the applicant represents themselves to be a particular elector named in the copies of the registration records,
- (b) the applicant is also named in the postal voters list, and
- (c) the applicant claims not to have made an application to vote by post at the election.

- (5) Y bedwaredd set o amgylchiadau yw—
- (a) pan fo'r ceisydd yn honni ei fod yn berson penodol a enwir yn ddirprwy yn y rhestr dirprwyon,
 - (b) pan fo'r person hwnnw hefyd wedi ei enwi ar y rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy, ac
 - (c) pan fo'r ceisydd yn honni nad yw wedi gwneud cais am bleidleisio drwy'r post fel dirprwy yn yr etholiad.

Amgylchiadau lle mae'r ceisydd yn honni ei fod wedi colli papur pleidleisio post etc.

- (6) Y bumed set o amgylchiadau yw—
- (a) pan fo'r ceisydd, ar ôl yr amser olaf y caiff person wneud cais am bapur pleidleisio post newydd ond cyn i'r bleidlais gau, yn honni ei fod yn etholwr penodol a enwir yn y copïau o'r cofnodion cofrestru sydd hefyd wedi ei enwi yn y rhestr pleidleiswyr post, a
 - (b) pan fo'r ceisydd yn honni ei fod wedi colli papur pleidleisio post y person hwnnw neu heb ei gael.

- (7) Y chweched set o amgylchiadau yw—
- (a) pan fo'r ceisydd, ar ôl yr amser olaf y caiff person wneud cais am bapur pleidleisio post newydd ond cyn i'r bleidlais gau, yn honni ei fod yn berson penodol a enwir yn ddirprwy yn y rhestr dirprwyon sydd hefyd wedi ei enwi yn y rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy, a
 - (b) pan fo'r ceisydd yn honni ei fod wedi colli papur pleidleisio post y person hwnnw neu heb ei gael.

(8) Cyfeirir at bapur pleidleisio a roddir i swyddog llywyddu yn unol â'r rheol hon yn y rheolau hyn fel "papur pleidleisio a dendrwyd".

(9) Pan fo gan etholwr gofnod dienw, mae'r cyfeiriadau yn y rheol hon at berson a enwir yn y copïau o'r cofnodion cofrestru neu mewn rhestr i'w darllen fel cyfeiriadau at berson sydd â rhif yn y copïau neu yn y rhestr.

(10) Yn y rheol hon, mae i "y copïau o'r cofnodion cofrestru" yr un ystyr ag yn rheol 40 (gweler paragraff (7) o'r rheol honno).

Dyletswyddau swyddogion llywyddu mewn perthynas â phapurau pleidleisio a dendrwyd

47.—(1) Mae'r rheol hon yn nodi dyletswyddau'r swyddog llywyddu mewn perthynas â phapurau pleidleisio a dendrwyd.

(2) Rhaid i'r swyddog llywyddu arnodi'r wybodaeth a ganlyn ar y papur pleidleisio—

- (a) enw'r pleidleisiwr, a

(5) The fourth set of circumstances is where—

- (a) the applicant represents themselves to be a particular person named as a proxy in the list of proxies,
- (b) that person is also named in the proxy postal voters list, and
- (c) the applicant claims not to have made an application to vote by post as proxy at the election.

Circumstances where applicant claims to have lost postal ballot paper etc.

(6) The fifth set of circumstances is where—

- (a) after the last time at which a person may apply for a replacement postal ballot paper but before the close of the poll, the applicant represents themselves to be a particular elector named in the copies of the registration records who is also named in the postal voters list, and
- (b) the applicant claims to have lost or not to have received that person's postal ballot paper.

(7) The sixth set of circumstances is where—

- (a) after the last time at which a person may apply for a replacement postal ballot paper but before the close of the poll, the applicant represents themselves to be a particular person named as a proxy in the list of proxies who is also named in the proxy postal voters list, and
- (b) the applicant claims to have lost or not to have received that person's postal ballot paper.

(8) A ballot paper that is given to a presiding officer in accordance with this rule is referred to in these rules as a "tendered ballot paper".

(9) Where an elector has an anonymous entry, the references in this rule to a person named in the copies of the registration records or a list are to be read as references to a person who has a number in the copies or list.

(10) In this rule, "the copies of the registration records" has the same meaning as in rule 40 (see paragraph (7) of that rule).

Duties of presiding officer in relation to tendered ballot papers

47.—(1) This rule sets out the duties of the presiding officer in relation to tendered ballot papers.

(2) The presiding officer must endorse the following information on the ballot paper—

- (a) the name of the voter, and

(b) rhif y pleidleisiwr yn y copïau o'r cofnodion cofrestru neu, os yw'r pleidleisiwr yn pleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr, rhif yr etholwr.

(3) Rhaid i'r swyddog llywyddu roi'r papur pleidleisio mewn pecyn ar wahân.

(4) Rhaid cofnodi'r wybodaeth a ganlyn ar restr (y "rhestr pleidleisiau a dendrwyd")—

(a) enw'r pleidleisiwr, a

(b) rhif y pleidleisiwr yn y copïau o'r cofnodion cofrestru neu, os yw'r pleidleisiwr yn pleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr, rhif yr etholwr.

(5) Pan fo gan etholwr gofnod dienw, rhaid i'r swyddog llywyddu beidio â chynnwys enw'r pleidleisiwr ar y papur pleidleisio nac yn y rhestr pleidleisiau a dendrwyd.

(6) Caniateir defnyddio'r un rhestr pleidleisiau a dendrwyd ar gyfer etholiad y gymuned a phob etholiad perthnasol.

(7) Pan ddefnyddir yr un rhestr, mae cofnod yn y rhestr i'w gymryd fel pe bai papur pleidleisio a dendrwyd wedi ei roi i'r swyddog llywyddu mewn cysylltiad ag etholiad y gymuned ac mewn cysylltiad â phob etholiad perthnasol, oni bai bod y rhestr yn dynodi un neu ragor o etholiadau lle cafodd papur pleidleisio a dendrwyd ei roi.

(8) Yn y rheol hon, mae i "y copïau o'r cofnodion cofrestru" yr un ystyr ag yn rheol 40 (gweler paragraff (7) o'r rheol honno).

Papurau pleidleisio a ddifethwyd

48.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan fo pleidleisiwr wedi ymdrin yn anfwriadol â'i bapur pleidleisio yn y fath fodd fel na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus fel papur pleidleisio.

(2) Caiff y pleidleisiwr sicrhau papur pleidleisio arall—

(a) drwy roi'r papur pleidleisio yr ymdriniwyd ag ef yn anfwriadol (y "papur pleidleisio a ddifethwyd") i'r swyddog llywyddu, a

(b) drwy brofi er boddhad y swyddog llywyddu yr ymdriniwyd ag ef yn anfwriadol.

(3) Pan roddir papur pleidleisio arall i'r pleidleisiwr, rhaid i'r papur pleidleisio a ddifethwyd gael ei ganslo ar unwaith.

(b) the voter's number in the copies of the registration records or, if the voter is voting as proxy for an elector, the number of the elector.

(3) The presiding officer must put the ballot paper in a separate packet.

(4) The following information must be entered on a list (the "tendered votes list")—

(a) the name of the voter, and

(b) the voter's number in the copies of the registration records or, if the voter is voting as proxy for an elector, the number of the elector.

(5) Where an elector has an anonymous entry, the presiding officer must not include the name of the voter on the ballot paper or in the tendered votes list.

(6) The same tendered votes list may be used for the community election and each relevant election.

(7) Where the same list is used, an entry in the list is to be taken as meaning that the presiding officer was given a tendered ballot paper in respect of the community election and in respect of each relevant election, unless the list identifies one or more elections at which a tendered ballot paper was given.

(8) In this rule, "the copies of the registration records" has the same meaning as in rule 40 (see paragraph (7) of that rule).

Spoilt ballot papers

48.—(1) This rule applies where a voter has inadvertently dealt with their ballot paper in such a manner that it cannot conveniently be used as a ballot paper.

(2) The voter may obtain another ballot paper by—

(a) giving the ballot paper that was inadvertently dealt with (the "spoilt ballot paper") to the presiding officer, and

(b) proving to the presiding officer's satisfaction that it was dealt with inadvertently.

(3) Where the voter is given another ballot paper, the spoilt ballot paper must be cancelled immediately.

Cywiro gwallau ar ddiwrnod y bleidlais

49.—(1) Rhaid i'r swyddog llywyddu gadw rhestr o bersonau y rhoddir papurau pleidleisio iddynt o ganlyniad i addasiad yn y gofrestr a wneir yn rhinwedd adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983 sy'n dod yn effeithiol ar ddiwrnod y bleidlais.

(2) Caniateir defnyddio'r un rhestr ar gyfer etholiad y gymuned a phob etholiad perthnasol.

(3) Pan ddefnyddir yr un rhestr, mae cofnod yn y rhestr i'w gymryd fel pe bai papurau pleidleisio wedi eu rhoi o ganlyniad i addasiad yn y gofrestr mewn cysylltiad ag etholiad y gymuned ac mewn cysylltiad â phob etholiad perthnasol, oni bai bod y rhestr yn dynodi un neu ragor o etholiadau lle cafodd papurau pleidleisio eu rhoi felly.

Gohirio'r bleidlais os ceir terfysg

50.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan dorrir ar draws y trafodion mewn unrhyw orsaf bleidleisio neu pan gânt eu rhwystro gan derfysg neu drais agored.

(2) Rhaid i'r swyddog llywyddu—

(a) gohirio'r trafodion tan drannoeth, a

(b) hysbysu'r swyddog canlyniadau cydlynol ar unwaith.

(3) Pan gaiff y bleidlais ei gohirio mewn gorsaf bleidleisio—

(a) rhaid i'r oriau pleidleisio ar y diwrnod y caiff ei gohirio iddo fod yr un fath ag ar gyfer y diwrnod gwreiddiol, a

(b) mae cyfeiriadau yn y rheolau hyn at ddiwedd y bleidlais i'w darllen fel cyfeiriadau at ddiwedd yr oriau pleidleisio ar y diwrnod y caiff ei gohirio iddo.

Y weithdrefn wrth gau'r bleidlais

51.—(1) Mae'r rheol hon yn nodi'r camau y mae'n rhaid i'r swyddog llywyddu eu cymryd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i bob pleidleisiwr fwrw ei bleidlais.

(2) Ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio a benodwyd at ddibenion etholiad y gymuned neu etholiad perthnasol sydd yn yr orsaf bleidleisio, rhaid i'r swyddog llywyddu selio pob blwch pleidleisio (gyda'r allwedd ynghlwm os oes un) a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr orsaf bleidleisio er mwyn atal gosod papurau pleidleisio ychwanegol ynddo, gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl.

Correction of errors on day of poll

49.—(1) The presiding officer must keep a list of persons to whom ballot papers are given in consequence of an alteration to the register made by virtue of section 13B(3B) or (3D) of the 1983 Act which takes effect on the day of the poll.

(2) The same list may be used for the community election and each relevant election.

(3) Where the same list is used, an entry in the list is to be taken as meaning that ballot papers were given in consequence of an alteration to the register in respect of the community election and in respect of each relevant election, unless the list identifies one or more elections at which ballot papers were so given.

Adjournment of poll in case of riot

50.—(1) This rule applies where proceedings at any polling station are interrupted or obstructed by riot or open violence.

(2) The presiding officer must—

(a) adjourn the proceedings until the following day, and

(b) immediately inform the co-ordinating returning officer.

(3) Where the poll is adjourned at a polling station—

(a) the hours of polling on the day to which it is adjourned must be the same as for the original day, and

(b) references in these rules to the close of the poll are to be read as references to the end of the hours of polling on the day to which it is adjourned.

Procedure on close of poll

51.—(1) This rule sets out the steps that must be taken by the presiding officer as soon as practicable after every voter has cast their vote.

(2) In the presence of any polling agents appointed for the purposes of the community election or a relevant election who are in the polling station, the presiding officer must seal each ballot box (with the key if any attached) in use at the polling station so as to prevent the introduction of additional ballot papers, using the presiding officer's seal and the seals of any polling agents who wish to affix their seal.

(3) Ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio a benodwyd at ddibenion etholiad y gymuned neu etholiad perthnasol sydd yn yr orsaf bleidleisio, rhaid i'r swyddog llywyddu osod pob un o'r canlynol mewn pecynnau ar wahân, wedi eu selio gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl—

- (a) y papurau pleidleisio sydd heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd (gyda'i gilydd);
- (b) y papurau pleidleisio a dendrwyd;
- (c) y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestr dirprwyon (gyda'i gilydd);
- (d) rhestr rhifau cyfatebol yr orsaf bleidleisio, fel y'i marciwyd (gweler rheol 42(2)(c)) (y cyfeirir ati yn y darpariaethau a ganlyn o'r rheolau hyn fel "y rhestr rhifau cyfatebol a gwblhawyd");
- (e) unrhyw dystysgrifau a ildwyd o dan reol 37(4) neu (5) (ildio tystysgrifau a ddyroddwyd i gwnstabiliaid neu staff swyddogion canlyniadau);
- (f) y rhestrau a'r datganiadau a ganlyn (gyda'i gilydd)—
 - (i) y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, ynghyd â datganiad o nifer y pleidleiswyr y mae eu pleidleisiau wedi eu marcio o dan y penawdau "anabledd" a "methu darllen" (gweler rheol 43);
 - (ii) y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau (gweler rheol 44);
 - (iii) y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith (gweler rheol 45);
 - (iv) y rhestr pleidleisiau a dendrwyd (gweler rheol 47);
 - (v) y rhestr a gadwyd o dan reol 49 (cywiro gwallau ar ddiwrnod y bleidlais).

(4) Rhaid i'r swyddog llywyddu ddanfôn y blychau pleidleisio a'r pecynnau a seliwyd i'r swyddog canlyniadau cydlynol neu beri iddynt gael eu danfôn yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y swyddog canlyniadau hwnnw.

(5) I gyd-fynd â'r pecynnau rhaid cael datganiad ("cyfriflen papurau pleidleisio") a baratowyd gan y swyddog llywyddu ac sy'n dangos—

- (a) nifer y papurau pleidleisio a roddwyd i'r swyddog llywyddu, a
- (b) sut y cyfrifwyd y papurau pleidleisio o dan y penawdau a ganlyn—

(3) In the presence of any polling agents appointed for the purposes of the community election or a relevant election who are in the polling station, the presiding officer must place each of the following in separate packets, sealed using the presiding officer's seal and the seals of any polling agents who wish to affix their seal—

- (a) the unused and spoiled ballot papers (together);
- (b) the tendered ballot papers;
- (c) the marked copies of the registration records and list of proxies (together);
- (d) the polling station's corresponding number list, as marked (see rule 42(2)(c)), (referred to in the following provisions of these rules as "the completed corresponding number list");
- (e) any certificates surrendered under rule 37(4) or (5) (surrender of certificates issued to constables or staff of returning officers);
- (f) the following lists and declarations (together)—
 - (i) the list of votes marked by the presiding officer, together with a statement of the number of voters whose votes are marked under the heads "disability" and "unable to read" (see rule 43);
 - (ii) the declarations made by the companions of voters with disabilities (see rule 44);
 - (iii) the list of voters with disabilities assisted by companions (see rule 45);
 - (iv) the tendered votes list (see rule 47);
 - (v) the list maintained under rule 49 (correction of errors on day of poll).

(4) The presiding officer must deliver the sealed ballot boxes and packets to the co-ordinating returning officer or cause them to be delivered in accordance with arrangements approved by that returning officer.

(5) The packets must be accompanied by a statement ("a ballot paper account") prepared by the presiding officer showing—

- (a) the number of ballot papers given to the presiding officer, and
- (b) how the ballot papers are accounted for under the following headings—

- (i) nifer y papurau pleidleisio a ddyroddwyd ac na chyfrifwyd hwy fel arall;
- (ii) nifer y papurau pleidleisio sydd heb eu defnyddio;
- (iii) nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd;
- (iv) nifer y papurau pleidleisio a dendrwyd.

(6) Ni chaniateir cyfuno cynnwys y pecynnau sy'n cynnwys y papurau pleidleisio sydd heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd a'r papurau pleidleisio a dendrwyd â chynnwys y pecynnau a wneir o dan y rheol gyfatebol sy'n gymwys mewn unrhyw etholiad perthnasol.

(7) Ni chaniateir cyfuno'r gyfriflen papurau pleidleisio â'r gyfriflen papurau pleidleisio a baratior o dan y rheol gyfatebol sy'n gymwys mewn unrhyw etholiad perthnasol.

(8) Yn y rheol hon, ystyr "y copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru" yw'r copïau o'r cofnodion cofrestru (fel y'u diffinnir gan reol 40(7)), fel y'u marcwyd yn unol â'r rheolau hyn.

- (i) the number of ballot papers issued and not otherwise accounted for;
- (ii) the number of ballot papers unused;
- (iii) the number of spoiled ballot papers;
- (iv) the number of tendered ballot papers.

(6) The contents of the packets containing the unused and spoiled ballot papers and the tendered ballot papers must not be combined with the contents of the packets made under the corresponding rule that applies at any relevant election.

(7) The ballot paper account must not be combined with the ballot paper account prepared under the corresponding rule that applies at any relevant election.

(8) In this rule, "the marked copies of the registration records" means the copies of the registration records (as defined by rule 40(7)) as marked in accordance with these rules.

RHAN 4

Cyfrif y Pleidleisiau a Datgan y Canlyniad mewn Etholiadau lle Ceir Gornest

Trosolwg o'r rheolau a dehongli

52.—(1) Mae'r rheol hon yn rhoi trosolwg o sut y cymhwysir y Rhan hon.

(2) Pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, mae'r rheolau a ganlyn yn gymwys—

- (a) rheol 53 (presenoldeb mewn trafodion);
- (b) rheol 54 (dyletswyddau rhagarweiniol a chyffredinol);
- (c) rheol 55 (gwahanu papurau pleidleisio etc.);
- (d) rheolau 58 i 64 (darpariaethau ynglŷn â chyfrif etc.).

(3) Pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, mae'r rheolau a ganlyn yn gymwys—

- (a) rheol 53(1) a (3) i (9) (presenoldeb mewn trafodion);
- (b) rheol 56 (dyletswyddau rhagarweiniol a chyffredinol);
- (c) rheol 57 (agor cynwysyddion etc.);
- (d) rheolau 58 i 64 (darpariaethau ynglŷn â chyfrif etc.).

PART 4

Counting of Votes and Declaration of Result at Contested Elections

Overview of rules and interpretation

52.—(1) This rule provides an overview of the application of this Part.

(2) Where the returning officer is the co-ordinating returning officer, the following rules apply—

- (a) rule 53 (attendance at proceedings);
- (b) rule 54 (preliminary and general duties);
- (c) rule 55 (separation of ballot papers etc.);
- (d) rules 58 to 64 (provisions relating to counting etc.).

(3) Where the returning officer is not the co-ordinating returning officer, the following rules apply—

- (a) rule 53(1) and (3) to (9) (attendance at proceedings);
- (b) rule 56 (preliminary and general duties);
- (c) rule 57 (opening of containers etc.);
- (d) rules 58 to 64 (provisions relating to counting etc.).

(4) Yn y Rhan hon—

- (a) mae cyfeiriadau at asiantau cyfrif y gymuned yn gyfeiriadau at yr asiantau cyfrif a benodwyd at ddibenion etholiad y gymuned;
- (b) mae cyfeiriadau at asiantau cyfrif eraill yn gyfeiriadau at yr asiantau cyfrif a benodwyd at ddibenion unrhyw etholiad perthnasol;
- (c) mae cyfeiriadau at asiantau etholiadol y gymuned yn gyfeiriadau at yr asiantau etholiadol (os oes rhai) a benodwyd at ddibenion etholiad y gymuned;
- (d) mae cyfeiriadau at asiantau etholiadol eraill yn gyfeiriadau at yr asiantau etholiadol a benodwyd at ddibenion unrhyw etholiad perthnasol.

Presenoldeb mewn trafodion o dan y Rhan hon

53.—(1) Mae gan y personau a ganlyn hawl i fod yn bresennol mewn trafodion o dan reolau 55(2) i (10), 57 a 59 i 64—

- (a) y swyddog canlyniadau ac aelodau staff y swyddog canlyniadau;
- (b) pob ymgeisydd a gwestai i bob ymgeisydd;
- (c) asiantau etholiadol y gymuned (os penodwyd rhai);
- (d) asiantau cyfrif y gymuned;
- (e) unrhyw berson sydd â hawl i fod yn bresennol yn rhinwedd adrannau 6A i 6D o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol a sylwedyddion achrededig);
- (f) y cwnstabiliaid ar ddyletsydd.

(2) Yn ychwanegol, mae gan unrhyw berson sydd â hawl i fod yn bresennol wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif mewn etholiad perthnasol hawl i fod yn bresennol mewn trafodion o dan reol 55(2) i (10).

(3) Caiff y swyddog canlyniadau ganiatáu i unrhyw berson arall fod yn bresennol mewn trafodion o dan unrhyw un neu ragor o reolau 55(2) i (10), 57 neu 59 i 64.

(4) Ni chaniateir rhoi caniatâd o dan baragraff (2) oni bai bod y swyddog canlyniadau—

- (a) wedi ei fodloni na fydd presenoldeb y person yn rhwystro swyddogaethau'r swyddog canlyniadau rhag cael eu cyflawni'n effeithlon, a
- (b) naill ai wedi ymgynghori â'r personau priodol ynghylch a ddylid rhoi caniatâd neu wedi penderfynu nad yw'n ymarferol ymgynghori â hwy.

(4) In this Part—

- (a) references to the community counting agents are to the counting agents appointed for the purposes of the community election;
- (b) references to the other counting agents are to the counting agents appointed for the purposes of any relevant election;
- (c) references to the community election agents are to the election agents (if any) appointed for the purposes of the community election;
- (d) references to the other election agents are to the election agents appointed for the purposes of any relevant election.

Attendance at proceedings under this Part

53.—(1) The following persons are entitled to attend proceedings under rules 55(2) to (10), 57 and 59 to 64—

- (a) the returning officer and members of the returning officer's staff;
- (b) each candidate and a guest of each candidate;
- (c) the community election agents (if appointed);
- (d) the community counting agents;
- (e) any person who is entitled to attend by virtue of sections 6A to 6D of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (representatives of the Electoral Commission and accredited observers);
- (f) the constables on duty.

(2) In addition, any person who is entitled to attend the counting of votes at a relevant election is entitled to attend proceedings under rule 55(2) to (10).

(3) The returning officer may permit any other person to attend proceedings under any of rules 55(2) to (10), 57 or 59 to 64.

(4) Permission may not be given under paragraph (3) unless the returning officer—

- (a) is satisfied that the person's attendance will not impede the efficient discharge of the returning officer's functions, and
- (b) has either consulted the appropriate persons about whether to give permission or decided that it is not practicable to consult them.

(5) At ddibenion paragraff (4)(b), “y personau priodol” yw—

- (a) yn achos trafodion o dan reol 55(2) i (10), yr asiantau etholiadol cymunedol (neu, yn achos ymgeiswyr sydd heb benodi asiantau etholiadol, yr ymgeiswyr) a’r asiantau etholiadol eraill;
- (b) yn achos unrhyw drafodion eraill, yr asiantau etholiadol cymunedol neu, yn achos ymgeiswyr sydd heb benodi asiantau etholiadol, yr ymgeiswyr.

(6) Rhaid i’r swyddog canlyniadau roi pob cyfleuster rhesymol i unrhyw asiantau cyfrif sydd â hawl i fod yn bresennol ar gyfer goruchwyllo’r trafodion, a’r holl wybodaeth amdanynt, y gall y swyddog canlyniadau eu rhoi yn gyson â chynnal y trafodion yn drefnus a chyflawni dyletswyddau’r swyddog canlyniadau.

(7) Yn benodol, pan fo’r pleidleisiau’n cael eu cyfrif drwy ddioli’r papurau pleidleisio yn ôl yr ymgeisydd y rhoddir y bleidlais iddo ac wedyn cyfrif nifer y papurau pleidleisio ar gyfer pob ymgeisydd, mae gan asiantau cyfrif y gymuned hawl i’w bodloni eu hunain fod y papurau pleidleisio wedi eu didoli’n gywir.

(8) Rhaid i’r swyddog canlyniadau wneud trefniadau i sicrhau bod pawb sy’n bresennol wrth i’r pleidleisiau gael eu cyfrif (ac eithrio’r cwnstabiliaid ar ddyletswydd) wedi cael hysbysiad yn nodi darpariaethau adran 66(2) a (6) o Ddeddf 1983 (hysbysiad o ofyniad cyfrinachedd).

(9) Yn y rheol hon, mae cyfeiriad at gwnstabl yn cynnwys cyfeiriad at berson a ddynodwyd yn swyddog cymorth cymunedol neu’n wirfoddolwr cymorth cymunedol o dan adran 38 o Ddeddf Diwygio’r Heddlu 2002 (pwerau’r heddlu i staff sy’n sifiliaid a gwirfoddolwyr).

Dyletswyddau rhagarweiniol a chyffredinol pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw’r swyddog canlyniadau

54.—(1) Mae’r rheol hon yn gymwys pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw’r swyddog canlyniadau.

(2) Rhaid i’r swyddog canlyniadau wneud trefniadau ar gyfer cyflawni’r swyddogaethau o dan reol 55 cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl i’r bleidlais gau.

(3) Rhaid i’r swyddog canlyniadau roi hysbysiad i asiantau cyfrif y gymuned a’r asiantau cyfrif eraill yn datgan yr amser a’r lle y bydd y swyddog canlyniadau yn dechrau cyflawni’r swyddogaethau o dan reol 55.

(4) Wrth gyfrif a chofnodi nifer y papurau pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau, rhaid i’r swyddog canlyniadau—

(5) For the purposes of paragraph (4)(b), “the appropriate persons” are—

- (a) in the case of proceedings under rule 55(2) to (10), the community election agents (or, in the case of candidates who have not appointed election agents, the candidates) and the other election agents;
- (b) in the case of any other proceedings, the community election agents or, in the case of candidates who have not appointed election agents, the candidates.

(6) The returning officer must give any counting agents who are entitled to attend all such reasonable facilities for overseeing the proceedings, and all such information about them, as the returning officer is able to give consistently with the orderly conduct of the proceedings and the discharge of the returning officer’s duties.

(7) In particular, where the votes are counted by sorting the ballot papers according to the candidate for whom the vote is given and then counting the number of ballot papers for each candidate, the community counting agents are entitled to satisfy themselves that the ballot papers are correctly sorted.

(8) The returning officer must make arrangements to ensure that every person attending at the counting of votes (other than the constables on duty) has been given a notice setting out the provisions of section 66(2) and (6) of the 1983 Act (notification of requirement of secrecy).

(9) In this rule, a reference to a constable includes a reference to a person designated as a community support officer or community support volunteer under section 38 of the Police Reform Act 2002 (police powers for civilian staff and volunteers).

Preliminary and general duties where returning officer is co-ordinating returning officer

54.—(1) This rule applies where the returning officer is the co-ordinating returning officer.

(2) The returning officer must make arrangements for discharging the functions under rule 55 as soon as practicable after the close of the poll.

(3) The returning officer must give the community counting agents and the other counting agents a notice stating the time and place at which the returning officer will begin to discharge the functions under rule 55.

(4) While counting and recording the number of ballot papers and counting the votes, the returning officer must—

- (a) cadw'r papurau pleidleisio gyda'u hwynebau i fyny, a
- (b) cymryd y rhagofalon eraill hynny sy'n briodol at ddiben atal unrhyw berson rhag gweld y rhifau neu farciau adnabod unigryw eraill a argraffwyd ar gefn y papurau.

Gwahanu papurau pleidleisio etc. pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau

55.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, ym mhresenoldeb asiantau cyfrif y gymuned a'r asiantau cyfrif eraill, agor pob blwch pleidleisio, tynnu'r papurau pleidleisio, eu cyfrif a chofnodi ar wahân nifer y papurau pleidleisio a ddefnyddiwyd ym mhob etholiad.

(3) Ni chaiff y swyddog canlyniadau gyfrif unrhyw bapur pleidleisio a dendrwyd.

(4) Pan ddefnyddiwyd blychau pleidleisio ar wahân yn y bleidlais, nid yw unrhyw bleidlais dros ymgeisydd yn etholiad y gymuned i'w thrin fel pleidlais annilys am ei bod wedi ei gosod yn y blwch pleidleisio y bwriadwyd ei ddefnyddio mewn etholiad perthnasol.

(5) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, ym mhresenoldeb asiantau etholiadol y gymuned (os penodwyd rhai) a'r asiantau etholiadol eraill, ddilysu pob cyfriflen papurau pleidleisio drwy ei chymharu â nifer y papurau pleidleisio a gofnodwyd, y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisiau a ddifethwyd sydd ym meddiant y swyddog canlyniadau a'r rhestr pleidleisiau a dendrwyd (gan agor ac ailseilio'r pecynnau sy'n cynnwys y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd, a'r rhestr pleidleisiau a dendrwyd).

(6) Rhaid i'r swyddog canlyniadau baratoi datganiad ynglŷn â chanlyniad y dilysiad a rhoi copi o'r datganiad i unrhyw asiant etholiadol y gymuned (os penodwyd rhai), ac i unrhyw asiant etholiadol arall, sy'n gofyn amdano.

(7) Pan nad yw ymgeisydd yn etholiad y gymuned wedi penodi asiant etholiadol—

- (a) rhaid i ddilysiad y gyfriflen papurau pleidleisio gael ei wneud yn hytrach ym mhresenoldeb asiantau cyfrif yr ymgeisydd, a
- (b) os gwneir cais, rhaid rhoi copi o'r datganiad i'r ymgeisydd.

(8) Rhaid hefyd i'r swyddog canlyniadau—

- (a) cyfrif y papurau pleidleisio post sydd wedi eu dychwelyd yn briodol (ynglŷn â hynny gweler rheol 58), a

- (a) keep the ballot papers with their faces upwards, and
- (b) take such other precautions as are appropriate for the purpose of preventing any person from seeing the numbers or other unique identifying marks printed on the back of the papers.

Separation of ballot papers etc. where returning officer is co-ordinating returning officer

55.—(1) This rule applies where the returning officer is the co-ordinating returning officer.

(2) The returning officer must, in the presence of the community counting agents and the other counting agents, open each ballot box, take out the ballot papers, count them and record separately the number of ballot papers used in each election.

(3) The returning officer must not count any tendered ballot paper.

(4) Where separate ballot boxes were used at the poll, no vote for a candidate at the community election is to be treated as invalid because it was placed in the ballot box intended for use at a relevant election.

(5) The returning officer must, in the presence of the community election agents (if appointed) and the other election agents, verify each ballot paper account by comparing it with the number of ballot papers recorded, the unused and spoilt ballot papers in the returning officer's possession and the tendered votes list (opening and resealing the packets containing the unused and spoilt ballot papers and tendered votes list).

(6) The returning officer must prepare a statement as to the result of the verification and give a copy of the statement to any community election agent (if appointed), and to any other election agent, who requests it.

(7) Where a candidate at the community election has not appointed an election agent—

- (a) the verification of the ballot paper account must be done in the presence of the candidate's counting agents instead, and
- (b) on request, a copy of the statement must be given to the candidate.

(8) The returning officer must also—

- (a) count the postal ballot papers that have been properly returned (as to which see rule 58), and

- (b) cofnodi ar wahân y nifer a gyfrifwyd yn y bleidlais yn etholiad y gymuned ac ym mhob etholiad perthnasol.

(9) Yna rhaid i'r swyddog canlyniadau—

- (a) gwahanu'r papurau pleidleisio sy'n ymwneud ag etholiad y gymuned o'r papurau pleidleisio sy'n ymwneud â phob etholiad perthnasol,
- (b) trefnu'r papurau pleidleisio ar gyfer pob etholiad perthnasol yn becynnau, ac
- (c) selio'r pecynnau mewn cynwysyddion ar wahân gan arnodi ar bob un ddisgrifiad o'r ardal y mae'r papurau pleidleisio yn ymwneud â hi.

(10) Yna rhaid i'r swyddog canlyniadau ddanfôn neu beri danfôn i swyddog canlyniadau pob etholiad perthnasol—

- (a) cynwysyddion y papurau pleidleisio sy'n ymwneud â'r etholiad, ynghyd â rhestr o'r cynwysyddion a'u cynnwys,
- (b) y cyfriflenni papurau pleidleisio sy'n ymwneud â'r etholiad, ynghyd â chopi o'r datganiadau ynglŷn â chanlyniad y dilysiad, ac
- (c) y pecynnau o bapurau pleidleisio heb eu defnyddio a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd a'r papurau pleidleisio a dendrwyd.

(11) Yna rhaid i'r swyddog canlyniadau gymysgu'r holl bapurau pleidleisio a ddefnyddiwyd yn etholiad y gymuned gyda'i gilydd.

Dyletswyddau rhagarweiniol a chyffredinol pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau

56.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau wneud trefniadau ar gyfer cyfrif y pleidleisiau ym mhresenoldeb asiantau cyfrif y gymuned cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r papurau pleidleisio gael eu danfôn gan y swyddog canlyniadau, sef y swyddog canlyniadau cydlynol.

(3) Rhaid i'r swyddog canlyniadau roi hysbysiad i asiantau cyfrif y gymuned yn nodi'r amser y dechreuir cyfrif pleidleisiau (a bwrw bod y papurau pleidleisio wedi eu danfôn) a'r man lle bydd y cyfrif yn digwydd.

(4) Wrth gyfrif a chofnodi nifer y papurau pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau, rhaid i'r swyddog canlyniadau—

- (a) cadw'r papurau pleidleisio â'u hwynebau i fyny, a

- (b) record separately the number counted at the poll at the community election and at each relevant election.

(9) The returning officer must then—

- (a) separate the ballot papers relating to the community election from the ballot papers relating to each relevant election,
- (b) make up into packets the ballot papers for each relevant election, and
- (c) seal up the packets in separate containers endorsing on each a description of the area to which the ballot papers relate.

(10) The returning officer must then deliver or cause to be delivered to the returning officer for each relevant election—

- (a) the containers of ballot papers relating to the election, together with a list of the containers and their contents,
- (b) the ballot paper accounts relating to the election, together with a copy of the statements as to the result of their verification, and
- (c) the packets of unused and spoiled ballot papers and tendered ballot papers.

(11) The returning officer must then mix together all the ballot papers used at the community election.

Preliminary and general duties where returning officer is not the co-ordinating returning officer

56.—(1) This rule applies where the returning officer is not the co-ordinating returning officer.

(2) The returning officer must make arrangements for counting the votes in the presence of the community counting agents as soon as practicable after the delivery of the ballot papers by the returning officer who is the co-ordinating returning officer.

(3) The returning officer must give the community counting agents a notice stating the time when the counting of votes will begin (on the assumption that the ballot papers have been delivered) and the place at which the count will take place.

(4) While counting and recording the number of ballot papers and counting the votes, the returning officer must—

- (a) keep the ballot papers with their faces upwards, and

- (b) cymryd unrhyw ragofalon eraill sy'n briodol i atal unrhyw berson rhag gweld y rhifau neu'r marciau adnabod unigryw eraill a argraffwyd ar gefn y papurau.

Agor cynwysyddion etc. pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau

57.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau.

(2) Ar ôl cael y cynwysyddion papurau pleidleisio oddi wrth y swyddog canlyniadau, sef y swyddog canlyniadau cydlynol, ac ar ôl yr amser a bennwyd yn yr hysbysiad a roddwyd o dan reol 56(3), rhaid i'r swyddog canlyniadau agor pob cynhwysydd ym mhresenoldeb asiantau cyfrif y gymuned.

(3) Pan nad yw'r trafodion ynglŷn â dyroddi a derbyn papurau pleidleisio post yn cael eu cynnal ynghyd â'r trafodion hynny mewn etholiad perthnasol o dan reoliad 65 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001(1) neu o dan y rheoliad hwnnw fel y'i cymhwysir gan reoliadau o dan adran 44 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(2), rhaid i'r swyddog canlyniadau gyfrif y papurau pleidleisio post sydd wedi eu dychwelyd yn briodol a chofnodi'r nifer a gyfrifwyd.

(4) Yna rhaid i'r swyddog canlyniadau gymysgu'r holl bapurau pleidleisio post a'r holl bapurau pleidleisio o'r cynwysyddion gyda'i gilydd.

Darpariaeth bellach ynghylch papurau pleidleisio post

58.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys ar gyfer penderfynu a yw papur pleidleisio post i'w drin fel pe bai wedi ei dychwelyd yn briodol fel y crybwyllir yn rheolau 55(8)(a) a 57(3).

(2) Mae papur pleidleisio post i'w drin fel pe bai wedi ei dychwelyd yn briodol os yw'r papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio post sy'n cyd-fynd ag ef sydd wedi ei gwblhau'n briodol—

- (a) wedi eu cyflwyno mewn gorsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn i'r bleidlais gau,
- (b) wedi eu rhoi â llaw i'r swyddog canlyniadau cyn i'r bleidlais gau, neu

- (b) take such other precautions as are appropriate for the purpose of preventing any person from seeing the numbers or other unique identifying marks printed on the back of the papers.

Opening of containers etc. where returning officer is not the co-ordinating returning officer

57.—(1) This rule applies where the returning officer is not the co-ordinating returning officer.

(2) On receipt of the containers of ballot papers from the returning officer who is the co-ordinating returning officer, and after the time specified in the notice given under rule 56(3), the returning officer must open each container in the presence of the community counting agents.

(3) Where the proceedings on the issue and receipt of postal ballot papers are not taken together with those proceedings at a relevant election under regulation 65 of the Representation of the People (England and Wales) Regulations 2001(1) or under that regulation as applied by regulations under section 44 of the Local Government Act 2000(2), the returning officer must count the postal ballot papers that have been properly returned and record the number counted.

(4) The returning officer must then mix together all the postal ballot papers and all the ballot papers from the containers.

Further provision about postal ballot papers

58.—(1) This rule applies for determining whether a postal ballot paper is to be treated as properly returned as mentioned in rules 55(8)(a) and 57(3).

(2) A postal ballot paper is to be treated as properly returned if the ballot paper and the accompanying postal voting statement properly completed are—

- (a) handed in at a polling station in the appropriate area before the close of the poll,
- (b) given by hand to the returning officer before the close of the poll, or

(1) O.S. 2001/341. Diwygiwyd rheoliad 65 gan baragraff 16(4) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(2) 2000 p. 22. Diwygiwyd adran 44 gan baragraff 18(2) o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. I'r graddau y maent yn arferadwy o fewn cymwysedd datganoledig, trosglwyddwyd swyddogaethau Gweinidog y Goron o dan adran 44 i Weinidogion Cymru gan erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644), ac Atodlen 1 iddo.

(1) S.I. 2001/341. Regulation 65 was amended by paragraph 16(4) of Schedule 2 to the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

(2) 2000 c. 22. Section 44 was amended by paragraph 18(2) of Schedule 21 to the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000. Functions of a Minister of the Crown under section 44, so far as exercisable within devolved competence, were transferred to the Welsh Ministers by article 45 of, and Schedule 1 to, the Welsh Ministers (Transfer of Functions) Order 2018 (S.I. 2018/644).

(c) wedi dod i law'r swyddog canlyniadau drwy'r post cyn i'r bleidlais gau.

(3) Mae datganiad pleidleisio post wedi ei gwblhau'n briodol—

(a) os yw wedi ei lofnodi gan yr etholwr neu (yn ôl y digwydd) y dirprwy, oni bai bod y swyddog cofrestru wedi hepgor y gofyniad ynglŷn â llofnod,

(b) os yw'n datgan dyddiad geni'r etholwr neu (yn ôl y digwydd) dyddiad geni'r dirprwy, ac

(c) mewn achos lle mae camau i ddilysu dyddiad geni a llofnod etholwr neu ddirprwy wedi eu rhagnodi gan reoliadau o dan Ddeddf 1983, os yw'r swyddog canlyniadau wedi cymryd y camau hynny ac wedi dilysu'r dyddiad geni ac (ac eithrio mewn achos lle mae'r gofyniad ynglŷn â llofnod wedi ei hepgor) y llofnod.

(4) Pan fo person, wrth i'r bleidlais gau, yn yr orsaf bleidleisio, neu mewn ciw y tu allan i'r orsaf bleidleisio, er mwyn cyflwyno papur pleidleisio post a datganiad pleidleisio post—

(a) rhaid caniatáu i'r person gyflwyno'r papur pleidleisio a'r datganiad yn yr orsaf bleidleisio, a

(b) pan fônt wedi eu cyflwyno, maent i'w trin fel pe baent wedi eu cyflwyno cyn i'r bleidlais gau at ddibenion y rheol hon.

(5) "Yr ardal briodol" y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(a) yw'r ardal a ddynodir drwy—

(a) canfod y pleidleisiau y rhoddwyd papur pleidleisio i'r pleidleisiwr post mewn cysylltiad â hwy,

(b) adnabod yr etholaeth neu'r ardal arall y mae pob un o'r pleidleisiau hynny'n cael eu cynnal mewn cysylltiad â hi, ac

(c) wedyn adnabod yr ardal sy'n gyffredin i'r holl ardaloedd hynny.

Y cyfrif: cyffredinol

59.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan fo'r swyddog canlyniadau wedi cymysgu'r papurau pleidleisio o dan reol 55(11) neu 57(4).

(2) Rhaid canfod canlyniad y bleidlais drwy gyfrif y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd.

(3) Rhaid datgan bod yr ymgeisydd neu'r ymgeiswyr y rhoddwyd mwy o bleidleisiau iddo ef neu iddynt hwy nag i'r ymgeiswyr eraill, hyd at nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol, wedi ei ethol neu wedi eu hethol.

(c) received by the returning officer by post before the close of the poll.

(3) A postal voting statement is properly completed if—

(a) it is signed by the elector or (as the case may be) the proxy, unless the registration officer has dispensed with the requirement for a signature,

(b) it states the date of birth of the elector or (as the case may be) the proxy, and

(c) in a case where steps for verifying the date of birth and signature of an elector or proxy have been prescribed by regulations under the 1983 Act, the returning officer has taken those steps and verified the date of birth and (except in a case where the requirement for a signature has been dispensed with) the signature.

(4) Where, at the close of the poll, a person is in the polling station, or in a queue outside the polling station, for the purpose of handing in a postal ballot paper and postal voting statement—

(a) the person must be permitted to hand the ballot paper and statement in at the polling station, and

(b) where handed in, they are to be treated as having been handed in before the close of the poll for the purposes of this rule.

(5) "The appropriate area" referred to in paragraph (2)(a) is the area which is identified by—

(a) establishing the polls in respect of which the postal voter has been issued with a ballot paper,

(b) identifying the constituency or other area in respect of which each of those polls is being held, and

(c) then identifying the area that is common to all those areas.

The count: general

59.—(1) This rule applies where the returning officer has mixed the ballot papers under rule 55(11) or 57(4).

(2) The result of the poll must be ascertained by counting the votes given to each candidate.

(3) The candidate or candidates to whom more votes have been given than to the other candidates, up to the number of councillors to be elected, must be declared to have been elected.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid i'r swyddog canlyniadau, i'r graddau y bo'n ymarferol, fwrw ymlaen yn ddi-dor â'r gwaith cyfrif pleidleisiau, gan ganiatáu amser ar gyfer lluniaeth yn unig.

(5) Caiff y swyddog canlyniadau eithrio unrhyw oriau rhwng 7 p.m. a 9 a.m. fore trannoeth.

(6) Yn ystod unrhyw amser sydd wedi ei eithrio, rhaid i'r swyddog canlyniadau—

- (a) gosod y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill sy'n ymwneud â'r etholiad o dan sêl y swyddog canlyniadau a seliau unrhyw asiantau cyfrif cymuned sy'n dymuno gosod eu sêl, a
- (b) cymryd rhagofalon priodol fel arall ar gyfer diogelwch y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill.

Y cyfrif: papurau pleidleisio a wrthodwyd

60.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (4), mae'r papurau pleidleisio a ganlyn yn ddi-rym ac ni chaniateir eu cyfrif—

- (a) papur pleidleisio nad oes arno farc swyddogol;
- (b) papur pleidleisio y rhoddwyd pleidleisiau arno dros fwy o ymgeiswyr nag y mae gan y pleidleisiwr hawl i bleidleisio drostynt;
- (c) papur pleidleisio y mae unrhyw beth wedi ei ysgrifennu neu wedi ei farcio arno y gellir adnabod y pleidleisiwr drwyddo ac eithrio'r rhif printiedig a'r marc adnabod unigryw arall ar y cefn;
- (d) papur pleidleisio sydd heb ei farcio neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd.

(2) Pan fo gan y pleidleisiwr hawl i bleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd, nid yw papur pleidleisio i'w drin fel pe bai'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd o ran unrhyw bleidlais nad oes ansicrwydd yn codi yn ei chylch a rhaid cyfrif y bleidlais honno.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys i bapur pleidleisio y marciwyd pleidlais arno—

- (a) mewn man heblaw'r man priodol,
- (b) heblaw drwy gyfrwng croes, neu
- (c) drwy fwy nag un marc.

(4) Nid yw'r papur pleidleisio i'w drin fel pe bai'n ddi-rym (naill ai'n gyfan gwbl neu o ran y bleidlais honno), oherwydd y modd y mae'r bleidlais wedi ei marcio yn unig—

- (a) os yw'n glir o'r papur pleidleisio fod y pleidleisiwr yn bwriadu pleidleisio dros un neu'r llall o'r ymgeiswyr,

(4) Subject to paragraph (5), the returning officer must, so far as practicable, proceed continuously with the counting of votes, allowing only time for refreshment.

(5) The returning officer may exclude any hours between 7 p.m. and 9 a.m. on the following morning.

(6) During any time that is excluded, the returning officer must—

- (a) place the ballot papers and other documents relating to the election under the returning officer's seal and the seals of any community counting agents who wish to affix their seals, and
- (b) otherwise take proper precautions for the security of the ballot papers and other documents.

The count: rejected ballot papers

60.—(1) Subject to paragraphs (2) and (4), the following ballot papers are void and must not be counted—

- (a) a ballot paper that does not bear the official mark;
- (b) a ballot paper on which votes are given for more candidates than the voter is entitled to vote for;
- (c) a ballot paper on which anything is written or marked by which the voter can be identified except the printed number and other unique identifying mark on the back;
- (d) a ballot paper that is unmarked or void for uncertainty.

(2) Where the voter is entitled to vote for more than one candidate, a ballot paper is not to be treated as void for uncertainty as respects any vote as to which no uncertainty arises and that vote must be counted.

(3) Paragraph (4) applies to a ballot paper on which a vote is marked—

- (a) elsewhere than in the proper place,
- (b) otherwise than by means of a cross, or
- (c) by more than one mark.

(4) The ballot paper is not, by reason only of how the vote is marked, to be treated as void (either wholly or as respects that vote) if—

- (a) it is clear from the ballot paper that the voter intended to vote for one or other of the candidates,

- (b) os nad yw'r modd y mae'r papur pleidleisio wedi ei farcio ynddo'i hun yn adnabod y pleidleisiwr, ac
- (c) os yw'r swyddog canlyniadau wedi ei fodloni na ellir adnabod y pleidleisiwr o'r papur pleidleisio.

(5) Rhaid i'r swyddog canlyniadau—

- (a) arnodi'r gair “gwrthodwyd” ar unrhyw bapur pleidleisio nad yw, yn unol â'r rheol hon, i'w gyfrif;
- (b) arnodi'r geiriau “gwrthodwyd yn rhannol” ar unrhyw bapur pleidleisio y cyfrifir pleidlais arno yn unol â pharagraff (2) a nodi pa bleidlais neu bleidleisiau a gyfrifwyd.

(6) Os bydd asiant cyfrif cymuned yn gwrthwynebu penderfyniad y swyddog canlyniadau, rhaid i'r swyddog canlyniadau ychwanegu'r geiriau “gwrthwynebwyd y gwrthodiad” at yr arnodiad.

(7) Rhaid i'r swyddog canlyniadau baratoi datganiad yn dangos nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd a'r nifer a wrthodwyd yn rhannol.

(8) Rhaid i'r datganiad nodi'r nifer a wrthodwyd neu a wrthodwyd yn rhannol o dan bob un o'r penawdau yn is-baragraffau (a) i (d) o baragraff (1).

Ailgyfrif

61.—(1) Caiff ymgeisydd neu asiant etholiadol yr ymgeisydd (os penodwyd un), os yw'n bresennol pan fydd y cyfrif wedi ei gwblhau, ofyn i'r swyddog canlyniadau ailgyfrif y pleidleisiau.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau gydymffurfio â'r cais oni bai bod y swyddog canlyniadau o'r farn bod y cais yn afresymol.

(3) Ni chaniateir cymryd unrhyw gam pan fo'r cyfrif wedi ei gwblhau nes bod yr ymgeiswyr a'r asiantau etholiadol sy'n bresennol wedi cael cyfle rhesymol i ofyn i'r pleidleisiau gael eu hailgyfrif.

(4) Pan fydd ailgyfrif yn digwydd, mae'r rheol hon hefyd yn gymwys mewn perthynas â'r ailgyfrif (fel y gall yr ymgeisydd neu asiant etholiadol yr ymgeisydd (os penodwyd un), er enghraifft, os yw'n bresennol pan fydd yr ailgyfrif wedi ei gwblhau, ofyn i'r swyddog canlyniadau ailgyfrif y pleidleisiau).

Pleidleisiau cyfartal

62.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan fo'r pleidleisiau'n gyfartal rhwng unrhyw ymgeiswyr ar ôl cyfrif y pleidleisiau (gan gynnwys unrhyw ailgyfrif), a phan fyddai ychwanegu pleidlais yn rhoi'r hawl i unrhyw un o'r ymgeiswyr hynny gael ei ethol.

- (b) the way the ballot paper is marked does not itself identify the voter, and
- (c) the returning officer is satisfied that the voter cannot be identified from the ballot paper.

(5) The returning officer must—

- (a) endorse the word “rejected” on any ballot paper which, in accordance with this rule, is not to be counted;
- (b) endorse the word “rejected in part” on any ballot paper on which a vote is counted in accordance with paragraph (2) and indicate which vote or votes have been counted.

(6) If a community counting agent objects to the returning officer's decision, the returning officer must add the words “rejection objected to” to the endorsement.

(7) The returning officer must prepare a statement showing the number of ballot papers rejected and the number rejected in part.

(8) The statement must set out the number rejected or rejected in part under each of the headings in subparagraphs (a) to (d) of paragraph (1).

Re-count

61.—(1) A candidate or the candidate's election agent (if appointed) may, if present when the count is completed, request that the returning officer re-count the votes.

(2) The returning officer must comply with the request unless the returning officer's opinion is that the request is unreasonable.

(3) No step may be taken on the completion of the count until the candidates and election agents who are present have been given a reasonable opportunity to request that the votes are re-counted.

(4) Where a re-count takes place, this rule also applies in relation to the re-count (so that, for example, the candidate or the candidate's election agent (if appointed) may, if present when the re-count is completed, request that the returning officer re-count the votes).

Equality of votes

62.—(1) This rule applies where, after the counting of the votes (including any re-count), there is an equality of votes between any candidates and the addition of a vote would entitle any of those candidates to be elected.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau benderfynu ar unwaith rhwng yr ymgeiswyr drwy fwrw coelbren a bwrw ymlaen fel pe bai'r ymgeisydd y mae'r coelbren yn mynd o'i blaidd wedi cael pleidlais ychwanegol.

Penderfynu ar bapurau pleidleisio

63. Mae penderfyniad y swyddog canlyniadau ar unrhyw gwestiwn sy'n codi mewn cysylltiad â phapur pleidleisio yn derfynol, ond caniateir ei adolygu ar ddeiseb etholiad.

Datgan y canlyniad

64.—(1) Pan fydd y cyfrif wedi ei gwblhau, rhaid i'r swyddog canlyniadau ddatgan bod yr ymgeisydd neu'r ymgeiswyr y rhoddwyd mwy o bleidleisiau iddo ef neu iddynt hwy nag i ymgeiswyr eraill wedi ei ethol neu wedi eu hethol, hyd at nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau roi hysbysiad yn datgan enwau a chyfeiriadau'r ymgeiswyr a etholwyd—

- (a) i swyddog priodol y cyngor cymuned, a
- (b) i swyddog priodol y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y lleolir y gymuned ynddo.

(3) Rhaid i'r swyddog canlyniadau gyhoeddi hysbysiad hefyd—

- (a) o enwau'r ymgeiswyr a etholwyd,
- (b) o gyfanswm nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd (p'un a etholwyd hwy ai peidio), ac
- (c) o nifer y papurau pleidleisiau a wrthodwyd o dan bob pennawd a ddangosir yn y datganiad o'r papurau pleidleisio a wrthodwyd (gweler rheol 60(7)).

RHAN 5

Gwaredu Dogfennau

Selio papurau pleidleisio mewn etholiadau lle ceir gornest

65.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys ar ôl cwblhau cyfrif y pleidleisiau mewn etholiad lle ceir gornest.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau selio mewn pecynnau ar wahân—

- (a) y papurau pleidleisio a gyfrifwyd, a
- (b) y papurau pleidleisio a wrthodwyd (gan gynnwys y papurau pleidleisio a wrthodwyd yn rhannol).

(2) The returning officer must immediately decide between the candidates by lot and proceed as if the candidate on whom the lot falls had received an additional vote.

Decision on ballot papers

63. The decision of the returning officer on any question arising in respect of a ballot paper is final but may be reviewed on an election petition.

Declaration of result

64.—(1) When the count has been completed, the returning officer must declare to be elected the candidate or candidates to whom more votes have been given than to other candidates, up to the number of councillors to be elected.

(2) The returning officer must give a notice stating the names and addresses of the candidates elected to—

- (a) the proper officer of the community council, and
- (b) the proper officer of the council of the county or county borough in which the community is situated.

(3) The returning officer must also publish notice of—

- (a) the names of the candidates elected,
- (b) the total number of votes given for each candidate (whether elected or not), and
- (c) the number of rejected ballot papers under each head shown in the statement of rejected ballot papers (see rule 60(7)).

PART 5

Disposal of Documents

Sealing up of ballot papers at contested elections

65.—(1) This rule applies on the completion of the counting of votes at a contested election.

(2) The returning officer must seal up in separate packets—

- (a) the counted ballot papers, and
- (b) the rejected ballot papers (including the ballot papers rejected in part).

(3) Rhaid i'r swyddog canlyniadau beidio ag agor unrhyw becyn a seliwyd o dan reol 51(3) sy'n cynnwys papurau pleidleisio a dendrwyd.

(4) Pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, rhaid i'r swyddog canlyniadau beidio ag agor unrhyw becynnau a seliwyd o dan reol 51(3) sy'n cynnwys—

- (a) rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd,
- (b) copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestrau dirprwyon;
- (c) tystysgrifau a ildwyd gan gwnstabiliaid neu staff swyddogion canlyniadau o dan reol 37(4) neu (5).

Danfôn dogfennau i'r swyddog cofrestru mewn etholiadau lle ceir gornest

66.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan fo'r swyddog canlyniadau wedi selio'r papurau pleidleisio a gyfrifwyd a'r papurau pleidleisio a wrthodwyd o dan reol 65(2).

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau anfon y dogfennau a ganlyn at swyddog cofrestru'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y cynhelir yr etholiad yn ei ardal—

- (a) y pecynnau o bapurau pleidleisio sydd ym meddiant y swyddog canlyniadau;
- (b) y cyfriflenni papurau pleidleisio a baratowyd o dan reol 51(5);
- (c) y datganiadau o'r papurau pleidleisio a wrthodwyd a baratowyd o dan reol 60(7);
- (d) y datganiadau o ganlyniad dilysiad y cyfriflenni papurau pleidleisio a baratowyd o dan reol 55(6);
- (e) y pecynnau sy'n cynnwys y rhestr pleidleiswyr post a'r rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy.

(3) Pan fo'r swyddog canlyniadau yn swyddog canlyniadau cydlynol hefyd, rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd anfon y dogfennau a ganlyn at swyddog cofrestru'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y cynhelir yr etholiad yn ei ardal—

- (a) y rhestrau a'r datganiadau a ganlyn—
 - (i) y rhestrau pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, ynghyd â datganiad o nifer y pleidleiswyr y mae eu pleidleisiau wedi eu marcio o dan y penawdau “anabledd” a “methu darllen” (gweler rheol 43);
 - (ii) y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau (gweler rheol 44);

(3) The returning officer must not open any packet sealed under rule 51(3) that contains tendered ballot papers.

(4) Where the returning officer is the co-ordinating returning officer, the returning officer must also not open any packets sealed under rule 51(3) that contain—

- (a) completed corresponding number lists;
- (b) marked copies of the registration records and list of proxies;
- (c) certificates surrendered by constables or staff of returning officers under rule 37(4) or (5).

Delivery of documents to registration officer at contested elections

66.—(1) This rule applies where the returning officer has sealed up the counted and rejected ballot papers under rule 65(2).

(2) The returning officer must forward the following documents to the registration officer of the county or county borough council in whose area the election is held—

- (a) the packets of ballot papers in the returning officer's possession;
- (b) the ballot paper accounts prepared under rule 51(5);
- (c) the statements of rejected ballot papers prepared under rule 60(7);
- (d) the statements as to the result of the verification of the ballot paper accounts prepared under rule 55(6);
- (e) the packets containing the postal voters list and the proxy postal voters list.

(3) Where the returning officer is also the co-ordinating returning officer, the returning officer must forward the following documents to the registration officer of the county or county borough council in whose area the election is held—

- (a) the following lists and declarations—
 - (i) the lists of votes marked by the presiding officer, together with a statement of the number of voters whose votes are marked under the heads “disability” and “unable to read” (see rule 43);
 - (ii) the declarations made by the companions of voters with disabilities (see rule 44);

- (iii) y rhestrau pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion (gweler rheol 45);
 - (iv) y rhestrau pleidleisiau a dendrwyd (gweler rheol 47);
 - (v) y rhestrau a gadwyd o dan reol 49 (cywiro gwallau ar ddiwrnod y bleidlais);
- (b) y pecynnau sy'n cynnwys y rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd;
 - (c) y pecynnau sy'n cynnwys copiâu a farciwyd o gofnodion cofrestru a rhestrau dirprwyon;
 - (d) y pecynnau sy'n cynnwys tystysgrifau a ildwyd gan gwnstabiliaid neu staff swyddogion canlyniadau o dan reol 37(4) neu (5).

- (iii) the lists of voters with disabilities assisted by companions (see rule 45);
 - (iv) the tendered votes lists (see rule 47);
 - (v) the lists maintained under rule 49 (correction of errors on the day of the poll);
- (b) the packets containing completed corresponding number lists;
 - (c) the packets containing marked copies of the registration records and list of proxies;
 - (d) the packets containing certificates surrendered by constables or staff of returning officers under rule 37(4) or (5).

Dangos etc. dogfennau

67.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys mewn perthynas â'r dogfennau a ganlyn pan fyddant ym meddiant y swyddog cofrestru (ar ôl cael eu hanfon o dan reol 66)—

- (a) papurau pleidleisio a wrthodwyd ac a gyfrifwyd;
- (b) pecynnau a seliwyd sy'n cynnwys rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd;
- (c) pecynnau a seliwyd sy'n cynnwys tystysgrifau a ildwyd gan gwnstabiliaid neu staff swyddogion canlyniadau o dan reol 37(4) neu (5).

(2) Caiff llys sirol wneud unrhyw un neu ragor o'r gorchymynion a ganlyn, os yw wedi ei fodloni gan dystiolaeth ar lw fod angen y gorchymyn er mwyn naill ai cychwyn neu gynnal erlyniad am drosedd mewn perthynas â phapurau pleidleisio neu at ddibenion deiseb etholiad—

- (a) gorchymyn i archwilio neu ddangos unrhyw un neu ragor o'r papurau pleidleisio a wrthodwyd (gan gynnwys unrhyw bapurau pleidleisio a wrthodwyd yn rhannol);
- (b) gorchymyn i archwilio unrhyw un neu ragor o'r papurau pleidleisio a gyfrifwyd;
- (c) gorchymyn i agor unrhyw un neu ragor o'r pecynnau a seliwyd sy'n cynnwys—
 - (i) rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd, neu
 - (ii) tystysgrifau a ildwyd gan gwnstabiliaid neu staff swyddogion canlyniadau o dan reol 37(4) neu (5);

Production etc. of documents

67.—(1) This rule applies in relation to the following documents when in the custody of the registration officer (having been forwarded under rule 66)—

- (a) rejected and counted ballot papers;
- (b) sealed packets containing completed corresponding number lists;
- (c) sealed packets containing certificates surrendered by constables or staff of returning officers under rule 37(4) or (5).

(2) A county court may make any of the following orders, if satisfied by evidence on oath that the order is required either for the purpose of instituting or maintaining a prosecution for an offence in relation to ballot papers or for the purpose of an election petition—

- (a) an order for the inspection or production of any of the rejected ballot papers (including any ballot papers rejected in part);
- (b) an order for the inspection of any of the counted ballot papers;
- (c) an order for the opening of any of the sealed packets containing—
 - (i) completed corresponding number lists, or
 - (ii) certificates surrendered by constables or staff of returning officers under rule 37(4) or (5);

(d) pan wneir gorchymyn i agor unrhyw un neu ragor o'r pecynnau a seliwyd o dan is-baragraff (c), gorchymyn i archwilio neu ddangos y cyfan neu ran o'r cynnwys.

(3) Caiff llys etholiad wneud—

(a) gorchymyn i archwilio unrhyw un neu ragor o'r papurau pleidleisio a gyfrifwyd;

(b) gorchymyn i agor unrhyw un neu ragor o'r pecynnau a seliwyd sy'n cynnwys—

(i) rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd, neu

(ii) tystysgrifau a ildwyd gan gwnstablaid neu staff swyddogion canlyniadau o dan reol 37(4) neu (5);

(c) pan wneir gorchymyn i agor unrhyw un neu ragor o'r pecynnau a seliwyd o dan is-baragraff (b), gorchymyn i archwilio neu ddangos y cyfan neu ran o'r cynnwys.

(4) Caniateir i orchymyn o dan y rheol hon gael ei wneud yn ddarostyngedig i unrhyw un neu ragor o'r amodau a ganlyn y mae'r llys yn credu eu bod yn briodol—

(a) amodau ynglŷn â phersonau;

(b) amodau ynglŷn ag amser;

(c) amodau ynglŷn â'r lle archwilio a'r dull archwilio;

(d) amodau ynglŷn â dangos neu agor.

(5) Rhaid i lys, wrth wneud gorchymyn o dan y rheol hon i archwilio papurau pleidleisio a gyfrifwyd neu i agor pecyn a seliwyd, osod unrhyw amodau o dan baragraff (4) y mae'r llys o'r farn eu bod yn briodol i sicrhau na ddatgelir y modd y mae etholwr wedi rhoi ei bleidlais oni bai a hyd nes y profwyd—

(a) bod yr etholwr wedi rhoi ei bleidlais, a

(b) bod y bleidlais wedi ei datgan yn annilys gan lys cymwys.

(6) Rhaid i unrhyw berson sy'n rhoi ei effaith i orchymyn o dan y rheol hon i archwilio papurau pleidleisio a gyfrifwyd neu i agor pecyn a seliwyd gymryd gofal i sicrhau na ddatgelir y modd y mae etholwr wedi rhoi ei bleidlais oni bai a hyd nes y profwyd—

(a) bod yr etholwr wedi rhoi ei bleidlais, a

(b) bod y bleidlais wedi ei datgan yn annilys gan lys cymwys.

(7) At yr Uchel Lys y cyfeirir apêl sy'n deillio o orchymyn llys sirol o dan y rheol hon.

(8) Caniateir i bwerau llys sirol o dan y rheol hon gael eu harfer gan unrhyw un neu ragor o farnwyr y llys heblaw mewn llys agored.

(d) where an order for the opening of any of the sealed packets is made under sub-paragraph (c), an order for the inspection or production of the whole or part of its contents.

(3) An election court may make—

(a) an order for the inspection of any of the counted ballot papers;

(b) an order for the opening of any of the sealed packets containing—

(i) completed corresponding number lists, or

(ii) certificates surrendered by constables or staff of returning officers under rule 37(4) or (5);

(c) where an order for the opening of any of the sealed packets is made under sub-paragraph (b), an order for the inspection or production of the whole or part of its contents.

(4) An order under this rule may be made subject to such of the following conditions as the court thinks appropriate—

(a) conditions as to persons;

(b) conditions as to time;

(c) conditions as to the place and method of inspection;

(d) conditions as to production or opening.

(5) A court, in making an order under this rule for the inspection of counted ballot papers or for the opening of a sealed packet, must impose such conditions under paragraph (4) as the court considers appropriate to ensure that the way in which an elector has given their vote is not disclosed unless and until it has been proved—

(a) that the elector has given their vote, and

(b) that the vote has been declared by a competent court to be invalid.

(6) Any person giving effect to an order under this rule for the inspection of counted ballot papers or for the opening of a sealed packet must take care to ensure that the way in which an elector has given their vote is not disclosed unless and until it has been proved—

(a) that the elector has given their vote, and

(b) that the vote has been declared by a competent court to be invalid.

(7) An appeal lies to the High Court from an order of a county court under this rule.

(8) The powers of a county court under this rule may be exercised by any judge of the court otherwise than in open court.

(9) Ac eithrio fel y darperir gan y rheol hon, ni chaiff neb—

- (a) archwilio unrhyw un neu ragor o'r papurau pleidleisio a wrthodwyd neu a gyfrifwyd;
- (b) agor unrhyw un neu ragor o'r pecynnau a seliwyd sy'n cynnwys—
 - (i) rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd, neu
 - (ii) tystysgrifau a ildwyd gan gwnstabiliaid neu staff swyddogion canlyniadau o dan reol 37(4) neu (5).

Gorchymynion i ddangos etc. dogfennau: darpariaeth atodol

68.—(1) Mae paragraffau (2) a (3) yn gymwys pan wneir gorchymyn o dan reol 67 i swyddog cofrestru ddangos dogfen sydd ym meddiant y swyddog cofrestru ac sy'n ymwneud ag etholiad a bennwyd yn y gorchymyn.

(2) Mae dangos y ddogfen gan y swyddog cofrestru neu asiant y swyddog cofrestru yn y modd a gyfarwyddwyd gan y gorchymyn yn dystiolaeth bendant bod y ddogfen yn ymwneud â'r etholiad a bennwyd.

(3) Os bydd pecyn o bapurau pleidleisio sydd ag arnodiad ar y pecyn yn cael ei ddangos gan y swyddog cofrestru neu asiant y swyddog cofrestru i gydymffurfio â'r gorchymyn, mae'r arnodiad yn dystiolaeth prima facie mai'r papurau pleidleisio yw'r hyn y mae'r arnodiad yn dweud eu bod.

(4) Mae paragraff (5) yn gymwys pan fo swyddog cofrestru neu asiant swyddog cofrestru, er mwyn cydymffurfio â gorchymyn o dan reol 67, wedi dangos—

- (a) papur pleidleisio sy'n honni ei fod wedi ei ddefnyddio mewn etholiad, a
- (b) rhestr rhifau cyfatebol a gwblhawyd a oedd yn cael ei defnyddio yn yr etholiad, gyda rhif wedi ei farcio mewn ysgrif wrth ochr rhif y papur pleidleisio hwnnw ar y rhestr.

(5) Mae dangos y papur pleidleisio a'r rhestr yn dystiolaeth prima facie mai'r etholwr y rhoddwyd ei bleidlais gan y papur pleidleisio hwnnw oedd y person yr oedd ei gofnod adeg yr etholiad yn y gofrestr etholwyr, neu ar hysbysiad a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983, yn cynnwys yr un rhif â'r rhif a ysgrifennwyd ar y papur pleidleisio.

(9) Except as provided by this rule, no person may—

- (a) inspect any of the rejected or counted ballot papers;
- (b) open any of the sealed packets containing—
 - (i) completed corresponding number lists, or
 - (ii) certificates surrendered by constables or staff of returning officers under rule 37(4) or (5).

Orders for the production etc. of documents: supplemental provision

68.—(1) Paragraphs (2) and (3) apply where an order is made under rule 67 for the production by a registration officer of a document in the registration officer's custody relating to an election specified in the order.

(2) The production by the registration officer or the registration officer's agent of the document in the manner directed by the order is conclusive evidence that the document relates to the specified election.

(3) If a packet of ballot papers with an endorsement on the packet is produced by the registration officer or the registration officer's agent to comply with the order, the endorsement is prima facie evidence that the ballot papers are what they are stated to be by the endorsement.

(4) Paragraph (5) applies where, to comply with an order under rule 67, a registration officer or a registration officer's agent has produced—

- (a) a ballot paper purporting to have been used at an election, and
- (b) a completed corresponding number list in use at the election, with a number marked in writing beside the number of that ballot paper on the list.

(5) The production of the ballot paper and the list are prima facie evidence that the elector whose vote was given by that ballot paper was the person whose entry at the time of the election in the register of electors, or on a notice issued under section 13B(3B) or (3D) of the 1983 Act, contained the same number as the number written on the ballot paper.

Cadw a dinistrio dogfennau a anfonwyd at y swyddog cofrestru

69.—(1) Rhaid i'r swyddog cofrestru gadw'r holl ddogfennau a anfonwyd o dan reol 66 am gyfnod o flwyddyn sy'n dechrau â'r diwrnod y daethant i law'r swyddog cofrestru.

(2) Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw o flwyddyn, rhaid i'r swyddog cofrestru beri i'r dogfennau gael eu dinistrio oni chyfarwyddir fel arall gan orchymyn llys sirol, Llys y Goron, llys ynadon neu llys etholiad.

Dinistrio ffurflenni cyfeiriad cartref gan y swyddog canlyniadau

70.—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddinistrio ffurflen cyfeiriad cartref pob ymgeisydd—

- (a) drannoeth y 35^{ain} diwrnod ar ôl i'r swyddog canlyniadau ddychwelyd enwau'r cynghorwyr a etholwyd, oni bai bod deiseb etholiad sy'n amau etholiad neu ddychweliad ymgeiswyr yn cael ei chyflwyno cyn y diwrnod hwnnw;
- (b) os cyflwynir deiseb etholiad sy'n amau etholiad neu ddychweliad cynghorwyr cyn y diwrnod hwnnw, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r achos ynglŷn â'r ddeiseb ddod i ben (gan gynnwys achos yr apêl, pan geir apêl).

(2) Er mwyn penderfynu ar y diwrnod y mae'n rhaid dinistrio ffurflenni cyfeiriad cartref ymgeiswyr, rhaid diystyru unrhyw ddiwrnod sy'n ddiwrnod eithriedig.

RHAN 6

Marwolaeth Ymgeisydd

Diddymu pleidlais neu roi'r gorau iddi ar ôl i ymgeisydd farw

71.—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan fo'r swyddog canlyniadau, mewn etholiad lle ceir gornest, wedi ei fodloni cyn i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan fod un o'r personau a enwyd neu sydd i'w enwi yn ymgeisydd yn y papurau pleidleisio wedi marw.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddiddymu hysbysiad y bleidlais neu, os yw'r pleidleisio wedi dechrau, rhaid i'r swyddog canlyniadau gyfarwyddo rhoi'r gorau i'r bleidlais ac ni chaniateir dyroddi rhagor o bapurau pleidleisio.

(3) Nid yw diddymu'r bleidlais neu gyfarwyddyd i roi'r gorau iddi yn effeithio ar y bleidlais mewn unrhyw etholiad perthnasol.

Retention and destruction of documents forwarded to registration officer

69.—(1) The registration officer must retain all documents forwarded under rule 66 for a period of one year beginning with the day on which they were received by the registration officer.

(2) At the end of that period of one year, the registration officer must cause the documents to be destroyed unless otherwise directed by an order of a county court, a Crown Court, a magistrates' court or an election court.

Destruction of home address forms by returning officer

70.—(1) The returning officer must destroy each candidate's home address form—

- (a) on the next day following the 35th day after the returning officer has returned the names of the councillors elected, unless an election petition questioning the election or the return of candidates is presented before that day;
- (b) if an election petition questioning the election or return of councillors is presented before that day, as soon as practicable following the conclusion of proceedings on the petition (including, where there is an appeal, the proceedings on the appeal).

(2) For the purpose of deciding the day on which candidates' home address forms must be destroyed, any day that is an excluded day must be disregarded.

PART 6

Death of Candidate

Countermand or abandonment of poll on death of a candidate

71.—(1) This rule applies where, at a contested election, the returning officer is satisfied before the result of the election is declared that one of the persons named or to be named as a candidate in the ballot papers has died.

(2) The returning officer must countermand notice of the poll or, if polling has begun, the returning officer must direct that the poll be abandoned and no further ballot papers may be issued.

(3) The countermanding of the poll or a direction that it be abandoned does not affect the poll at any relevant election.

(4) Pan fo'r bleidlais wedi ei chau ym mhob etholiad perthnasol, rhaid i'r swyddog llywyddu mewn unrhyw orsaf bleidleisio sy'n cael ei defnyddio yn yr etholiad gymryd y camau (i'r graddau nad ydynt eisoes wedi eu cymryd) y byddai'n ofynnol i'r swyddog llywyddu eu cymryd o dan reol 51 pe na buasid wedi rhoi'r gorau i'r bleidlais yn etholiad y gymuned, ac eithrio nad oes angen i'r swyddog llywyddu baratoi cyfriflen papurau pleidleisio.

(5) Pan y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd y camau (i'r graddau nad ydynt eisoes wedi eu cymryd) y byddai'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau eu cymryd o dan Ran 4, ac eithrio—

- (a) na chaniateir i'r swyddog canlyniadau fwrw ymlaen â chyfrif unrhyw bapurau pleidleisio na phleidleisiau sy'n ymwneud â'r bleidlais y rhoddwyd y gorau iddi, a
- (b) nad oes angen dilysu unrhyw gyfriflen papurau pleidleisio sy'n ymwneud â'r bleidlais honno.

(6) Pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, rhaid i'r swyddog canlyniadau—

- (a) derbyn unrhyw bapurau pleidleisio neu ddogfennau eraill sy'n ymwneud â'r bleidlais y rhoddwyd y gorau iddi y caniateir eu danfon gan neu ar ran y swyddog canlyniadau cydlynol, ond
- (b) peidio â bwrw ymlaen fel arall ag unrhyw gam o dan Ran 4 sy'n ymwneud â'r bleidlais y rhoddwyd y gorau iddi.

(7) Rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd yr un camau ag y byddai'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau eu cymryd o dan reolau 65 a 66 ar ôl cwblhau cyfrif y pleidleisiau (pe na buasid wedi rhoi'r gorau i'r bleidlais), ac eithrio—

- (a) bod rhaid i'r swyddog canlyniadau selio'r holl bapurau pleidleisio (p'un a yw'r pleidleisiau arnynt wedi eu cyfrif ai peidio), a
- (b) nad oes angen selio papurau pleidleisio a gyfrifwyd ac a wrthodwyd mewn pecynnau ar wahân.

(8) Mae darpariaethau rheolau 67 i 69 yn gymwys i bapurau pleidleisio a dogfennau eraill sy'n ymwneud â phleidlais y rhoddwyd y gorau iddi oherwydd marwolaeth ymgeisydd, ac eithrio—

- (a) bod papurau pleidleisio na chafodd y pleidleisiau arnynt eu cyfrif na'u gwrthod i'w trin fel papurau pleidleisio a gyfrifwyd, a

(4) At the close of the poll at each relevant election, the presiding officer at any polling station in use at the election must take the steps (so far as not already taken) that the presiding officer would be required to take under rule 51 had the poll at the community election not been abandoned, except that it is not necessary for the presiding officer to prepare a ballot paper account.

(5) Where the returning officer is the co-ordinating returning officer, the returning officer must take the steps (so far as not already taken) that the returning officer would be required to take under Part 4 except that—

- (a) the returning officer must not proceed with counting any ballot papers or votes relating to the abandoned poll, and
- (b) it is not necessary to verify any ballot paper account relating to that poll.

(6) Where the returning officer is not the co-ordinating returning officer, the returning officer—

- (a) must receive any ballot papers or other documents relating to the abandoned poll that may be delivered by or on behalf of the co-ordinating returning officer, but
- (b) must not otherwise proceed with any step under Part 4 relating to the abandoned poll.

(7) The returning officer must take the same steps as the returning officer would be required to take under rules 65 and 66 on the completion of the counting of votes (had the poll not been abandoned), except that—

- (a) the returning officer must seal up all the ballot papers (whether the votes on them have been counted or not), and
- (b) it is not necessary to seal up counted and rejected ballot papers in separate packets.

(8) The provisions of rules 67 to 69 apply to ballot papers and other documents relating to a poll that is abandoned by reason of a candidate's death, except that—

- (a) ballot papers on which the votes were neither counted nor rejected are to be treated as counted ballot papers, and

(b) y caniateir i orchymyn gael ei wneud o dan reol 67(2) neu (3) er mwyn cychwyn neu gynnal erlyniad am drosedd mewn perthynas â phapurau pleidleisio yn unig.

(9) O ran yr hyn sy'n digwydd ar ôl i hysbysiad o bleidlais gael ei ddiddymu neu ar ôl rhoi'r gorau i bleidlais, gweler adran 39 o Ddeddf 1983.

(b) an order may be made under rule 67(2) or (3) only for the purpose of instituting or maintaining a prosecution for an offence in relation to ballot papers.

(9) For what happens after notice of a poll is countermanded or a poll is abandoned, see section 39 of the 1983 Act.

ATODIADAU

Nodyn: Caniateir i'r ffurflenni a geir yn yr Atodiadau hyn gael eu haddasu i'r graddau y bo'r amgylchiadau'n gofyn.

Atodiad 1

Rheol 5(1)

Ffurf papur enwebu
<p>Adran 1: Manylion yr etholiad</p> <p>Etholiad cynghorwyr i [rhowch enw'r cyngor cymuned]</p> <p>Ardal etholiadol:</p> <p>Dyddiad yr etholiad (gweler nodyn 1):</p>
<p>Adran 2: Manylion personol yr ymgeisydd</p> <p>Cyfenwau'r ymgeisydd:</p> <p>Enwau blaen yr ymgeisydd:</p> <p>Cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin gan yr ymgeisydd (gweler nodyn 2 isod):</p> <p>Enwau blaen a ddefnyddir yn gyffredin gan yr ymgeisydd (gweler nodyn 2 isod):</p> <p>Dyddiad geni'r ymgeisydd:</p>
<p>Adran 3: Disgrifiad (os oes un) (gweler nodyn 3 isod)</p>
<p>Adran 4: Datganiad yr ymgeisydd o aelodaeth plaid (gweler nodyn 4 isod)</p> <p>Ydych chi wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig unrhyw bryd yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben â'r diwrnod y cyhoeddwyd hysbysiad yr etholiad? Ydw/Nac ydw</p> <p>Os ydych chi wedi ateb "Ydw", llenwch y tabl isod mewn perthynas â phob plaid wleidyddol gofrestredig rydych chi wedi bod yn aelod ohoni unrhyw bryd yn ystod y cyfnod hwnnw. Ychwanegwch ragor o resi os oes eu hangen. Rhaid ichi lenwi'r tabl hyd yn oed os yw'r plaid wedi peidio â bod neu os nad yw'n blaid wleidyddol gofrestredig mwyach.</p>

APPENDICES

Note: The forms contained in these Appendices may be adapted so far as circumstances require.

Appendix 1

Rule 5(1)

Form of nomination paper
<p>Section 1: Details of election</p> <p>Election of councillors to the [insert name of the community council]</p> <p>Electoral area:</p> <p>Date of election (see note 1):</p>
<p>Section 2: Candidate's personal details</p> <p>Candidate's surnames:</p> <p>Candidate's forenames:</p> <p>Candidate's commonly used surnames (see note 2 below):</p> <p>Candidate's commonly used forenames (see note 2 below):</p> <p>Candidate's date of birth:</p>
<p>Section 3: Description (if any) (see note 3 below)</p>
<p>Section 4: Candidate's statement of party membership (see note 4 below)</p> <p>Have you been a member of any registered political party at any time during the period of 12 months ending with the day on which the notice of election is published? Yes/No</p> <p>If you have answered "Yes", complete the table below in relation to each registered political party of which you have been a member at any time during that period. Add further rows if necessary. You must complete the table even if the party has ceased to exist or is no longer a registered political party.</p>

Does dim angen llenwi'r tabl os ydych wedi cynnwys disgrifiad plaid a ganiateir yn adran 3 o'r ffurflen hon ac nad ydych wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig yn ystod y cyfnod o 12 mis heblaw'r blaid neu'r pleidiau y mae'r disgrifiad yn ymwneud â hi neu â nhw.

Gofalwch sicrhau bod yr wybodaeth rydych chi'n ei rhoi yn gywir. Mae rheol 13 o Atodlen 2 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau gynnwys yr wybodaeth hon yn y datganiad o'r personau a enwebwyd, ac mae hwnnw'n cael ei gyhoeddi.

Enw neu enwau cofrestredig pob plaid wleidyddol gofrestredig	Y dyddiadau yn ystod y cyfnod o 12 mis pan oeddech chi'n aelod (gan ddefnyddio'r fformat dd/mm/yyyy i dd/mm/yyyy)

Adran 5: Datganiadau (gweler nodyn 5)

Cwblhewch y datganiadau a ganlyn a'u llofnodi.

Rwyf yn datgan fy mod yn gymwys ar y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn, ac y byddaf yn gymwys ar ddiwrnod yr etholiad, i gael fy ethol yn gynghorydd ar y sail fy mod i ar y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn, ac y byddaf fi ar ddiwrnod yr etholiad, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon, yn ddinesydd perthnasol o'r Undeb neu'n ddinesydd tramor cymwys sydd wedi cyrraedd 18 oed ac—*

(a) fy mod wedi cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal [rhoch enw'r cyngor cymuned] ar y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn ac y byddaf yn dal i fod felly ar ddiwrnod yr etholiad;

(b) fy mod wedi meddiannu fel perchennog neu denant dir neu fangre arall yn ardal [rhoch enw'r cyngor cymuned] yn ystod y cyfnod cyfan o 12 mis cyn y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn ac y byddaf wedi meddiannu fel perchennog neu denant dir neu fangre arall yn yr ardal honno yn ystod y cyfnod cyfan o 12 mis cyn diwrnod yr etholiad;

It is not necessary to complete the table if you have included a permitted party description in section 3 of this form and you have not been a member of any registered political party during the 12 months period other than the party or parties to which the description relates.

Please take care to ensure that the information you provide is accurate. The returning officer is required by rule 13 of Schedule 2 to the Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021 to include this information in the statement of persons nominated, which is published.

Registered name or names of each registered political party	The dates during the 12 months period when you were a member (using the format dd/mm/yyyy to dd/mm/yyyy)

Section 5: Declarations (see note 5)

Complete and sign the following declarations.

I declare that I am qualified on the day on which I complete this nomination paper, and that I will be qualified on the day of election, to be elected as councillor on the basis that I am on the day on which I complete this nomination paper, and will be on the day of election, a qualifying Commonwealth citizen, a citizen of the Republic of Ireland, a relevant citizen of the Union or a qualifying foreign citizen who has attained the age of 18 years and that—*

(a) I am registered as a local government elector for the area of [insert the name of the community council] on the day on which I complete this nomination paper and will continue to be on the day of election;

(b) I have occupied as owner or tenant land or other premises in the area of [insert the name of the community council] during the whole of the period of 12 months preceding the day on which I complete this nomination paper and I will have occupied as owner or tenant land or other premises in that area during the whole of the period of 12 months preceding the day of election;

(c) bod fy mhrif weithle neu fy unig weithle yn ystod y cyfnod o 12 mis cyn y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn wedi bod yn ardal [rhowch enw'r cyngor cymuned] ac y bydd fy mhrif weithle neu fy unig weithle yn ystod y 12 mis cyn diwrnod yr etholiad wedi bod yn yr ardal honno;

(d) fy mod wedi preswyllo yn [rhowch enw'r gymuned] neu o fewn 3 milltir iddi yn ystod y cyfnod cyfan o 12 mis cyn y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn ac y byddaf wedi preswyllo yn y gymuned honno neu o fewn 3 milltir iddi yn ystod y cyfnod cyfan o 12 mis cyn diwrnod yr etholiad.

*Dylai'r ymgeiswyr nodi pa un neu ragor o baragraffau (a) i (d) sy'n gymwys iddynt drwy dicio'r rhai sy'n gymwys a thynnu llinell drwy'r rhai nad ydynt yn gymwys.

Rwyf hefyd yn datgan nad wyf, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, wedi fy anghymhwysio rhag cael fy ethol yn gynghorydd oherwydd unrhyw anghymhwysiad a nodir yn adran 80A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu unrhyw benderfyniad a wnaed o dan adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac nad oes gennyf swydd a gyfyngir yn wleidyddol, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, o dan awdurdod lleol, o fewn ystyr y Rhan honno.

Llofnod yr ymgeisydd i'r datganiadau:

Dyddiad y llofnod:

Adran 6: Llofnod yr ymgeisydd i'r papur enwebu ac ardystiad tyst

Llofnod yr ymgeisydd:

Dyddiad y llofnod:

Llofnodwyd ym mhresenoldeb tyst: [Enw'r tyst]

Llofnod y tyst:

Nodiadau ar ffurf y papur enwebu

Nodyn 1: Y dyddiad y cynhelir y bleidlais yw'r dyddiad sydd i'w roi yma.

Nodyn 2: Os yw ymgeisydd yn defnyddio'n gyffredin enwau blaen neu gyfenwau sy'n wahanol mewn unrhyw ffordd i'r enwau blaen neu'r cyfenwau a roddir yn rhan gyntaf adran 2, caniateir rhoi'r enwau

(c) my principal or only place of work during the period of 12 months preceding the day on which I complete this nomination paper has been in the area of [insert the name of the community council] and my principal or only place of work during the 12 months preceding the day of election will have been in that area;

(d) I have resided in [insert the name of the community] or within 3 miles of it during the whole of the period of 12 months preceding the day on which I complete this nomination paper and I will have resided in that community or within 3 miles of it during the whole of the period of 12 months preceding the day of election.

*Candidates should indicate which one or more of paragraphs (a) to (d) apply to them by ticking those that apply and putting a line through those that do not apply.

I also declare that to the best of my knowledge and belief I am not disqualified from being elected as councillor by reason of any disqualification set out in section 80A of the Local Government Act 1972 or any decision made under section 79 of the Local Government Act 2000 and I do not hold a politically restricted post, within the meaning of Part 1 of the Local Government and Housing Act 1989, under a local authority, within the meaning of that Part.

Candidate's signature to declarations:

Date of signature:

Section 6: Candidate's signature to nomination paper and attestation by witness

Candidate's signature:

Date of signature:

Signed in the presence of a witness: [Name of witness]

Signature of witness:

Notes to the form of nomination paper

Note 1: The date to be given here is the date on which the poll is to take place.

Note 2: If a candidate commonly uses forenames or surnames that are different in any respect from the forenames or surnames that are given in the first part of section 2, the candidate's commonly used

blaen neu'r cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin gan yr ymgeisydd yn y lle priodol yn ail ran adran 2 os yw'r ymgeisydd yn dymuno gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys achosion lle y gwahaniaeth yw bod yr enwau blaen neu'r cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin mewn trefn wahanol, yn cynnwys rhai o'r enwau yn unig neu'n cynnwys enwau ychwanegol (ond nid yw'n gyfyngedig i hynny). Pan roddir enwau blaen neu gyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin, bydd yr enwau hynny'n ymddangos fel arfer yn y datganiad o'r personau a enwebwyd ac ar y papur pleidleisio (yn lle unrhyw enwau eraill). Ceir amgylchiadau lle caiff y swyddog canlyniadau wrthod defnyddio'r enwau a ddefnyddir yn gyffredin ac mae'r rhain wedi eu nodi yn rheol 14 o Atodlen 2 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.

Nodyn 3: Yr unig ddisgrifiadau y caniateir eu rhoi yw (a) disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â phlaid wleidyddol gofrestredig neu â dwy neu ragor o bleidiau gwleidyddol cofrestredig ac a ganiateir o dan reol 6 o Atodlen 2 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 ("disgrifiad plaid a ganiateir"), neu (b) y gair "Independent" neu'r gair "Annibynnol", neu'r ddau air hynny.

O dan amgylchiadau penodol, caiff ymgeisydd sy'n defnyddio disgrifiad plaid a ganiateir ychwanegu'r gair "Wales", "Welsh", "Cymru" neu "Cymreig" at y disgrifiad. Nodir yr amgylchiadau hynny yn rheol 7 o Atodlen 2 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.

Nodyn 4: Nodir y gofynion ynglŷn â datganiadau o aelodaeth plaid yn rheol 8 o Atodlen 2 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.

Nodyn 5: Mae'r datganiad cyntaf yn adlewyrchu'r gofynion a nodir yn adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r adran honno'n diffinio "qualifying Commonwealth citizen", "relevant citizen of the Union" a "qualifying foreign citizen".

Nodyn 6: Pan ddanfonir y papur enwebu, rhaid cael ffurflen cyfeiriad cartref yr ymgeisydd i gyd-fynd ag ef, sef ffurflen y mae'n rhaid iddi gydymffurfio â rheol 9 o Atodlen 2 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymuned) (Cymru) 2021.

forenames or surnames may be given in the appropriate place in the second part of section 2 if the candidate so wishes. This includes (but is not limited to) cases where the difference is that the commonly used forenames or surnames are in a different order, include only some of the names or include additional names. Where commonly used forenames or surnames are given, those names will generally appear in the statement of persons nominated and on the ballot paper (instead of any other names). There are circumstances in which the returning officer may refuse to use the commonly used names and these are set out in rule 14 of Schedule 2 to the Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021.

Note 3: The only descriptions that may be given are (a) a description that is likely to lead electors to associate the candidate with a registered political party or with two or more registered political parties and is permitted under rule 6 of Schedule 2 to the Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021 ("a permitted party description"), or (b) the word "Independent" or the word "Annibynnol", or both those words.

In certain circumstances, a candidate using a permitted party description may add the word "Wales", "Welsh", "Cymru" or "Cymreig" to the description. Those circumstances are set out in rule 7 of Schedule 2 to the Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021.

Note 4: The requirements for statements of party membership are set out in rule 8 of Schedule 2 to the Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021.

Note 5: The first declaration reflects the requirements set out in section 79 of the Local Government Act 1972. That section defines "qualifying Commonwealth citizen", "relevant citizen of the Union" and "qualifying foreign citizen".

Note 6: When the nomination paper is delivered, it must be accompanied by the candidate's home address form which must comply with rule 9 of Schedule 2 to the Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021.

Ffurf blaen y papur pleidleisio	
Etholiad cynghorwyr i [rhowch enw'r cyngor cymuned]	
Pleidleisiwch dros un ymgeisydd yn unig drwy roi croes [x] yn y blwch nesaf at eich dewis. NEU Pleidleisiwch dros ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr drwy roi croes [x] yn y blwch nesaf at bob un o'ch dewisiadau.*	
*Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddewis y geiriad sy'n briodol ar gyfer yr etholiad.	
JAMES, Lisa 6, Y Stryd, Y Dre CY36 4EZ Plaid Hybu Moeseg mewn Llywodraeth Leol	<input type="checkbox"/> Ar wv <input type="checkbox"/>
THOMAS, Gareth Gwlad yr Iâ Plaid Gwella'r Gyfraith Etholiadol	<input type="checkbox"/> Ar wv <input type="checkbox"/>
THOMAS RICHARDS, Angharad Sir Hafod Plaid Cyfraith Dda	<input type="checkbox"/> Ar wv <input type="checkbox"/>
WYATT, Cath Sir Gernyw Plaid Effeithlonrwydd	<input type="checkbox"/> Ar wv <input type="checkbox"/>

Form of front of ballot paper	
Election of councillors to [insert the name of the community council]	
Vote for only one candidate by putting a cross [x] in the box next to your choice. OR Vote for no more than [insert number of candidates to be elected] candidates by putting a cross [x] in the box next to each of your choices.*	
*The returning officer must select the wording that is appropriate for the election.	
JAMES, Lisa 6, Y Stryd, Y Dre CY36 4EZ Promotion of Ethics in Local Government Party	<input type="checkbox"/> E <input type="checkbox"/>
THOMAS, Gareth Iceland Electoral Law Improvement Party	<input type="checkbox"/> E <input type="checkbox"/>
THOMAS RICHARDS, Angharad The County of Hafod Good Law Party	<input type="checkbox"/> E <input type="checkbox"/>
WYATT, Cath The County of Cornwall Efficiency Party	<input type="checkbox"/> E <input type="checkbox"/>

Ffurf cefn y papur pleidleisio
Rhif:
Marc adnabod unigryw arall:
Etholiad ar gyfer ward [rhowch yr enw] yn [rhowch enw'r gymuned] ar [rhowch ddyddiad y bleidlais] NEU (yn achos cymuned nad yw wedi ei rhannu'n wardiau) Etholiad ar gyfer [rhowch enw'r gymuned] ar [rhowch ddyddiad y bleidlais]

Form of back of ballot paper
Number:
Other unique identifying mark:
Election for the [insert name] ward of the [insert name of the community] on [insert date of poll] OR (in the case of a community that is not divided into wards) Election for the [insert name of the community] on [insert date of poll]

Ffurff Cyfarwyddydau ynghylch Argraffu'r Papur Pleidleisio

1. Ni chaniateir argraffu dim ar y papur pleidleisio ac eithrio yn unol â'r cyfarwyddydau hyn.
2. I'r graddau y bo'n ymarferol, rhaid dilyn y cyfarwyddydau a nodir ym mharagraffau 3 i 13 wrth argraffu'r papur pleidleisio.
3. Ni chaniateir argraffu gair ar flaen y papur pleidleisio ac eithrio:
 - (a) y pennawd "Etholiad cynghorwyr i [rhowch enw'r cyngor cymuned]";
 - (b) y cyfarwyddyd "Pleidleisiwch dros un ymgeisydd yn unig drwy roi croes [x] yn y blwch nesaf at eich dewis" neu, pan fo mwy nag un ymgeisydd i'w ethol, "Pleidleisiwch dros ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr drwy roi croes [x] yn y blwch nesaf at bob un o'ch dewisiadau";
 - (c) enwau a disgrifiadau (os oes rhai) yr ymgeiswyr a'r wybodaeth am eu cyfeiriad cartref, fel y'u dangosir yn y datganiad o'r personau a enwebwyd;
 - (d) geiriau sy'n ffurfio rhan o unrhyw arwyddlun i'w gynnwys yn erbyn manylion yr ymgeisydd.
4. Rhaid argraffu blwch o amgylch y pennawd y cyfeirir ato ym mharagraff 3(a) a'r cyfarwyddyd y cyfeirir ato ym mharagraff 3(b), a rhaid gwahanu'r pennawd a'r cyfarwyddyd o fewn y blwch â llinell lorweddol sy'n ymestyn ar ei draws.
5. Ni chaniateir argraffu llinell ar flaen y papur pleidleisio ac eithrio:
 - (a) fel rhan o'r blwch y cyfeirir ato ym mharagraff 4;
 - (b) y llinell lorweddol y cyfeirir ati yn y paragraff hwnnw;
 - (c) llinell lorweddol uwchben manylion yr ymgeisydd cyntaf;
 - (d) llinellau llorweddol yn gwahanu manylion pob ymgeisydd o fanylion yr ymgeiswyr eraill;
 - (e) llinell lorweddol islaw manylion yr ymgeisydd olaf; ac
 - (f) fel rhan o'r blychau ar ochr dde'r papur pleidleisio lle mae'r bleidlais i'w marcio.
6. Rhaid i'r llinellau llorweddol y cyfeirir atynt ym mharagraff 5(c), (d) ac (e) fod â bylchau cyfartal rhyngddynt a rhaid i'r bwlch rhwng pob un ohonynt fod yn 2.5 centimetr o leiaf.
7. Rhaid i'r blychau y cyfeirir atynt ym mharagraff 5(f) beidio â chyffwrdd ag unrhyw linell lorweddol a rhaid i bob un fod yr un mor bell oddi wrth y llinell lorweddol uwchben a'r llinell lorweddol islaw.

Form of Directions as to Printing the Ballot Paper

1. Nothing may be printed on the ballot paper except in accordance with these directions.
2. So far as practicable, the directions set out in paragraphs 3 to 13 must be followed in the printing of the ballot paper.
3. No word may be printed on the front of the ballot paper except:
 - (a) the heading "Election of councillors to [insert the name of the community council]";
 - (b) the direction "Vote for only one candidate by putting a cross [x] in the box next to your choice" or, where more than one candidate is to be elected, "Vote for no more than [insert the number of candidates to be elected] candidates by putting a cross [x] in the box next to each of your choices";
 - (c) the names and descriptions (if any) of the candidates and their home address information, as shown in the statement of persons nominated;
 - (d) words forming part of any emblem to be included against the candidate's particulars.
4. A box must be printed around the heading referred to in paragraph 3(a) and the direction referred to in paragraph 3(b), and the heading and direction must be separated within the box by a horizontal line extending across it.
5. No line may be printed on the front of the ballot paper except:
 - (a) as part of the box referred to in paragraph 4;
 - (b) the horizontal line referred to in that paragraph;
 - (c) a horizontal line above the particulars of the first candidate;
 - (d) horizontal lines separating the particulars of each candidate from the particulars of the other candidates;
 - (e) a horizontal line below the particulars of the last candidate; and
 - (f) as part of the boxes on the right-hand side of the ballot paper where the vote is to be marked.
6. The horizontal lines referred to in paragraph 5(c), (d) and (e) must be equally spaced and the space between each of them must be a minimum of 2.5 centimetres.
7. The boxes referred to in paragraph 5(f) must not touch any horizontal line and each one must be equidistant between the horizontal line above it and the horizontal line below it.

8. Rhaid i bob un o'r llinellau llorweddol y cyfeirir atynt ym mharagraff 5(c) a (d) ymestyn o bwynt sy'n lefel â'r testun ar ochr chwith y dudalen hyd at bwynt sy'n uniongyrchol uwchben canol y blwch islaw'r llinell honno.

9. Rhaid i'r llinell lorweddol y cyfeirir ati ym mharagraff 5(e):

(a) ymestyn o bwynt sy'n lefel â'r testun ar ochr chwith y dudalen hyd at bwynt sy'n uniongyrchol islaw ymyl dde'r blwch uwchben y llinell honno; a
(b) bod yn fwy trwchus na'r llinellau llorweddol eraill.

10. Pan fo arwyddlun cofrestredig i'w argraffu yn erbyn manylion ymgeisydd:

(a) rhaid ei argraffu yn gyfagos i fanylion yr ymgeisydd ac i'r dde ohonynt; a
(b) ni chaniateir i'w faint fel y'i hargreffir fod yn fwy na 2 gentimetr sgwâr.

11. Rhaid i'r holl eiriau ar flaen y papur pleidleisio ymddangos yn yr un print mawr ac eithrio:

(a) rhaid i'r pennawd y cyfeirir ato ym mharagraff 3(a) ymddangos mewn print mawr iawn a thrwm;
(b) yn y cyfarwyddyd y cyfeirir ato ym mharagraff 3(b), rhaid i'r geiriau "un ymgeisydd yn unig" neu, yn ôl y digwydd, "ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr" ymddangos mewn print mawr iawn a thrwm;
(c) rhaid i weddill y cyfarwyddyd hwnnw ymddangos mewn print mawr iawn; a
(d) rhaid i enwau'r ymgeiswyr a'r disgrifiadau (os oes rhai) ymddangos mewn print trwm.

12. Rhaid i gyfenwau pob ymgeisydd ymddangos mewn priflythrennau a rhaid i enwau eraill yr ymgeisydd ac unrhyw ddisgrifiad fod mewn llythrennau bach gyda phriflythrennau cychwynnol.

13. Rhaid i'r rhif a'r marc adnabod unigryw arall gael eu hargraffu'n agos at ei gilydd ar gefn y papur pleidleisio.

8. Each of the horizontal lines referred to in paragraph 5(c) and (d) must extend from a point level with the text on the left-hand side of the page to a point directly above the centre of the box below that line.

9. The horizontal line referred to in paragraph 5(e) must:

(a) extend from a point level with the text on the left-hand side of the page to a point directly below the right-hand edge of the box above that line; and
(b) be thicker than the other horizontal lines.

10. Where a registered emblem is to be printed against a candidate's particulars:

(a) it must be printed adjacent to and to the right of the candidate's particulars; and
(b) its size as printed must not exceed 2 centimetres square.

11. All the words on the front of the ballot paper must appear in the same large type except that:

(a) the heading referred to in paragraph 3(a) must appear in very large and bold type;
(b) in the direction referred to in paragraph 3(b), the words "only one candidate" or, as the case may be, "no more than [insert the number of candidates to be elected] candidates" must appear in very large and bold type;
(c) the remainder of that direction must appear in very large type; and
(d) the names of the candidates and the descriptions (if any) must appear in bold type.

12. The surnames of each candidate must appear in capitals and the candidate's other names and any description must be in lower case with initial capitals.

13. The number and other unique identifying mark must be printed close to each other on the back of the ballot paper.

Rhestr Rhifau Cyfatebol

Rhestr Rhifau Cyfatebol: Rhan 1
(i'w llenwi mewn cysylltiad â phapurau pleidleisio i'w dyroddi i bleidleiswyr post)

Ardal etholiadol:
Dyddiad y bleidlais:
Rhif y ddalen:

Rhif y Papur Pleidleisio Rhowch y rhif a ddyroddwyd ar gyfer pob etholiad	Marc Adnabod Unigryw Rhowch y marc ar gyfer pob papur pleidleisio	Rhif yr Etholwr

Rhestr Rhifau Cyfatebol: Rhan 2
(i'w llenwi mewn cysylltiad â phapurau pleidleisio i'w darparu mewn gorsafoedd pleidleisio)

Ardal etholiadol:
Dyddiad y bleidlais:
Gorsaf bleidleisio:
Rhif y ddalen:

Rhif y Papur Pleidleisio Rhowch y rhif a ddyroddwyd ar gyfer pob etholiad	Rhif yr Etholwr

Corresponding Number List

Corresponding Number List: Part 1
(to be completed in respect of ballot papers to be issued to postal voters)

Electoral area:
Date of poll:
Sheet no:

Ballot Paper Number Identify the number issued for each election	Unique Identifying Mark Identify the mark for each ballot paper	Elector Number

Corresponding Number List: Part 2
(to be completed in respect of ballot papers to be provided at polling stations)

Electoral area:
Date of poll:
Polling station:
Sheet no:

Ballot Paper Number Identify the number issued for each election	Elector Number

Ffurff Datganiad Pleidleisio Post (i'w defnyddio pan gaiff papurau pleidleisiau post eu dyroddi a'u derbyn ar y cyd)

Enw'r etholwr*:

*Rhaid i'r swyddog canlyniadau hepgor enw'r etholwr pan fo'r papurau pleidleisio yn cael eu hanfon neu eu danfon i etholwr sydd â chofnod dienw yn y gofrestr neu i ddirprwy etholwr sydd â chofnod dienw yn y gofrestr.

[Enw'r pleidleisiwr (pan fo'n wahanol i enw'r etholwr am fod yr etholwr yn pleidleisio drwy ddirprwy)*:]

*Gall y llinell sy'n ymwneud ag enw'r etholwr gael ei hepgor pan nad yw'r etholwr yn pleidleisio drwy ddirprwy.

Rhifau'r papurau pleidleisio:

Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y diwedd cyn llenwi'r ffurflen hon a'r papurau pleidleisio.

FI YW'R PERSON Y CAFODD Y PAPURAU
PLEIDLEISIO Â'R RHIFAU UCHOD EU HANFON
NEU EU DANFON IDDO.

Fy nyddiad geni (yn y fformat dd/mm/yyyy):

*Fy llofnod:

(Cadwch eich llofnod o fewn y terfyn)

* Rhaid i'r swyddog canlyniadau hepgor y gofyniad ynglŷn â llofnod pan fo'r person wedi cael hepgoriad.

Rhybudd: Mae twyll etholiadol yn drosedd. Rhaid ichi beidio â phleidleisio drwy ddefnyddio papur pleidleisio nad yw wedi ei gyfeirio atoch chi nac ymyrryd â phapur pleidleisio pleidleisiwr arall. Mae'n anghyfreithlon pleidleisio fwy nag unwaith (oni bai eich bod wedi'ch penodi'n ddirprwy ar ran etholwr arall) yn yr un etholiad.

Cyfarwyddiadau ar farcio'r papur pleidleisio a chwblhau'r datganiad pleidleisio post

1. Rydych chi wedi cael [y swyddog canlyniadau i roi'r rhif] o bapurau pleidleisio. [Yna rhaid i'r swyddog canlyniadau nodi pa liw o bapur pleidleisio sy'n cael ei ddefnyddio wrth ethol cynghorwyr i gyngor cymuned a pha liw o bapur pleidleisio sy'n cael ei ddefnyddio ym mhob etholiad perthnasol.]

Form of Postal Voting Statement (for use where there is a joint issue and receipt of postal ballot papers)

Elector's name*:

*The returning officer must omit the elector's name where the ballot papers are sent or delivered to an elector with an anonymous entry in the register or to the proxy of an elector with an anonymous entry in the register.

[Voter's name (where this differs from the elector's name because the elector is voting by proxy)*:]

*The line relating to the voter's name may be omitted where the elector is not voting by proxy.

Ballot paper Nos:

Please read the instructions at the end before completing this form and the ballot papers.

I AM THE PERSON THE BALLOT PAPERS
NUMBERED ABOVE WERE SENT OR
DELIVERED TO:

My date of birth (in the format dd/mm/yyyy):

*My signature:

(Keep signature within border)

* The returning officer must omit the requirement for a signature where the person has been granted a waiver.

Warning: Electoral fraud is a crime. You must not vote using a ballot paper that is not addressed to you or interfere with another voter's ballot paper. It is illegal to vote more than once (unless you are appointed as proxy for another elector) at the same election.

Instructions on marking the ballot papers and completing the postal voting statement

1. You have been supplied with [returning officer to insert the number] ballot papers. [The returning officer must then identify which colour of ballot paper is in use at the election of councillors to a community council and which colour of ballot paper is in use at each relevant election.]

2. [Yna, rhaid i'r swyddog canlyniadau nodi'r cyfarwyddiadau ar gyfer marcio'r papur pleidleisio a ddefnyddir wrth ethol cynghorwyr i gyngor cymuned a'r cyfarwyddiadau ar gyfer marcio'r papur pleidleisio a ddefnyddir ym mhob etholiad perthnasol. Oni bai bod y papurau pleidleisio wedi eu hanfon at berson sy'n pleidleisio fel dirprwy, un ffurf addas ar eiriau ar gyfer y cyfarwyddiadau ynglŷn â marcio'r papur pleidleisio a ddefnyddir wrth ethol cynghorwyr i gyngor cymuned fyddai'r canlynol:

“Wrth ichi bleidleisio i ethol cynghorwyr i [rhowch enw'r cyngor cymuned], rhowch groes [x] yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw'r ymgeisydd/ymgeiswyr rydych chi'n pleidleisio drosto/drostynt. Peidiwch â marcio'ch papur pleidleisio mewn unrhyw ffordd arall neu mae'n bosibl na chyfrifir eich pleidlais/pleidleisiau.

Pleidleisiwch dros UN ymgeisydd yn unig NEU Pleidleisiwch dros ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr. (Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddewis y geiriad sy'n briodol ar gyfer yr etholiad.)”

Pan fo'r papurau pleidleisio wedi eu hanfon at berson sy'n pleidleisio fel dirprwy, un ffurf addas ar eiriau ar gyfer y cyfarwyddiadau ynglŷn â marcio'r papur pleidleisio a ddefnyddir wrth ethol cynghorwyr i gyngor cymuned fyddai'r canlynol:

“Wrth ichi bleidleisio i ethol cynghorwyr i [rhowch enw'r cyngor cymuned], rhowch groes [x] yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw'r ymgeisydd/ymgeiswyr y mae'r etholwr yn pleidleisio drosto/drostynt. Peidiwch â marcio'ch papur pleidleisio mewn unrhyw ffordd arall neu mae'n bosibl na chyfrifir y bleidlais/pleidleisiau.

Pleidleisiwch dros UN ymgeisydd yn unig NEU Pleidleisiwch dros ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr. (Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddewis y geiriad sy'n briodol ar gyfer yr etholiad.)”]

3. Os oes arnoch angen help i bleidleisio, rhaid i'r person sy'n eich helpu beidio â dweud wrth neb i bwy y rhoddwyd y bleidlais.

4. Rhowch y papurau pleidleisio yn yr amlen fach sydd wedi ei marcio **A** a'i selio.

5. Cwblhewch y datganiad pleidleisio post drwy ei lofnodi a darparu'ch dyddiad geni. Os na wnewch chi, bydd y datganiad pleidleisio post yn annilys ac ni chyfrifir y bleidlais/pleidleisiau. Sylwch mai eich **dyddiad geni** sy'n ofynnol, nid y dyddiad rydych chi'n llofnodi'r datganiad.*

2. [The returning officer must then set out the instructions for marking the ballot paper in use at the election of councillors to a community council and the instructions for marking the ballot paper in use at each relevant election. Unless the ballot papers have been sent to a person voting as proxy, a suitable form of words for the instructions for marking the ballot paper in use at the election of councillors to a community council would be the following:

“When you are voting at the election of councillors to the [insert name of community council], mark a cross [x] in the box on the right-hand side of the ballot paper opposite the name of the candidate(s) you are voting for. Do not mark your ballot paper in any other way or your vote(s) may not be counted.

Vote for ONE candidate only OR Vote for no more than [insert the number of candidates to be elected] candidates. (The returning officer must select the wording that is appropriate for the election.)”

Where the ballot papers have been sent to a person voting as proxy, a suitable form of words for the instructions for marking the ballot paper in use at the election of councillors to a community council would be the following:

“When you are voting at the election of councillors to the [insert name of community council], mark a cross [x] in the box on the right-hand side of the ballot paper opposite the name of the candidate(s) the elector is voting for. Do not mark your ballot paper in any other way or the vote(s) may not be counted.

Vote for ONE candidate only OR Vote for no more than [insert the number of candidates to be elected] candidates. (The returning officer must select the wording that is appropriate for the election.)”]

3. If you need help voting, the person helping you must not tell anyone for whom the vote was given.

4. Put the ballot papers in the small envelope marked **A** and seal it.

5. Complete the postal voting statement by signing it and providing your date of birth. If you do not, the postal voting statement will be invalid and the vote(s) will not be counted. Note that it is your **date of birth** that is required, not the date on which you sign the statement.*

*Pan fo'r gofyniad ynglŷn â llofnod wedi ei hepgor, rhaid i'r swyddog canlyniadau newid y cyfarwyddyd hwn fel ei fod yn darllen:

5. Cwblhewch y datganiad pleidleisio post drwy ddarparu'ch dyddiad geni. Os na wnewch chi, bydd y datganiad pleidleisio post yn annilys ac ni chyfrifir y bleidlais/pleidleisiau. Sylwch mai eich **dyddiad geni** sy'n ofynnol, nid y dyddiad rydych chi'n cwblhau'r datganiad pleidleisio post.

6. Yna rhwch yr amlen sydd wedi ei marcio **A** ynghyd â'r datganiad pleidleisio post yn yr amlen fwy sydd wedi ei marcio **B**. Dychwelwch hi cyn gynted â phosibl.

7. Ar ôl cael y bleidlais bost, chewch chi ddim pleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio yn yr etholiadau.*

*Pan fo'r papurau pleidleisio wedi eu hanfon at berson sy'n pleidleisio fel dirprwy, dylid diwygio'r paragraff hwn fel ei fod yn darllen:

7. Ar ôl cael y bleidlais bost, chewch chi ddim pleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio yn yr etholiadau.

8. Os byddwch yn difetha unrhyw un neu ragor o'r papurau pleidleisio yn ddamweiniol, cewch wneud cais i'r swyddog canlyniadau am un newydd cyn 5 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais]. Rhaid ichi ddychwelyd yr holl papurau pleidleisio, y datganiad pleidleisio post a'r amlenni sydd wedi eu marcio **A** a **B**. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â'r swyddog canlyniadau cyn gynted â phosibl. [Y swyddog canlyniadau i ddarparu manylion cysylltu sut i gael cymorth.]

9. Rhaid i'r papurau pleidleisio a'r datganiad pleidleisio post—

(a) cael eu hanfon drwy'r post at y swyddog canlyniadau mewn da bryd i ddod i law'r swyddog canlyniadau cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais];

(b) cael eu rhoi â llaw i'r swyddog canlyniadau cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais]; neu

(c) cael eu cyflwyno ar [rhowch ddyddiad y bleidlais] mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.

Yr ardal briodol y cyfeirir ati ym mharagraff (c) yw [y swyddog canlyniadau i fewnosod disgrifiad o'r ardal briodol].

*Where the requirement for a signature has been waived, the returning officer must change this instruction so that it reads:

5. Complete the postal voting statement by providing your date of birth. If you do not, the postal voting statement will be invalid and the vote(s) will not be counted. Note that it is your **date of birth** that is required, not the date on which you complete the postal voting statement.

6. Then put the envelope marked **A** together with the postal voting statement in the larger envelope marked **B**. Return it as soon as possible.

7. After receiving the postal vote, you cannot vote in person at a polling station at the elections.*

*Where the ballot papers have been sent to a person voting as proxy, this paragraph should be amended so that it reads:

7. After receiving the postal vote, you cannot vote as proxy for the elector in person at a polling station at the elections.

8. If you accidentally spoil any of the ballot papers, you can apply to the returning officer for a replacement before 5 p.m. on [insert the date of the poll]. You must return all the ballot papers, the postal voting statement and the envelopes marked **A** and **B**. Make sure you contact the returning officer as soon as possible. [Returning officer to provide contact details for assistance.]

9. The ballot papers and the postal voting statement must be—

(a) sent by post to the returning officer in sufficient time for them to be received by the returning officer before 10 p.m. on [insert the date of the poll];

(b) given by hand to the returning officer before 10 p.m. on [insert the date of the poll]; or

(c) handed in on [insert date of the poll] at any polling station in the appropriate area before 10 p.m.

The appropriate area referred to in paragraph (c) is [returning officer to insert a description of the appropriate area].

Mae gan bob papur pleidleisio ei amlen papur pleidleisio (wedi ei marcio **A**), ei ddatganiad pleidleisio post a'i amlen ddychwelyd (wedi ei marcio **B**) ei hun. Mae'r datganiad pleidleisio post a'r amlen ddychwelyd i'w defnyddio gyda phapur pleidleisio penodol yr un lliw â'r papur pleidleisio. Efallai y byddai'n ddefnyddiol ichi drefnu'r dogfennau mewn setiau ar wahân.

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn ymwneud â'r papur pleidleisio lliw [rhowch y lliw] sydd i'w ddefnyddio wrth ethol cynghorwyr i [rhowch enw'r cyngor cymuned] a'r datganiad pleidleisio post o'r un lliw sy'n ymwneud â'r papur pleidleisio.

2. Marciwch groes [x] yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw'r ymgeisydd/ymgeiswyr rydych chi'n pleidleisio drosto/drostynt. Peidiwch â marcio'ch papur pleidleisio mewn unrhyw ffordd arall neu mae'n bosibl na chyfrifir eich pleidlais/pleidleisiau.*

Pleidleisiwch dros UN ymgeisydd yn unig NEU Pleidleisiwch dros ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr. (Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddewis y geiriad sy'n briodol ar gyfer yr etholiad.)

*Pan fo'r papur pleidleisio wedi ei anfon at berson sy'n pleidleisio fel dirprwy, dylid diwygio'r paragraff hwn fel ei fod yn darllen:

2. Marciwch groes [x] yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw'r ymgeisydd/ymgeiswyr y mae'r etholwr yn pleidleisio drosto/drostynt. Peidiwch â marcio'r papur pleidleisio mewn unrhyw ffordd arall neu mae'n bosibl na chyfrifir y bleidlais/pleidleisiau.

3. Os oes arnoch angen help i bleidleisio, rhaid i'r person sy'n eich helpu beidio â dweud wrth neb i bwy y rhoddwyd y bleidlais.

4. Rhowch y papur pleidleisio yn yr amlen fach sydd wedi ei marcio **A** a'i selio.

5. Cwblhewch y datganiad pleidleisio post drwy ei lofnodi a darparu'ch dyddiad geni. Os na wnewch chi, bydd y datganiad pleidleisio post yn annilys ac ni chyfrifir y bleidlais/pleidleisiau. Sylwch mai eich **dyddiad geni** sy'n ofynnol, nid y dyddiad rydych chi'n llofnodi'r datganiad.*

*Pan fo'r gofyniad ynglŷn â llofnod wedi ei hepgor, rhaid i'r swyddog canlyniadau newid y cyfarwyddyd hwn fel ei fod yn darllen:

Each ballot paper has its own ballot paper envelope (marked **A**), postal voting statement and return envelope (marked **B**). The postal voting statement and return envelope for use with a particular ballot paper are the same colour as the ballot paper. You may find it helpful to sort the documents into separate sets.

These instructions relate to the ballot paper coloured [insert colour] for use at the election of councillors to the [insert name of community council] and the postal voting statement of the same colour relating to that ballot paper.

2. Mark a cross [x] in the box on the right-hand side of the ballot paper opposite the name of the candidate(s) you are voting for. Do not mark your ballot paper in any other way or your vote(s) may not be counted.*

Vote for ONE candidate only OR Vote for no more than [insert the number of candidates to be elected] candidates. (The returning officer must select the wording that is appropriate for the election.)

*Where the ballot paper has been sent to a person voting as proxy, this paragraph should be amended so that it reads:

2. Mark a cross [x] in the box on the right-hand side of the ballot paper opposite the name of the candidate(s) the elector is voting for. Do not mark the ballot paper in any other way or the vote(s) may not be counted.

3. If you need help voting, the person helping you must not tell anyone for whom the vote was given.

4. Put the ballot paper in the small envelope marked **A** and seal it.

5. Complete the postal voting statement by signing it and providing your date of birth. If you do not, the postal voting statement will be invalid and the vote(s) will not be counted. Note that it is your **date of birth** that is required, not the date on which you sign the statement.*

*Where the requirement for a signature has been waived, the returning officer must change this instruction so that it reads:

5. Cwblhewch y datganiad pleidleisio post drwy ddarparu'ch dyddiad geni. Os na wnewch chi, bydd y datganiad pleidleisio post yn annilys ac ni chyfrifir y bleidlais/pleidleisiau. Sylwch mai eich **dyddiad geni** sy'n ofynnol, nid y dyddiad rydych chi'n llofnodi'r datganiad pleidleisio post.

6. Yna rhowch yr amlen sydd wedi ei marcio **A** ynghyd â'r datganiad pleidleisio post yn yr amlen fwy sydd wedi ei marcio **B**. Dychwelwch hi cyn gynted â phosibl.

7. Ar ôl cael y bleidlais bost, chewch chi ddim pleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio yn yr etholiadau.*

*Pan fo'r papur pleidleisio wedi ei anfon at berson sy'n pleidleisio fel dirprwy, dylid diwygio'r paragraff hwn fel ei fod yn darllen:

7. Ar ôl cael y bleidlais bost, chewch chi ddim pleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio yn yr etholiadau.

8. Os byddwch yn difetha'r papur pleidleisio yn ddamweiniol, cewch wneud cais i'r swyddog canlyniadau am un newydd cyn 5 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais]. Rhaid ichi ddychwelyd y papur pleidleisio a ddifethwyd, y datganiad pleidleisio post a'r amlenni sydd wedi eu marcio A a B. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â'r swyddog canlyniadau cyn gynted â phosibl. [Y swyddog canlyniadau i ddarparu manylion sut i gael cymorth.]

9. Rhaid i'r papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio post—

- (a) cael eu hanfon drwy'r post at y swyddog canlyniadau mewn da bryd i ddod i law'r swyddog canlyniadau cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais];
- (b) cael eu rhoi â llaw i'r swyddog canlyniadau cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais]; neu
- (c) cael eu cyflwyno ar [rhowch ddyddiad y bleidlais] mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m.

Yr ardal briodol y cyfeirir ati ym mharagraff (c) yw [y swyddog canlyniadau i fewnosod disgrifiad o'r ardal briodol].

5. Complete the postal voting statement by providing your date of birth. If you do not, the postal voting statement will be invalid and the vote(s) will not be counted. Note that it is your **date of birth** that is required, not the date on which you complete the postal voting statement.

6. Then put the envelope marked **A** together with the postal voting statement in the larger envelope marked **B**. Return it as soon as possible.

7. After receiving the postal vote, you cannot vote in person at a polling station at the elections.*

*Where the ballot paper has been sent to a person voting as proxy, this paragraph should be amended so that it reads:

7. After receiving the postal vote, you cannot vote as proxy for the elector in person at a polling station at the elections.

8. If you accidentally spoil the ballot paper, you can apply to the returning officer for a replacement before 5 p.m. on [insert the date of the poll]. You must return the spoiled ballot paper, the postal voting statement and the envelopes marked A and B. Make sure you contact the returning officer as soon as possible. [Returning officer to provide contact details for assistance.]

9. The ballot paper and the postal voting statement must be—

- (a) sent by post to the returning officer in sufficient time for them to be received by the returning officer before 10 p.m. on [insert the date of the poll];
- (b) given by hand to the returning officer before 10 p.m. on [insert the date of the poll]; or
- (c) handed in on [insert date of the poll] at any polling station in the appropriate area before 10 p.m.

The appropriate area referred to in paragraph (c) is [returning officer to insert a description of the appropriate area].

Cardiau Pleidleisio

Pan benderfynir cyfuno cardiau pleidleisio (gweler rheol 31(7)), caniateir i'r cardiau pleidleisio a ddangosir yn yr Atodiad hwn gael eu haddasu.

Cerdyn Pleidleisio Swydddogol (i'w anfon neu i'w ddanfon i etholwr sy'n pleidleisio'n bersonol)

Blaen y cerdyn

Cerdyn Pleidleisio Swydddogol

Cyngor: Ardal etholiadol: Nifer y cyngorwyr sydd i'w hethol dros yr ardal etholiadol: Diwrnod Pleidleisio: Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m. Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:	Rhif ar y gofrestr: *Enw: *Cyfeiriad: *Sylwch: Rhaid hepgor yr enw a'r cyfeiriad pan fydd y cerdyn pleidleisio'n cael ei anfon neu ei ddanfon i etholwr sydd â chofnod dienw. Rhaid anfon neu ddanfon cerdyn pleidleisio a anfonir neu a ddanfonir i etholwr sydd â chofnod dienw mewn amlen wedi ei selio.
---	--

***Cerdyn er gwybodaeth yn unig yw hwn. Cewch bleidleisio hebddo ond bydd yn arbed amser ichi os ewch ag ef i'r orsaf bleidleisio a'i ddangos i'r clerc yno.**

Gweler rhagor o wybodaeth ar gefn y cerdyn hwn.

Cefn y cerdyn

Etholiad Llywodraeth Leol

*Pan ewch chi i'r orsaf bleidleisio, dywedwch eich enw a'ch cyfeiriad, fel y'u dangosir ar flaen y cerdyn hwn, wrth y clerc.

*Bydd y clerc yn cadarnhau'ch manylion ar y gofrestr.

Pan roddir eich papur pleidleisio i chi, ewch i un o'r bythau pleidleisio. Marciwch groes (x) yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw(au) yr ymgeisydd/ymgeiswyr rydych chi'n pleidleisio drosto/drostant.

Pleidleisiwch dros UN ymgeisydd yn unig NEU Pleidleisiwch dros ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr. (Rhaid i'r swydddog canlyniadau ddewis y geiriad sy'n briodol ar gyfer yr etholiad.)

Poll Cards

Where a decision is made to combine poll cards (see rule 31(7)), the poll cards shown in this Appendix may be adapted.

Official Poll Card (to be sent or delivered to an elector voting in person)

Front of card

Official Poll Card

Council: Electoral area: Number of councillors to be elected for the electoral area: Polling Day: Polling Hours: 7 a.m. to 10 p.m. Your polling station will be:	Number on register: *Name: *Address: *Note: The name and address must be omitted where the poll card is sent or delivered to an elector with an anonymous entry. A poll card sent or delivered to an elector with an anonymous entry must be sent or delivered in a sealed envelope.
---	---

***This card is for information only. You can vote without it but it will save you time if you take it to the polling station and show it to the clerk there.**

See further information on the back of this card.

Back of card

Local Government Election

*When you go to the polling station, tell the clerk your name and address, as shown on the front of this card.

*The clerk will confirm your details on the register.

When you are given your ballot paper, go to one of the polling booths. Mark a cross (x) in the box on the right-hand side of the ballot paper opposite the name(s) of the candidate(s) you are voting for.

Vote for ONE candidate only OR Vote for no more than [insert the number of candidates to be elected] candidates. (The returning officer must select the wording that is appropriate for the election.)

Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio neu mae'n bosibl na chyfrifir eich pleidlais.

Os byddwch yn difetha'r papur pleidleisio drwy gamgymeriad, dangoswch ef i'r swyddog llywyddu a gofynnwch am un newydd.

Pan fyddwch wedi marcio'r papur pleidleisio, plygwch ef yn ddau. Dangoswch y rhif a'r marc adnabod unigryw arall ar gefn y papur pleidleisio i'r swyddog llywyddu ond peidiwch â gadael i neb weld eich pleidlais. Rhowch y papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio a gadewch yr orsaf pleidleisio.

Os byddwch i ffwrdd ar ddyddiad y bleidlais, mae yna ffyrdd eraill o bleidleisio.

(1) Cewch wneud cais am bleidlais bost. Rhaid i'ch cais ddod i law'r swyddog canlyniadau cyn 5 p.m. ar [rhowch y dyddiad cau]. Os cewch chi bleidlais bost, fydd dim hawl gennych i bleidleisio'n bersonol yn yr etholiad hwn.

(2) Cewch wneud cais am bleidleisio drwy ddirprwy (mae hyn yn golygu y caiff rhywun bleidleisio ar eich rhan). Fel arfer, rhaid i'ch cais ddod i law cyn 5 p.m. ar [rhowch y dyddiad cau]. Os byddwch yn penodi dirprwy, rydych yn dal yn cael pleidleisio yn yr etholiad hwn eich hun os gwnewch chi hynny cyn i'ch dirprwy bleidleisio ar eich rhan.

O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd yn bosibl gwneud cais am bleidleisio drwy ddirprwy ar ôl [rhowch y dyddiad cau].

Os hoffech chi bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, cysylltwch â [rhowch rif y llinell gymorth] cyn gynted â phosibl.

Dyroddwyd gan y swyddog canlyniadau

Testun amgen pan fo gan etholwr gofnod dienw

*Pan fo'r cerdyn pleidleisio yn cael ei anfon neu ei ddanfon i etholwr sydd â chofnod dienw, yn lle'r paragraffau ar flaen a chefn y cerdyn hwn sydd wedi eu marcio â seren, rhowch y paragraffau a ganlyn:

Rhaid ichi gael y cerdyn hwn gyda chi pan fyddwch yn pleidleisio.

Chewch chi ddim pleidleisio hebdo.

Pan ewch chi i'r orsaf bleidleisio, gofynnwch am gael siarad â'r swyddog llywyddu a dangoswch y cerdyn hwn i'r swyddog llywyddu.

Bydd y swyddog llywyddu'n cadarnhau'ch cofnod ar y gofrestr.

Do not put any other mark on the ballot paper or your vote may not be counted.

If you spoil the ballot paper by mistake, show it to the presiding officer and ask for a replacement.

When you have marked the ballot paper, fold it in two. Show the presiding officer the number and other unique identifying mark on the back of the ballot paper but do not let anyone see your vote. Put the ballot paper in the ballot box and leave the polling station.

If you will be away on the date of the poll, there are other ways of voting.

(1) You can apply to vote by post. Your application must be received by the returning officer before 5 p.m. on [insert the deadline date]. If you are given a postal vote, you will not be entitled to vote in person at this election.

(2) You can apply to vote by proxy (this means someone can vote on your behalf). Your application must normally be received before 5 p.m. on [insert the deadline date]. If you appoint a proxy, you can still vote in this election yourself if you do so before your proxy has voted for you.

In certain circumstances it may be possible to apply to vote by proxy after [insert the deadline date].

If you want to vote by post or proxy, please contact [insert helpline number] as soon as possible.

Issued by the returning officer

Alternative text where elector has an anonymous entry

*Where the poll card is sent or delivered to an elector with an anonymous entry substitute for the paragraphs on the front and back of this card marked with an asterisk the following paragraphs:

You must have this card with you when you vote.

You cannot vote without it.

When you go to the polling station, ask to speak to the presiding officer and show them this card.

The presiding officer will confirm your entry on the register.

Cerdyn Swyddogol Pleidleisio drwy'r Post (i'w anfon neu i'w ddanfon i etholwr sy'n pleidleisio drwy'r post)

Blaen y cerdyn

Cerdyn Swyddogol Pleidleisio drwy'r Post

<p>Cyngor: Ardal etholiadol: Nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros yr ardal etholiadol: Ar gyfer yr etholiad ar: [rhowch ddyddiad y bleidlais] Rhif ar y gofrestr: *Enw a chyfeiriad: *Sylwch: Rhaid hepgor yr enw a'r cyfeiriad pan fydd y cerdyn pleidleisio'n cael ei anfon neu ei ddanfon i etholwr sydd â chofnod dienw. Rhaid anfon neu ddanfon cerdyn pleidleisio a anfonir neu a ddanfonir i etholwr sydd â chofnod dienw mewn amlen wedi ei selio.</p>	<p>Cerdyn yw hwn i ddweud wrthoch eich bod wedi gofyn am bleidleisio drwy'r post ar gyfer yr etholiad hwn, ac na fyddwch yn cael pleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio. Os hoffech chi ganslo'ch pleidlais bost, ffoniwch rif y llinell gymorth [rhowch rif y llinell gymorth] cyn 5 p.m. ar [rhowch y dyddiad cau]. Byddwn yn anfon neu'n danfon eich papurau pleidleisio post o gwmpas [rhowch y dyddiad], wedi eu cyfeirio at [rhowch yr enw a'r cyfeiriad]. Os na fydd eich papurau pleidleisio post wedi cyrraedd erbyn [rhowch y dyddiad], ffoniwch [rhowch rif y llinell gymorth] a gofynnwch am help.</p>
---	---

Os byddwch yn colli neu'n difetha'ch papur pleidleisio post yn ddamweiniol, ffoniwch rif y llinell gymorth a ddangosir uchod cyn gynted â phosibl. Dim ond cyn 5 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais] y gellir dyroddi papurau pleidleisio newydd.

Cerdyn i roi gwybodaeth ichi am bleidleisio drwy'r post yw hwn.

Gweler rhagor o wybodaeth ar gefn y cerdyn hwn.

Cefn y cerdyn

Etholiad Llywodraeth Leol
Pan gewch chi'ch pecyn pleidleisio post, darllenwch y cyfarwyddiadau gydag ef yn ofalus wrth ichi gwblhau'ch papur pleidleisio post.

Peidiwch â gadael i neb weld eich pleidlais. Os oes arnoch angen help i bleidleisio, rhaid i'r person sy'n eich helpu beidio â dweud wrth neb sut rydych chi

Official Postal Poll Card (to be sent or delivered to an elector voting by post)

Front of card

Official Postal Poll Card

<p>Council: Electoral area: Number of councillors to be elected for the electoral area: For the election on: [insert date of poll] Number on register: *Name and address: *Note: The name and address must be omitted where the poll card is sent or delivered to an elector with an anonymous entry. A poll card sent or delivered to an elector with an anonymous entry must be sent or delivered in a sealed envelope.</p>	<p>This card is to tell you that you have asked to vote by post for this election, and you will not be able to vote in person in a polling station. If you want to cancel your postal vote please call the helpline number [insert helpline number] before 5 p.m. on [insert deadline date]. We will send or deliver your postal voting papers around [insert date], addressed to [insert name and address]. If your postal voting papers have not arrived by [insert date], call [insert helpline number] and ask for help.</p>
---	---

If you lose or accidentally spoil your postal ballot paper, please call the helpline number shown above as soon as possible. Replacement ballot papers can only be issued before 5 p.m. on [insert date of poll.]

This card is to provide you with information about voting by post.

See further information on the back of this card.

Back of card

Local Government Election

When you receive your postal voting pack, please read the instructions with it carefully when completing your postal ballot paper.

Do not let anyone see your vote. If you need help voting, the person helping you must not tell anyone how you

wedi pleidleisio. Gallwch gael help annibynnol gan y swyddog canlyniadau drwy ffonio'r llinell gymorth ar [rhowch rif y llinell gymorth].

Rhaid ichi **lofnodi'r** datganiad pleidleisio post a **darparu'ch dyddiad geni**. Mesur diogelwch yw hwn. Ni fydd yn effeithio ar eich pleidlais nac yn golygu bod y ffordd y rhoesoch eich pleidlais yn hysbys. Heb eich llofnod a'ch dyddiad geni, ni fydd y datganiad yn ddilys ac ni fydd eich pleidlais yn cael ei chyfrif. Gall y swyddog canlyniadau groeswiro'ch llofnod a'ch dyddiad geni yn erbyn cofnodion eraill sydd ganddo.*

*Pan fo'r gofyniad ynglŷn â llofnod wedi ei hepgor, rhaid i'r swyddog canlyniadau gynnwys yn hytrach y paragraff a ganlyn.

Rhaid ichi **ddarparu'ch dyddiad geni**. Mesur diogelwch yw hwn. Ni fydd yn effeithio ar eich pleidlais nac yn golygu bod y ffordd y rhoesoch eich pleidlais yn hysbys. Heb eich dyddiad geni, ni fydd y datganiad yn ddilys ac ni fydd eich pleidlais yn cael ei chyfrif. Gall y swyddog canlyniadau groeswiro'ch dyddiad geni yn erbyn cofnodion eraill sydd ganddo.

Os byddwch yn colli neu'n difetha'ch papur pleidleisio'n ddamweiniol, ffoniwch rif y llinell gymorth a ddangosir isod cyn gynted â phosibl. Dim ond cyn 5 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais] y gallwn ddyroddi papurau pleidleisio post newydd.

Cwblhewch a dychwelwch eich pleidlais bost cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r swyddog canlyniadau gael eich pleidlais bost cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais]. Ar ôl eu cwblhau, cewch ddanfôn eich datganiad pleidleisio post a'ch papur pleidleisio mewn un o dair ffordd.

Cewch eu hanfôn drwy'r post at y swyddog canlyniadau fel eu bod yn dod i law cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais].

Cewch eu cyflwyno i'r swyddog canlyniadau cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais].

Ar ddiwrnod y bleidlais, gallwch eu danfôn i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m. Yr ardal briodol yw [y swyddog canlyniadau i fewnosod disgrifiad o'r ardal briodol].

Os hoffech chi bleidleisio'n bersonol yn yr etholiadau, rhaid ichi ganslo'ch pleidlais bost cyn 5 p.m. ar [rhowch y dyddiad cau].

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth, ffoniwch y llinell gymorth ar [rhowch rif y llinell gymorth].

Mae'n drosedd pleidleisio drwy ddefnyddio papur pleidleisio na chafodd ei gyfeirio atoch chi.

Dyroddwyd gan y swyddog canlyniadau

have voted. You can get independent help from the returning officer by calling the helpline on [insert helpline number].

You must **sign** the postal voting statement and **provide your date of birth**. This is a security measure. It will not affect your vote or mean that the way in which you gave your vote is known. Without your signature and date of birth, the statement will not be valid and your vote will not be counted. The returning officer can cross-check your signature and date of birth against other records that they hold.*

*Where the requirement for a signature has been waived, the returning officer must include the following paragraph instead.

You must **provide your date of birth**. This is a security measure. It will not affect your vote or mean that the way in which you gave your vote is known. Without your date of birth, the statement will not be valid and your vote will not be counted. The returning officer can cross-check your date of birth against other records that they hold.

If you lose or accidentally spoil your ballot paper, please call the helpline number shown below as soon as possible. We can only issue replacement postal ballot papers before 5 p.m. on [insert date of the poll].

Complete and return your postal vote as soon as possible. The returning officer must receive your postal vote before 10 p.m. on [insert date of the poll]. You can deliver your completed postal voting statement and ballot paper in one of three ways. You can send them by post to the returning officer so that they are received before 10 p.m. on [insert date of the poll].

You can hand them to the returning officer before 10 p.m. on [insert date of the poll].

On the day of the poll, you can deliver them to any polling station in the appropriate area before 10 p.m. The appropriate area is [returning officer to insert description of the appropriate area.]

If you want to vote in person at the elections, you must cancel your postal vote before 5 p.m. on [insert deadline].

If you need any assistance, please call the helpline on [insert helpline number].

It is an offence to vote using a ballot paper that was not addressed to you.

Issued by the returning officer

**Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy (i'w anfon
neu i'w ddanfon i ddirprwy sy'n pleidleisio'n
bersonol)**

Blaen y cerdyn

Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy

<p>Cyngor: Ardal etholiadol: Nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros yr ardal etholiadol: Diwrnod Pleidleisio: Oriau Pleidleisio: 7 a.m. i 10 p.m. Eich gorsaf bleidleisio chi fydd:</p>	<p>*Cerdyn pleidleisio yw hwn i ddweud wrthoch fod yr etholwr a enwir ar gefn y cerdyn hwn wedi'ch penodi'n ddirprwy ar gyfer yr etholiad hwn. *Enw'r dirprwy: *Cyfeiriad y dirprwy: *Sylwch: Mae'r adran hon i'w hepgor pan fydd y cerdyn pleidleisio yn cael ei anfon neu ei ddanfon i ddirprwy etholwr sydd â chofnod dienw. Rhaid anfon neu ddanfon cerdyn pleidleisio a anfonir neu a ddanfonir i ddirprwy etholwr sydd â chofnod dienw mewn amlen wedi ei selio.</p>
--	--

*** Cerdyn er gwybodaeth yn unig yw hwn. Cewch bleidleisio hebddo ond bydd yn arbed amser ichi os ewch ag ef i'r orsaf bleidleisio a'i ddangos i'r clerwr yno.**

Gweler rhagor o wybodaeth ar gefn y cerdyn hwn.

Cefn y cerdyn

<p>Etholiad Llywodraeth Leol *Cerdyn pleidleisio yw hwn i ddweud wrthoch eich bod wedi'ch penodi, ar gyfer yr etholiad hwn, yn ddirprwy ar ran: *[Rhowch enw'r etholwr] *[Rhowch gyfeiriad yr etholwr] *[Rhowch rif yr etholwr ar y gofrestr]</p> <p>*Pan ewch chi i'r orsaf bleidleisio, dywedwch wrth y clerwr yr hoffech chi bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr a ddangosir uchod. *Bydd y clerwr yn cadarnhau'r manylion ar y gofrestr.</p> <p>Pan roddir y papur pleidleisio i chi, ewch i un o'r bythau pleidleisio. Marciwch groes (x) yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw(au) yr ymgeisydd/ymgeiswyr y mae'r etholwr yn pleidleisio drosto/drostant.</p>
--

**Official Proxy Poll Card (to be sent or delivered to
a proxy voting in person)**

Front of card

Official Proxy Poll Card	
<p>Council: Electoral area: Number of councillors to be elected for the electoral area: Polling Day: Polling Hours: 7 a.m. to 10 p.m. Your polling station will be:</p>	<p>*This poll card is to tell you that for this election the elector named on the back of this card has appointed you as their proxy. *Proxy's name: *Proxy's address: *Note: This section is to be omitted where the poll card is sent or delivered to the proxy of an elector with an anonymous entry. A poll card sent or delivered to the proxy of an elector with an anonymous entry must be sent or delivered in a sealed envelope.</p>
<p>*This card is for information only. You can vote without it but it will save you time if you take it to the polling station and show it to the clerk there.</p> <p>See further information on the back of this card.</p>	

Back of card

<p>Local Government Election *This poll card is to tell you that for this election you are appointed as proxy for: *[Insert elector's name] *[Insert elector's address] *[Insert elector's number on register]</p> <p>*When you go to the polling station, tell the clerk that you wish to vote as proxy on behalf of the elector shown above. *The clerk will confirm the details on the register.</p> <p>When you are given the ballot paper, go to one of the polling booths. Mark a cross (x) in the box on the right-hand side of the ballot paper opposite the name(s) of the candidate(s) the elector is voting for.</p>

Pleidleisiwch dros UN ymgeisydd yn unig NEU Pleidleisiwch dros ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr. (Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddewis y geiriad sy'n briodol ar gyfer yr etholiad.)

Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio neu mae'n bosibl na chyfrifir y bleidlais.

Os byddwch yn difetha'r papur pleidleisio drwy gamgymeriad, dangoswch ef i'r swyddog llywyddu a gofynnwch am un newydd.

Pan fyddwch wedi marcio'r papur pleidleisio, plygwch ef yn ddau. Dangoswch y rhif a'r marc adnabod unigryw arall ar gefn y papur pleidleisio i'r swyddog llywyddu ond peidiwch â gadael i neb weld y bleidlais. Rhowch y papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio a gadewch yr orsaf bleidleisio.

Caiff y person a'ch penododd yn ddirprwy bleidleisio yn yr etholiad hwn. Os hoffai wneud hynny, rhaid iddo bleidleisio'n bersonol cyn i chithau bleidleisio ar ei ran.

Os byddwch i ffwrdd ar ddyddiad y bleidlais, cewch wneud cais am bleidleisio drwy'r post fel dirprwy. Rhaid i'ch cais ddod i law'r swyddog canlyniadau cyn 5 p.m. ar [rhowch y dyddiad cau]. Os rhoddir pleidlais bost drwy ddirprwy i chi, ni fydd gennych chi (ar ran yr etholwr) na'r etholwr hawl i bleidleisio'n bersonol yn yr etholiad hwn.

Mae'n anghyfreithlon gwneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

Pleidleisio fwy nag unwaith (oni bai eich bod wedi'ch penodi'n ddirprwy ar ran etholwr arall) yn yr un etholiad.

Pleidleisio fel dirprwy yn yr un etholiad ar ran dau berson neu ragor oni bai eich bod yn briod, partner sifil, rhiant, taid neu nain, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres iddynt.

Pleidleisio fel dirprwy dros berson os ydych yn gwybod bod y person o dan anghymhwyster cyfreithiol i bleidleisio.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth, ffoniwch ein llinell gymorth ar [rhowch rif y llinell gymorth].

Dyroddwyd gan y swyddog canlyniadau

Testun amgen pan fo gan yr etholwr gofnod dienw

*Pan fydd y cerdyn pleidleisio yn cael ei anfon neu ei ddanfon i ddirprwy etholwr sydd â chofnod dienw, yn lle'r paragraffau ar flaen a chefn y cerdyn hwn sydd wedi eu marcio â seren, rhowch y paragraffau a ganlyn:

Vote for ONE candidate only OR Vote for no more than [insert the number of candidates to be elected] candidates. (The returning officer must select the wording that is appropriate for the election.)

Do not put any other mark on the ballot paper or the vote may not be counted.

If you spoil the ballot paper by mistake, show it to the presiding officer and ask for a replacement.

When you have marked the ballot paper, fold it in two. Show the presiding officer the number and other unique identifying mark on the back of the ballot paper but do not let anyone see the vote. Put the ballot paper in the ballot box and leave the polling station.

The person who appointed you as proxy may vote at this election. If they wish to do so, they must vote in person before you vote on their behalf.

If you will be away on the date of the poll, you can apply to vote by post as proxy. Your application must be received by the returning officer before 5 p.m. on [insert the deadline date]. If you are given a proxy postal vote, neither you (on the elector's behalf) nor the elector will be entitled to vote in person at this election.

It is illegal to do any of the following—

Vote more than once (unless you are appointed as proxy for another elector) at the same election.

Vote as proxy at the same election for two or more persons unless you are their spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild.

Vote as proxy for a person if you know that the person is subject to a legal incapacity to vote.

If you need any assistance, please call our helpline on [insert helpline number].

Issued by the returning officer

Alternative text where elector has an anonymous entry

*Where the poll card is sent or delivered to the proxy of an elector with an anonymous entry substitute for the paragraphs on the front and back of this card marked with an asterisk the following paragraphs:

Rhaid ichi gael y cerdyn hwn gyda chi pan fyddwch yn pleidleisio. Chewch chi ddim pleidleisio fel dirprwy hebddo.

Mae gennych chi hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr y dangosir ei rif etholiadol isod.

[Rhowch rif yr etholwr ar y gofrestr]

Er mwyn pleidleisio fel dirprwy, rhaid ichi fynd i'r orsaf bleidleisio a ddangosir ar flaen y cerdyn hwn. Gofynnwch am gael siarad â'r swyddog llywyddu a dangoswch y cerdyn hwn i'r swyddog llywyddu. Bydd y clerc yn cadarnhau'r manylion ar y gofrestr.

You must have this card with you when you vote. You cannot vote as proxy without it.

You are entitled to vote as proxy for the elector whose electoral number is shown below.

[Insert elector's number on register]

To vote as proxy you must go to the polling station shown on the front of this card. Ask to speak to the presiding officer and show them this card. The clerk will confirm the details on the register.

Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy drwy'r Post (i'w anfon neu i'w ddanfon i ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post)

Blaen y cerdyn

Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy drwy'r Post

Cyngor: Ardal etholiadol: Nifer y cyngorwyr sydd i'w hethol dros yr ardal etholiadol: Ar gyfer yr etholiad ar: [rhowch ddyddiad y bleidlais]: Enw a chyfeiriad y dirprwy:	*Cerdyn pleidleisio yw hwn i ddweud wrthoch fod yr etholwr a enwir ar gefn y cerdyn hwn wedi'ch penodi, ar gyfer yr etholiad hwn, yn ddirprwy a'ch bod chithau wedi penderfynu pleidleisio drwy'r post. Fyddwch chi ddim yn cael pleidleisio ar ran yr etholwr mewn gorsaf bleidleisio. Os hoffech chi ganslo'r bleidlais bost hon a phleidleisio'n bersonol ar ddiwrnod y bleidlais, ffoniwch y llinell gymorth isod cyn 5 p.m. ar [rhowch y dyddiad cau]. Byddwn yn anfon neu'n danfon y papurau pleidleisio post drwy ddirprwy o gwmpas [rhowch y dyddiad]. Os na fydd y papurau pleidleisio post drwy ddirprwy wedi cyrraedd erbyn [rhowch y dyddiad], ffoniwch [rhowch rif y llinell gymorth] a gofynnwch am help.
---	---

Official Proxy Postal Poll Card (to be sent or delivered to a proxy voting by post)

Front of card

Official Proxy Postal Poll Card

Council: Electoral area: Number of councillors to be elected for the electoral area: For the election on: [insert date of poll]: Proxy's name and address:	*This poll card is to tell you that for this election the elector named on the back of this card has appointed you as their proxy and you have decided to vote by post. You will not be able to vote on behalf of the elector in a polling station. If you want to cancel this postal vote and vote in person on polling day, please call the helpline shown below before 5 p.m. on [insert date of deadline]. We will send or deliver the proxy postal voting papers around [insert date]. If the proxy postal voting papers have not arrived by [insert date], please call [insert helpline number] and ask for help.
--	---

Os byddwch yn colli neu'n difetha papur pleidleisio post yr etholwr yn ddamweiniol, ffoniwch rif y llinell gymorth a ddangosir uchod cyn gynted â phosibl. Dim ond cyn 5 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais] y gellir dyroddi papurau pleidleisio newydd.

Cerdyn yw hwn i roi gwybodaeth ichi am bleidleisio drwy'r post fel dirprwy.

Gweler rhagor o wybodaeth ar gefn y cerdyn hwn.

Cefn y cerdyn

Etholiad Llywodraeth Leol

***Cerdyn pleidleisio yw hwn i ddweud wrthoch eich bod wedi'ch penodi, ar gyfer yr etholiad hwn, yn ddirprwy ar ran yr etholwr a enwir isod a'ch bod chithau wedi penderfynu pleidleisio drwy'r post:**

*[Rhowch enw'r etholwr]

*[Rhowch gyfeiriad yr etholwr]

Pan gewch chi'r pecyn pleidleisio post, darllenwch y cyfarwyddiadau gydag ef yn ofalus wrth ichi gwblhau'ch papur pleidleisio post.

Peidiwch â gadael i neb weld y bleidlais. Os oes arnoch angen help i bleidleisio, rhaid i'r person sy'n eich helpu beidio â dweud wrth neb sut rydych chi wedi pleidleisio fel dirprwy. Gallwch gael help annibynnol gan y swyddog canlyniadau drwy ffonio'r llinell gymorth ar [rhowch rif y llinell gymorth].

Rhaid ichi **lofnodi'r** datganiad pleidleisio post a **darparu'ch dyddiad geni**. Mesur diogelwch yw hwn. Ni fydd yn effeithio ar y bleidlais nac yn golygu bod y ffordd y rhoesoch y bleidlais fel dirprwy yn hysbys. Heb eich llofnod a'ch dyddiad geni, ni fydd y datganiad yn ddilys ac ni fydd y bleidlais yn cael ei chyfrif. Gall y swyddog canlyniadau groeswiro'ch llofnod a'ch dyddiad geni yn erbyn cofnodion eraill sydd ganddo.**

**Pan fo'r gofyniad ynglŷn â llofnod wedi ei hepgor, rhaid i'r swyddog canlyniadau gynnwys yn hytrach y paragraff a ganlyn.

Rhaid ichi ddarparu'ch **dyddiad geni**. Mesur diogelwch yw hwn. Ni fydd yn effeithio ar y bleidlais nac yn golygu bod y ffordd y rhoesoch y bleidlais fel dirprwy yn hysbys. Heb eich dyddiad geni, ni fydd y datganiad yn ddilys ac ni fydd y bleidlais yn cael ei chyfrif. Gall y swyddog canlyniadau groeswiro'ch dyddiad geni yn erbyn cofnodion eraill sydd ganddo.

Os byddwch yn colli neu'n difetha'r papur pleidleisio'n ddamweiniol, ffoniwch rif y llinell gymorth cyn gynted â phosibl. Dim ond cyn 5 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais] y gallwn ddyroddi papurau pleidleisio post newydd.

If you lose or accidentally spoil the elector's postal ballot paper, please call the helpline number shown above as soon as possible. Replacement ballot papers can only be issued before 5 p.m. on [insert date of the poll].

This card is to provide you with information about voting by post as proxy.

See further information on the back of this card.

Back of card

Local Government Election

***This poll card is to tell you that for this election you are appointed as proxy for the elector named below and you have decided to vote by post:**

*[Insert elector's name]

*[Insert elector's address]

When you receive the postal voting pack, please read the instructions with it carefully when completing your postal ballot paper.

Do not let anyone see the vote. If you need help voting as proxy, the person helping you must not tell anyone how you have voted as proxy. You can get independent help from the returning officer by calling the helpline on [insert helpline number].

You must **sign** the postal voting statement and **provide your date of birth**. This is a security measure. It will not affect the vote or mean that the way in which you gave the vote as proxy is known. Without your signature and date of birth the statement will not be valid and the vote will not be counted. The returning officer can cross-check your signature and date of birth against other records that they hold.**

**Where the requirement for a signature has been waived, the returning officer must include the following paragraph instead.

You must **provide your date of birth**. This is a security measure. It will not affect the vote or mean that the way in which you gave the vote as proxy is known. Without your date of birth, the statement will not be valid and the vote will not be counted. The returning officer can cross-check your date of birth against other records that they hold.

If you lose or accidentally spoil the ballot paper, please call the helpline number as soon as possible. We can only issue replacement postal ballot papers before 5 p.m. on [insert date of the poll].

Cwblhewch a dychwelwch y bleidlais bost cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r swyddog canlyniadau gael y bleidlais bost cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais]. Ar ôl eu cwblhau, cewch ddanfôn eich datganiad pleidleisio post a'r papur pleidleisio mewn un o dair ffordd.

Cewch eu hanfôn drwy'r post at y swyddog canlyniadau fel eu bod yn dod i law cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais].

Cewch eu cyflwyno i'r swyddog canlyniadau cyn 10 p.m. ar [rhowch ddyddiad y bleidlais].

Ar ddiwrnod y bleidlais, gallwch eu danfôn i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal briodol cyn 10 p.m. Yr ardal briodol yw [y swyddog canlyniadau i fewnosod disgrifiad o'r ardal briodol].

Os hoffech chi bleidleisio'n bersonol fel dirprwy yn yr etholiad, rhaid ichi ganslo'ch pleidlais bost cyn 5 p.m. ar [rhowch y dyddiad cau].

Mae'n anghyfreithlon gwneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

Pleidleisio fwy nag unwaith (oni bai eich bod wedi'ch penodi'n ddirprwy ar ran etholwr arall) yn yr un etholiad.

Pleidleisio fel dirprwy yn yr un etholiad ar ran dau berson neu ragor oni bai eich bod yn briod, partner sifil, rhiant, taid neu nain, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres iddynt.

Pleidleisio fel dirprwy dros berson os ydych yn gwybod bod y person o dan anghymhwyster cyfreithiol i bleidleisio.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth, ffoniwch ein llinell gymorth ar [rhowch rif y llinell gymorth]. Dyroddwyd gan y swyddog canlyniadau

Testun amgen pan fo gan yr etholwr gofnod dienw

*Pan fydd y cerdyn pleidleisio yn cael ei anfon neu ei ddanfôn i ddirprwy etholwr sydd â chofnod dienw, yn lle'r paragraffau uchod sydd wedi eu marcio â seren, rhowch y paragraffau a ganlyn:

Cerdyn pleidleisio yw hwn i ddweud wrthoch eich bod wedi'ch penodi'n ddirprwy ar ran yr etholwr y dangosir ei rif etholiadol isod ar gyfer yr etholiad hwn a'ch bod chithau wedi penderfynu pleidleisio drwy'r post.

Mae gennych chi hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr y dangosir ei rif etholiadol isod:
[Rhowch rif yr etholwr ar y gofrestr]

Complete and return the postal vote as soon as possible. The returning officer must receive the postal vote before 10 p.m. on [insert date of the poll]. You can deliver your completed postal voting statement and the ballot paper in one of three ways.

You can send them by post to the returning officer so that they are received before 10 p.m. on [insert date of the poll].

You can hand them to the returning officer before 10 p.m. on [insert date of the poll].

On the day of the poll, you can deliver them to any polling station in the appropriate area before 10 p.m. The appropriate area is [returning officer to insert description of the appropriate area].

If you want to vote in person as proxy at the election, you must cancel your postal vote before 5 p.m. on [insert deadline].

It is illegal to do any of the following—

Vote more than once (unless you are appointed as proxy for another elector) at the same election.

Vote as proxy at the same election for two or more persons unless you are their spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild.

Vote as proxy for a person if you know that the person is subject to a legal incapacity to vote.

If you need any assistance, please call our helpline on [insert helpline number].

Issued by the returning officer

Alternative text where the elector has an anonymous entry

*Where the poll card is sent or delivered to the proxy of an elector with an anonymous entry, substitute for the paragraphs on the front and back of this card marked with an asterisk the following paragraphs:

This poll card is to tell you that for this election you are appointed as proxy for the elector whose electoral number is shown below and you have decided to vote by post.

You are entitled to vote as proxy for the elector whose electoral number is shown below:

[Insert elector's number on register]

Canllawiau i Bleidleiswyr mewn Pleidleisiau Cyfun

1. Pan roddir eich papurau pleidleisio i chi, ewch i un o'r bythau pleidleisio.
2. Rydych chi wedi cael [y swyddog canlyniadau i roi'r nifer] o bapurau pleidleisio. [Yna rhaid i'r swyddog canlyniadau nodi pa liw o bapur pleidleisio sy'n cael ei ddefnyddio wrth ethol cynghorwyr i gyngor cymuned a pha liw o bapur pleidleisio sy'n cael ei ddefnyddio ym mhob etholiad perthnasol.]
3. [Yna, rhaid i'r swyddog canlyniadau nodi'r cyfarwyddiadau ar gyfer marcio'r papur pleidleisio a ddefnyddir wrth ethol cynghorwyr i gyngor cymuned a'r cyfarwyddiadau ar gyfer marcio'r papur pleidleisio a ddefnyddir ym mhob etholiad perthnasol. Un ffurf addas ar eiriau ar gyfer y cyfarwyddiadau ynglŷn â marcio'r papur pleidleisio a ddefnyddir wrth ethol cynghorwyr i gyngor cymuned fyddai'r canlynol:

"Wrth ichi bleidleisio i ethol cynghorwyr i [rhowch enw'r cyngor cymuned], rhowch groes [x] yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw'r ymgeisydd/ymgeiswyr rydych chi'n pleidleisio drosto/drostynt. Peidiwch â marcio'ch papur pleidleisio mewn unrhyw ffordd arall neu mae'n bosibl na chyfrifir eich pleidlais/pleidleisiau.

Pleidleisiwch dros UN ymgeisydd yn unig NEU Pleidleisiwch dros ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr.*

Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio neu mae'n bosibl na chyfrifir eich pleidlais/pleidleisiau."]
4. Plygwch bob un o'r papurau pleidleisio yn ddau.
5. Dangoswch y rhif a'r marc adnabod unigryw arall ar gefn y papurau pleidleisio i'r swyddog llywyddu ond peidiwch â gadael i neb weld eich pleidleisiau.
6. Rhowch bob papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio priodol NEU Rhowch y papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio.* Yna gadewch yr orsaf bleidleisio.
7. Os byddwch yn difetha unrhyw un neu ragor o'ch papurau pleidleisio drwy gamgymeriad, dangoswch ef i'r swyddog llywyddu a gofynnwch am un newydd.

Guidance for Voters at Combined Polls

1. When you are given your ballot papers, go to one of the polling booths.
2. You have been supplied with [returning officer to insert the number] ballot papers. [The returning officer must then identify which colour of ballot paper is in use at the election of councillors to a community council and which colour of ballot paper is in use at each relevant election.]
3. [The returning officer must then set out the instructions for marking the ballot paper in use at the election of councillors to a community council and the instructions for marking the ballot paper at each relevant election. A suitable form of words for the instructions for marking the ballot paper in use at the election of councillors to a community council would be the following.

"When you are voting at the election of councillors to the [insert name of community council], mark a cross [x] in the box on the right-hand side of the ballot paper opposite the name of the candidate(s) you are voting for. Do not mark your ballot paper in any other way or your vote(s) may not be counted.

Vote for ONE candidate only OR Vote for no more than [insert the number of candidates to be elected] candidates.*

Put no other mark on the ballot paper or your vote(s) may not be counted."]
4. Fold each of the ballot papers in two.
5. Show the presiding officer the number and other unique identifying mark on the back of the ballot papers but do not let anyone see your votes.
6. Put each ballot paper in the appropriate ballot box OR Put the ballot papers in the ballot box.* Then, leave the polling station.
7. If you spoil any of your ballot papers by mistake, show it to the presiding officer and ask for a replacement.

* Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddewis pa gyfarwyddyd bynnag sy'n briodol ar gyfer yr etholiad. O ran pwynt 6, mae'r dewis cyntaf yn briodol pan ddefnyddir blychau pleidleisio ar wahân ar gyfer pob etholiad. Mae'r ail ddewis yn briodol pan ddefnyddir yr un blwch pleidleisio ar gyfer pob un.

* The returning officer must choose whichever direction is appropriate for the election. In relation to point 6, the first alternative is appropriate where separate ballot boxes are used for each election. The second alternative is appropriate where the same ballot box is being used for each.

Ffurff dystysgrif o ran dyletswyddau

Y swyddog canlyniadau i roi manylion yr etholiad i gyngor cymuned a phob etholiad perthnasol.*

Ar gyfer etholiad i gyngor cymuned, un ffurf addas ar eiriau fyddai:

“Etholiad yn ardal etholiadol [rhowch yr enw] yn [rhowch enw'r gymuned y cynhelir yr etholiad mewn cysylltiad â hi]”

*Os dyroddir y dystysgrif mewn cysylltiad ag un neu rai o'r etholiadau yn unig, caniateir addasu'r ffurflen yn unol â hynny.

Rwy'n ardystio nad yw'n rhesymol disgwyl i [rhowch yr enw] sydd â rhif [rhowch y rhif yn y gofrestr] yn y gofrestr etholwyr fynd yn bersonol i'r orsaf bleidleisio a ddyrannwyd iddo/iddi yn yr etholiadau a ddisgrifir uchod ar [rhowch ddyddiad y bleidlais] oherwydd amgylchiadau eu dyletswyddau ar y diwrnod hwnnw at ddiben sy'n gysylltiedig â'r etholiadau.

Llofnod priodol:

Dyddiad:

Y llofnod priodol yw llofnod y swyddog canlyniadau pan fo'r person a enwir yn aelod o staff y swyddog canlyniadau a llofnod swyddog heddlu o radd arolygydd neu'n uwch pan fo'r person a enwir yn gwnstabl (sydd, at y dibenion hyn yn cynnwys swyddog cymorth cymunedol neu wirfoddolwr cymorth cymunedol).

Sylwch: Mae gan y person a enwir hawl i bleidleisio mewn unrhyw orsaf bleidleisio sy'n cael ei defnyddio yn yr etholiadau drwy ddangos ac ildio'r dystysgrif i'r swyddog llywyddu.

Form of certificate as to duties

Returning officer to insert details of the election to a community council and each relevant election*

For the election to a community council, a suitable form of words would be:

“Election in the [insert name] electoral area of [insert name of the community in respect of which the election is held]”

*If the certificate is issued in respect of only one or some of the elections, the form may be adapted accordingly.

I certify that [insert name] whose number in the register of electors is [insert number on the register] cannot reasonably be expected to go in person to the polling station allotted to them at the elections described above on [insert date of the poll] because of the circumstances of their duties on that day for a purpose connected with the elections.

Appropriate signature:

Date:

The appropriate signature is the signature of a returning officer where the person named is a member of the returning officer's staff and the signature of a police officer of the rank of inspector or above where the person named is a constable (which, for these purposes, includes a community support officer or community support volunteer).

Note: The person named is entitled to vote at any polling station in use for the elections on production and surrender of the certificate to the presiding officer.

Ffurff datganiad sydd i'w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau

Mae'r ffurflen hon yn dangos y datganiad sydd i'w ddefnyddio mewn etholiad cynghorwyr i gymuned. Caniateir i'r datganiad sydd i'w ddefnyddio ym mhob etholiad perthnasol gael ei chynnwys yn yr un ffurflen. Fel arall, caniateir defnyddio ffurflenni ar wahân ar gyfer pob datganiad.

Rwyf fi [rhowch enw'r cydymaith] o [rhowch gyfeiriad y cydymaith], ar ôl cael cais i gynorthwyo [rhowch enw'r pleidleisiwr sy'n cael cymorth], sydd â rhif [rhowch rif y pleidleisiwr sy'n cael cymorth] ar y gofrestr*, i roi ei bleidlais yn yr etholiad cynghorwyr i [rhowch enw'r cyngor cymuned] sy'n cael ei gynnal nawr yn yr ardal etholiadol hon, drwy hyn yn datgan—

Fy mod wedi cyrraedd 16 oed.

Nad wyf wedi cynorthwyo unrhyw bleidleisiwr ag anableddau o'r blaen i bleidleisio ac eithrio [rhowch enw a chyfeiriad unrhyw bleidleisiwr arall sydd wedi cael cymorth gan y cydymaith i bleidleisio yn yr etholiad] (gweler nodyn 2).

Llofnod y cydymaith:
Dyddiad:

*Os gofynnir i'r cydymaith gynorthwyo pleidleisiwr ag anableddau sy'n pleidleisio fel dirprwy, rhaid i eiriau agoriadol y datganiad fod yn hytrach "Rwyf fi [rhowch enw'r cydymaith] o [rhowch gyfeiriad y cydymaith] ar ôl cael cais i gynorthwyo [rhowch enw'r pleidleisiwr sy'n cael cymorth] sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran [rhowch enw'r etholwr], sydd â rhif [rhowch rif yr etholwr] ar y gofrestr"

Rwyf fi, sy'n llofnodi isod, sef y swyddog llywyddu ar gyfer [rhowch enw'r orsaf bleidleisio] drwy hyn yn ardystio bod y datganiadau uchod wedi eu darllen i'r cydymaith ac wedi eu llofnodi gan y cydymaith yn fy mhresenoldeb i.

Llofnod y swyddog llywyddu:
Dyddiad:
Amser:

Form of declaration to be made by the companion of a voter with disabilities

This form shows the declaration to be used at an election of councillors for a community. The declaration to be used at each relevant election may be included in the same form. Alternatively, separate forms may be used for each declaration instead.

I [insert name of companion] of [insert address of companion] having been asked to assist [insert name of voter being assisted], whose number on the register is [insert number of voter being assisted]*, to give their vote at the election of councillors for the [insert name of community council] now being held in this electoral area hereby declare that—

I have attained the age of 16.

I have not previously assisted any voter with disabilities to vote except [insert the name and address of any other voter who has been assisted by the companion to vote at the election] (see note 2).

Signed by companion:

Date:

*If the companion is asked to assist a voter with disabilities voting as proxy the opening words of the declaration must instead be "I [insert name of companion] of [insert address of companion] having been asked to assist [insert name of voter being assisted] who is voting as proxy for [insert name of elector], whose number on the register is [insert number of elector]"

I, the undersigned, being the presiding officer for [insert name of polling station] hereby certify that the above declaration was read to the companion and was signed by the companion in my presence.

Signed by presiding officer:

Date:

Time:

Nodiadau ar ffurf y datganiad sydd i'w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau yn etholiad cynghorwyr i gyngor cymuned

1. Pleidleisiwr ag anableddau yw pleidleisiwr sydd wedi gwneud datganiad o dan reol 44(2) ei fod yn cael ei effeithio gan ddallineb neu anabledd arall, neu gan anallu i ddarllen, fel nad yw'n gallu pleidleisio heb gymorth cydymaith.
2. Caniateir i'r cydymaith fod wedi cynorthwyo un (a dim ond un) person arall i bleidleisio yn yr etholiad.

Notes to the form of declaration to be made by the companion of a voter with disabilities at the election of councillors to a community council

1. A voter with disabilities is a voter who has made a declaration under rule 44(2) that they are so affected by blindness or other disability, or by inability to read, as to be unable to vote without the assistance of a companion.
2. The companion may have assisted one (and only one) other person to vote at the election.

ATODLEN 3
Ffurff treuliau etholiad

Rheol 7

SCHEDULE 3
Form of election expenses

Rule 7

Datganiad treuliau etholiad

Etholiad cynghorwyr i [rhowch enw'r cyngor cymuned]

Ardal etholiadol: [rhowch enw'r ardal etholiadol]

Dyddiad yr etholiad: [rhowch ddyddiad yr etholiad]

Enwau llawn yr ymgeisydd (fel y'u dangosir yn y datganiad o'r personau a enwebwyd):

Cwblhewch a llofnodwch y datganiad a ganlyn.

Rwyf yn datgan—

(a) mai [rhowch y swm a dalwyd] oedd y swm a dalwyd gennyf fi neu ar fy rhan i ar gyfer fy nhreuliau etholiad yn yr etholiad;

(b) hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, nad oes dim treuliau etholiad eraill wedi eu talu nac wedi eu hysgwyddo gennyf fi na chan unrhyw unigolyn neu sefydliad arall mewn cysylltiad â'm hymgeisyddiaeth;

(c) hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod y ffurflen treuliau etholiad sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn yn gyflawn ac yn gywir yn unol â gofynion y gyfraith.

Llofnod yr ymgeisydd:

Dyddiad y llofnod:

Declaration as to election expenses

Election of councillors to [insert name of the community council]

Electoral area: [insert name of the electoral area]

Date of election: [insert date of election]

Candidate's full names (as shown in the statement of persons nominated):

Complete and sign the following declaration.

I declare that—

(a) the amount paid by me or on my behalf for my election expenses at the election was [insert the amount paid];

(b) to the best of my knowledge and belief, no other election expenses have been paid or incurred by me or by any other individual or organisation in connection with my candidature;

(c) to the best of my knowledge and belief, the accompanying return of election expenses is complete and correct as required by law.

Candidate's signature:

Date of signature:

©[©] Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.